Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

# Agweddau ar hanes Cyngor Eglwysi Cymru 1956-1990

## c.1 Meithrin perthynas ac undeb -- c.2 Tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ac yn Fyd-eang

Davies, Noel Anthony

*Award date:*
1997

*Awarding institution:*
University of Wales, Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 04. Apr. 2025

# AGWEDDAU
# AR
# HANES CYNGOR EGLWYSI CYMRU
# 1956 - 1990

## Cyfrol I
## Meithrin Perthynas ac Undeb

Traethawd Ymchwil am Radd
Doethor mewn Athroniaeth
gan

Noel Anthony Davies B.Sc. (Cymru), B.A. (Rhydychen)

IW DDEFNYDDIO YN Y
LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE
LIBRARY ONLY

Cyflwynwyd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
Mehefin 1997

LLYFRGELL C.P.G.C. U.C.N.W. LIBRARY

AGWEDDAU O HANES CYNGOR EGLWYSI CYMRU, 1956 - 1990

CYNNWYS

Cyfrol I


Rhagair

Rhagarweiniad

Pennod 1: Egwyddorion, Cyfansoddiadau a Phatrymau

Atodiad: Y Sefyllfa Ariannol

Pennod 2: Yr Ymgais am Undeb Cristnogol yng Nghymru: Y Dechreuadau

Pennod 3: Yr Ymgais am Undeb: Cyfamodi tuag at Undeb yng Nghymru

Pennod 4: Yr Ymgais am Undeb: Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth

Pennod 5: A fu'r ymgais am undeb yn llwyddiannus?

Pennod 6: Hyrwyddo Ecwmeniaeth Leol yng Nghymru

Pennod 7: Perthynas â'r Eglwys Gatholig Rufeinig

Pennod 8: Gwaith Ieuenctid

# RHAGAIR

Y mae'r traethawd hwn yn gynnyrch profiad chwarter canrif yn y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru ac yn fyd-eang yn ogystal ag yn ffrwyth ymchwil. Yn naturiol, felly, yr wyf yn fawr fy nyled i nifer o bobl.

Yn gyntaf, 'rwy'n ddyledus i Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr ym Mangor a Rhydychen am agor ffenestri imi ar y weledigaeth ecwmenaidd y bu gan y mudiad hwnnw ran mor allweddol yn ei ffurfio a'i chyflwyno. 'Rwy'n ddyledus hefyd i'r sawl a roddodd gyfle imi, yn gynnar yn fy ngweinidogaeth, i rannu yng ngweithgarwch Cyngor Eglwysi Cymru drwy'r Grŵp Astudio Litwrgi ac Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd. Y trobwynt, wrth gwrs, oedd cael fy mhenodi ym 1977 yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Gwerthfawrogaf yn fawr yr ymddiriedaeth yr oedd ganddynt ynof a'r gefnogaeth gyson a gefais. Yn ystod y cyfnod o ugain mlynedd oddiar hynny agorwyd drysau annisgwyl imi a chefais rannu yng nghyffro, her a rhwystredigaethau y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru ac yn fyd-eang. I'r llu o gydweithwyr a ddaeth yn gyfeillion mewn gwledydd ar draws y byd, ac yng Nghyngor Eglwysi Prydain (a'i olynydd) a Chyngor Eglwysi'r Byd mynegaf fy niolch cynnes.

Yn ail, dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogiad dyfnaf am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y pum mlynedd y bum ynglŷn â'r ymchwil ar gyfer y traethawd hwn. Bu Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn dra chefnogol o'r cychwyn cyntaf i'r bwriad i ysgrifennu hanes y Cyngor, gan gynnig imi gyfnod sabothol o dri mis yn ogystal â chymorthdal tuag at gostau'r gwaith.

Yn drydydd, ni allaf fesur fy nyled i'm goruchwyliwr, y Parchedig Ddr. R. Tudur Jones. Ac yntau'n meddwl ei fod wedi goruchwylio ei fyfyriwr ymchwil olaf, cytunodd yn frwdfrydig i gyfarwyddo fy ngwaith. Bu ei frwdfrydedd drwy gydol y cyfnod yn galondid mawr i mi. Bu ei wybodaeth anhygoel am hanes Cristnogaeth ar draws y canrifoedd yng Nghymru ac yn fyd-eang yn oleuni imi ar lawer pwnc. Bu ei ymagwedd at rai datblygiadau ecwmenaidd cyfoes yn ysgogiad gwerthfawr ar dro i un a fu ynghanol y gweithgarwch yr oeddwn yn ei groniclo! Bu ei drylwyredd a'i fanylder rhyfeddol yn darllen drafftiau'r penodau a'r traethawd cyfan yn gymorth amheuthun. Bu'n gyfrwng fy nghyfoethogi'n ddirfawr. Diolchaf iddo'n gynnes iawn.

Yn olaf, dymunaf ddiolch o waelod calon i'm teulu. I'm tad, y diweddar Barchedig Ronald Anthony Davies, am fagwraeth ecwmenaidd a'm cyfeirio, heb unrhyw wasgfa yn y byd, at y weinidogaeth Gristnogol. I'm mam, sy'n dal yn un o gefnogwyr mwyaf brwd y mudiad ecwmenaidd ac yn iachus ddiamynedd - yn ei hwythdegau - at arafwch yr eglwysi! Ac iddynt eu dau am aberthu popeth er mwyn sicrhau fy mod yn cael y gorau bob amser, a hwythau'n byw ar gyflog pitw.

Yn bennaf, diolchaf i Pat, fy ngwraig. Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr a ddaeth â ni at ein gilydd a rhanasom y weledigaeth ecwmenaidd o'r cychwyn. Bu yn rhyfeddol o amyneddgar pan oeddwn oddi cartref yn gyson wrth fy ngwaith a phan oeddwn yn gorfod cilio i'm hystafell - ac i ganol annibendod sy'n wrthun iddi - i archwilio tomen o ffeiliau a llunio'r traethawd hwn. Am ei chariad a'i chefnogaeth ar hyd blynyddoedd fy ngweinidogaeth, rhoddaf iddi fy niolch a'm serch.

Noel Anthony Davies
Mai 1997

## RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd Cyngor Eglwysi Cymru yn Abertawe ar 24 Mai 1956, wedi trafodaethau manwl gan yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru dros gyfnod o ryw ddwy flynedd. Daethpwyd â'r Cyngor i ben ar ddydd olaf Awst 1990 a sefydlwyd ei olynydd, Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, mewn cyfarfod arbennig yn Aberystwyth ar 1 Medi 1990. Y mae'r traethawd hwn yn ymdrin â rhai o'r agweddau mwyaf canolog yn hanes y Cyngor, ac fel y cyfryw yn croniclo hanes mudiad - y mudiad ecwmenaidd - a fu'n greiddiol ym mywyd a chydberthynas eglwysi ac enwadau yng Nghymru ac yn fyd-eang yn ystod yr ugeinfed ganrif. Gellid dadlau nad yw'n bosibl deall hanes eglwysig y ganrif hon heb ystyried dylanwad sylfaenol y mudiad hwn ar fywyd a thystiolaeth yr eglwysi.

Dylanwad y mudiad hwn a arweiniodd William Temple, Archesgob Caergaint a Llywydd cyntaf Cyngor Eglwysi Prydain, i ddweud yn ei bregeth yng Nghaergaint pan gafodd ei orseddu'n Archesgob: 'The great new fact of our era (is that there is now) a Christian fellowship which extends into almost every nation'.

Gellir olrhain tarddiadau Cyngor Eglwysi Cymru - a'r mudiad ecwmenaidd cyfoes yn gyffredinol - i'r gynhadledd fyd-eang ar genhadaeth a gynhaliwyd yng Nghaeredin ym 1910. Yn ôl Adrian Hastings[1]: 'Edinburgh 1910 marks with confident optimism the first great step forward in what was to be in truth an ecumenical century'. Canlyniad y gynhadledd hon oedd y mudiadau ffydd a threfn a bywyd a gwaith a ddaethant ynghyd ym 1948 i ffurfio Cyngor Eglwysi'r Byd, a'r Cyngor Cenhadol Rhyngwladol a ddaeth yn rhan o Gyngor Eglwysi'r Byd ym 1961.

Yng Nghymru ei hun cyfrannodd nifer o fudiadau at greu'r awyddfryd ymhlith yr eglwysi a'r enwadau a'i gwnaeth yn bosibl ffurfio'r Cyngor. Y pennaf yn eu plith

--------------------

1. Adrian Hastings, A History of English Christianity, 1920 - 1985, tud. 87, Fount Paperbacks, 1987.

oedd y Cydbwyllgor er Hyrwyddo Cyd-ddealltwriaeth a Chydberthynas rhwng y Cymundebau Cristnogol yng Nghymru a sefydlwyd yn Amwythig yn Chwefror 1929 ac a ddaeth i ben pan ffurfiwyd Cyngor Eglwysi Cymru ym 1956. Bu datgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru i ffurfio'r Eglwys yng Nghymru ym 1920 a galwad Cynhadledd Esgobion Anglicanaidd Lambeth 1920 am undod Cristnogol yn ffactorau tra dylanwadol yn nechreuadau'r Cydbwyllgor. Yn ystod blynyddoedd ei fodolaeth bu'r ymateb i'r Cydbwyllgor yn gymysg, gyda llawer yn ei feirniadu am fod namyn siop siarad i arweinwyr yr enwadau. Ta waeth am hynny, nid oes amheuaeth fod Cyngor Eglwysi Cymru yn un o ffrwythau'r siarad a'r cyfeillgarwch hwn.

Yn yr un modd cafodd Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru a ffurfiwyd ym 1954, yn dilyn cynhadledd Urdd y Deyrnas (a ddechreuwyd yn nyddiau cynnar y mudiad ecwmenaidd cyfoes) gryn ddylanwad, yn arbennig yn lleol. Amcan y Gymdeithas oedd 'hyrwyddo dealltwriaeth o'r Mudiad Ecwmenaidd..., cynnig cymdeithas i'r rhai a wêl yn y Mudiad hwn weithgarwch arbennig yr Ysbryd Glân...a hyrwyddo cysylltiad ecwmenaidd â grwpiau eraill y tu mewn a'r tu allan i Gymru'.

'Roedd y mudiadau hyn i gyd yn dra dyledus i Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr yng Nghymru (a oedd yn gysylltiedig â Chynghrair Byd-eang Cristnogol y Myfyrwyr, a sefydlwyd ym 1895) a fu'n gyfrwng meithrin to ar ôl to o ieuenctid i fod yn arweinyddion y mudiad ecwmenaidd ar hyd y blynyddoedd.

Fel y gwelir, bu sefydlu Cyngor Eglwysi Prydain (ym 1942) a Chyngor Eglwysi'r Byd (ym 1948) yn greiddiol nid yn unig i ddechreuadau Cyngor Eglwysi Cymru ond hefyd i'w weithgareddau ar hyd y blynyddoedd.

Wrth olrhain agweddau o hanes Cyngor Eglwysi Cymru yn y traethawd hwn bu'n rhaid hepgor ymdriniaeth fanwl o rai datblygiadau sydd o arwyddocâd ecwmenaidd

mawr ac sy'n haeddu astudiaeth bellach. Yn eu plith y mae Cymorth Rhyng-Eglwysig a Gwasanaeth i Ffoaduriaid (Cymorth Cristnogol yn nes ymlaen), Cymru i Grist (a sefydlwyd gyda chymorth y Cyngor ym 1971 ond a ddatblygodd i fod yn fudiad efengylu eglwysi Cymru, fwy neu lai ar wahân i'r Cyngor) a'r Beibl Cymraeg Newydd a ysgogwyd gan Gyngor Eglwysi Cymru a wahoddodd yr eglwysi a'r enwadau i ffurfio Cydbwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd ym 1961, a fu yn ei dro yn fodd cyfieithu'r Beibl, a'i gyhoeddi ym 1975 (Y Testament Newydd), 1979 (Y Salmau) a 1988 (y Beibl cyfan). Nid oes gofod ychwaith i adrodd stori Cristnogion yn erbyn Poenydio, ymgyrch iawnderau dynol Cyngor Eglwysi Cymru, a sefydlwyd ym 1981, yn bennaf ar ysgogiad Roy Jenkins, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaerdydd. Bu'r ymgyrch hon yn hynod lwyddiannus yn galluogi Cristnogion unigol a grwpiau lleol i ganolbwyntio ar bobl ar draws y byd sy'n cael eu poenydio, ac ymgyrchu ar eu rhan drwy weddi, llythyru ac addysgu. Ni fu'n bosibl ychwaith ymdrin â gweithgarwch rhai o bwyllgorau eraill y Cyngor, megis y Grŵp Astudio Litwrgi *(ond gweler Atodiad 2)*, Pwyllgor Cyfathrebu, Pwyllgor Datblygiad Byd, y Fforwm Addysg Ddiwinyddol a Gweithgor Gwragedd a Gwŷr yn yr Eglwys.

Prif ffynonellau'r astudiaeth hon fu archifau Cyngor Eglwysi Cymru ei hun. Dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu harchwilio gyda'r manylder hyn. Nid oedd gofod yn caniatáu astudiaeth gyffelyb o gofnodion, adroddiadau a chylchgronnau enwadol. Y mae deunydd astudiaeth bellach helaeth yn yr archifau hyn. Prif amcan yr astudiaeth hon fu archwilio archifau'r Cyngor ei hun. Felly, ceisiwyd olrhain prif ddatblygiadau'r mudiad ecwmenaidd cyfoes yng Nghymru a'i gyfraniad i fywyd, partneriaeth a thystiolaeth yr eglwysi a'r enwadau yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn yr un modd, ceisiwyd olrhain dylanwadau Cymreig a byd-eang ar y Cyngor, ei flaenoriaethau a'i weithgareddau.

Ar un olwg, bu cyfnod bodolaeth Cyngor Eglwysi Cymru yn gyfnod o ddadrithiad ym mhrofiad y mwyafrif yng Nghymru, gyda cholledion ac erchylldra enbyd yr Ail

Ryfel Byd wedi chwalu cymunedau a theuluoedd, ac wedi dinistrio ffydd a gobaith yn achos llaweroedd. Yn ôl R. Tudur Jones[1] 'roedd 'sylweddoli barbareiddiwch anhygoel yr holocost' wedi peri i lawer deimlo 'fod yr haul yn prysur fachludo ar wareiddiad y Gorllewin'.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd chwalwyd yr Ymerodraeth Brydeinig, gyda'r hunan-hyder a oedd yn rhan anhepgor ohoni, pan enillodd mwy a mwy o wledydd eu hannibyniaeth. Daeth cenedligrwydd Cymru'n fwyfwy i'r amlwg gan ddod yn fater ymgyrchu gwleidyddol a chymdeithasol. Yn wir, y mae Kenneth O. Morgan yn honni[2] mai dyma efallai nodwedd greiddiol hanes Cymru yn y cyfnod hwn, er nad oedd hunanhyder cenedlaethol yn nodweddu'r cenedligrwydd hwn bob amser.

Dyma hefyd gyfnod yr ymgyrchu dros hawliau'r iaith Gymraeg, gyda Darlith Radio Saunders Lewis ym 1962 yn sbardun i ffurfio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a'r ymgyrchu dros yr iaith a ddilynodd.

Yn y blynyddoedd hyn cafodd y diwydiant glo a'r diwydiant dur eu gwladoli, ac fe'u trawsnewidiwyd o ganlyniad. Ar lawer cyfrif, ffynnodd y diwydiannau hyn a bu cynnydd mewn cyflogau. Yn y 50au cynnar - blynyddoedd ffurfio'r Cyngor - agorwyd gweithfeydd dur ym Margam, Trostre a Felindre. Erbyn diwedd y cyfnod o dan sylw, fodd bynnag, 'roedd y sefyllfa wedi newid yn ddramatig. Canlyniad streic 1984-85 oedd cau'r rhan fwyaf o'r pyllau glo erbyn 1990. A bu crebachu enbyd yn y diwydiant dur yn Ne Cymru, a chau gwaith dur Shotton yng Nghlwyd. Gwelodd y diwydiant amaeth ddatblygiadau nid annhebyg, gyda'r ffermwyr yn dibynnu fwyfwy ar gymorth gan y llyw-odraeth ac erbyn diwedd y cyfnod yn dibynnu hefyd

--------------------

1. R. Tudur Jones, Teyrnas Crist a'r Tywyllwch yng Nghymru, tud. 6, Gwasg John Penri, 1994.

2. Kenneth O. Morgan, Rebirth of a Nation: Wales 1880 - 1980, tud. 412, Gwasg y Brifysgol, 1981.

ar daliadau a rheolau'r Gymuned Ewropeaidd. 'Roedd patrwm economaidd Cymru wedi ei drawsnewid yn llwyr. Er na ddychwelodd dirwasgiad y 20au a'r 30au bu'n rhaid i lawer cymuned wynebu argyfyngau enbyd, gydag ardaloedd eraill yn dangos arwyddion o adferiad economaidd a chymdeithasol.

Yn ôl Kenneth Morgan, nodweddwyd y ganrif hyd at 1980 (gyda hanner olaf y ganrif honno yn gyfnod ffurfiannol yn hanes y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru) gan newidadau dryslyd:

> 'The land underwent successively an upsurge of political and economic advance, and of patriotic consciousness; a shattering collapse in its economic fabric with social despair and new cultural tension; and, finally, a period of economic rehabilitation and renewal in which the awareness of nationhood flourished anew...The characteristic features of Welsh society...were surviving with difficulty in a world which was rapidly leaving old landmarks far behind.'[1]

Y mae Morgan yn credu fod yr ymdeimlad cynyddol o genedligrwydd ymhlith y Cymry yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn gyfrwng adnewyddiad a rhyddhad o hen hualau ('more relevant to the dissolving certainties of later twentieth century Britain')[2]:

> '...the attachment to local communities, to local or native traditions; the revolt against centralization and bureaucracy; the emergence of modes of social organisation other than those prescribed by a distant, once unchallengeable, now increasingly vulnerable authority in London'.

Cafodd y datblygiadau cymdeithasol hyn ddylanwad mawr ar fywyd a gwaith yr eglwysi a Chyngor Eglwysi Cymru. Yn y cyfnod o dan sylw yn y traethawd hwn gwelwyd crebachu yn aelodaeth yr eglwysi, lleihad yn eu dylanwad cymdeithasol ac anhawster cynyddol i gynnal y peirianwaith eglwysig a etifeddwyd ganddynt o'r ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon. Ond bu'r mudiad ecwmenaidd a'r ymdrech a groniclir yn yr astudiaeth hon i wreiddio'r weledigaeth ecwmenaidd yn naear

--------------------

1. ibid., tud. 409.
2. ibid., tud. 419.

Cymru yn ymgais i adfywio ac adnewyddu'r eglwysi drwy sicrhau i Gymru beirianwaith gydeglwysig hunangynhaliol ac annibynnol, a fyddai'n galluogi'r eglwysi i wynebu her y cyfnod. Stori sefydlu a datblygu'r offeryn ecwmenaidd Cymreig hwn a adroddir yn y tudalennau sy'n dilyn.

PENNOD 1

# EGWYDDORION, CYFANSODDIADAU A PHATRYMAU

Pan gyflwynwyd argymhelliad i'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru ym 1953 fod Cyngor Eglwysi Cymru yn cael ei sefydlu fel olynydd i'r Pwyllgor er hybu Cyd-ddealltwriaeth a Chydweithrediad rhwng y Cymundebau Cristnogol yng Nghymru cynigiwyd fod y sylfaen yn gofyn am gydnabod yr Arglwydd Iesu Grist `fel Duw a Gwaredwr'. Un o brif amcanion y Cyngor fyddai rhoi mynegiant i farn Gristnogol unol ar faterion cyfoes o bwys. Byddai ganddo gyfrifoldeb yn ogystal am ddyfnhau diddordeb yr eglwysi yn y mudiad ecwmenaidd a hyrwyddo cydweddïo a chydweithredu, yn lleol a chenedlaethol. 'Roedd disgwyl i'r cyngor hefyd ddwyn adroddiadau cyson i lysoedd yr enwadau.[1]

Derbyniwyd y cyfansoddiad hwn fel yr ydoedd gan yr holl enwadau a ymaelododd ac eithrio'r Eglwys yng Nghymru a ofynnodd am ddau ychwanegiad y cytunwyd arnynt gan y Cyd-bwyllgor ac a fabwysiadwyd yn y cyfansoddiad terfynol. Cytunwyd mai ar ei awdurdod ei hun yn unig y gallai'r Cyngor wneud datganiadau ac y dylid ychwanegu'r geiriau 'as far as may be consistent with the principles of each of them *(hynny yw, yr enwadau a'r eglwysi a oedd yn aelodau o'r Cyngor)*' ar ddiwedd y cymal a oedd yn sôn am hyrwyddo'r mudiad ecwmenaidd[2]. Drwy'r ychwanegiadau hyn sefydlwyd dwy egwyddor gyfansoddiadol a fu'n sylfaenol i'r mudiad ecwmenaidd o'r cychwyn, sef, mai ar ei awdurdod ei hun yn unig y gall corff ecwmenaidd lefaru ac na ellid disgwyl i eglwys neu enwad rannu'n gyflawn yng ngweithgarwch y cyrff hyn onibai fod y cyfryw weithgareddau yn gyson â'u hegwyddorion sylfaenol. Tra bod y rhain yn egwyddorion pwysig i'w sefydlu bu'n

--------------------

1. Atodiad A i Agenda Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, 28 - 30 Medi 1955

2. Cofnodion y Cydbwyllgor dros Gyd-ddealltwriaeth a Chydweithrediad rhwng Cymundebau Cristnogol yng Nghymru, 7 Hydref 1955.

fyd-eang - i gydnabod fod eu cydberthynas ag enwadau ac eglwysi eraill wedi newid eu dirnadaeth o'u hegwyddorion sylfaenol. Y parodrwydd hwn sy'n galluogi cydberthynas a chyd-ddealltwriaeth rhwng enwadau i ddylanwadu ar eu hunaniaeth a'u hunanddealltwriaeth ac i hybu partneriaeth rhyngddynt. O'r cychwyn gwelwyd mai hybu perthynas rhwng yr enwadau a'i gilydd oedd prif ddiben y Cyngor. Gwelwyd hefyd nad dyma'r unig dasg ecwmenaidd yr oedd ei hangen yng Nghymru. Felly, yn Rhagfyr 1954 sefydlwyd Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru i fod '..yn Gymdeithas hollol wirfoddol.. heb fwriad yn y byd i gystadlu yn erbyn eich Pwyllgor Swyddogol chwi *(sef, y Cydbwyllgor)*. Yn hytrach, gobeithio y bydd llwyddiant y Gymdeithas Eciwmenaidd yn cynhesu'r eglwysi a'r aelodau cyffredin tuag at groesawu Cyngor Eglwysi Cymru y gweithiwch tuag ato.' [1] Ymhlith amcanion y Gymdeithas oedd hyrwyddo gwybodaeth am y mudiad ecwmenaidd, cynnig cymdeithas i'r rhai a oedd yn gweld hwn `fel gwaith yr Ysbryd Glân yn ein dydd', a meithrin cyswllt â grwpiau cyffelyb yng Nghymru a'r tu allan i Gymru.[2]

Pasiwyd y penderfyniad canlynol yn unfrydol gan y Cydbwyllgor:

> 'We note with interest the formation of the Ecumenical Society for Wales and trust that this voluntary fellowship of friends of the Ecumenical Movement will deepen interest in this work, especially among the younger members of our churches.' [3]

Y Cyngor, felly, a oedd â'r cyfrifoldeb pennaf dros hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr enwadau, a'r Gymdeithas Ecwmenaidd a oedd â'r prif gyfrifoldeb dros hybu cymdeithas rhwng unigolion ac eglwysi lleol. Bu eu cydweithrediad â'i gilydd yn allweddol i ddatblygiad y Mudiad Ecwmenaidd yng Nghymru yn ystod y degawd

--------------------

1. Llythyr at Ysgrifennydd y Cydbwyllgor oddi wrth Ysgrifennydd y Gymdeithas, Y Parchedig Erastus Jones, Blaendulais, yng nghofnodion y Cydbwyllgor, 7 Ionawr 1955.

2. ibid. tud 2

3. ibid. tud. 2

canlynol.

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 24 Mai 1956 cyhoeddodd y Cyngor neges i Eglwysi Cymru a wnaeth yn amlwg mai ei brif ymrwymiad oedd hybu undeb yr eglwysi a'u cyd-weithrediad mewn tystiolaeth a gwasanaeth yng Nghymru:

> 'We would affirm our conviction that the unity of the Church, on which our faith and hope is set, is grounded in the unity of God and the uniqueness of His redeeming act in Jesus Christ.
>
> 'We therefore rejoice that in recent years the Ecumenical Movement has grown so rapidly. We thank God for the vision and courage of those leaders, who were pioneers of the Ecumenical Movement in Wales. We recall with gratitude the patient services, in some cases for many years, of the members of the Committee for Mutual Understanding and Co-operation between the Christian Communions in Wales.
>
> 'We trust that the Council of Churches for Wales may prove an effective means whereby the Churches in Wales may bear witness together to their common allegiance to Jesus Christ and co-operate in matters requiring united action.' [1]

Yn fuan iawn yn hanes y Cyngor daeth cwestiwn ei weinyddiaeth yn fater trafodaeth ac ystyriaeth ddwys nid yn unig gan y Cyngor ei hun ond gan yr enwadau yn ogystal. Yn ôl y cofnodion cafwyd trafodaeth faith ynglŷn â'r trefniadau ysgrifenyddol yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Mai 1959, pa yr oedd rhai aelodau'n teimlo y dylai un o ysgrifenyddion y Cyngor fod â chyfrifoldeb dros *Inter-Church Aid* yng Nghymru a byddai hynny o bosibl yn sicrhau cymorth ariannol tuag at gynnal swyddog oddi wrth y swyddfa ganolog yn Llundain. Sefydlwyd grŵp bychan i ystyried yr holl gwestiwn. Pan ddygodd ei adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar 26 Hydref 1959 gofynnwyd i'r grŵp ailystyried y mater gan fod llawer yn teimlo nad oedd y trefniadau a oedd mewn bodolaeth yn ddigonol.[2]

Mewn llythyr at W. Ungoed Jacob oddi wrth y Llywydd, W.R. Williams, dyddiedig

---

1. Cofnodion cyfarfod cyntaf Cyngor Eglwysi Cymru, 24 Mai 1956.
2. Cofnodion y Cyngor, 26 Hydref 1959, tud. 2

2 Rhagfyr 1959, nodwyd fod y grŵp wedi adolygu'r sefyllfa yn ofalus ac wedi dod i'r casgliad 'that the time was not ripe to move forward towards a paid secretary (part-time or even whole time). We were all disappointed that this was the conclusion to which we had to come..' Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 1960 a chytunwyd i benodi W. Ungoed Jacob yn gyd-ysgrifennydd ag E.Curig Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a oedd yn barod iawn i roddi cyfleusterau ei swyddfa ef at wasanaeth y Cyngor.

Dengys y cofnodion yn eglur fod y gwaith yn cynyddu'n gyflym iawn yn ystod y cyfnod hwn (cyfnod creadigol ac anturus yn hanes y mudiad ecwmenaidd yn fyd-eang yn ogystal ag yng Nghymru) ac erbyn 1963 teimlwyd ei bod yn angenrheidiol ystyried blaenoriaethau a gweinyddiaeth y Cyngor unwaith eto. Yng nghyfarfod Mawrth 1963 codwyd y mater gan y Dr. Maldwyn Edwards (Cadeirydd Talaith Saesneg De Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd):

> 'The work was growing rapidly and he thought it was unfair to burden the two secretaries who were already heavily committed with work in their own communions. He thought that the retirement of the Revd. Glyn Parry Jones *(o fod yn bennaeth rhaglenni crefyddol y BBC yng Nghymru)* provided them with the opportunity of a fresh approach to this subject and suggested asking that the Council might consider asking Mr. Jones to undertake the work.' [1]

Pan drafodwyd y mater gan y Pwyllgor Gwaith tanlinellodd yr Ysgrifennydd fod y gwaith yn cynyddu a'i fod yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i'r dolenni rhwng y Cyngor a'r cynghorau lleol gryfhau. Pwyswyd am gael ysgrifennydd llawn-amser er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cynnig yr arweiniad priodol i gynghorau lleol ac i'r enwadau.[2]

--------------------

1. Cofnodion y Cyngor, 22 Mawrth 1963, tud. 4
2. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 14 Mehefin 1963.

Ond nid oedd pawb yn cytuno â'r dymuniad hwn i sefydlu ysgrifenyddiaeth lawn amser i'r Cyngor, hyd yn oed pe bai adnoddau ariannol yn caniatáu hynny. Credai rhai 'that the work was best done by Secretaries who were already recognised leaders in their own communions. The most vigorous leadership would come from those already immersed in the day to day concerns of pastor, prophet and priest.'[1] Felly, gofynnwyd i'r ysgrifenyddion baratoi memorandwm byr yn olrhain hanes y Cyngor, ei berthynas â Chyngor Eglwysi Prydain, y gwaith a wnaed ganddo hyd yma, ei batrwm gweinyddu presennol a'r datblygiadau arfaethedig.

Trafodwyd y memorandwm gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 17 a 18 Hydref 1963 a chytunwyd mewn egwyddor i wahodd yr enwadau a'r eglwysi a oedd yn aelodau o'r Cyngor i gyfrannu cyllid digonol ar gyfer cyflogi ysgrifennydd llawn-amser, ac ystyried y trefniadau ysgrifenyddol a swyddfa, fel mater o frys.

Yn ystod yr un drafodaeth codwyd cwestiwn perthynas y Cyngor â Chyngor Eglwysi Prydain, gan fod nifer o'r enwadau yng Nghymru yn aelodau o'r ddau Gyngor. Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ar 18 Tachwedd 1963 darllenwyd llythyr oddi wrth Kenneth Slack, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Prydain, yn mynegi'r farn 'that any form of accommodation between the two Councils which implied a diminution of the contributions paid by the Welsh Churches to the B.C.C. would be impracticable.'[2]

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar 18 Tachwedd 1963 yn unfrydol i wahodd yr holl enwadau a oedd yn aelodau o'r Cyngor i gyfrannu o leiaf £200 y flwyddyn tuag at gyflog Ysgrifennydd llawn-amser ac i wneud apêl hefyd ymhlith cynulleidfaoedd lleol a'u haelodau unigol. Barnai Esgob Bangor (G.O.Williams) fod angen Ysgrifen-

--------------------

1. ibid.
2. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 18 Tachwedd 1963, tud. 2.

nydd llawn-amser a fyddai yn ddiwinydd, a chanddo adnabyddiaeth ddofn o Gymru ac o'r bywyd Cymreig ac a fyddai'n hyddysg yn amcanion ac egwyddorion y Mudiad Ecwmenaidd.[1]

Ni chafwyd ymatebion ariannol digonol gan yr enwadau i'r argymhellion hyn ac o ganlyniad bu'n rhaid i'r Cyngor barhau gyda'r un trefniadau gweinyddol ag o'r blaen. Gorfu i W. Ungoed Jacob roi rhybudd[2] y byddai'n rhaid iddo ymddiswyddo ar bwys cyfrifoldebau enwadol ac apwyntiwyd Gwilym H. Jones, Aberystwyth, yn Ysgrifennydd yn ei le, gyda M.J.Williams (Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru) yn parhau fel cyd-ysgrifennydd am flwyddyn arall.

Parhaodd yr enwadau i ystyried y cais uchod am gyfraniadau ychwanegol, ac erbyn Ionawr 1965 'roedd y Trysorydd (Mr. T.I.Ellis) yn medru adrodd fod yr Eglwys yng Nghymru wedi cytuno i gynyddu ei chyfraniad o £10. 10. 0 i £250 o Ebrill 1965 a bod yr Eglwys Fethodistaidd yn cefnogi'r awgrym o gael ysgrifennydd llawn amser, yn cytuno i gefnogi'r cynllun yn ariannol ond yn awgrymu'r priodoldeb o wahodd yr enwadau i gyfrannu'n ariannol ar sylfaen *pro rata*. Nodwyd hefyd fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru hithau yn cefnogi'r egwyddor ac yn ystyried cynyddu ei chyfraniad.[3] Adroddwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Medi 1965 ei bod wedi cytuno i gyfrannu £200 y flwyddyn. Nid oes cyfeiriad penodol pellach i'r argymhelliad hwn, ond erbyn Mehefin 1966 'roedd Gwilym H. Jones yn awyddus i gael ei ryddhau o'r ysgrifenyddiaeth a chytunwyd i enwebu Dafydd H.Owen (Caergybi) i fod yn olynydd iddo a hynny ar yr un telerau â chynt.

Bu ef yn ysgrifennydd cyffredinol tan 4 Ebrill 1967 pan apwyntiwyd Erastus Jones,

--------------------

1. ibid.
2. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 12 Hydref 1964.
3. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith 25 a 26 Ionawr 1965.

Blaendulais, yn olynydd iddo. Mewn llythyr at Lywydd y Cyngor, G.O.Williams, yn fuan ar ôl iddo gychwyn ar ei swydd, cyflwynodd Erastus Jones ei ddirnadaeth ef o safle'r Cyngor:

> 'Yn nhyb llawer un elfen yn y darlun Cristnogol yng Nghymru, gyda'i chefnogwyr ei hun, yw'r Cyngor, yn hytrach na'r elfen sy'n rhoi cyfle cyfarfod i'r elfennau eraill i gyd, ac yn cynnig gwneud partneriaeth yn ffaith. Er cael y Cyngor ei hun i gredu hyn a throsglwyddo'r darlun hwn yn fwy effeithiol i'r Eglwysi ac i Gymru, a'i wneud yn ffaith yn hytrach na'n syniad, awgrymaf...sicrhau fod gan swyddogion y gwahanol adrannau a chomisiynau deyrngarwch i'w gilydd ac i'r Cyngor trwy eu hargyhoeddi mai tîm ydynt gyda'r uchod yn nod...; cydnabod yn rhan o waith yr ysgrifennydd fugeilio'r enwadau i fwy o afael yn y Cyngor, cadw cysylltiad â mudiadau Cristnogol yng Nghymru sydd y tu allan i'r Cyngor a throsglwyddo 'credentials' y Cyngor i fudiadau seciwlar yng Nghymru (a sefydliadau); datblygu'r berthynas, yn sgil yr honiad uchod, â swyddogion 'crefyddol' y BBC a'r ITV.'[1]

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith wythnos yn ddiweddarach dechreuwyd ystyried ffyrdd priodol o effeithioli rhai o'r awgrymiadau hyn. Er enghraifft, cafwyd trafodaeth helaeth ynglŷn â chyfathrebu effeithiol, yn fwyaf arbennig drwy gyfrwng radio a theledu; ystyriwyd sut yr oedd sicrhau cynrychiolaeth enwadol gyson ac effeithiol ar bwyllgorau ac adrannau'r Cyngor; argymhellwyd fod swyddogion y gwahanol adrannau a phwyllgorau (ac o bryd i'w gilydd, eu holl aelodau) yn cyfarfod â'i gilydd er mwyn dyfnhau cymdeithas rhyngddynt a chryfhau eu hymrwymiad i waith y Cyngor.[2]

Yn ystod y blynyddoedd dilynol treuliwyd cryn amser yn ystyried perthynas yr Eglwys Gatholig Rufeinig â Chyngor Eglwysi Cymru, cydberthynas Cyngor Cenhadol Unedig Cymru â'r Cyngor a lle Cyngor Eglwysi Cymru oddi fewn i'r patrwm Prydeinig.

Ym 1968 teimlwyd bod angen cyfansoddiad newydd ar y Cyngor yn wyneb 'the

---

1. Llythyr dyddiedig 20 Mehefin 1967.
2. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 26 Mehefin 1967, tud. 2 a 3.

great changes in the shape and activity of the Council since the constitution was drawn up.' [1] 'Roedd angen ystyried yn fwyaf arbennig y cynnydd yn nifer swyddogion adrannau o'u cymharu â nifer y cynrychiolwyr enwadol, sylfaen y Cyngor, (gan fod Cyngor Eglwysi Prydain a Chyngor Eglwysi'r Byd wedi derbyn sylfaen newydd), a swyddogaeth y Cyngor gyda golwg ar ei awdurdod a'i statws. Paratowyd drafft o gyfansoddiad newydd gan W. Ungoed Jacob. Ar ôl cryn ymgynghori a thrafod, cyflwynwyd drafft diwygiedig i gyfarfod y Cyngor ar 5 Mawrth 1969 a drafft terfynol i'r cyfarfod blynyddol ar 30 a 31 Hydref 1969. Derbyniwyd y cyfansoddiad hwn a chytunwyd i'w ddanfon at yr enwadau a'r eglwysi i'w drafod a'i dderbyn gan eu cymanfaoedd a'u synodau. Tra bod y cyfansoddiad newydd hwn yn ceisio cyfarfod â gofynion patrwm o bwyllgorau ac adrannau a ddatblygodd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, y mae ynddo elfennau sy'n cynrychioli newidiadau sylfaenol yn hunanddealltwriaeth a swyddogaeth y Cyngor. Yn bennaf, helaethwyd y sylfaen:

> Cymdeithas o Eglwysi yw Cyngor Eglwysi Cymru sy'n cyffesu'r Arglwydd Iesu Grist yn Dduw a Gwaredwr yn ôl yr Ysgrythurau ac sydd felly yn ceisio cyflawni ynghyd eu galwad gyffredin er gogoniant yr un Duw, Dad, Fab ac Ysbryd Glân.

Ymhlith yr amcanion newydd 'roedd galluogi 'tystiolaeth gyffredin i'r Ffydd Gristnogol yng Nghymru' a hyrwyddo gwaith Cymorth Cristnogol. Byddai'r Cyngor yn gysylltiedig â Chyngor Eglwysi'r Byd a Chyngor Eglwysi Prydain, ac er bod rhai enwadau yn aelodau o'r tri chyngor hyn, hawlir mai Cyngor Eglwysi Cymru fyddai 'the normal means whereby their policies are implemented in Wales.[2]

Y mae tair agwedd o'r newidiadau hyn yn haeddu sylw. Yn gyntaf, y mae'r sylfaen newydd, a fabwysiadodd union eiriad sylfaen Cyngor Eglwysi'r Byd, yn cyflawni

--------------------

1. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith 20 a 21 Medi 1968.
2. Cyfansoddiad Cyngpor Eglwysi Cymru, 1970, tud. 1

nifer o ddibenion pwysig. Mewn erthygl ar sylfaen Cyngor Eglwysi'r Byd[1] y mae T.K.Thomas yn nodi rhai o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol. Yn gyntaf, y mae ychwanegu'r cymal cyffesïol cyfarwydd 'yn ôl yr ysgrythurau' yn cwrdd â'r feirniadaeth fod y ffurf flaenorol yn tueddu at Docetiaeth ac, ar yr un pryd, yn pwysleisio lle'r Beibl yn y gymdeithas ecwmenaidd. Yn ôl Thomas "'And therefore seek to fulfil their common calling' adds a dimension of dynamism to the understanding of fellowship and also underlines the ontological priority of what God in Christ has already accomplished.' Yn olaf, y mae ychwanegu'r cymal olaf, sef, 'er gogoniant i Dduw, Dad, Fab ac Ysbryd Glân', yn cyflawni dau amcan pellach:

> '... setting the Christocentric affirmation in a Trinitarian setting, besides making the basis totally acceptable to the Orthodox, adds a celebrative element to the fact of and aspiration for unity.'[2]

Yn ail, y mae'r amcanion newydd, o'u cymharu â'r amcanion gwreiddiol, yn dynodi nid yn unig gynnydd mewn gweithgarwch cydeglwysig drwy'r Cyngor ond hefyd hyder yn y Cyngor fel offeryn effeithiol i hybu cydberthynas, os nad undeb, rhwng yr enwadau a'i gilydd. Y mae hefyd yn tanlinellu'r egwyddor sylfaenol (a ychwanegwyd at yr amcanion gwreiddiol gan yr Eglwys yng Nghymru) fod y Cyngor yn atebol i'r enwadau am ei holl weithgareddau a phenderfyniadau.

Yn drydydd, y mae cynnwys yn y cyfansoddiad adran benodol ar gydberthynas â chyrff eraill yn dynodi'r cynnydd yn yr amgyffrediad o'r mudiad ecwmenaidd fel partneriaeth leol, genedlaethol a rhyng-genedlaethol, sy'n ddibynnol nid ar weithgarwch ynysig unrhyw un corff ond ar rannu â'i gilydd adnoddau a phrofiad a

--------------------

1. T.K.Thomas, The Basis of the WCC, Dictionary of the Ecumenical Movement, various editors, WCC Publications 1991, tud. 1097.

2. gweler hefyd, Stephen Neill, The Church and Christian Unity, 1968.

gweledigaeth eglwysi ac enwadau ar draws y byd sy'n cyfranogi yn amcanion ei amcanion, a hynny drwy rwydwaith o gyrff cydeglwysig. Ond pwysleisir hefyd, yn ail gymal yr adran hon, egwyddor nas gweithredwyd yn llawn - yn arbennig gan Gyngor Eglwysi'r Byd - sef, mai'r Cyngor Eglwysi Cenedlaethol mewn gwlad arbennig a ddylai fod yn brif gyfrwng gweithredu polisïau'r corff ehangach ymhlith eglwysi ac enwadau'r genedl. O'r cychwyn tasg anodd i Gyngor Eglwysi'r Byd fu meithrin ei berthynas ei hun â'r eglwysi mewn gwahanol wledydd sy'n aelodau ohono tra'n gweithio, ar yr un pryd, mewn partneriaeth â'r Cynghorau Cenedlaethol. Ni lwyddwyd i fabwysiadu canllawiau manwl ar gyfer y berthynas hon tan 1993.

Gweithredwyd y cyfansoddiad newydd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor yn Ninbych-y-pysgod 22 a 23 Hydref 1970 ac er bod newidiadau bychain wedi eu gwneud iddo yn y blynyddoedd hyd at 1990 i adlewyrchu patrymau newydd, hwn fu cyfansoddiad sylfaenol y Cyngor am weddill ei fodolaeth.

Tra bod y broses o gytuno ar gyfansoddiad newydd yn mynd rhagddi teimlwyd yr angen ym 1969 i ystyried unwaith eto holl weithgarwch a strwythur y Cyngor a chytunodd cyfarfod blynyddol y Cyngor yn y Drenewydd ar 30 a 31 Hydref 1969 i ofyn i'r Pwyllgor Gwaith sefydlu Comisiwn i'r diben hwn gan ddwyn argymhellion i'r Cyngor a thrwyddo i'r enwadau. Penodwyd y canlynol i fod yn aelodau o'r Comisiwn gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 5 Rhagfyr 1969: Trebor Lloyd Evans, John M.Gibbs (na fedrodd dderbyn y gwahoddiad i wasanaethu ar y Comisiwn), Glyn Tegai Hughes, Lyn Howell, Ungoed Jacob, Melville Jones, Frank Lee ac Alwyn Roberts. Penodwyd Ungoed Jacob yn gadeirydd a Glyn Tegai Hughes yn ysgrifennydd. Gofynnwyd am ei adroddiad erbyn Hydref 1970. Gwnaeth y Comisiwn waith trwyadl iawn a chynhyrchwyd adroddiad manwl ynglŷn â swyddogaeth a threfn y Cyngor, a'i ysgrifenyddiaeth, a chyflwynodd wyth argymhelliad penodol i'r Cyngor. Y mae'r adroddiad yn nodi fod yr holl drafodaethau wedi eu cynnal drwy gyfrwng y

Gymraeg er bod yr adroddiad wedi ei lunio yn y Saesneg.

Gwnaed arolwg o effeithiolrwydd cyfarfodydd y Cyngor a'i adrannau a daethpwyd i'r casgliad

> 'that the activities of the Council - in convening conferences, initiating conversations, encouraging ecumenical activities - had a very limited impact on the member churches apart from their willingness to send representatives to groups and conferences. ...It does seem to us that the Churches might make more use of the Council (and that the Council itself should be better equipped to give a lead to the Churches) in some spheres of practical adjustments...It would seem to us to be desirable that many discussions (on contentious matters) should be held within a framework provided by the Council.'[1]

Nodwyd hefyd bod angen i brif swyddogion yr enwadau gael lle amlycach ym mywyd y Cyngor os oedd y Cyngor i ddatblygu yn y modd yma. Gwelwyd bod angen dybryd am gryfhau effeithiolrwydd y Cyngor ym mywyd cynulleidfaoedd lleol. Gwerthfawrogwyd cyfraniad yr Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd (a sefydlwyd ym 1965) yn y cyfeiriad yma a chredwyd y byddai budd mewn datblygu cydweithrediad agosach, mewn perthynas â gweithgarwch cydeglwysig lleol, rhwng y Cyngor a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Yr oedd angen am adnoddau ariannol mwy digonol ond y cwestiwn allweddol oedd 'whether all the member churches want an expansion of (the Council's) activities enough to pay for them.'[2].

Yr unig sylw a wneir gan y Comisiwn ar drefniadaeth y Cyngor yw fod aneglurder ynglŷn â swyddogaeth rhai o'r pwyllgorau a'r adrannau, a bod angen i gyfarfod blynyddol y Cyngor ymdebygu fwy i gyfarfodydd blynyddol yr enwadau.[3]

--------------------

1. Report of the Commission of Inquiry, tud. 1 a 2, para. 6 ac 8.

2. ibid., tud. 2, para. 12.

3. ibid., tud. 2, para. 17.

Rhoddodd y Comisiwn y sylw mwyaf i gwestiwn ysgrifenyddiaeth y Cyngor. Wedi ymgynghori â'r ysgrifennydd cyffredinol a swyddogion rhai o'r adrannau dônt i'r casgliad 'that there would be work for a full-time secretary and that he could significantly, though not dramatically, advance the work of the Council.'[1] Gwelwyd mai prif gyfraniad swyddog llawn-amser fyddai meithrin perthynas â chynghorau eglwysi lleol a chreu cysylltiadau â'r enwadau a'r eglwysi a oedd yn aelodau o'r Cyngor a'r mudiadau oedd yn gysylltiedig â'i waith. Amcangyfrifwyd y byddai swydd lawn-amser o'r fath, gyda chymorth ysgrifenyddol digonol, yn costio tua £2,425 y flwyddyn, yn ogystal â chostau ychwanegol (o tua £600) y flwyddyn tuag at y gweithgarwch cynyddol a gynhyrchid gan swyddog llawn-amser. Ar y pryd 'roedd incwm blynyddol y Cyngor o gwmpas £700. Ofnai'r Comisiwn na fyddai'r eglwysi a'r enwadau yn medru - neu'n fodlon - cwrdd â'r gofynion ychwanegol hyn ac felly awgrymwyd posibiliadau eraill, megis rhannu'r pwysau gwaith, efallai mewn cydweithrediad ag un neu ddau o'r enwadau neu benodi ysgrifenyddion rhanbarthol gyda *honorarium* bychan.

Prif argymhellion y Comisiwn oedd fod ysgrifennydd llawn amser yn cael ei benodi (ac os methiant fyddai'r ymdrech i godi cyllid digonol fod y posibiliadau uchod yn cael eu hystyried), fod cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu gyda phrif swyddogion yr enwadau i ystyried cydweithrediad agosach â'r Cyngor (yn cynnwys cydweithio mewn perthynas â chanolfannau enwadol arbennig) a bod trafodaethau yn cael eu cynnal â'r Cynghorau Eglwysi Rhyddion ynglŷn â chydweithio agosach. Pan gyflwynwyd yr adroddiad i gyfarfod blynyddol y Cyngor ar 22 a 23 Hydref 1970 cytunwyd i dderbyn holl argymhellion y Comisiwn ac i ymddiried i'r Pwyllgor Gwaith sut orau i'w cyflwyno i'r eglwysi a'r enwadau. Fe'u cyflwynwyd ar ffurf Memorandwm i'r Eglwysi, yn cynnwys yr argymhellion ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Gwaith a chyflwyniad o hanes y Cyngor.

---

1. ibid., tud. 3, para. 18.

Y mae'r Memorandwm hwn yn cynnig darlun gwerthfawr o weithgarwch y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys adroddiadau byrion o'i holl adrannau a phwyllgorau: Cymorth Cristnogol, Yr Adran Ieuenctid, Adran Ffydd a Threfn, Y Cyd-bwyllgor Cyfamodi, Pwyllgor ar Ddiwydiant, Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd, Darlleniadau O Ddydd i Ddydd, Cydbwyllgor Litwrgi. Ond yng ngeiriau'r Memorandwm: 'The demand for co-operation increases. New spheres of co-operation have claimed attention.' [1] Yr oedd y rhain yn cynnwys Cymru i Grist, Darlledu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Gwelai'r Cyngor fod hyn oll yn dystiolaeth fod yr eglwysi wedi gwneud mwy a mwy o ddefnydd o'r Cyngor fel cyfrwng cydweithrediad rhynddynt. Wrth gyflwyno crynodeb o argymhellion y Comisiwn tanlinellwyd ei gasgliad 'that further co-operation would require a strengthening of the relationship between the churches and the Council and a strengthening of the organisation of the Council....'[2] gan ddwyn sylw arbennig yr eglwysi a'r enwadau at brif argymhellion y Comisiwn.

Cafodd y Memorandwm groeso brwdfrydig gan o leiaf un sylwedydd, sef, Harri Prichard Jones:

> '..Fy nheimlad i ar ôl cael gwybod (am y tro cyntaf) fod y gwaith yn mynd yn drech na'r peirianwaith presennol (er gwyched eich gwaith gwirfoddol chwi oll) yw mai da fyddai sefydlu Cyngor Eglwysi Cymru fel corff go iawn parhaol, yn ymgymryd â'r holl weithgarwch a wneir gan gyrff eglwysig cenedlaethol mewn gwledydd eraill. Fe wyddost fy mod i o blaid hyn o safbwynt gwleidyddol; onid yw rhesymeg ein sefyllfa ddyngarol a'i gyd-destun arbennig yng Nghymru yn ein gorfodi i dderbyn yr un casgliad o safbwynt gwahanol...'[3]

Mabwysiadwyd y Memorandwm mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn yr Amwythig ar 25 Ionawr 1971 pan roddwyd sylw yn ogystal i weithgarwch pellach

1. Memorandum to the Churches, 1970, tud. 2.
2. ibid., tud. 3.
3. Llythyr at yr Ysgrifennydd Cyffredinol oddi wrth Harri Pritchard Jones, 28 Rhagfyr 1970.

ar sail Cynhadledd Llandaf ar Ddarlledu ac Adroddiad Cynhadledd Caerfyrddin ar yr Eglwys a Chymdeithas. 'Roedd hwn yn gyfarfod allweddol. Byddai ymatebion yr enwadau i'r argymhellion a wnaed yn dyngedfennol i ddatblygiad y Cyngor a'i waith am rai blynyddoedd i ddod.

Ymhen y flwyddyn byddai tymor ysgrifenyddiaeth Erastus Jones yn dod i ben, ac er bod yr ymgynghori â'r enwadau a'r eglwysi yn y cyfamser wedi dangos nad oedd adnoddau digonol ar gael ar gyfer ysgrifenyddiaeth amser llawn, credai'r Pwyllgor Gwaith fod posibilrwydd sicrhau ysgrifennydd rhan amser, ar linellau awgrymiadau'r Comisiwn ar fywyd a gwaith y Cyngor. Felly sefydlwyd is-bwyllgor *ad hoc* i ddwyn argymhellion ac i fod yn bwyllgor penodi. Byddai'n gweithredu o dan gadeiryddiaeth y Llywydd newydd, W. Ungoed Jacob, a byddai'n gyfrifol am wneud amcangyfrif o gost penodiad o'r fath, dosbarthu'r gost ymhlith yr enwadau, ystyried beth fyddai 'hanner amser' yn ei olygu a beth fyddai'r elfen arall yn swydd yr ysgrifennydd. Gobeithid medru gwneud penodiad erbyn Mehefin 1972. Ond er gwaethaf pob gobeithion, unwaith eto ni lwyddwyd i ddod â'r maen arbennig hwn i'r wal, gan na fu'n bosibl gwneud penodiad hanner amser ychwaith. Felly, argymhelliad y Pwyllgor Gwaith oedd fod Meirion Lloyd Davies, Pwllheli, yn ymgymryd â'r ysgrifenyddiaeth am o leiaf ddwy flynedd, ar y ddealltwriaeth mai ei brif ymrwymiad fyddai ei gyfrifoldeb fel gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Fe'i penodwyd i'r swydd yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Mawrth 1972. 'Roedd methiant arall i sicrhau ysgrifennydd cyflogedig yn achos rhwystredigaeth nid yn unig i'r Cyngor ond hefyd, y mae'n amlwg, i Meirion Lloyd Davies ei hun, gan iddo ddweud mewn llythyr, dyddiedig 7 Chwefror 1972:

> '..Oni fyddai'n fwy o gymwynas gofyn i rywun â mwy o amser ganddo? Tueddaf i gredu fod y Cyngor yn teimlo fod angen camu 'mlaen 'rwan - ein bod wedi cyrraedd 'stalemate'. A fydd dyn amser hamdden yn medru arwain ymlaen i'r cam nesaf?'

Fodd bynnag, fel ei ragflaenwyr, llwyddodd i gyflawni gwyrthiau gydag ond ychy-

dig o amser hamdden a'r adnoddau prinnaf, gan roddi arweiniad egnïol a chadarn am gyfnod nid o ddwy flynedd ond o bum mlynedd.

Ond y mae'n amlwg yr ymdeimlai ef a'r Cyngor o hyd â'r angen i sicrhau ysgrifennydd cyflogedig i roi arweiniad i'r Cyngor a thrwyddo i weithgarwch cydeglwysig yr enwadau a'r eglwysi yng Nghymru. O ganlyniad, yng nghyfarfod y Cyngor ym 1974, yn fuan ar ôl i'r Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig gytuno i dderbyn y Cyfamod tuag at Undeb ac i ffurfio Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol i fod yn gyfrifol am ddatblygiad y bartneriaeth gyfamodol newydd hon, soniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol (*'at length'* yn ôl y cofnod Saesneg)[1] am 'yr angen i feddwl o ddifrif am swyddogaeth y Cyngor wedi'r Cyfamod, a'r angen i ddarparu'n fwy effeithiol am waith gweinyddol y Cyngor.' Unwaith eto, felly, codwyd cwestiwn yr ysgrifenyddiaeth:

> 'Gofynnir i'r Cyngor gan yr Eglwysi gyflawni fwy o waith yn eu henw ond ar hyn o bryd nid oes adnoddau digonol ar gyfer y gwaith. Yn hwyr neu'n hwyrach bydd angen meddwl o'r newydd am ysgrifennydd llawn-amser.'[2]

Aeth blwyddyn heibio, fodd bynnag, cyn i'r Cyngor drafod yr ysgrifenyddiaeth a hynny ar awgrym y Llywydd. Ei deimlad ydoedd 'fod y Cyfamod wedi gwneud yr awgrym yn bosibilrwydd mwy ymarferol erbyn hyn.'[3] Awgrymodd rhai o arweinwyr yr Eglwysi Cyfamodol y gellid ystyried priodoldeb ac ymarferoldeb penodi ysgrifennydd cyffredinol ar y cyd rhwng y Cyngor a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. O ganlyniad pasiwyd y penderfyniad canlynol:

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 16 Hydref 1974.
2. ibid.
3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 16 Hydref 1975, tud. 2.

> 'Mae'r Cyngor yn credu fod yr amser wedi dyfod i benodi ysgrifennydd llawn amser ac mae'n barod i rannu yn hyn efo Eglwysi'r Cyfamod os gwahoddir hwy i wneud hynny.'[1]

Ar sail y penderfyniad hwn lluniwyd Memorandwm i'w ddanfon at yr Eglwysi. Pan gafwyd trafodaeth arno yng nghyfarfod y Cyngor 'mynegodd rhai aelodau eu anhapusrwydd ynglŷn â phenodiad ar y cyd gan gredu y byddai'n annerbyniol i'r Eglwysi oddi allan i'r Cyfamod. Dywedodd eraill mai dyma'r un cynllun posibl a'r unig obaith o gael gwasanaeth ysgrifennydd llawn amser.'[2]

Yn y cyfarfod canlynol yn Hydref 1976 cafwyd trafodaeth fanwl ar yr ysgrifenyddiaeth. Adroddwyd fod yr eglwysi cyfamodol unigol 'yn cefnogi'r bwriad i benodi ysgrifennydd llawn amser ac yn barod i gyfrannu yn unol ag awgrym y memorandwm.'[3] Adroddwyd fod Byddin yr Iachawdwriaeth mewn anawsterau ariannol ac nad oedd Undeb Bedyddwyr Cymru wedi dod i benderfyniad terfynol. Adroddodd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Iorwerth Jones,

> 'fod y mater wedi ei drafod yn llawn gan y Cyngor ond wedi ei wrthod oherwydd cysylltu'r swydd efo ysgrifenyddiaeth Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.....Gwrthwynebiad mewn egwyddor ydoedd yn bennaf ac ... eilbeth oedd y gofyn ariannol'[4]

Ar sail yr ymatebion hyn penderfynwyd 'ar ôl trafodaeth faith i symud ymlaen i benodi ysgrifennydd llawn amser wedi ei rannu efo Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.'[5] Ac o'r diwedd, wedi trafodaethau o bryd i'w gilydd dros gyfnod o 18 mlynedd, felly y bu. Cynigiwyd y swydd yn y lle cyntaf i Meirion Lloyd Davies ond penderfynnodd na allai dderbyn y swydd. Hysbysebwyd y swydd (ar gost o

--------------------

1. ibid.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 26 Mawrth 1976, tud. 2.
3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 14 Hydref 1976, tud. 2.
4. ibid.
5. ibid.

£102.95), cynhaliwyd cyfweliadau yn y Coleg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth ar 6 Ebrill 1977 a chytunwyd i benodi Noel A. Davies, gweinidog gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym Mryn Seion, Glanaman. Ymgymerodd â'i swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol llawn amser, ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, ar 11 Gorffennaf 1977. Fe'i penodwyd am gyfnod cyntaf o saith mlynedd ar gyflog gychwynnol o £2,700 y flwyddyn ynghyd â holl gostau'r swydd. Er mwyn cynnal y swydd ar y cyd cytunodd yr eglwysi cyfamodol i gyfrannu *pro rata* ddwy waith gymaint â'r eglwysi a'r enwadau eraill.

Bu penodiad o'r fath yn drobwynt yn hanes y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru. Ei arwyddocâd pennaf oedd fod y cynllun wedi sicrhau swyddog ecwmenaidd cyflogedig am y waith gyntaf yn hanes yr eglwysi yng Nghymru. Credai arweinwyr y Cyngor - a nifer o arweinwyr yr enwadau yn eu plith - fod sicrhau swyddog llawn amser yn angenrheidiol os oedd hybu cydweithrediad a chyd-dealltwriaeth rhwng yr enwadau a'r eglwysi yn genedlaethol a lleol i gael y flaenoriaeth ddyledus. Y mae'r ymdrechion a wnaed dros 18 mlynedd yn dystiolaeth fod hwn yn ddatblygiad allweddol yn eu tyb hwy. Yn ail, gwelai nifer o arweinwyr y mudiad ecwmenaidd, yng Nghymru ac yn ehangach, fod sefydlu swydd ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Comisiwn ynddo'i hun yn rhoi mynegiant i egwyddor bwysig, sef, na ddylid ynysu'r ymgais am undeb gweledig neu organaidd rhwng rhai eglwysi ac enwadau (megis ar sail y Cyfamod tuag at Undeb yng Nghymru) oddi wrth yr ymdrech gyffredinol i hybu partneriaeth rhwng yr holl eglwysi mewn tystiolaeth a gwasanaeth Cristnogol. Wedi'r cyfan, tarddodd y Cyfamod yng Nghymru o'r ymateb i Gynhadledd Ffydd a Threfn Nottingham yn 1964 a'r Cyngor a fu'n gyfrifol am hybu'r Cyfamod, drwy'r Cyd-bwyllgor Cyfamodi, hyd nes sefydlu'r Comisiwn ym 1975. Yn drydydd, 'roedd parodrwydd yr eglwysi cyfamodol i gyfrannu ar y raddfa a oedd yn angenrheidiol i'r cynllun hwn yn arwydd fod yr ymrwymiad i undeb rhyngddynt a fynegwyd yn y Cyfamod yn fwy na geiriau; yr oeddent yn fodlon gweithredu'r ymrwymiad drwy rannu adnoddau a fyddai'n hybu'r ymdrech ecwmenaidd yn gyffredinol yn ogystal â

hybu'r berthynas gyfamodol ei hun. Yn olaf, nid aeth y ffaith mai Annibynnwr a benodwyd yn gyd-ysgrifennydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn ddisylw. Croesawyd parodrwydd yr eglwysi hyn i ymddiried swydd o'r fath i un a oedd yn gefnogol i'r ymrwymiad cyfamodol ond na fedrai rannu'n gyflawn ynddo.

Ymhen blwyddyn ar ôl y penodiad hwn sefydlwyd swyddfa mewn un ystafell yn Nhŷ John Penri yn Abertawe, gyda Wendy Richards yn ysgrifenyddes ran amser. Chwe blynedd yn ddiweddarach, yn Rhagfyr 1984, 'roedd gweithgarwch y swyddfa wedi datblygu i'r fath raddau fel y bu'n rhaid symud o Dŷ John Penri i swyddfa bedair ystafell yn 21 Heol Sant Helen, Abertawe.

Yng nghyfarfod y Cyngor yn Nhachwedd 1978 cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bapur ar flaenoriaethau'r Cyngor. Ymateb ydoedd i gyfres o gwestiynau, megis, 'Beth yw cyfrifoldeb Cyngor Eglwysi Cenedlaethol? Pa wahaniaeth a wna bodolaeth...Comisiwn (yr Eglwysi Cyfamodol)? Oni ddylai fod (gan y Cyngor) fwy o ofal dros undeb yr eglwysi yng Nghymru?...Sut mae dyfnhau'r berthynas rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a chynghorau eglwysi lleol? Pa berthynas ddylai fod rhwng yr adrannau a'i gilydd?'[1]

Ar y pryd, 'roedd gan y Cyngor un ar ddeg o bwyllgorau neu adrannau arbenigol heb nemor ddim cyswllt rhyngddynt. Yr unig gyfathrach rhyngddynt oedd presenoldeb eu hysgrifenyddion yng nghyfarfodydd y Cyngor ei hun. Perygl hynny oedd anwybodaeth am waith ei gilydd ac o ganlyniad tuedd i ddyblygu gweithgarwch neu i anwybyddu ei gilydd. Felly, gofynnwyd i'r Ysgrifennydd baratoi papur yn argymell patrwm newydd. Fe'i cyflwynwyd i gyfarfod y Cyngor ar 21 - 22 Mawrth 1979 ac yr oedd nifer o'r cynrychiolwyr 'yn adweithio'n ffafriol i ysbryd yr argym-

---

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith, Cyngor Eglwysi Cymru, 23 Tachwedd 1978

hellion, gan gredu mai dyma'r cyfeiriad cywir i waith Cyngor Eglwysi Cymru i'r dyfodol'[1]. Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynwyd fod yr adrannau yn dal i ystyried manylion y cynllun mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Gwaith a bod y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor yn yr Hydref. Mewn gwirionedd, ni chyflwynwyd yr ail ddrafft o'r argymhellion tan y Gwanwyn 1980. Amcan yr ad-drefnu oedd

> 'To make possible a more unified approach to the Council's task by enabling the Departments as at present constituted to have much closer liaison and co-operation......To enable the Departments to share theological and spiritual insights both with one another and with the Council...(enabling) a deeper and more concerted wrestling with the issues facing the churches in Wales. To strengthen links with local Councils and thus improve the effectiveness of its communications and its contribution to the life of local churches.'[2]

Y prif argymhelliad oedd dwyn y gwahanol adrannau a phwyllgorau at ei gilydd i dair adran newydd, sef Adran Ffydd a Thystiolaeth, Adran yr Eglwys a Chymdeithas ac Adran Cymorth Cristnogol. Byddai'r eglwysi a'r enwadau yn parhau i benodi cynrychiolwyr i'r Pwyllgorau a swyddogion y Pwyllgorau hyn fyddai'n dod at ei gilydd i gyfarfodydd yr Adrannau.

Amcan yr Adran Ffydd a Thystiolaeth fyddai bod

> 'yn fforwm diwinyddol lle y gellir trafod ac astudio pynciau perthynol i ffydd, addoliad a bywyd yr eglwysi, ac felly i'w cynorthwyo i ddarganfod amcan eu bywyd cyffredin a'r adnoddau a rydd Duw ar gyfer eu tasg.'[3]

I'r diben hwn byddai'r Adran yn dwyn at ei gilydd gynrychiolwyr Pwyllgorau Cymru i Grist, Ieuenctid, Cyfathrebu Cristnogol, Addoli, 'O Ddydd i Ddydd' a'r Grŵp

---

1. Cofnodion y Cyngor, 21 - 22 Mawrth 1979.
2. "Future Structure of the Council", papur a gyflwynwyd i'r Cyngor, 24 Ebrill 1980.
3. Memorandwm a gyflwynwyd i gyfarfod o swyddogion yr Adran, 5 Medi 1980.

Ymgynghorol Diwinyddol. Penodwyd Alwyn Rice Jones, Deon Aberhonddu ar y pryd, yn gadeirydd a Byron Evans, gweinidog gydag Undeb Bedyddwyr Cymru a oedd yn Ysgrifennydd Cymru dros Gymdeithas y Beibl, yn ysgrifennydd.

Amcan Adran yr Eglwys a Chymdeithas fyddai 'astudio materion perthynol i'r Eglwys a Chymdeithas...yn genedlaethol... a rhyng-wladol..Ymchwil a gweithredu cymdeithasol...Problemau a chenhadaeth ddiwydiannol.'[1] I'r diben hwn byddai'n cynnwys y Pwyllgorau canlynol: Materion Cenedlaethol a Rhyng-genedlaethol, Diwydiant a Datblygiad Byd. Penodwyd Huw Wynne Griffith yn gadeirydd am 1981 - 82 a J.E. Williams[2] yn gadeirydd o 1982 ymlaen.

Dyma fu strwythur y Cyngor tan 1990 ond rhaid cydnabod na fu'r ddwy Adran hon fel y cyfryw yn llwyddiant. Daeth yn amlwg yn fuan ar ôl 1981, pan weithredwyd y drefn newydd yn gyntaf, mai i'r pwyllgorau ac nid i'r adran yr oedd prif deyrngarwch ac ymroddiad y cynrychiolwyr. Naill ai ni welent fudd yng nghyfarfodydd yr adrannau neu nid oedd ganddynt yr amser i'w roi i'r cyfarfodydd. Y canlyniad anorfod oedd penderfynu ym 1984 a 1985 rhoi heibio cyfarfodydd yr adrannau fel y cyfryw a neilltuo un person i fod yn Swyddog Ffydd a Thystiolaeth ac un i fod yn Swyddog Eglwys a Chymdeithas (ar sail wirfoddol). Eu tasg fyddai meithrin cydberthynas a chydweithio rhwng gwahanol elfennau'r Adrannau.

Ffurfiwyd Pwyllgor Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn Adran Cymorth Cristnogol ym 1981 gyda Roderic Bowen yn gadeirydd a Wynn Vittle yn Ysgrifennydd Cenedlaethol. Parhaodd yr Adran hon i weithredu'n egnïol ac effeithiol hyd at 1990, gyda chynrychiolaeth o'r holl eglwysi a oedd yn aelodau o'r Cyngor, ynghyd â'r Eglwys

---

1. Memorandwm i gyfarfod o swyddogion yr Adran, 8 Medi 1980.

2. Aelod o'r Eglwys Fethodistaidd a Darlithydd yn Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol Abertawe.

Gatholig Rufeinig, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion ac Eglwys yr Undodiaid yng Nghymru. (Dyma'r unig gyswllt swyddogol a fu erioed rhwng y Cyngor a'r Undodiaid.) Bu'r berthynas agos hon rhwng y Cyngor a Chymorth Cristnogol yn un greadigol a gwerthfawr i'r ddau gorff. Ym 1990 daeth yr Adran hon i ben fel y cyfryw a sefydlwyd Pwyllgor Cenedlaethol newydd i Gymru o dan drefn newydd yn dilyn y newidiadau yn y cyrff ecwmenaidd (gweler isod).

Ym 1984 'roedd cyfnod cyntaf penodiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn dod i ben a chytunwyd, ar ei gais ef, i ymgymryd ag adolygiad o ddatblygiad ac effeithiolrwydd y swydd ac i ddwyn argymhellion priodol i'r Cyngor a'r Comisiwn. Penodwyd tri i fod yn aelodau o'r Grŵp Adolygu, sef, Meirion Lloyd Davies (cynullydd), John Woodward[1] a Martin Conway[2]. Gwnaethant waith trylwyr iawn gan gynnal cyfarfodydd â phrif swyddogion ac arweinwyr yr enwadau, cynrychiolwyr rhai o'r cynghorau eglwysi lleol, swyddogion y pwyllgorau ac, wrth gwrs, yr Ysgrifennydd Cyffredinol ei hun. Cynhyrchwyd adroddiad manwl a wnaeth nifer o sylwadau nid yn unig am y swydd ond am weithgarwch a threfniadaeth y Cyngor a'r Comisiwn. Gwnaed nifer o argymhellion a chytunodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mai 1984 fod swydd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor a'r Comisiwn yn parhau, fod yr Ysgrifenyddes yn cael ei chyflogi ar drefn reolaidd, a bod yr ysgrifennydd yn ymgynghori â'r Eglwysi gyda golwg ar sefydlu tîm o swyddogion ecwmenaidd fyddent yn cael eu rhyddhau gan eu heglwysi am un diwrnod yr wythnos. Cytunwyd hefyd fod Noel Davies yn cael ei wahodd i wasanaethu'r Cyngor a'r Comisiwn am gyfnod pellach o bum mlynedd o 1 Gorffennaf 1984.[3] Cadarnhawyd y gwahoddiad hwn gan Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.

--------------------

1. Offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru ac aelod o'r Comisiwn.

2. Ysgrifennydd Adran Materion Ecwmenaidd, Cyngor Eglwysi Prydain.

3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 5 Mai 1984, tud. 1 a 2.

Yng nghyfarfod nesaf y Cyngor agorwyd trafodaeth gan Meirion Lloyd Davies (a oedd ar y pryd yn un o lslywyddion Cyngor Eglwysi Prydain) ar y pwnc "Camau pellach tuag at undeb Cristnogol". Sail y drafodaeth oedd adroddiad o Gyfarfod Rhyng-eglwysig (o dan gadeiryddiaeth John Habgood, Archesgob Efrog) a gynhaliwyd yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn Llundain ar 18 Medi 1984. Galwyd y cyfarfod o ganlyniad i benderfyniadau gan Gyngor Eglwysi Prydain a Chynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr ac a gadarnhawyd gan dros 30 o eglwysi ac enwadau yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon. Rhoddodd y rhain gefnogaeth i 'broses o weddi, myfyrdod a thrafod gyda'n gilydd yn canolbwyntio ar natur a phwrpas yr Eglwys yng ngoleuni ei galwad yn ac er mwyn y byd.' [1] Credai'r Cyfarfod Rhyng-Eglwysig hwn 'that a major element would be the confession to one another of what we believe we are as churches in the doctrinal and social context of our life.'[2] Byddai'r broses hon yn cynnwys nifer o elfennau. Byddai'n rhoi cyfle i'r eglwysi a'r enwadau ddod at ei gilydd yn ysbryd gweddi ac undeb, ac egluro i'w gilydd eu dealltwriaeth eu hunain o natur a phwrpas yr Eglwys. Byddai'n amcanu hefyd at adeiladu ar y cyd-ddealltwriaeth a ddeilliodd o drafodaethau'r enwadau ar *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth* (gweler pennod 4), yn ceisio dod o hyd i fannau tyfiant ar gyfer undeb ac yn cadw 'cri'r byd a'i angen am yr Efengyl' gerbron yr eglwysi.[3]

Rhagwelwyd y byddai'r broses hon - a phwysleisiwyd mai proses ydoedd a fyddai'n galluogi'r eglwysi a'r enwadau i symud ymlaen gyda'i gilydd ac nid rhaglen waith i'w dilyn dros dymor ond na fyddai'n dylanwadu ar berthynas yr enwadau â'i gilydd - yn parhau am rhyw bedair mlynedd ac yn ymwneud â holl fywyd yr eglwysi yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol a rhyng-genedlaethol ym Mhrydain ac Iwerddon. Sefydlwyd Cyfarfod Rhyng-Eglwysig gyda chynrychiolaeth ehangach na'r un

--------------------

1. Cofnodion y Cyfarfod Rhyng-eglwysig, 18 Medi 1984, para. 2.
2. ibid., para. 3.
3. ibid., para. 4.

corff cydeglwysig arall ym Mhrydain ac Iwerddon. Byddai'r enwadau a fu'n aelodau o Gyngor Eglwysi Prydain yn aelodau ohonno yn ogystal â'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Y Cyfarfod Rhyngeglwysig hwn a fyddai'n goruchwylio'r holl broses a ffurfiwyd gweithgor (yr oedd Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru'n aelod ohono, ar ran enwadau Cymru) i fod yn gyfrifol am fanylion y gwaith.

Ar ddiwedd trafodaeth o'r argymhellion hyn pasiwyd penderfyniad gan y Cyngor a oedd 'yn croesawu'r cam arweiniol a gymerwyd gan Gyngor Eglwysi Prydain er hyrwyddo undeb yr Eglwys ac adnewyddiad ei bywyd er mwyn cenhadaeth Crist' ac yn mynegi parodrwydd `i rannu mewn proses o weddi, myfyrdod a thrafodaeth...' a cynnal `adolygiad o ganlyniadau'r broses hon yn ystod 1987'.[1] Cytunwyd hefyd i 'roi sylw arbennig i geisio cysylltu'r rhaglen hon â'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru mewn perthynas â hybu undeb a chydweithrediad rhwng yr eglwysi yn lleol a chenedlaethol.'[2]

Dyma ddechrau yng Nghymru y Broses Ryng-Eglwysig a fyddai'n arwain o gam i gam at ddifodiant Cyngor Eglwysi Cymru a sefydlu Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru ar 1 Medi 1990. Ar y cychwyn ni ragwelwyd y byddai'n golygu newidiadau mor chwyldroadol â hyn yng Nghymru (a Lloegr a'r Alban) gan mai canolbwyntio'n fwyaf arbennig ar Gyngor Eglwysi Prydain a wnâi'r broses ar y cychwyn.[3] Ond, yn raddol, gwelwyd arwyddocâd ehangach y Broses Ryng-Eglwysig. Er enghraifft, yn ei adroddiad i'r Cyngor ar 2 Tachwedd 1985 soniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol amdani 'a'i (h)arwyddocâd mewn perthynas â phartneriaeth yr Eglwysi

--------------------

1. Penderfyniad a gyflwynwyd i'r Cyngor, 13 Hydref 1984.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 13 Hydref 1984, para. 9, tud 4.
3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 20 Hydref 1983, tud. 2.

yng Nghymru â'i gilydd ac oddi fewn i Gyngor Eglwysi Cymru.'[1] Byddai'r broses, felly, yn ystyried cydberthynas yr holl enwadau yn y gwledydd hyn â'i gilydd. Erbyn hyn hefyd 'roedd y broses wedi mabwysiadu teitl a oedd yn fynegiant o'r weledigaeth a'r deinamig y tu cefn iddi, sef, "Nid Dieithriaid ond Pererinion". Y tu cefn i'r teitl hwn 'roedd geiriau Paul yn Effesiaid 2: 19, 'Nid...dieithriaid ydych mwyach ond...aelodau o deulu Duw', a'r ymwybyddiaeth fod yr enwadau (ac eglwysi a Christnogion lleol yn ogystal), yn cychwyn ar `bererindod' o weddi, myfyrdod a chydweithio a fyddai'n eu galluogi i ddod i adnabyddiaeth lawnach o'i gilydd ac i fod yn bartneriaid. Byddai'r broses yn canolbwyntio ar dair agwedd. Gwahoddid cynulleidfaoedd lleol i ymuno â'i gilydd mewn cwrs ecwmenaidd yn ystod y Grawys 1986 o dan y teitl, "Beth yn y byd yw pwrpas yr Eglwys". Yn ôl Archesgob Caergaint, Robert Runcie, 'roedd y broses leol hon yn hollbwysig:

> 'Instead of the hierarchies passing things down, this time we are trying it the proper way round - the local debate will be fed into the national reflection and discussion'[2]

Casglwyd canlyniadau'r Cwrs Grawys 1986 yn y llyfr, *Views from the Pews (Lent '86 and local ecumenism)*.

Yna, gwahoddwyd enwadau ac eglwysi i ymateb i'r cwestiwn a oedd yn ganolog i'r holl broses,

> 'In your tradition and experience, how do you understand the nature and purpose of the Church (or Churches when the national body is a federation of local Churches) in relation to other Christian denominations and as we share in God's mission to the world?'[3]

---

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 2 Tachwedd 1985, tud. 1.

2. Views from the Pews, tud. v; cyhoeddwyd gan Gyngor Eglwysi Prydain a'r Catholic Truth Society, 1986.

3. Reflections, tud. v; cyhoeddwyd gan Gyngor Eglwysi Prydain a'r Catholic Truth Society, 1986.

Argraffwyd ymatebion oddi wrth 26 enwad ym Mhrydain yn *Reflections: How churches view their life and mission*.

Yn olaf, gwahoddwyd yr eglwysi a'r enwadau i gyfres o gynadleddau cenedlaethol yn Nottingham, Bangor a St. Andrews yn ystod mis Mawrth 1987 a chynhadledd i'r holl enwadau ac eglwysi yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon a gynhaliwyd yn Swanwick, Swydd Derby, ym Medi 1987. Byddai'r rhain yn llunio argymhellion pendant am batrymau cydeglwysig i'r gwledydd hyn i'w cyflwyno i'r eglwysi a'r enwadau yn ystod 1988 ac 1989.[1]

Ochr yn ochr â'r Broses Ryng-Eglwysig Brydeinig cychwynwyd adolygiad penodol Gymreig. Yn ei gyfarfod blynyddol ar 1 Tachwedd 1986 derbyniodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Gwaith fod yr eglwysi a'r enwadau a oedd yn aelodau llawn o'r Cyngor, yr Eglwys Gatholig Rufeinig a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, yn ogystal â Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, yn ymgymryd â phroses ymgynghorol gyda'r bwriad o 'ddiffinio blaenoriaethau ecwmenaidd yng Nghymru', datblygu peirianwaith a chyllid addas, a dwyn adroddiad erbyn Ionawr 1988.[2]

Tarddodd yr argymhelliad hwn yn bennaf o drafodaeth â swyddogion yr Eglwys yng Nghymru - a gytunodd yn nes ymlaen i gyfrannu £4,000 tuag at ariannu'r broses ymgynghorol hon yng Nghymru, ar y cyd ag enwadau eraill. Byddai'n ystyried dau ddatblygiad sylfaenol, sef, effaith y Cyfamod ar flaenoriaethau a phatrymau ecwmenaidd yng Nghymru a'r argymhellion a ddeuai drwy'r Broses Ryng-Eglwysig, Nid Dieithriaid ond Pererinion. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith fis yn ddiweddar-

---

1. Am ddadansoddiad cyflawn o'r Broses Ryng-Eglwysig yn y dair agwedd hon gweler Pennod 17, tud. ? ymlaen.

2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 1 Tachwedd 1986, tud. 3.

ach cytunwyd ar batrwm gwaith. Rhagwelwyd y byddai adroddiad cynhadledd Swanwick (ym Medi 1987) ar gael erbyn Hydref 1987, ac y byddai'n cynnwys argymhellion ar gyfer patrymau ecwmenaidd yn y gwledydd hyn i'r dyfodol. Byddai'r enwadau a'r eglwysi'n ymateb i'r adroddiad erbyn canol 1988. Felly, byddai'n rhaid i'r broses ymgynghorol yng Nghymru barhau tan ddiwedd 1988 er mwyn medru asesu'r ymatebion hyn a dwyn adroddiad terfynol i'r Cyngor a'r eglwysi erbyn Ionawr 1989, i'w gweithredu pe derbynid hwy, ym 1990.[1] Nid oedd holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn sicr fod angen proses mor gostus â hyn 'gan ein bod yn gwybod yn barod beth yw ein blaenoriaethau...diffyg arian (yw) ein problem'[2] Mewn trafodaeth ar y broses hon yng nghyrfarfod dilynol y Pwyllgor Gwaith nododd yr Ysgrifennydd Cyffredinol beth fyddai arwyddocâd y broses hon i ddyfodol y Cyngor. (Dylid nodi mai siarad am 'ddyfodol y Cyngor' a wnaed hyd yma, gan na ragwelwyd eto ddifodiant y Cyngor a ffurfio corff newydd).

> "Roedd yn bwysig ein bod yn holi sut mae cynorthwyo eraill i rannu yn y mudiad ecwmenaidd ehangach, yn fwyaf arbennig, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr Eglwysi Efengylaidd a'r Eglwysi Duon. Sut y gallwn yn benodol hybu undeb? 'Roedd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol wedi penderfynu eisoes y byddai angen ei staff ei hunan arno yn y dyfodol. Sut y gallwn ni fel Cyngor fod yn arwydd ac offeryn undeb? Byddai angen ystyried blaenoriaethau..mewn cenhadaeth,..materion cymdeithasol..a chyfathrebu. Beth fydd arwyddocâd Cynhadledd Bangor *(ar "Nid Dieithriaid ond Pererinion")* i strwythur, staffio etc. Cyngor Eglwysi Cymru?'[3]

Hysbyswyd Pwyllgor Gwaith y Cyngor ar 7 Medi 1987 y penodwyd George Noakes, Archesgob Cymru, yn gadeirydd y gweithgor a Bill Sewell, Swyddog Ecwmenaidd Talaith Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, yn ysgrifennydd. Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 21 Tachwedd 1987. Ffurfiwyd tri gweithgor bychan, o blith yr aelodau, ar ecwmeniaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol yng

---

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 8 Rhagfyr 1986, tud. 4.
2. ibid.
3. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 2 Mawrth 1987, tud. 5.

Nghymru. Cyflwynwyd ei adroddiad i'r eglwysi a'r enwadau yn ystod 1988, a gwahoddwyd eu hymateb i'r argymellion cyntaf hyn. Ym Mehefin 1989 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Pwyllgor Comisiynu Cytûn, dan gadeiryddiaeth Patrick Coyle, un o leygwyr amlwg yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Y Pwyllgor hwn a luniodd gyfansoddiad a strwythur Cytûn, yn ogystal â phenodi'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf (sef, Noel A. Davies) a chynllunio gwasanaeth sefydlu Cytûn a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 1 Medi 1990.

Wrth edrych yn ôl ar yr adolygiadau hyn dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain a mwy gellid barnu fod y Cyngor wedi pryderu yn ormodol am flaenoriaethau a strwythur a threfn, a hynny, ar brydiau, ar draul gweithredu'n effeithiol i gyflawni, mewn partneriaeth â'r eglwysi a'r enwadau, yn lleol a chenedlaethol, y weledigaeth ecwmenaidd a roddodd fod iddo ym 1956. Nid oes amheuaeth nad oes cryn egni wedi ei dreulio gan nifer o bobl mewn adolygiadau o'r fath. Ar y cyfan adwaith oedd hyn i rwystredigaeth pobl o ymrwymiad a oedd yn ymdeimlo'n ddwfn â her y weledigaeth ecwmenaidd ac â'r angen am geisio'i chyflawni ymhlith yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru, ond a sylweddolent nad oedd gan y Cyngor adnoddau digonol, mewn pobl na chyllid, ar gyfer hynny. Ymdrech ddygn a phoenus, yn aml, a fu'r adolygu cyson i geisio darganfod ffyrdd i effeithioli gwaith y Cyngor gyda'r adnoddau prin a oedd at ei alwad. Poenai llawer oddi fewn i'r Cyngor nad oedd yn bosibl ar y pryd i weithredu, er enghraifft, yr argymhellion a wnaed o bryd i'w gilydd am gael ysgrifennydd llawn amser, gan iddynt farnu fod angen gwasanaeth o'r fath.

Ond y mae'r adolygu hyn yn datgelu fod egwyddorion pwysig eraill ar waith hefyd. Cred sylfaenol y mudiad ecwmenaidd ar hyd y ganrif hon yw fod Dduw yn galw ei bobl ym mhob gwlad ac ar draws y gwledydd "i fod yn un" (Ioan 17:21) ac mai tasg ganolog Cyngor Eglwysi yw bod yn offeryn yn llaw Duw i alluogi'r eglwysi a'r enwadau i ymgyrraedd at y nod hwn. Felly, nid corff gyda strwythur statig, digyf-

newid a ddylai fod ond offeryn deinamig sydd yn medru newid ei batrymau a'i flaenoriaethau er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i ofynion galwad Duw i'r eglwysi y mae'n eu gwasanaethu. Y mae Cyngor cenedlaethol - yn wir, pob eglwys - yn bod ac yn gweithredu mewn lle ac ar amser arbennig, a rhaid iddo fod yn hyblyg er mwyn ymateb yn greadigol i her ei sefyllfa. Nid ceisio ymateb i broblemau ac argyfyngau ymarferol yn unig a wnaeth y Cyngor ond ceisio ystyried beth oedd goblygiadau ymarferol y sylfeini diwinyddol yr adeiladwyd y Cyngor arnynt.

Canlyniad y cyfan hyn oedd tyfiant cyson yng ngwaith y Cyngor a chynnydd adnoddau a oedd yn angenrheidiol i'w gyflawni'n effeithiol. Perygl cynnydd mewn gwaith ac, i raddau, mewn adnoddau hefyd, oedd fod rhai yn ofni y gallai ddatblygu i fod yn "archeglwys", yn eglwys ochr yn ochr â'r eglwysi a'r enwadau, yn hytrach nag yn was yr eglwysi. Sefydlwyd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, yn rhannol o leiaf, er mwyn osgoi'r perygl hwn a chreu corff ecwmenaidd a fyddai'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf nid i gyflawni'r alwad ecwmenaidd ei hunan ond i alluogi'r eglwysi i fod yn bartneriaid dyfnach a mwy effeithiol â'i gilydd mewn ffydd, addoliad, tystiolaeth a gwasanaeth.

(1) Atodiad A i Agenda Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, 28 - 30 Medi 1955.

ATODIAD

Y SEFYLLFA ARIANNOL

Ymddengys mai ychydig o ystyriaeth a roddwyd i faterion ariannol gan y Cyngor ei hun yn ystod y blynyddoedd cynnar gan nad yw'r cofnodion yn sôn nemor ddim am arian. Y mae'n amlwg fodd bynnag mai cyllideb fechan iawn a oedd ganddo ac nad oedd obaith am newid hynny. Dro ar ôl tro, fel y gwelwyd ym mhennod 1, mynegwyd awydd am gael swyddog cyflogedig i'r Cyngor ond nid oedd adnoddau ariannol yn caniatáu hynny. Ni theimlwyd ychwaith y byddai'r enwadau'n medru gwneud cyfraniadau ychwanegol.

Y trobwynt oedd y Cyfamod tuag at Undeb Gweledig yng Nghymru. Teimlai'r pum enwad a wnaeth gyfamod â'i gilydd ym 1975 fod eu hymrwymiad i undeb â'i gilydd gyfryw ag i'w galluogi i ddyblu eu cyfraniadau ariannol (ar gyfartaledd) er mwyn sicrhau ysgrifenyddiaeth ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.

Ym 1974 - 75 cyfrannodd yr enwadau gyfanswm o £920. Cyfrannwyd £220 gan yr Eglwys yng Nghymru, £200 gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, £150 gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, £130 gan Undeb Bedyddwyr Cymru, £120 gan yr Eglwys Fethodistaidd, £60 gan Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon a £40 gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Yn yr un flwyddyn derbyniwyd £205.55 gan Gyfeillion Cyngor Eglwysi Cymru. 'Roedd cyfanswm yr incwm yn ystod y flwyddyn yn £1980.10 a chyfanswm gwariant yn £1335.97. Ar ddiwedd y flwyddyn (Medi 1975) 'roedd swm o £590.39 yn cael ei gadw gan y Cyngor yn enw'r Cydbwyllgor Cyfamodi[1]. Ni newidiwyd y graddfyedd cyfrannu yn y flwyddyn ganlynol, pan dderbyniwyd £985 gan yr enwadau a £114.85 gan y Cyfeillion. Derbyniwyd cyfanswm o £1465.99 a gwariwyd £1862.85.

--------------------

1. Adroddiad Blynyddol Cyngor Eglwysi Cymru 1975 - 76

Gwelodd y flwyddyn ganlynol (1976 - 77) newid dramatig, gan mai'r bwriad oedd penodi Ysgrifennydd cyffredinol llawn-amser yn ystod y flwyddyn. Felly, 'roedd cyfanswm y cyfraniadau enwadol yn £7930. Cyfrannwyd £3000 gan yr Eglwys yng Nghymru, £2700 gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, £750 gan yr Eglwys Fethodistaidd, £400 gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a £240 ar ran eglwysi cyfamodol Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon, (sef, y pump enwad cyfamodol). Cyfranwyd £400 gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, £210 gan Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon, £130 gan Undeb Bedyddwyr Cymru (mewn gwirionedd cyfraniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd hwn), a £100 gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Mewn gwirionedd, cyfran fechan o'r incwm hwn a ddefnyddiwyd ar gyfer y swydd newydd gan na fu i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gychwyn tan fis Gorffennaf 1977. Canlyniad hyn oedd gweddill o £6115.18 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Parhaodd y cyfraniadau ar yr un raddfa tan 1978 - 79, gyda chyfanswm cyfraniadau'r enwadau yn £8200 yn ystod y flwyddyn honno. Erbyn hyn 'roedd cyflog yr Ysgrifennydd yn £2765 a chostau eraill y swydd yn £1792.59. Yn ystod 1978 sefydlwyd swyddfa'r Cyngor yn Nhŷ John Penry yn Abertawe am gost o £369.39 yn ystod 1978 - 79. Felly, 'roedd gwariant y Cyngor yn £8287.11 yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â £1862.85 ym 1975 - 76. Erbyn y flwyddyn ganlynol 'roedd y gwariant wedi cynyddu i £12,132.12, heb unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau. Dechreuwyd gweld arwyddion argyfwng ariannol. Tarddodd yn bennaf o fethiant i ragweld y byddai penodi Ysgrifennydd Cyffredinol llawn-amser nid yn unig yn gofyn am adnoddau i gynnal y swydd ei hun ond y byddai'r swydd yn creu gweithgarwch ychwanegol (wedi'r cyfan, dyna oedd amcan y swydd) a fyddai'n golygu costau ychwanegol. Felly, gan na wnaed unrhyw gais am gyfraniadau uwch ers 1976 - 77, cytunwyd i ofyn i'r enwadau am gynnydd o 25% ar gyfer blynyddoedd 1980 - 81 a 1981 - 82.

Ar waethaf y cynnydd hwn, dwysáu a wnaeth yr argyfwng ariannol. Yn ei gyfarfod ym Mawrth 1982 daeth y Pwyllgor Gwaith i'r casgliad 'na fyddai'n bosibl gwneud

gostyngiad sylweddol yng ngwariant y Cyngor heb amharu ar effeithiolrwydd y gwaith. Yn y pen draw, nid arian oedd yn bwysig ond dilysrwydd y gwasanaeth y byddai'r Cyngor yn ei gyflwyno i'r eglwysi.'[1]

Ceisiwyd ymateb i'r argyfwng drwy dderbyn argymhelliad yr Ysgrifennydd Cyffredinol i gynnal Ymgynghoriad Ariannol i'r enwadau. Cynhaliwyd y cyntaf ar 15 Mehefin 1982 ac un arall ar 9 Medi 1982. Am y tro cyntaf, lluniwyd cyllideb incwm a gwariant er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa ariannol yn fwy effeithiol. Cyflwynwyd cyllideb tair blynedd (1982 - 85) i'r enwadau a sicrhawyd 'ymateb calonogol oddi wrth yr eglwysi.'[2] Derbyniwyd £16,200 mewn cyfaniadau am y flwyddyn 1982 - 83, a hynny erbyn diwedd 1982. Dyma fu'r patrwm am rai blynyddoedd wedyn, ymgynghoriad blynyddol a oedd yn rhoi cyfle i swyddogion enwadol ystyried gweithgarwch a gofynion ariannol y Cyngor. Barnodd cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 20 Hydref 1983 fod y sefyllfa ariannol 'ar dir llawer mwy diogel erbyn hyn nag y bu dros y blynyddoedd diwethaf...Bu'r ymgynghoriad blynyddol...yn fodd tra gwerthfawr o sicrhau cyd-ddealltwriaeth gwell rhwng y Cyngor a'r Eglwysi' ar faterion ariannol.

Erbyn 1985, gwelwyd y byddai angen cynnydd pellach mewn cyfraniadau, yn bennaf i gwrdd â chostau Gŵyl Teulu Duw, a oedd i'w chynnal ar 24 Mai 1986. Cafwyd benthyciadau tuag at hyn gan yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Eglwys Fethodistaidd. 'Roedd yn gyfnod o gynnydd pellach yng ngweithgarwch y Cyngor (a chyflogwyd Wendy Richards yn llawn amser, er mwyn cyfarfod â'r gofynion gweinyddol.) Ym 1985 - 86 'roedd cyfanswm yr incwm o'r enwadau yn £25,585 a golygodd hyn fod £4000 yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Bu Gŵyl Teulu Duw yn llwyddiant ariannol a gwnaed elw o £2174.

---

1. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 18 Mawrth 1982.
2. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 9 Rhagfyr 1982)

Yng nghyfarfod y Cyngor yn Nhachwedd 1996 cytunwyd i sefydlu Pwyllgor Ariannol (i gymryd lle'r ymgynghoriad ariannol blynyddol) gydag un cynrychiolydd o bob enwad. Penodwyd David McIntyre, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys yng Nghymru, yn Gadeirydd ac Alun Creunant Davies (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yn Is-gadeirydd.

Yn ystod y deng mlynedd o 1977 i 1987 gwnaed ymdrechion i gryfhau cefnogaeth y Cyfeillion i gyllid Cyngor Eglwysi Cymru. Cytunodd Mrs. J.T. Morgan (gwraig Gristnogol elusengar a hael yn Abertawe) i fod yn Gadeirydd y Cyfeillion ac awgrymodd fod y Cyfeillion yn anelu at greu gronfa o filiwn o bunnoedd i fod yn gefn ariannol i'r Cyngor. Cytunodd y mwyafrif yn y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor 'y byddai'n annerbyniol rhoi unrhyw rwystr ar y cynllun a'r weledigaeth yma' er bod Ysgrifennydd Cyffredinol newydd y Cyngor wedi rhybuddio fod anelu at swm o'r fath yn hollol afrealistig ac yn annhebygol o lwyddo! Llwyddwyd i sicrhau rhai cyfraniadau ac ym 1983 penodwyd John Donovan i weithio ymhlith ieuenctid di-waith o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Diwydiant. Gwnaethpwyd cyfraniadau eraill o bryd i'w gilydd at brosiectau a oedd yn ychwanegol at y rhaglen waith arferol. Bu hyn yn arbennig o wir o dan gadeiryddiaeth yr Anrhydeddus Antony Lewis (olynydd Mrs. J.T. Morgan fel Cadeirydd y Cyfeillion) a deimlai'n gryf iawn mai unig swydd-ogaeth y Cyfeillion oedd bod yn gefn i'r Cyngor yn y modd a oedd o'r budd mwyaf i'r Cyngor. Ar un olwg methiant a fu ymdrechion digon diffuant Mrs. J. T. Morgan ond dylid gwerthfawrogi fod cyfraniadau achlysurol y Cyfeillion wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni rhai pethau na fyddai wedi digwydd oni bai am y cymorth hwn.

Ym 1986 aed ati i gynllunio apêl ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Cyfeillion. Cafodd ei lawnsio yng Ngŵyl Teulu Duw a'r nod oedd casglu £100,000. Penodwyd Louise Rees i fod yn Swyddog Apel a byddai'r gyfrifol am sicrhau cyllid digonol i gynnal y swydd ac i hyrwyddo cyhoeddusrwydd am yr apêl. Nid oedd pawb yn y Cyngor yn

hapus ynglŷn â phenodiad o'r fath. Mynegwyd gofid gan y Pwyllgor Gwaith ym Medi 1986 fod y Swyddog Apel yn derbyn cyflog o £7500, a oedd yn uwch na chyflog yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar y pryd, a gofynnwyd i Lywydd y Cyngor gael gair â Chadeirydd y Cyfellion am y mater. Ychydig o fisoedd yn unig y bu yn ei swydd cyn gadael am swydd arall. Ni phenodwyd unrhyw un yn ei lle ac unwaith eto ni fu'r apêl yn llwyddiannus ac ni ddaethpwyd yn agos at gyrraedd y nod.

Ym Mawrth 1987 bu'n rhaid ystyried eto ddyfodol y Cyfeillion. Wedi trafodaeth â'r Cadeirydd cytunodd y Pwyllgor Gwaith mai cyfrifoldeb yr enwadau oedd gosod agenda'r Cyngor a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer y gwaith a bod angen dull newydd o gefnogi'r Cyngor yn ariannol gan roi mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb yr enwadau. Cymeradwywyd felly fod y Cyfeillion yn peidio â bod a'r cyfrifoldeb ariannol yn disgyn yn gyfan gwbl ar ysgwyddau'r enwadau, a hynny gyda chydsyniad parod Cadeirydd y Cyfeillion. 'Roedd rhai miloedd wedi eu casglu gan y Cyfeillion a buont yn hael iawn o bryd i'w gilydd - yn fwyaf arbennig o dan ddylanwad y Cadeirydd, Antony Lewis, yn eu cefnogaeth nid yn unig i brosiectau arbennig ond i gyllid cyffredinol y Cyngor pan wynebai argyfwng. Rhoddodd nifer o bobl gryn egni ac amser yng ngwasanaeth y Cyfeillion. Tristwch iddynt hwy fu methiant y ddwy apêl arbennig a wnaed. Ond drwy'r profiad hwn dysgwyd gwers a oedd yn ganolog nid yn unig i Gyngor Eglwysi Cymru ond hefyd i unrhyw gorff cydeglwysig cenedlaethol (neu ryng-genedlaethol, o ran hynny) sef, bod Cyngor Eglwysi yn llwyddo i'r graddau y mae'r eglwysi a'r enwadau sy'n aelodau ohono yn gosod y cyfeiriad i'r rhaglen waith, yn perchnogi'r gweithgarwch ac yn fodlon talu amdano. Y mae'r cyd-ddibyniaeth hwn rhwng y Cyngor a'r enwadau yn elfen anhepgor o'r bartneriaeth. 'Roedd dysgu'r wers hon yn holl-bwysig wrth i'r Cyngor wynebu ei argyfwng ariannol olaf yn ystod cyfnod diwethaf ei fodolaeth.

Rhoddwyd y rhybuddion cyntaf am yr argyfwng hwn ym Medi 1987. 'Roedd gorwariant o £4500 yn debygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol a diffyg

o £10,900 yn debygol erbyn diwedd y flwyddyn ddilynol. Gwnaed toriadau o £8000 yn y gyllideb gwariant (yn cynnwys gostyngiad o £3000 yn y blaendal i Wyl Teulu Duw 1990 - cyfraniad o £1000 yn unig) a chroesawyd cyfraniad o £2000 i'r Cyngor o gronfa'r Cyfeillion. Cytunwyd i ofyn am gynnydd o 5% yng nghyfraniadau enwadol 1988 - 89, cyfanswm o £32,910 (a'r Eglwys yng Nghymru, yr enwad mwyaf o ran rhif aelodaeth, yn cyfrannu £15,475, sef, 47%). Derbyniwyd cyllideb gwariant a oedd yn cynnwys gorwariant o £2650, yn y gred y byddai unrhyw leihad pellach yn y ffigur hwn yn golygu toriadau difrifol yng ngweithgarwch y Cyngor. '...Gofynnir i'r eglwysi wneud cyfraniadau perthynol i'r gofynion hyn - sydd eisoes yn doriad sylweddol ar y lefel bresennol o wariant...'[1]

Nid oedd y sefyllfa wedi gwella dim erbyn Medi 1988. Yn ôl David McIntyre, Cadeirydd y Pwyllgor Arian,

> 'There are no reserves and there is a budget deficit, in addition to a current overdraft. There is a shortfall of receipts as compared with the amounts requested from the churches...Therefore, either there must be a major change of policy or there must be an increase of contributions to cover the deficit. There could not be a curtailment but nor could there be any new expenditure.'[2]

Yn wyneb y sefyllfa hon, gwnaed nifer o benderfyniadau polisi, yn cynnwys sicrhau fod Gŵyl Teulu Duw 1990 yn hunangynhaliol, trefnu fod dirprwyaeth yn ymweld â phob enwad i gymell cyfraniadau arbennig, gwrthod caniatáu unrhyw wariant a fyddai'n ychwanegol i'r gyllideb a chyfuno swyddi Cadeirydd y Pwyllgor Arian a Thrysorydd y Cyngor, a gwneud apêl am gyfraniadau o £50 oddi wrth gynghorau eglwysi lleol a oedd yn gysylltiedig â'r Cyngor. Erbyn Mawrth 1989 'roedd y swyddogion, yn cynnwys ym mhob achos Gadeirydd y Pwyllgor Arian a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, wedi ymweld â'r enwadau, oedd wedi addo cyfraniadau ariannol ychwanegol arbennig. Croesawyd hyn yn fawr gan fod y Cyngor yn awyddus i

--------------------

1. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 7 Rhagfyr 1987
2. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 5 Medi 1988

beidio â throsglwyddo colled ariannol i'r corff ecwmenaidd newydd. Erbyn Mawrth 1990, 'roedd £16,346 wedi ei dderbyn mewn ymateb i'r apêl ac amcangyfrifwyd y byddai £28,675 yn weddill yng nghronfa'r Cyngor ar 31 Awst 1990, pan ddeuai i ben, yn cynnwys bron £1500 a dderbyniwyd yn rhoddion gan gynghorau eglwysi lleol. Cytunwyd ar wariant o £8000 ar offer a chelfi swyddfa, er mwyn sicrhau'r cyfleusterau gorau ar gychwyn Cytûn. Byddai hyn yn gadael £20,000 a budd-soddwyd y swm hwn ar gyfer Cytûn.[1]

Drwy'r ymdrech arbennig olaf hon, gosodwyd sylfaen ariannol gadarn i Cytûn na fu gan Gyngor Eglwysi Cymru ar unrhyw adeg o'i fodolaeth. I David McIntyre y mae'r diolch pennaf am yr ymdrech lwyddiannus hon. Ei ddylanwad ef a sicrhaodd ymateb hael yr enwadau. Tasg ddiddiolch a fu trysoryddiaeth y Cyngor ar hyd y blynyddoedd. Fe'i gwasanaethwyd gydag ymrwymiad a graen gan bum trysorydd, T.I. Ellis, Alun Roberts, John Rowley, Carol Abel a David McIntyre a bu'n rhaid i bob un ohonynt ymgodymu â phrinder adnoddau a cheisio creu sylfaen ariannol gadarnach.

Yn ystod y cyfnod olaf hwn daeth yr enwadau i sylweddoli o'r newydd, yn fwyaf arbennig drwy'r Broses Ryngeglwysg a arweiniodd at ffurfio Cytûn, fod eu partneriaeth â'i gilydd drwy'r Cyngor yn ganolog iddynt a'i bod yn holl bwysig eu bod yn diogelu adnoddau digonol ar gyfer Cytûn, rhag i'r offeryn ecwmenaidd newydd yng Nghymru - a fyddai'n fynegiant newydd o'u partneriaeth â'i gilydd - gael ei lesteirio gan argyfyngau ariannol cyffelyb i'r rhai a wynebodd y Cyngor ar hyd y blynyddoedd.

---

1. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 5 Mawrth 1990

## PENNOD 2

## YR YMGAIS AM UNDEB CRISTNOGOL YNG NGHYMRU: Y DECHREUADAU[1]

'Roedd yr ymgais am undod ac undeb Cristnogol yn elfen ganolog a sylfaenol o waith a chynnyrch Cymanfa Gyntaf Cyngor Eglwysi'r Byd yn Amsterdam ym 1948. Neilltuwyd y rhan helaethaf o adroddiad yr Adran gyntaf ar 'Yr Eglwys Fyd-eang yng Nghynllun Duw' i ystyried natur y gwahaniaethau rhwng yr enwadau a'r eglwysi a ddaethant ynghyd i sefydlu'r Cyngor a natur a her yr undod a roddwyd gan Dduw ac a osodwyd yn un o brif amcanion y Cyngor:

> 'The World Council of Churches has come into existence because we have already recognised a responsibility to one another's churches in our Lord Jesus Christ. There is but one Lord and one Body. Therefore we cannot rest content with our present divisions. Before God, we are responsible for one another.'[2]

Gan fod Cymanfa Amsterdam wedi bod yn un o'r prif gymhellion dros ffurfio Cyngor Eglwysi Cymru, 'roedd yn naturiol fod yr ymgais am undeb Cristnogol wedi bod yn elfen ganolog yn y dylanwadau a arweiniodd at ei ffurfio. Er enghraifft, gwelai Huw Wynne Griffith, golygydd Yr Efrydydd, y gallai ffurfio'r Cyngor 'gychwyn pennod newydd yn hanes crefyddol ein gwlad, pan baid yr eglwysi i edrych yn ddrwgdybus ar ei gilydd ond pan edrychant yn hytrach gyda'i gilydd at yr Un Arglwydd a chyda'u Harglwydd ar y byd.'[3] Yn yr un modd, credai Alun W. Francis fod yr argyhoeddiad wedi tyfu dros y blynyddoedd '...fod angen gwirioned-

--------------------

1. Y mae cryn amrywiaeth yn y dogfennau mewn perthynas â'r defnydd o'r geiriau 'undod' ac 'undeb'. Tra bo'r dyfyniadau yn y bennod hon yn adlewyrchu'r amrywiaeth a'r anghysondeb hwn, yn gyffredinol defnyddir 'undod' i olygu'r ymdrech dros hybu cydweithio, cydberthynas a phartneriaeth rhwng Cristnogion ym mhob agwedd o'u bywyd, ac 'undeb' i olygu undeb organaidd, sefydliadol rhwng enwadau ac eglwysi a'i gilydd. Yn gyffredinol, felly, y mae 'undod' yn cyfieithu 'unity' ac 'undeb' yn cyfieithu 'union', yn unol â Geiriadur yr Academi (1995).

2. The First Assembly of the World Council of Churches, *The Official Report*, WCC, 1949, tud. 57.

3. Yr Efrydydd, Tachwedd 1955, Cyfrol 5, Rhif 2 (y rhifyn olaf), tud. 73.

dol yng Nghymru gyfoes am adundeb crefyddol'.[1] Mewn erthygl sy'n gwneud arolwg o ddatblygiad y mudiad ecwmenaidd cyfoes y mae J. Alwyn Charles yn dod i'r casgliad (ar sail Cynhadledd Caeredin ym 1910 a'r undeb eglwysig a ddigwyddodd yng ngwledydd y Dwyrain) 'na ellid deall [y mudiad ecwmenaidd] ond yn nhermau cyfrifoldeb yr Eglwys Gristnogol dros y gymdeithas baganaidd'.[2] O ganlyniad y mae'n pwyso am i'r ymgais am undeb Cristnogol yng Nghymru roi blaenoriaeth i 'ymgodymu â'r gwahanol safbwyntiau yn ein plith ar [natur cyfrifoldeb yr eglwys dros y gymdeithas baganaidd]' ac yn awgrymu y gallai'r deffroad cenedlaethol yng Nghymru 'fod yn fan cychwyn i ni sicrhau mesur o undod eglwysig...[gan fod] ecwmeniaeth yn golygu rhywbeth llawer mwy nag ymgais i ddod â sefydliadau fel y cyfryw at ei gilydd'.

Yn rhifyn Chwefror 1954 o'r Dysgedydd y mae trafodaeth rhwng Erastus Jones a Leonard Hugh ar y mudiad ecwmenaidd. Y mae'r naill a'r llall yn gefnogol iawn i'w amcanion, yn croesawu'n frwd ffurfio Cyngor Eglwysi'r Byd ac yn gweld ynddo gyfraniad pwysig at dystiolaeth yr eglwysi ym myd y bom-H. Ond y mae gwahaniaeth barn rhyngddynt ar ddyfodol enwadau, fel y cyfryw, ac ar natur undeb eglwysig. Y mae Erastus Jones yn cymell fod pob enwad yn wynebu ei dranc ei hun er mwyn bod yn rhan 'organig o uned eglwysig newydd ac ehangach.' Ar y llaw arall, nid yw Leonard Hugh yn awyddus i 'ddileu'r enwadau fel y cyfryw, oblegid fel cyfryngau'r gwirionedd, y mae eu gwerth yn amhrisiadwy a'u harwyddocâd yn dragwyddol...'[3]

Pan gyfarfu Cyngor Eglwysi Cymru am y tro cyntaf ym Mai 1956 cyflwynodd neges i eglwysi Cymru a oedd yn pwysleisio'r agwedd hon o'r ymrwymiad ecwme-

--------------------

1. Yr Eurgrawn, 1957, tud. 92.
2. Y Dysgedydd, Tachwedd 1954, Cyfrol 134, Rhifyn 11, tud. 274 ymlaen.
3. Y Dysgedydd, Chwefror 1955, Cyfrol 135, Rhifyn 2, tudalennau 26 ymlaen.

naidd:

> 'We would affirm our conviction that the unity of the church on which our faith and hope are set, is grounded in the unity of God and the uniqueness of his redeeming act in Jesus Christ...We trust that the Council of Churches for Wales may prove to be an effective means whereby the churches in Wales may bear witness together to their common allegiance to Jesus Christ and to co-operate in matters requiring united action'.[1]

Yn y blynyddoedd dilynol rhoddwyd cryn egni i'r ymgais am undod Cristnogol ymhlith eglwysi ac enwadau Cymru. Aeth y trafodaethau rhwng yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Fethodistaidd, cynllun y pedwar enwad *Tuag at Uno*, ac yn dilyn cynhadleddau 1963 ac 1964, y broses tuag at gyfamodi am undeb, â chryn amser mewn pwyllgorau a llysoedd enwadol. Yn ystod y 50au a'r 60au, y mae'n anodd meddwl am unrhyw bwnc a gafodd fwy o sylw yn y cylchgronau enwadol. Er enghraifft, yn *Y Dysgedydd*, cylchgrawn Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, cafwyd erthyglau ar bynciau yn ymwneud ag undod ac undeb Cristnogol mewn rhifyn ar ôl rhifyn o 1954 tan iddo ddirwyn i ben ym 1968 pan gyfunwyd *Y Drysorfa* a'r *Dysgedydd* i ffurfio *Porfeydd*, a barhaodd yr arfer yn ystod y 70au.

Cyhoeddwyd amlinelliad o'r cynllun i uno'r pedwar enwad Cymraeg, *Tuag at Undeb,* ym 1963 a'r Cynllun llawn ym 1965, gan ofyn i'r enwadau gyflwyno'u hymatebion cyn diwedd 1967. Bu cryn werthu ar y cyhoeddiadau hyn a chryn drafod arnynt, gyda llawer o'r erthyglau yn y cylchgronau enwadol yn dadansoddi'r Cynllun. Daw Meirion Lloyd Davies i'r casgliad 'fod pob brwdfrydedd wedi diflannu [erbyn 1967] a bod cred gyffredinol nad oedd dyfodol i'r Cynllun'.[2] Er bod tri o'r enwadau wedi ymateb yn gadarnhaol, yr oedd yn amlwg erbyn diwedd 1968 nad oedd modd parhau gyda'r cynllun. Ffurfiwyd gweithgorau i roddi ystyriaeth frys i rai pynciau dadleuol, a chyhoeddwyd adroddiad o'u gwaith ond nid oes unrhyw

--------------------

1. Cofnodion y Cyngor, 24 Mai 1956.

2. Gwarchod y Gair, Cyfrol Goffa y Parchedig G.T.Roberts, Gol. Owen E. Evans, Gwasg Gee, 1993, tud. 185.

gofnod o ymatebion enwadol nac o benderfyniad i ddirwyn Pwyllgor y Pedwar Enwad i ben, ond dyna a ddigwyddodd. Daw Meirion Lloyd Davies i'r casgliad 'fod y diffyg brwdfrydedd ynglŷn â'r Cynllun a'r ffaith bod trafodaethau eraill yn mynd ymlaen[1] wedi peri fod y Pwyllgor yn ystyried nad oedd bwrpas mewn cyfarfod'.[2]

**DELHI NEWYDD, NOTTINGHAM A CHAERFYRDDIN**

Yn y cyfamser, bu ffactorau byd-eang a Phrydeinig ar waith. Ym 1961 cytunodd Trydedd Cymanfa Cyngor Eglwysi Byd yn Delhi Newydd ar ddatganiad a fu'n ffurfiannol mewn perthynas â dealltwriaeth o natur 'yr undeb a geisiwn':

> 'Credwn fod yr undeb sy'n ewyllys ac yn rhodd Duw i'w Eglwys yn dod yn weladwy fel y mae pawb ymhob lle, a fedyddiwyd i Iesu Grist gan ei gyffesu Ef yn Arglwydd a Gwaredwr, yn cael eu dwyn gan yr Ysbryd Glân i un gymdeithas gwbl ymroddedig, yn dal yr un ffydd apostolaidd, yn pregethu'r un Efengyl, yn torri'r un bara, yn ymuno mewn gweddi gyffredin, yn meddu bywyd cyffredin yn ymestyn allan mewn tystiolaeth a gwasanaeth i bawb, ac wedi ei huno ar yr un pryd â'r holl gymdeithas Gristionogol ymhob man ac ymhob oes, fel bod gweinidogaeth ac aelodau'n dderbyniol gan bawb, ac fel y gall pawb weithredu a llefaru ynghyd yn ôl y gofyn i wneud y gwaith y mae Duw yn galw Ei bobl i'w gyflawni'.[3]

Pan ddechreuwyd ystyried arwyddocâd y datganiad hwn i'r eglwysi ym Mhrydain fe ymdeimlwyd â hyder newydd, yn seiliedig yn rhannol o leiaf ar yr uniadau a ddigwyddodd yn India a mannau eraill. 'There is the real possibility of an "ecumenical breakthrough" in Britain in our time', meddai John Weller, Ysgrifennydd Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi Prydain.[4] O ganlyniad pan alwodd Cynhadledd Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd, ym Montreal ym 1963, ar i 'eglwysi'r byd ymuno â ni yn yr ymgais i ddarostwng y cyfan a olyga'n heglwysi, a'r cyfan a ddeallwn am

--------------------

1. Yn fwyaf arbennig trafodaethau mewn perthynas â chyfamodi yng Nghymru.

2. ibid., tud. 186.

3. *History of the Ecumenical Movement*, 1948-68, tud. 43. Cyfieithiad Cymraeg o'r Neges i Eglwysi Cymru o Gynhadledd Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi Cymru, Medi 1963, tud. 2.

4. Mewn papur i Bwyllgor Ffydd a threfn Cyngor Eglwysi Prydain, Ebrill 1962.

eraill, i ddedfryd Crist, ein Harglwydd ni oll'[1], aeth Cyngor Eglwysi Prydain ati i gynllunio proses o baratoi ar gyfer Cynhadledd Brydeinig ar Ffydd a Threfn ym 1964. Cytunodd Cyngor Eglwysi Cymru i rannu yn y broses hon trwy alw cynhadledd yng Nghymru ar y thema, 'Yr Undeb a Geisiwn'. Amcan y gynhadledd fyddai ystyried perthnasedd cynadleddau Delhi Newydd a Montreal i'r sefyllfa yng Nghymru a llunio argymhellion a fyddai yn her i Gymru ac yn gyfraniad tuag at yr ymchwil am undeb Cristnogol. 'Roedd y gynhadledd Gymreig hon yn baratoad hefyd ar gyfer y gynhadledd Brydeinig a oedd i'w chynnal yn Nottingham ym Medi 1964. Cytunodd Huw Wynne Griffith i fod yn ysgrifennydd y pwyllgor trefnu a neilltuwyd £400 ar ei chyfer ('which is considerably more than the annual budget of the Council').

Yn ystod y paratoadau rhoddwyd pwyslais arbennig ar weithgarwch lleol a sefydlwyd canolfannau trafod ym Mangor, Aberystwyth, Caerdydd, Abertawe a Wrecsam. Bu'r ymateb yn galonogol iawn, i bob golwg. Er enghraifft, daeth 45 ynghyd ym Mangor, 55 ym Mhorthmadog, 60 yn Llandudno, a'r nifer rhyfeddol o 300 yn Llangefni. Yn ardal Abertawe bu Canolfan Ecwmenaidd Blaendulais yn gyfrifol am y trefniadau. Ym mis Ionawr 1963 neilltuwyd cynhadledd flynyddol Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru i drafod y thema 'Yr Undeb a Geisiwn'.

Cynhaliwyd y gynhadledd Gymreig yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ar 9-13 Medi 1963 o dan gadeiryddiaeth Esgob Bangor, Gwilym O. Williams. Mabwysiadwyd yr un is-themâu ag i gynhadledd Nottingham, a defnyddiwyd yr un papurau trafod a'r un nodiadau ar gyfer astudiaethau Beiblaidd. Cyflwynwyd papurau ar yr is-themâu hyn gan Gwilym H. Jones ('Ewyllys a rhodd Duw'), John Rice Rowlands a Gwynfryn Richards ('Ei wneud yn weledig'), Trefor Parry a'r Brawd Gareth Grif-

--------------------

1. Neges i'r Eglwysi, Montreal 1963; gweler Neges i Eglwysi Cymru o Gynhadledd Caerfyrddin, 1963, tud. 1.

fith ('Pawb ymhob man'), John Bradley ac Erastus Jones ('Tystiolaeth a gwasanaeth i bawb') a Dewi O. Crewe a Trebor Mai Thomas ('Ymhob lle ac ymhob oes'). Gwahoddwyd y gwahanol draddodiadau a oedd yn aelodau o'r Cyngor i benodi 25 o gynrychiolwyr a gwahoddwyd yr Eglwys Gatholig Rufeinig a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion i benodi sylwedyddion. 'Roedd hyn yn sicrhau na fu achlysur mwy cynrychioliadol o'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru yn y cyfnod hwn a rhydd hyn arwyddocâd ecwmenaidd arbennig i brif gasgliadau'r Gynhadledd.

Y mae'r 'Neges i Eglwysi Cymru' a gyhoeddwyd gan y gynhadledd yn datgan mai 'wrth edrych ar Iesu, Pen yr Eglwys a'i chanolbwynt, ac wrth i'r Ysbryd Glân gymryd o'i eiddo a'i fynegi inni, y gallwn dyfu mewn undeb'.[1] Gwelwyd fod y gymdeithas a oedd eisoes yn bod rhwng yr eglwysi drwy Gyngor Eglwysi Cymru, Cyngor Eglwysi Prydain a Chyngor Eglwysi'r Byd yn arwydd

> 'ein bod oll yn ymrwymedig i'n gilydd ar bob lefel......daethom i sylweddoli y mesur helaeth o gytundeb sy'n bod yn awr ar faterion a rannodd ein heglwysi yn y gorffennol. Gwelsom yr un mor glir ynglŷn â materion eraill y bydd yn rhaid inni barhau mewn cyfathrach ffyddlon â'n gilydd nes dyfod i'r wybodaeth honno o'r gwirionedd a bair i'n hymraniadau ddiflannu...'[2]

Rhoddwyd sylw arbennig hefyd i ddwyieithrwydd a'i ddylanwad ar berthynas a chydweithio rhwng yr enwadau. Yng ngeiriau'r neges, 'Ni allwn ganiatáu i'r ddwy iaith rwystro cyfathrach rhwng Cristnogion a'i gilydd yng Nghymru a llesteirio twf undeb'. Ond sylweddolwyd hefyd 'fod cadw'r iaith hon yn rhan o gyfrifoldeb holl Gristnogion Cymru' ac 'y dylid cydnabod hawliau'r iaith yng ngwaith Cynghorau Eglwysig ar bob lefel'[3]

Gwelwyd yn ogystal fod cysylltiad sylfaenol rhwng undeb yr eglwys ac undeb y

--------------------

1. Cynhadledd Ffydd a Threfn, Caerfyrddin, Neges i'r Eglwysi, tud. 2
2. ibid. tud. 3
3. ibid. tud. 4

ddynolryw: 'ni all y byd ddarganfod rhyddid a chyfiawnder oni rydd yr holl Eglwys dystiolaeth lawn i Grist ar gyfer yr holl fywyd dynol ymhob man.....Fe'n gorfodir i amlygu undeb Ei Eglwys yn y byd'.[1]

Ond 'roedd perygl optimistiaeth hefyd a welai 'bod rhai o'n Heglwysi yn gallu rhagweld undeb â'i gilydd, a hynny mewn modd na fydd yn rhwystr i radd bellach o undeb'[2]. Ni wireddwyd hyn hyd yma heblaw am sefydlu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig ym 1972 o ganlyniad i undeb rhwng yr Eglwys Gynulleidfaol yn Lloegr a Chymru ac Eglwys Bresbyteraidd Lloegr (yr oedd ganddi dair cynulleidfa yn unig yng Nghymru).

Cyflwynwyd adroddiad llawn o'r gynhadledd gan Huw Wynne Griffith, yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 17-18 Hydref 1963. Mabwysiadwyd nifer o'r argymhellion (ymarferol, ar y cyfan) gan eu cyfeirio'n bennaf at yr enwadau. Yn eu plith yr oedd argymhelliad y dylai Cyngor Eglwysi Cymru dderbyn adnoddau digonol ar gyfer ei dasg ac am ffurfio cynghorau eglwysi lleol ar draws Cymru (i hybu gweithgareddau megis Cymorth Cyd-eglwysig a'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol). Pwysleisiwyd yr angen hefyd am adeiladu ar y gweithgarwch lleol a fu'n elfen mor bwysig o'r paratoadau ar gyfer cynhadledd Caerfyrddin, drwy sefydlu mwy a mwy o grwpiau astudio lleol. Cytunwyd hefyd ar egwyddor fyddai'n sylfaenol i holl waith y Cyngor o hyn ymlaen, sef, bod i'r iaith Gymraeg gael yr un statws â'r iaith Saesneg mewn gwaith ecwmenaidd yng Nghymru.

Y mae'r neges o'r Gynhadledd yn cymeradwyo datganiad Delhi Newydd fel darlun o gyflawnder undeb, oherwydd y 'ceir yn y datganiad ddarlun o'r gofynion angenrheidiol ar gyfer amlygu yn y byd gyfanrwydd y gwirionedd a ddatguddiwyd

--------------------

1. idib. tud. 4
2. ibid. tud. 4

yn ein Harglwydd'.[1] O ganlyniad cytunwyd i baratoi llyfryn astudiaeth ar undeb eglwysig, gyda thema'r gynhadledd yn deitl iddo, sef, *Yr Undeb a Geisiwn*, 'fel y gallai'r rhai nad oeddent yng Nghaerfyrddin chwarae eu rhan yn yr Ymgyrch [ffydd a threfn] ac yn yr ymchwil am wir undeb'. Golygwyd y llyfryn gan Huw Wynne Griffith a defnyddiodd fel maes astudiaeth ddatganiad Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Delhi Newydd (1961) a nodwyd uchod. Y mae'n cychwyn gydag astudiaethau Beiblaidd ar Effesiaid 1: 3-10, Ioan 11: 47-53 ac I Corinthiaid 12: 4-31, a deuir i'r casgliad canlynol:

> Honnir weithiau fod undeb yr Eglwys fore yn undeb Ysbryd heb ddiddordeb mewn trefniadaeth, ond nid yw'r darlun a geir yn y Testament Newydd yn cadarnhau'r honiad...Undeb Ysbryd y rhai sydd yn cyffesu Crist yn Arglwydd a ddisgrifir yn I Corinthiaid 12...Teg yw casglu fod undeb yr eglwys yn rhan o'i natur ac yn hanfodol i'w chenhadaeth.[2]

Wedi ystyried y sylfeini ysgrythurol eir ymlaen i gyflwyno dadansoddiad o berthnasedd a her y datganiad i Gymru yn y 60au. Mewn adran ar y cymal 'Y cyfan a olyga'n Heglwysi inni' ceir amlinelliad cytbwys iawn o hanes ymraniadau'r eglwysi yn cychwyn yn yr eglwys fore, ac yn olrhain yr hanes drwy raniad y gorllewin a'r dwyrain ym 1054, y diwygiad protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg a diwygiadau'r ddeunawfed ganrif yng Nghymru a Lloegr. Ar ddiwedd yr arolwg, fe'n gwahoddir i gofio '...fod pob Eglwys yn credu yn yr Un Eglwys, a bod y gwahanu wedi cymryd lle er mwyn diogelu'r Un Eglwys, ei diogelu mewn gwirionedd. Ond canlyniad y gwahanu fu erledigaeth a gelyniaeth, ac esgymuno oddi wrth Fwrdd yr Arglwydd.'[3]

Cyflwynir esboniad o weddill y datganiad gymal wrth gymal, gan gloi'r astudiaethau drwy ystyried un o gymalau allweddol y datganiad, sef, '...bywyd cyffredin yn ymestyn allan mewn tystiolaeth a gwasanaeth i bawb.' Cawn ein hatgoffa o un o

---

1. Neges i Eglwysi Cymru, tud. 3.
2. Yr Undeb a Geisiwn, Cyngor Eglwysi Cymru, 1964, tud. 8
3. ibid., tud. 10.

wersi Cynhadledd Caeredin ym 1910: 'unir ni gan yr un gorchymyn mawr, Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i bob creadur'. Yn y cyfnod rhwng 1910 a 1961 'amlygwyd y berthynas hanfodol sydd rhwng yr eglwys a'r genhadaeth, a'r genhadaeth ac undeb' ac awgrymir fod i hyn oll her i Gymru'r 60au. Rhaid gweld Cymru bellach fel maes cenhadol, a ninnau'n cael in galw i fod yn genhadon yn y mannau lle'r ydym. Y mae'n golygu hefyd ymgyrchu yn erbyn newyn ac anghyfiawnder yn lleol ac yn fyd-eang, hyd yn oed os yw hynny'n dod â Christnogion wyneb yn wyneb â Llywodraeth.

'Roedd y llyfryn hwn yn gyfraniad pwysig iawn i'r ddealltwriaeth o undod ac undeb Cristnogol yng Nghymru, yn fwyaf arbennig gan mai ymgais ydoedd i gynorthwyo eglwysi lleol i ystyried y sylfeini ysgrythurol ac i ddeall yr ymgais am undeb yng Nghymru yng ngoleuni'r datblygiadau byd-eang. Yn y maes hwn, fel mewn meysydd eraill, gwnaeth Huw Wynne Griffith, Erastus Jones, G.O.Williams ac eraill gyfraniad allweddol tuag at y broses o gymhwyso gweledigaeth a phwyslais y mudiad ecwmenaidd byd-eang at sefyllfa eglwysi Cymru, a chafodd hyn gryn ddylanwad ar yr argymhellion a wnaed ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, er enghraifft, mewn perthynas â chyfamodi tuag at undeb yng Nghymru.

Ym Medi 1964 cynhaliwyd y Gynhladledd Ffydd a Threfn Genedlaethol (hynny yw, Prydeinig) ym Mhrifysgol Nottingham gyda'r un thema, 'Yr Undeb a Geisiwn'.[1] Yn ôl Adrian Hastings[2] hon oedd y gynhadledd ecwmenaidd Brydeinig bwysicaf a gynhaliwyd erioed. 'Roedd tua 500 o gynrychiolwyr yn bresennol, yn cynnwys tua 32 o Gymru. Daeth yn amlwg o'r noson gyntaf fod nifer o faterion dadleuol i bennu

--------------------

1. Gweler *Unity Begins at Home, A Report of the First British Conference on Faith and Order, Nottingham, 1964*, Gol. Rupert Davies a David L. Edwards, SCM, 1964.

2. *A History of English Christianity, 1920-1985,* Fount Paperbacks, 1987, tud. 541.

teithi meddwl y gynhadledd. Un ohonynt oedd yr angen am gamau penodol tuag at gydgymuno rhwng yr eglwysi Anglicanaidd a'r enwadau anghydffurfiol. Cafwyd oedfa Gymun agoriadol yn dilyn trefn Llyfr Gweddi Gyffredin 1662. Yn ôl yr adroddiad swyddogol ni wahoddwyd cynrychiolwyr Byddin yr Iachawdwriaeth na'r Crynwyr i'r oedfa, mae'n debyg am nad ydynt yn arfer y sacramentau. Os gwir yr adroddiad, ymddengys hyn yn anhygoel 30 mlynedd yn ddiweddarach! 'Roedd rhai anghydffurfwyr yn anhapus fod Esgob Southwell wedi llywyddu'r oedfa yn ei wisgoedd esgobol, 'it seemed to bring back a whiff of the medieval church which they found distasteful'[1]. A theimlai rhai Anglicaniaid yn annedwydd fod cynrychiolwyr yn bresennol yn yr oedfa o eglwysi nad oedd ganddynt offeiriadaeth oddi fewn i'r olyniaeth apostolaidd.

Nid rhyfedd felly fod trafodaeth ar gydgymuno mewn sesiwn hwyrol ar y diwrnod cyntaf wedi datgelu rhaniadau. Credai'r Athro A.H.Hodges (lleygwr o Eglwys Loegr) fod yr Eglwys yn iawn i wrthod bod mewn cymundeb â'r eglwysi hynny 'which (we) believe to have departed from the given pattern of ministry and the sound practice of the sacraments'.[2] Iddo ef, y cwestiwn allweddol oedd trefn yr eglwys: 'In the Church of England this method (of succession) is faithfully carried out; in non-episcopal churches it is not.' Ar y llaw arall, galwodd yr Athro Geoffrey Lampe o Gaergrawnt am gydgymuno yn awr ymhlith yr holl eglwysi sy'n cyffesu'r ffydd apostolaidd ar yr amod eu bod yn ceisio gan yr Ysbryd eu hadeiladu ynghyd i undeb organaidd. Dair blynedd ynghynt bu Geoffrey Lampe yn arweinydd grŵp o ddiwinyddion yn Eglwys Loegr a apeliodd at Archesgobion Caergaint ac Efrog am gael cydgymuno ag eglwysi eraill, a chael ei feirniadu'n llym am hynny. Yn ei gyflwyniad i'r gynhadledd gwnaeth ei apêl ar sail ei ddealltwriaeth o natur yr eglwysi anesgobol: '...we are engaged in the task of uniting undoubted <u>churches</u> with one an-

1. *Unity Begins at Home*, tud. 17.
2. ibid., tud. 18.

other...Therefore, the sacraments could be a means to the end of unity.'[1] Arweiniodd y drafodaeth hon at argymhelliad i alw ar yr eglwysi a oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Prydain ('roedd hyn yn hepgor yr Eglwys Gatholig Rufeinig o'r alwad hon) i ailystyried eu harfer a'u diwinyddiaeth parthed cydgymuno.

Un o anerchiadau pwysicaf y gynhadledd oedd eiddo W.A. Visser 't Hooft, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd. Mewn arolwg o'r mudiad ecwmenaidd byd-eang gwelai fod perthynas eglwysi â'i gilydd wedi dyfnhau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd blaenorol, fod yna gydlyniad gwirioneddol rhyngddynt, a bod cryn gynnydd mewn trafodaethau tuag at undeb. Ar yr un pryd, ofnai mai eglwysi o'r un anian a oedd wedi uno â'i gilydd ar y cyfan, na welwyd camau mawr tuag at gydgymuno na chydgynllunio mewn cenhadaeth ac efengylu. Gofidiai'n arbennig na lwyddwyd i arddangos yn lleol fod cyfnod anundeb drosodd a chyfnod undeb wedi dod. I Visser 't Hooft, a fu'n un o benseiri pennaf y mudiad ecwmenaidd cyfoes, yr angen mwyaf oedd edifeirwch:

> We cannot expect real progress on the road to unity unless our churches go through a process of radical purification, a repentance in the biblical sense...a basic reorientation...'[2]

Un elfen ddiddorol yn y gynhadledd oedd presenoldeb nifer o 'efengyleiddwyr'. Cawsant gyfle i fynegi seiliau eu gwrthwynebiad i'r mudiad ecwmenaidd swyddogol, yn cynnwys eu cred mai cenhadaeth oedd y flaenoriaeth, bod trafod undod yn wastraff amser, a bod ffydd yng Nghrist eisoes yn uno. Ofnent hefyd fod perygl cyfaddawdu ar awdurdod y Beibl a bod undeb yn y diwedd yn arwain i Rufain. Bu rhai, fel John Huxtable, yn feirniadol iawn o agweddau negyddol efengyleiddwyr, ond nid oedd amheuaeth fod eu presenoldeb wedi bod yn gyfraniad pwysig at fywyd y gynhadledd, a nodwyd gan un fod yr efengyleiddwyr ymhlith cynrychiolwyr Eglwys Loegr wedi pleidleisio bron yn unfrydol o blaid yr adroddiadau a'r

---

1. ibid., tud. 18.
2. ibid., tud. 34.

argymhellion.

Elfen bwysig arall yn y gynhadledd oedd presenoldeb chwe sylwedydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Cynullwyd trydydd sesiwn Ail Gyngor y Fatican yn Rhufain yn ystod y gynhadledd a chytunwyd i ddanfon neges i'r Cyngor:

> Fellow-Christians gathered at the British Faith and Order Conference...send greetings and assurance of prayer for the new session of the Council; may the Holy Spirit grant you a renewal in truth and holiness, in which we may all share.[1]

Ceisiodd Esgob Ripon gael gan y gynhadledd ddanfon ail neges yn cymeradwyo camau tuag at undeb a oedd yn cael eu hystyried gan y Cyngor gan fod y rhain wedi arwain y mudiad ecwmenaidd 'into a new dimension, and the categories and horizons within which we were living three or four years ago have now disappeared'. Ni wnaed hynny gan y byddai wedi golygu gwyro oddi ar y tasgau hynny a fwriadwyd i'r gynhadledd, ond fe wahoddwyd un o'r sylwedyddion i gyflwyno anerchiad byr a gafodd gymeradwyaeth frwdfrydig gan y gynhadledd. Y mae un paragraff o'i anerchiad yn arbennig o arwyddocaol o gofio nad oedd yr Ail Gyngor wedi gorffen ei waith na chyhoeddi'r adroddiadau a fyddai'n newid agweddau'r Eglwys Gatholig Rufeinig mewn ffyrdd mor ddramatig:

> 'The differences that stand between us may be solved if we work at them together...Human formulation of God's truth cannot be exhaustive, and no one would claim that a complete description of the nature of God's Church had been achieved so far...Let us work together in searching the Scriptures, pondering the meaning of Christian history and trying to appreciate different traditions...'[2]

Bu prif weithgarwch y gynhadledd mewn adrannau ar Ffydd (dan gadeiryddiaeth G.O.Williams), Addoliad, Aelodaeth, Gweinidogaeth a Phawb ymhob lle. Cynhyrchwyd adroddiadau sylweddol a phwysig ganddynt oll ond cafodd y gynhadledd hon ei chofio'n bennaf oherwydd ei galwad i'r eglwysi geisio undeb â'i gilydd erbyn

--------------------

1. ibid., tud. 39.

2. ibid., tud. 41.

y Pasg 1980. Credai rhai, gan gynnwys Edwin Morris, Archesgob yr Eglwys yng Nghymru, ei bod yn amhriodol i osod amserlen ar waith yr Ysbryd Glân, gan nad oedd yr eglwysi eto wedi cytuno ar batrwm o adundeb a'i bod, felly, yn beryglus ac anymarferol i wneud ymrwymiad i ddyddiad penodol. 'Roedd hon yn agwedd amhoblogaidd ond cafodd yr Archesgob gymeradwyaeth y gynhadledd am roi mynegiant i'w farn. Nid dadl ynglŷn â phriodoldeb undeb, fel y cyfryw, oedd hon ond dadl am 'ysbrydoledd brys'. Gwelai Norman Goodall[1] fod gosod dyddiad yn fodd i fod yn ufudd i'r Gair:

> '...it becomes symbolic...a proclamation, splendidly irrational but authentic...The issue before us is not whether the Holy Spirit may be offended by our daring hope and dated determination. It is whether the Holy Spirit shall continue to be grieved by our tardiness in giving expression to a unity which we all affirm to have been given us already in Christ'.[2]

Ar ddiwedd y drafodaeth cytunwyd ar y datganiad canlynol:

> United in our urgent desire for One Church Renewed for Mission this Conference invites the member churches of the British Council of Churches, in appropriate groupings such as nations, to covenant together to work and pray for the inauguration of union by a date agreed among them.
>
> We dare to hope that this date should not be later than Easter Day 1980. We believe that we should offer obedience to God in a commitment as decisive as this.[3]

Fel y gwelwn, y datganiad hwn a arweiniodd at ddatblygu'r Cyfamod tuag at undeb yng Nghymru, a hynny'n adlewyrchu'r cymal 'in appropriate groupings such as nations'.

Ymhlith argymhellion eraill yr oedd rhai yn galw am ymgynghoriadau ar athrawiaeth

--------------------

1. 1896-1985, un o arweinwyr Undeb Cynulleidfaol Cymru a Lloegr a fu'n ysgrifennydd tramor Cymdeithas Genhadol Llundain, ac yn ysgrifennydd y pwyllgor a fu'n paratoi ar gyfer uniad y Cyngor Cenhadol Rhyngwladol a Chyngor Eglwysi'r Byd ym 1961.

2. ibid., tud. 45.

3. ibid., tud. 43.

a phatrymau bedydd ac am ystyried addysg ecwmenaidd ar gyfer gweinidogaeth. Un o'r argymellion mwyaf dylanwadol oedd hwnnw a alwodd am weithredu'r hyn a adnabyddir fel Egwyddor Lund. Tarddodd yr Egwyddor hon yng nghynhadledd ffydd a threfn Lund, yn Sweden, ym 1952. Gofynnodd y neges i'r eglwysi o'r gynhadledd honno oni ddylent weithredu gyda'i gilydd ymhob mater 'ac eithrio'r rhai lle y mae gwahaniaethau barn dyfnion yn eu gorfodi i weithredu ar wahan'[1]. Awgrymodd argymhellion Nottingham fod yr eglwysi ym Mhrydain yn ystyried gweithredu'r Egwyddor hon yn lleol.

Un enghraifft o hynny fyddai hyrwyddo ardaloedd arbrofi ecwmenaidd:

> (The conference requests member churches of the British Council of Churches) to designate areas of ecumenical experiment, at the request of local congregations, or in new towns and housing areas. In such areas there should be experiments in ecumenical group ministries, in the sharing of buildings and equipment, and in the development of mission.[2]

Bu'r argymelliad hwn llawn mor ddylanwadol ag 'argymelliad Pasg 1980', os nad yn fwy felly. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn ffurfiwyd dros 1,500 o gynlluniau ecwmenaidd lleol yng ngwledydd Prydain yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. A phan fethodd yr ymgais i gyfamodi yn Lloegr ym 1982, gweledigaeth y penderfyniad hwn a sicrhaodd fod yr egni ecwmenaidd yn cael ei gyfeirio i'r sefyllfa leol, lle mae'r cynlluniau hyn yn un o'r elfennau mwyaf creadigol ym mywyd a chenhadaeth yr eglwysi.

Bu'r ymateb i'r gynhadledd ymhlith y cynrychiolwyr o Gymru yn un cymysg. Argraff gyntaf M.Islwyn Lake (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) oedd fod Cymru 'ym mhell ar ôl mewn cymhariaeth â [Lloegr]. Lle'r ydym ni yn geidwadol ac yn ddisy-

---

1. Gweler *Dictionary of the Ecumenical Movement*, Cyngor Eglwysi'r Byd, 1991, tud. 633.

2. ibid., tud. 79.

mud y maent hwy yn ystwytho eu haddoliad ac yn ddigon cyfarwydd ag arborfion megis cydweinidiogaethu'.[1] Croesawai'r penderfyniad am y Pasg 1980 fel nod, gan fod yr eglwysi 'wedi sôn gymaint am undod fel ewyllys Duw ac am boen rhaniadau. Hwyr neu hwyrach rhaid gofyn, "A ydynt o ddifrif?" A ydynt yn barod i fynd ati ar unwaith i droedio tuag at y nod? Dyna a wna 1980...'[2] Ar y llaw arall, 'roedd Trefor Parry (yr Eglwys Fethodistaidd) yn eithaf beirniadol o'r gynhadledd. Teimlai y 'boddwyd y cynrychiolwyr gan genllysg oer y sacsaffon a'r drwm ecwmenaidd, a'r un thema ystrydebol, bedestraidd a chwythai'r arweinwyr drwy eu hofferynau caboledig'.[3] Ofnai mai gorchest rhy fawr fyddai i'r Eglwys yng Nghymru, un o blant eglwys 'a briododd ei hun â'r Wladwriaeth, ymysgwyd o'r ieuad anghymharus a datblygu'n allu crefyddol, chwyldroadol yn y tir...' Y mae'n cymeradwyo'n hytrach anghydffurfiaeth radicalaidd, gan fod 'galwad a thasg newydd yn wynebu'r Eglwys os llwydda hi i'w rhyddhau ei hun o hualau caethiwus y Sefydliad'. A thra'i fod yn fodlon derbyn Pasg 1980 fel nod, credai fod her bwysicach yn wynebu eglwysi Cymru na 'ffidlan eto â'n damcaniaethau bach neis-neis am yr olyniaeth apostolig, rhydd-gymundeb, caeth-gymundeb, enwadaeth...Yn y cyfamser y mae Cymru'n rhuthro i dywyllwch moesol ac ysbrydol'. Teimlai E. Curig Davies (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) hefyd fod yr eglwysi yn gwastraffu eu hamser gyda materion nad ydynt yn berthnasol i sefyllfa argyfyngus y byd. Iddo ef 'dangos ffordd well, ymddwyn yn Gristnogol a gweithredu cyfiawnder' oedd yr her fwyaf yn wynebu eglwysi Cymru ac yr oedd yn amau a fyddai Eglwys Unedig yn fwy effeithiol gyda'r dasg hon na'r enwadau ar hyn o bryd. Gofidiai hefyd na fyddai rhyw lawer ar ôl i'w uno erbyn 1980 'gyda'r *drift* sydd i bethau heddiw'.[4] Tra'n gwerthfawrogi cyfraniad y mudiad ecwmenaidd at y dasg o drosglwyddo

---

1. Y Dysgedydd, Tachwedd/Rhagfyr 1964, tud. 215.
2. ibid., tud. 217.
3. ibid., tud. 219.
4. ibid., tud. 222.

Cristnogaeth yn effeithiol yn y sefyllfa gyfoes, daeth Iorwerth Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) o Nottingham yn ofnus y byddai undeb â'r traddodiadau catholig yn golygu derbyn y credoau traddodiadol fel datganiadau ffydd ffeithiol a digonol, derbyn llinach hierarchaidd 'fel *sine qua non* eglwys unedig' a derbyn 'sagrafennau y mae eu cyfrwngwriaeth o ras *ex opere operato* yn sawri o swyngyfaredd...(Ni) all llawer ohonom eu derbyn'.[1]

Pan drafodwyd adroddiad Nottingham gan Fainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru nodwyd yn arbennig un o'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr Adran ar Addoliad:

> In view of the remarkable degree of unanimity ...on the first principles of Christian Worship, (therefore) we recommend that future work on liturgical revision carried on by member churches of the British Council of Churches should be undertaken in common or in close consultation'[2]

Danfonodd y Fainc gais i Gyngor Eglwysi Cymru wahodd yr enwadau yng Nghymru i ffurfio Grwp Astudio Litwrgaidd gan wahodd yr Eglwys Gatholig Rufeinig i ddewis sylwedyddion arno.

Pan ddaeth cynrychiolwyr enwadau Cymru at ei gilydd yn Nottingham yn ystod y gynhadledd ei hun cytunwyd ar y datganiad canlynol:

> Meeting as delegates from Wales we believe that the resolutions of the Nottingham Conference challenge all our Churches in Wales, and we call upon the Council of Churches for Wales to see its work in the light of the agreements and decisions recorded at Nottingham.[3]

Gwelwyd fod penderfyniadau Nottingham yn her i eglwysi Cymru 'i ddod i gyfamod â'i gilydd ac i geisio eglwys unedig i Gymru' a galwyd ar Gyngor Eglwysi Cymru i ystyried a ddylai drefnu ymgynghoriad o'r eglwysi ar ffurf y Cyfamod. Yn ei adroddiad i gyfarfod y Cyngor yn Llwyngwril ar 29 a 30 Hydref 1964, dywedodd Huw

---

1. Y Dysgedydd, Medi/Hydref 1964, tud. 172.

2. *Unity Begins at Home*, tud. 76.

3. *The Council of Churches for Wales, Report of the Executive Committee*, 20 Hydref 1964

Wynne Griffith,

> 'The date 1980 means that the issue of unity has become immediate, because any prevarication or undue postponement will mean the rejection of the conviction expressed in the resolution. The Council of Churches for Wales should give serious consideration to the resolutions addressed to the Council and should also study the implications of the '1980 resolution' for Wales and offer its services to the constituent churches in preparing a covenant'[1]

Dyma gychwyn y Cyfamod tuag at Undeb yng Nghymru. Y cam cyntaf oedd ffurfio Pwyllgor Ffydd a Threfn i fod yn Bwyllgor Sefydlog o'r Cyngor. Ei aelodau oedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith ynghyd ag Esgob Abertawe ac Aberhonddu (John A. Thomas), Deon Aberhonddu (W.Ungoed Jacob - oedd yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor ar y pryd) a'r Parchedigion J.S.Williams, Trebor Lloyd Evans, Erastus Jones a Huw Wynne Griffith, a fyddai'n ysgrifennydd y Pwyllgor.

Bu'r cyfnod yn dilyn cynadleddau Caerfyrddin a Nottingham yn rhai cynhyrfus a chreadigol yn hanes yr ymgais am undeb yng Nghymru (fel yng ngwledydd eraill Prydain). Ffurfiwyd y Pwyllgor Ffydd a Threfn, a galwyd cyfarfod o grŵp i ystyried y gwahoddiad i lunio Cyfamod tuag at undeb. Sefydlwyd Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd ar y cyd rhwng y Cyngor a Chymdeithas Ecwmenaidd Cymru, gyda chyfrifoldeb arbennig dros hyrwyddo ecwmeniaeth leol, gan gynnwys arbrofion ecwmenaidd. Ar ysgogiad Mainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru ffurfiwyd y Grŵp ar y Cyd ar Ffurfiau ac Egwyddorion Addoliad Cristnogol (a gafodd ei ailenwi'n Grŵp Astudiaethau Litwrgaidd). Mewn un cyfarfod hanesyddol o Bwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi Cymru yng Ngregynog ar 20-21 Mai 1965 cafwyd adroddiadau o'r holl weithgareddau hyn, y cyfan yn deillio o Gaerfyrddin a Nottingham. Gweithgareddau a fyddent yn cael dylanwad aruthrol ar y rhaglen ecwmenaidd yn y cyfnod a oedd i ddilyn.

--------------------

1. Cofnodion y Cyngor, 29 a 30 Hydref 1964, tud. 2.

## PENNOD 3

## YR YMGAIS AM UNDEB: CYFAMODI TUAG AT UNDEB YNG NGHYMRU

Fel cam cyntaf tuag at weithredu ei benderfyniad i hyrwyddo'r Cyfamod tuag at undeb yng Nghymru penderfynodd y Cyngor ffurfio Cydbwyllgor Cyfamodi a gwahoddwyd pob enwad a oedd yn aelod o'r Cyngor i benodi pedwar cynrychiolydd arno. Derbyniwyd y gwahoddiad gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Fethodistaidd ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac ychydig yn ddiweddarach, gan Eglwys Gynulleidfaol Lloegr a Chymru. Gwaith y Cydbwyllgor fyddai 'trafod (mewn perthynas â Chymru) ystyr ac oblygiadau'r gwahoddiad a roddwyd i'r Eglwysi...i gyfamodi gyda'i gilydd i weithio a gweddïo er sefydlu undeb erbyn dyddiad a bennir ganddynt trwy gytundeb'.[1] Cynhaliwyd tri chyfarfod deuddydd o'r Cydbwyllgor hwn (dan gadeiryddiaeth Esgob Bangor, G.O.Williams) ym misoedd cyntaf 1966, ac ym mis Ebrill cyflwynodd adroddiad ac argymhellion unfrydol i'r eglwysi a'r enwadau a'i apwyntiodd dan y teitl, Yr Alwad i Gyfamodi. Y mae'r adroddiad yn crynhoi argymhellion Nottingham, yn amlinellu cefndir y drafodaeth ar faterion ffydd a threfn a ysgogwyd gan y gynhadledd, ac yn delio'n uniongyrchol â mater Cyfamodi yng Nghymru.

Y cwestiwn i'w wynebu ar y cychwyn cyntaf oedd, 'A ydyw ein Heglwysi yng Nghymru yn rhannu'r un argyhoeddiad ag a deimlwyd yn Nottingham, sef bod eisoes gytundeb digonol i gyfiawnhau cymryd y cam tyngedfennol o addunedu i'n gilydd mewn Cyfamod sy'n anelu at undeb?'[2] Neilltuwyd gweddill *Yr Alwad i Gyfamodi* i ystyried goblygiadau'r cwestiwn hwn. Y mae'n ddiffinio 'Cyfamod' yn y cyd-destun hwn fel

> 'gweithred ddifrifol ar ran yr eglwysi i addunedu i Dduw ac i'n gilydd y rhown y fath flaenoriaeth i weithio a gweddïo dros undeb fel y gellir ei sicrhau...erbyn dyddiad a fyddo'n ddigon agos i gael effaith bendant ar

--------------------

1. Yr Alwad i Gyfamodi, Cyngor Eglwysi Cymru, 1965, tud. 2.

2. ibid., tud. 8.

eu bywyd a'u gwaith heddiw'.[1]

Os oedd yr eglwysi i wneud adduned fel hyn byddai'n rhaid derbyn rhai egwyddorion sylfaenol. Yn gyntaf, 'roedd aelodaeth yr enwadau mewn cynghorau eglwysi yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang yn arwydd o'u hymrwymiad i'w gilydd eisoes, gan eu bod trwy dderbyn y sylfaen aelodaeth yn cydnabod 'yr Arglwydd Iesu Grist yn Dduw ac yn Geidwad'. Yn ail, rhaid amlygu rhodd Duw o undod, a'i gadarnhau drwy weithredu arno; ni fyddai geiriau yn ddigon. Yn drydydd, y nod oedd adnewyddu'r eglwysi mewn undeb er mwyn iddynt gael eu hadnewyddu ar gyfer cenhadaeth. Yn bedwerydd, byddai addunedu i weithio a gweddïo yn ymrwymiad didroi'n ôl i roi blaenoriaeth i hyn ym mhob agwedd o fywyd yr eglwysi. Yn bumed, dylid nodi dyddiad yn nhestun y Cyfamod oherwydd 'os yw Duw yn ewyllysio i'w Eglwys gael ei gweld yn un, y mae'n ewyllysio inni fod felly yn awr'.[2] Yn chweched, dylid deall mai ystyr y term 'sefydlu undeb' yw dod ag Eglwys Unedig i fod, a hynny yn unol â datganiad Delhi Newydd (1961). Yn seithfed, ni ddylai dehongli'r cymal 'mewn grwpiau priodol megis cenhedloedd' i olygu mai Eglwys Unedig yng Nghymru oedd nod y trafodaethau hyn, wanhau perthynas a phartneriaeth ag eglwysi ac enwadau yng ngwledydd eraill Prydain. Yn olaf, ni ddylid cyfyngu'r bwriad i'r enwadau a oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Cymru, a rhagwelwyd cymell enwadau ac eglwysi eraill sy'n medru derbyn ei sylfaen 'i ystyried sut y gallent ymgysylltu orau â ni yn ein hymgais i gael Cyfamod'.[3]

Eir ymlaen i ystyried perthynas yr ymddiddanion hyn â thrafodaethau'r Pedwar Enwad, a gyhoeddodd *Y Cynllun Uno: Eglwys Unedig Cymru* ym 1965, a'r trafodaethau rhwng yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru, a gychwynnwyd ym 1965 hefyd. Deuir i'r casgliad nad oes 'dim anghydnaws rhwng y Cyfamod ar y

--------------------

1. ibid., tud. 8.
2. ibid., tud. 12.
3. ibid., tud. 14.

naill law a'r cynigion arbennig hyn i gael undeb ar y llall'.[1] Yn wir, rhagdybir ynddynt mai camau fyddai'r rhain oll tuag at undeb gweledig llawn ymhlith Cristnogion.

Felly, beth am y ffordd ymlaen? Barn sicr y Cydbwyllgor oedd fod y cytundeb a oedd rhwng yr enwadau hyn, yn fwyaf arbennig drwy eu haelodaeth o Gyngor Eglwysi Cymru, yn gyfryw ag i gyfiawnhau ymchwil pellach. Felly, argymhellwyd bod yr eglwysi a'r enwadau yn penodi Cydbwyllgor newydd i ystyried termau Cyfamod, awgrymu trefniadau ymarferol i sicrhau bod y Cyfamod yn cynnwys holl aelodau a gweinidogion yr eglwysi, a llunio datganiad ar effaith y Cyfamod ar gydberthynas yr eglwysi â'i gilydd. Awgrymwyd bod y Cydbwyllgor newydd yn dwyn adroddiad ac argymellion i'r enwadau erbyn y Gwanwyn 1968.

Penodwyd cynrychiolwyr i'r Cydbwyllgor newydd gan Yr Eglwys yng Nghymru, Yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Gynulleidfaol Lloegr a Chymru (Talaith Cymru a Mynwy), Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr ac Iwerddon (Talaith De Cymru). 'Roedd iddo 31 o aelodau, ac o 1967 ymlaen 'roedd dau sylwedydd ar ran Yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Parhaodd G.O.Williams fel Cadeirydd y Cydbwyllgor newydd, a Huw Wynne Griffith fel ei Ysgrifennydd. Cyhoeddodd ei adroddiad cyntaf, *Cyfamodi yng Nghymru*, ym Mawrth 1968. Adroddiad dros dro oedd hwn gan na chwblhawyd y dasg a ymddiriedwyd i'r Cydbwyllgor, ond 'roedd yn awyddus i dderbyn sylwadau'r eglwysi ar yr hyn a wnaed. Yn y Rhagair nodir fod datganiad gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghyfarfod Blynyddol Llanrwst ym 1967 wedi cael cryn sylw gan y Cydbwyllgor, a chyhoeddir testun cyflawn y datganiad fel atodiad i'r adroddiad. Ynddo honnir fod yr Annibynwyr yng Nghymru wedi bod

> 'mor barod â neb, a mwy parod na llawer, i gydnabod dilysrwydd gweinidogaeth ac aelodaeth eglwysig enwadau eraill...Am

---

1. ibid., tud. 18.

> hynny,...gwahoddwn yr eglwysi sy'n aelodau o Gyngor Eglwysi Cymru i ddatgan *yn awr* eu bod yn cydnabod dilysrwydd gweinidogaeth ac aelodaeth ei gilydd...Heb hyn ofnwn mai chwilio am unffurfiaeth mewn trefn eglwysig (ac addoliad a chredo) y byddwn ac y gwastreffir llawer o amser ac arian y dylid eu rhoi i weithgarwch cenhadol yng Nghymru'.[1]

O ganlyniad i'r datganiad hwn daeth y Cydbwyllgor i sylweddoli fod eglwysi ac enwadau yn sôn am wahanol raddau o gydnabod gweinidogaethau ac aelodaeth ei gilydd. Nid oedd argymellion y Cydbwyllgor yn mynd mor bell ag y dymunai'r Annibynwyr ond credwyd, fodd bynnag, 'ei fod yn gam pwysig ymlaen a'i fod yn dangos y ffordd at gynnydd pellach, drwy gyfamod tuag at undeb'.[2] Credai R.Tudur Jones mai 'casiwistiaeth droellog' a nodweddai ymdriniaeth yr adroddiad o'r penderfyniad, a oedd hefyd 'yn carlamu'n ddideimlad dros bopeth a gredodd Annibynwyr a Bedyddwyr (ar y weinidogaeth)'.[3] Y broblem sylfaenol yw fod amwysedd cynhenid yn y gair 'cydnabod' o'i ddefnyddio yn y cyd-destun hwn. Defnyddir y gair yn natganiad yr Annibynwyr i olygu derbyn gweinidogaethau ac aelodaeth enwadau eraill fel rhai dilys a gwirioneddol yn ogystal â pharodrwydd i dderbyn gweinidogion ac aelodau o enwadau eraill i mewn i fywyd eglwysi Annibynnol heb unrhyw weithred enwadol ychwanegol. Y mae'n golygu 'cydnabod a chyfnewid'. Defnyddir y gair yn adroddiadau'r Cydbwyllgor i olygu fod gweinidogaethau'r gwahanol enwadau wedi bod yn gyfryngau cyhoeddi cariad Duw, yn gyfryngau ei ras ac wedi arfer arolygiaeth briodol, oddi fewn i'r enwadau eu hunain. Sylweddolwyd fod hyn 'yn syrthio'n fyr o gydnabyddiaeth lawn o bobtu' a fyddai yn caniatáu cyfnewid gweinidogion ac aelodau. Barnai'r cyd-bwyllgor fod hyn yn 'ganlyniad anorfod ein gwahanedigrwydd, gan mai mewn eglwys unedig yn unig y gellir cael gweinidogaeth ordeiniedig a gydnabyddir gan bawb.'[4]

--------------------

1. Cyfamodi yng Nghymru, Cyngor Eglwysi Cymru, 1968, Atodiad, tud. 98.
2. ibid., tud. 8.
3. R. Tudur Jones, Yr Undeb, Gwasg John Penri, 1975, tud. 367.
4. Cyfamodi yng Nghymru, 1968, tud. 46.

Dyma un o'r anawsterau mwyaf, os nad yr anhawster mwyaf oll, a wynebodd y Cyfamod yng Nghymru, ac hyd yn hyn ni lwyddwyd i'w oresgyn yn llwyr. Ym 1986 cyhoeddwyd *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno* gyda'r bwriad penodol o gymodi gweinidogaethau oddi fewn i Eglwys yn Uno, ond er i'r argymhellion hyn gael eu derbyn gan rai o'r eglwysi cyfamodol ni chawsant dderbyniad digonol i alluogi symud ymlaen. Ym 1990 cytunodd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ar ddeddfwriaeth i ganiatáu gweinidogion o enwadau eraill sy'n aelodau o Cytûn (nid yn unig o eglwysi cyfamodol, sylwer) i weinidogaethu mewn plwyfi perthynol i'r Eglwys yng Nghymru, mewn sefyllfaoedd ecwmenaidd arbennig, gydag awdurdod esgob yr esgobaeth. Yn ddios, y mae hwn yn gam pwysig ymlaen, ond y mae rhwystredigaeth ymhlith llawer na lwyddwyd hyd yma i oresgyn yr anhawster o symud tuag at gydnabod a chyfnewid gweinidogaethau ein gilydd yn llawn mewn sefyllfaoedd arferol yn ogystal ag ecwmenaidd, yn arbennig oddi fewn i'r Cyfamod. Ymhlith y sawl sy'n gwrthwynebu cam o'r fath yr un yw'r egwyddor o hyd: ni ellir cydnabod a chyfnewid gweinidogion ac aelodau ond oddi fewn i eglwys unedig pan fydd cytundeb cyflawn ar natur eglwys, ei gweinidogaeth a'i haelodaeth.

Canolbwyntiodd gweddill adroddiad y Cydbwyllgor ar rai o'r pynciau sy'n sylfaenol pan fo eglwysi ac enwadau yn symud ymlaen tuag at gyfamodi, sef, undod, ffydd, gweinidogaeth, aelodaeth, a chydgymundeb. Barnai'r Cydbwyllgor fod 'tarddle undod yn nirgelwch y Drindod Sanctaidd'[1] ac nid mewn llywodraeth na threfniadaeth eglwysig, ond bod angen sicrhau nodau arbennig i arddangos yr undod hwnnw, sef, cytundeb ar broffes o'r ffydd apostolaidd, ffyddlondeb i ddwy sacrament y Bedydd a'r Cymun Bendigaid, a chydnabod gweinidogaeth i'r eglwys gyfan. Oddi fewn i gytundeb o'r fath byddai cryn amrywiaeth arfer yn bosibl, a byddai

--------------------

1. ibid., tud. 12.

hynny'n 'arddangos mwy o gyfoeth diderfyn yr Ysbryd Glân'.[1] Egwyddor sylfaenol arall oedd y byddai'r eglwys unedig 'mewn parhad canfyddadwy â'r Eglwys drwy'r oesau' yn ogystal ag 'yn ymgorfforiad... o un bobl Dduw yng ngwlad arbennig Cymru'.[2] Ffon fesur unrhyw drefniadaeth eglwysig fyddai effeithiolrwydd cenhadol ac nid parhad unrhyw batrwm cyfarwydd.

Y mae'r bennod ar ffydd yn crynhoi'r elfennau y cytunir arnynt eisoes, gan y byddai cytundeb ar ffydd yn hanfodol i eglwys unedig. Craidd ffydd yw'r efengyl, sef, 'y neges am bresenoldeb y Gwaredwr sydd drwy'r Ysbryd Glân yn ei roddi ei hunan i ddynion mewn maddeuant a chymod fel y gwneler i'w bywydau hwy gydymffurfio â'r eiddo ef'.[3] Y mae'r efengyl i'w chlywed ym mhregethu'r eglwys, a'r Ysgrythur Lân yw'r tyst awdurdodol iddi. Cytunir i gydnabod y credoau clasurol fel tystiolaeth i'r efengyl yn yr Eglwys Gyffredinol. 'Datblygwyd hwy i warchod rhag dysgeidiaeth a fuasai wedi dinistrio'r ffydd, a defnyddiwyd hwy gan fwyaf nid i rannu ond i uno...'[4] Cydnabyddir hefyd fod cyffesion ffydd eraill oddi fewn i'r gwahanol draddodiadau 'i'w prisio oherwydd eu tystiolaeth i'r efengyl' ac na ddylid ymwrthod â hwy gan y byddai hynny 'yn ymwrthod â rhan fawr a phwysig (o'n) treftadaeth'.

Pwysleisia'r bennod ar weinidogaeth fod pob aelod yn cyflawni gweinidogaeth Crist ac mai dyma sail y weinidogaeth ordeiniedig yr ymddiriedwyd iddi 'arolygiaeth yn y gynulleidfa...arwain yr addoliad a gweinyddu'r sacramentau, gofal bugeiliol am yr aelodau a gwasanaeth yr eglwys i'r byd'.[5] Wrth symud tuag at eglwys unedig byddai sicrhau cytundeb ar barhad y weinidogaeth ordeiniedig mewn ffydd ac

--------------------

1. ibid., tud. 16.
2. ibid., tud. 18.
3. ibid., tud. 28.
4. ibid., tud. 30.
5. ibid., tud. 38.

ufudd-dod (y fertigol) yn ogystal â mewn trefn ac olyniaeth (y llorweddol) yn sylfaenol. Honiad yr adroddiad yw y gellir olrhain y patrwm triphlyg a welir dros ran fawr o'r Eglwys Gyffredinol yn ôl i ddyddiau'r Testament Newydd lle y sonnir am esgobion, henuriaid a diaconiaid. 'Gan hynny...rhaid inni ystyried y posibilrwydd y dylai'r weinidogaeth newydd hon fod yn un sy'n cynnwys ordeiniad esgob'[1] a hynny yn y fath fodd ag i sicrhau'r parhad fertigol a llorweddol. Sylweddolir mai'r elfen fwyaf dadleuol mewn perthynas â gweinidogaeth (yn wir, efallai, mewn perthynas â'r holl argymhellion tuag at gyfamodi) oedd lle esgobion mewn eglwys unedig. Felly, rhoddir sylw arbennig i rai o nodweddion gweinidogaeth a swydd esgob. Byddai'n arolygu cylch o eglwysi, a hynny mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr yr eglwys ehangach, tra byddai'n cyflawni'r weinidogaeth mewn modd personol. Cynrychiolaeth o'r eglwys gyfan ddylai benodi esgobion a dylid arfer y weinidogaeth hon yn unol â phenderfyniadau'r eglwys. Dylid ymwrthod â phreladiaeth a fu mor niweidiol i fywyd ac ufudd-dod yr eglwys yn y gorffennol. 'Byddai swydd esgobol yn amlygu'r berthynas rhwng yr Eglwys yn y presennol a holl gwrs hanes Cristnogaeth ar hyd y canrifoedd a byddai'n ganolbwynt undeb i'r Eglwys yn ei bywyd mewnol a hefyd yn ei pherthynas ag eglwysi eraill'.[2]

Rhoddir cryn sylw yn yr adroddiad i gydgymundeb gan y credai cynrychiolwyr yr Eglwysi Rhyddion y byddai cydgymundeb rhwng yr holl eglwysi a'i gilydd yn gwneud cyfraniad mawr at undod Cristnogol. Argymhelliad yr adroddiad yw mai wedi gwneud y Cyfamod y dylid cymryd y cam hwn, a hynny pryd bynnag y deuai aelodau'r eglwysi at ei gilydd mewn addoliad a gwaith a fyddai'n arwain at sylweddoli undeb. Cytunwyd hefyd i argymell fod yr Eglwys yng Nghymru yn ymestyn y caniatâd a roddwyd i arfer cydgymundeb mewn cynadleddau ecwmenaidd 'i achlysuron eraill a fwriedir i hyrwyddo undeb...yn y cyfnod pan yw'r Cyfamod dan

---

1. ibid., tud. 48.
2. ibid., tud. 54.

ystyriaeth'[1] gan y byddai hynny'n ennill gwrandawiad i'r alwad i gyfamodi.

Awgrymir i gloi mai drwy gydweithio ymarferol yn enwadol a lleol y byddai hinsawdd briodol yn cael ei chreu a fyddai'n hyrwyddo derbyniad y Cyfamod tuag at undeb. Awgrymir cydweithio gyda phlant a phobl ieuanc, mewn paratoi at gyflawn aelodaeth, mewn gwasanaethau noson waith, drwy rannu adeiladau eglwysig a chydweithio rhwng gweinidogion (ac eraill) a'i gilydd yn lleol. A'r cyfan hyn er mwyn hyrwyddo cenhadaeth yr eglwys yng Nghymru yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Ni ofynnwyd i'r enwadau am ymatebion swyddogol i'r adroddiad hwn, yn hytrach fe'u gwahoddwyd i'w wneud yn bwnc astudio a gweddi, a chroesawyd unrhyw sylwadau oddi wrth yr eglwysi neu gan grwpiau lleol ac unigolion.

'Roedd dwy ran yr adroddiad terfynol ar *Gyfamodi ar gyfer Undeb yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Chwefror a mis Hydref 1971 yn adeiladu ar yr adroddiadau blaenorol ac yn ceisio ymateb i sylwadau a wnaed gan yr eglwysi. Y mae'n cynnwys termau'r Cyfamod ac esboniad arno (ynghyd â rhai papurau ar bynciau arbenigol). Gwahoddwyd yr eglwysi a'r enwadau i benderfynu a oedd termau'r Cyfamod yn dderbyniol iddynt fel sylfaen cytundeb, a mabwysiadu rhaglen o gyflwyno ac astudio er mwyn sicrhau bod penderfyniadau deallus yn cael eu gwneud. Gobaith y Cydbwyllgor oedd y deuai'r eglwysi a'r enwadau i benderfyniad yn ystod 1974.

'Roedd saith erthygl i'r Cyfamod ei hun, ac i bob un ddwy ran, un yn cydnabod yr hyn a oedd eisoes yn gyffredin rhwng yr eglwysi a'r llall yn mynegi bwriad ar gyfer y dyfodol. Pynciau'r gwahanol erthyglau hyn oedd ffydd, cenhadaeth, yr eglwys, aelodaeth, gweinidogaeth, addoliad a'r sacramentau, llywodraeth eglwysig. Ymhob achos 'roedd y mynegiant yn adeiladu ar yr hyn a ddywedwyd am y pynciau hyn mewn adroddiadau blaenorol, yn fwyaf arbennig *Cyfamodi yng Nghymru (1968)*. Unwaith eto y cymal mwyaf dadleuol oedd erthygl (5) ar y weinidogaeth:

---

1. ibid., tud. 70.

> (a) Cydnabyddwn weinidogaethau ordeiniedig ein holl eglwysi yn weinidogaethau gwirioneddol y gair a'r sacramentau, trwy y rhai y cyhoeddir Cariad Duw, y cyfryngir ei ras, ac y gweinyddir ei ofal Tadol.
> (b) Bwriadwn geisio patrwm o weinidogaeth ordeiniedig y cytunir arno, yr hwn a wasanaetha'r efengyl mewn undeb, a arddengys ei pharhad drwy oesoedd, ac a dderbynnir cyn belled ag y gellir gan yr Eglwys drwy'r byd oll.[1]

Y mae'r esboniad ar yr erthygl hon yn cydnabod bod y weinidogaeth '...yn broblem astrus'[2] ac nad eir mor bell ag y byddai rhai yn dymuno i gyfeiriad cydnabyddiaeth gyflawn o weinidogaethau ein gilydd. Ailadroddir, i raddau helaeth, y dadleuon a gyflwynwyd yn yr adroddiad blaenorol a mynegir yr egwyddor a oedd yn sylfaenol i'r Cydbwyllgor, sef, na ddylid 'ceisio cymrodedd *ad hoc*, ond parhad gwirioneddol gydag Eglwys yr apostolion a'r holl oesoedd'.[3] Yn y dasg hon byddai tair egwyddor sylfaenol yn erthygl (5b) yn allweddol: byddai'n rhaid i'r weinidogaeth gydnabyddedig wasanaethu'r efengyl mewn undeb, arddangos parhad yr Eglwys drwy'r oesoedd, a bod yn dderbyniol gan yr Eglwys drwy'r byd. Wrth ystyried gweinidogaeth byth wedyn bu'r egwyddorion hyn yn sylfaenol i weithgarwch yr eglwysi cyfamodol yng Nghymru.

Yn Rhan II o'r adroddiad terfynol ceir ymdriniaeth sylweddol ar bwnc na chafodd lawer o sylw yn y dogfennau cyfamodol blaenorol, sef, offeiriadaeth mewn perthynas â'r weinidogaeth. Wedi rhagarweiniad cyffredinol ar ystyr offeiriadaeth canolbwyntir ar dair agwedd o'r pwnc, offeiriadaeth Crist, Mab Duw, offeiriadaeth yr Eglwys, pobl Dduw, ac offeiriadaeth yr offeiriad, gweinidog Duw yn ei Eglwys. Deuir i'r casgliad y

> 'rhoddir i'r gweinidog ordeiniedig awdurdod a gallu i weithredu ar ran yr holl Gorff offeiriadol..Y mae'r holl Gorff offeiriadol, y Pen a'r aelodau, yn gweithredu drwyddo ef, yn broffwydol, yn sacramentaidd ac

---

1. Cyfamodi ar gyfer Undeb yng Nghymru, Rhan I, Cyngor Eglwysi Cymru, Ebrill 1971, tud. 12 ymlaen.

2. ibid., tud. 34.

3. ibid., tud. 36.

> yn fugeiliol...Gan hynny y mae offeiriadaeth Crist yn rhagdybio natur offeiriadol... ei haelodau ('offeiriadaeth yr holl gredinwyr') ac yn arbennig ei gweinidogion, yn ôl mesur y gras a roddwyd iddynt er mwyn cyflawni eu gweinidogaeth'.[1]

Ar ddiwedd Rhan II gofynnir, A ellir cyfuno'r patrymau gwahanol o weinidogaeth sy'n bodoli ymhlith yr eglwysi yn yr Eglwys Unedig? Ateb y traethawd (nad oedd, o angenrheidrwydd, yn fynegiant o farn swyddogol y Cydbwyllgor) oedd y gellid gwneud hynny, drwy fabwysiadu patrwm triphlyg yr amseroedd cynnar, a'i addasu at ddibenion cenhadaeth a gweinidogaeth yng Nghymru'r ugeinfed ganrif.

Fe wnaeth cyrff awdurdodol yr enwadau a dderbyniodd y Cyfamod eu penderfyniad ar y dybiaeth mai'r egwyddor hon a fyddai yn penderfynu cyfeiriad unrhyw weithgarwch pellach mewn perthynas â'r weinidogaeth ac yn sylfaen i weinidogaeth mewn unrhyw Eglwys Unedig a ddeuai i fodolaeth o ganlyniad i'r Cyfamod. Yr egwyddor hon hefyd (ymhlith materion eraill) a barodd i rai enwadau wrthod y Cyfamod ym 1974. Pan gyhoeddodd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol (a luniwyd ym 1976 i hyrwyddo'r Cyfamod ymhlith yr enwadau hynny a'i derbyniodd) *Egwyddorion Undeb Gweledig yng Nghymru* (1981) a *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno* (1986), patrwm o weinidogaeth driphlyg wedi ei haddasu ar gyfer anghenion cenhadol ac eglwysig Cymru heddiw a fabwysiadwyd. Yn nhyb y Comisiwn y patrwm hwn yn unig a fedrai gwrdd â gofynion erthygl (5b) o'r Cyfamod. Hyd yma, fodd bynnag, tra'n cytuno ar egwyddorion diwinyddol gweinidogaeth driphlyg sy'n cynnwys gweinidogaeth o arolygiaeth, gweinidogaeth y gair a'r sacramentau, a gweinidogaeth ddiaconiaethol, ni lwyddwyd i gynnig na chynllun ordeinio na phatrwm gweinidogaethol sy'n dderbyniol i'r holl eglwysi cyfamodol ac sy'n cyflawni gofynion yr erthygl hon.

Cafodd oblygiadau cyfamodi gryn sylw yn Rhan II o'r adroddiad terfynol[2]. Un o'r

---

1. ibid., Rhan II, Hydref 1971, tud. 86 ymlaen.
2. ibid., tud. 24 ymlaen.

oblygiadau sylfaenol oedd nad peth ymylol ddylai'r Cyfamod fod ond ymrwymiad sy'n ganolog i holl fywyd a gwaith yr eglwysi'n genedlaethol a lleol, ac sy'n cyffwrdd â phob aelod ac nid arweinyddiaeth yr enwadau a'r eglwysi lleol yn unig. Nodir nifer o feysydd lle y dylid gweithredu'r ymrwymiad hwn os oedd y Cyfamod i'w gymryd o ddifrif gan yr enwadau a'i derbyniai. Rhoddir y flaenoriaeth i ymateb unol i ofynion cenhadol brys Cymru, ac i berthynas ag eglwysi tramor. Ailbwysleisir Egwyddor Lund (a gymeradwywyd gan Gynhadledd Nottingham ym 1964) fel elfen 'anhepgor' o fywyd eglwysi a fyddai mewn Cyfamod â'i gilydd. Gallai hyn olygu cyswllt rhwng swyddogion enwadol a lleol a'i gilydd, cyfnewid sylwedyddion i gyfarfodydd o'r llysoedd enwadol, meithrin cysylltiad rhwng adrannau arbenigol a'i gilydd, ymgynghori cyn codi adeiladau eglwysig newydd, hybu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer gweinidogaeth. Rhestrwyd y posibiliadau hyn lawer gwaith cynt a chwedyn, a thra gweithredir ar rai ohonynt ni ddaethant eto yn rhan naturiol o'n bywyd cydeglwysig yng Nghymru. Tanlinellwyd yr angen hefyd am 'angerddoli' gweithgarwch ecwmenaidd lleol a hynny'n bennaf drwy gymell arbrofion ecwmenaidd lleol yn unol ag argymhellion Nottingham. Wedi'r holl esbonio a thrafod, 'roedd her y Cyfamod yn amlwg. Er na wyddai'r eglwysi a'r enwadau eto 'pa ffurf a gymer undeb'[1], ac er iddynt sylweddoli fod yn rhaid iddynt fod 'yn agored i'r Ysbryd', galwad i ymwymiad difrifol gerbron Duw ydoedd y Cyfamod:

> Gan hynny gwnawn y Cyfamod difrifol hwn yn awr gerbron Duw a chyda'n gilydd, i weithio a gweddïo mewn ufudd-dod unol i'n Harglwydd Iesu Grist, fel y caffom drwy'r Ysbryd Glân ein dwyn i un Eglwys weledig i wasanaethu gyda'n gilydd mewn cenhadaeth er gogoniant Duw Dad.[2]

Ym 1972 cyhoeddwyd *Pam Cyfamodi?* i fod yn arweiniad poblogaidd i'r alwad i gyfamodi. 'Roedd yn cynnwys amlinelliad byr o gefndir y Cyfamod, esboniad cryno o dermau'r cyfamod, ac awgrymiadau am ganlyniadau ymarferol gwneud Cyfamod

---

1. Y Cyfamod, Cyfamodi ar gyfer Unbeb yng Nghymru, Rhan I, tud. 14.
2. ibid., tud. 14.

o'r fath. Y mae'n crynhoi'r mater a oedd gerbron yr eglwysi fel hyn:

> O ran ei hanfod, golyga cyfamodi berthynas newydd rhwng yr eglwysi sy'n bod. Byddai pob eglwys yn newid i ryw fesur. Wrth i'r berthynas ddatblygu, deuai'r canlyniadau yn raddol yn fwy eglur. Ac yn y diwedd, dan arweiniad yr Ysbryd Glân, ymddangosai ffurf yr Eglwys unedig.[1]

'Roedd yr holl adroddiadau hyn a gyhoeddwyd rhwng 1966 a 1972 yn cynrychioli gweithgarwch enfawr ar ran y Cydbwyllgor Cyfamodi a Chyngor Eglwysi Cymru. Gwerthwyd 2,670 copi o *Cyfamodi yng Nghymru* (1968), 5,500 copi o Rhan I a 2,765 copi o Rhan II o *Cyfamodi ar gyfer Undeb yng Nghymru* (1971), 15,000 o *Pam Cyfamodi?* (1972), a 48,150 copi o destun y Cyfamod! Y mae'r gwerthiant hwn hefyd yn arwydd o'r ymdrechion glew a wnaed i hyrwyddo ystyriaeth ofalus ac eang o'r Cyfamod.[2]

Cafwyd ymateb amrywiol yn y Wasg Gymreig i'r argymhellion hyn. Mewn erthygl olygyddol yn *Yr Haul*, barnai Norman Hughes nad 'i gyfeiriad ecwmeniaeth y mae'r llif yn rhedeg ym mywyd crefyddol Cymru heddiw' a hynny 'er gwaethaf datganiadau hyderus arweinwyr eglwysig'.[3] Y mae'n amau un o egwyddorion sylfaenol y Cyfamod, sef, bod angen rhoi mynegiant gweledig i'r undeb sydd eisoes yn eiddo i bobl Dduw. Credai fod bedydd 'yn clymu pob Cristion o fewn yr un Eglwys... (ac mai) undod cyfrin yw aelodaeth yr eglwys, a arddangosir dan rith sagrafen...O fewn yr undod cyfrin hwn y mae yng Nghymru nifer o gyfundebau'.[4] O ganlyniad y mae'n wrthwynebus i undod organig ac yn argymell yn hytrach undod ffederal a fyddai'n cadw'r enwadau a'u gweinidogaethau fwy neu lai fel yr oeddent, yn golygu cydgymuno cyffredinol a pharchu argyhoeddiadau'r cyfundebau gwahanol.

--------------------

1. Pam Cyfamodi?, Cyngor Eglwysi Cymru, 1972, tud. 22.
2. Adroddiad y Cydbwyllgor Cyfamodi i Gyngor Eglwysi Cymru, 11 Rhagfyr 1974.
3. Yr Haul, Rhifyn Gaeaf 1972, tud. 2.
4. ibid., tud. 3.

Gwadai hefyd honiad nifer o arweinwyr y mudiad tuag at Gyfamodi fod rhaniadau yn rhwystr i genhadu, gan bod yr enwadau eisoes yn un 'i olwg byd anffyddiog'.

Ymateb llugoer a gafwyd hefyd gan nifer a fynychodd y Gynhadledd Cyfamodi yn Wrecsam ym 1972. Daeth holl fater iaith i'r amlwg yn adroddiadau J.R.Roberts (Presbyteriaid, Penycae) a Derwyn Morris Jones (Annibynwyr, Rhydaman).[1] Er bod mwyafrif y cynadleddwyr yn Gymry Cymraeg, eto traddodwyd yr holl anerchaidau yn Saesneg. Ym marn J.R. Roberts, 'rhaid i bob mudiad cenedlaethol yng Nghymru gyfoes barchu'r iaith Gymraeg neu fe gyll gefnogaeth y bobl ieuanc ddewr sy'n aberthu drosti'. Y mae'r sylw hwn yn datgelu un o'r ofnau pennaf mewn perthynas ag undeb Cristnogol yng Nghymru yn ystod y degawdau o dan sylw. Ofnai nifer fawr o aelodau a gweinidogion yn yr eglwysi Cymraeg y byddai dilyn ffordd undeb Cristnogol yn golygu cyfaddawdu ar yr iaith. Gan bod cynghorau eglwysi lleol ac ymdrechion cydeglwysig eraill mewn ardaloedd a threfi dwy-ieithog yn cynnwys eglwysi Cymraeg ac eglwysi Saesneg tueddai trafodaethau a gweithgareddau fod yn Saesneg, 'gan bod pawb yn deall Saesneg', er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau fod pob gweithgarwch yn ddwyieithog. Erbyn hyn y mae Cytûn yn cael ei holl brif gyfarfodydd yn ddwyieithog, gan ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd. Cyhoeddir yr holl ddogfennau yn ddwyieithog, fel y gwnaeth y Cydbwyllgor Cyfamodi, wrth gwrs. Yr enwadau Saesneg eu hiaith sydd yn aml ar flaen y gad am gael dwyieithrwydd cyflawn ac effeithiol mewn cyfarfodydd cydeglwysig. Ond ni ellir gwadu bod holl fater dwyieithrwydd wedi bod yn un o'r rhwystrau diwylliannol pennaf ar ffordd undeb Cristnogol yng Nghymru. Yn sicr, lliwiodd y drafodaeth ar Gyfamodi yn y 70au cynnar.

Y mae J.R. Roberts a Derwyn Morris Jones yn mynegi amheuon eraill a oedd yn lled gyffredinol ar y pryd ymhlith yr enwadau anghydffurfiol. Beth oedd ystyr

1. Porfeydd, Mawrth/Ebrill 1972 (Cyf. 4, Rhifyn 2) 1972, tud. 88 ymlaen.

brawddeg megis, 'gyda'n gilydd yr ydym yn edifarhau am y pechod o barhau'n hymraniadau'? Ai gwir yr honiad fod 'rhaniadau yn llesteirio cenhadaeth Duw'? A oes unrhyw ystyr i'r sôn am 'gydnabod gweinidogaeth ein gilydd' onibai ei fod yn golygu cyfnewid gweinidogion rhwng enwadau a'i gilydd? A fyddai'r cyfamod yn anorfod yn golygu coleddu 'esgobyddiaeth'? Croesawodd Derwyn Morris Jones ddatganiad yr Esgob G.O.Williams:

> Lle bynnag yr eir i mewn i'r cyfamod o ddifrif, fe dynnir aelodau a gweinidogion, pawb yn ei sefyllfa ei hun, i mewn i batrymau o gyd-weithio â Christnogion eraill a fydd yn treiddio uwchlaw ffiniau'r eglwysi. Allan o'r profiad o fyw'r un bywyd y ffurfir yn y pendraw gynllun yr un Eglwys'.[1]

Ond beth oedd ystyr datganiad cadarnhaol o'r fath pan betrusai'r Esgob ateb cwestiwn er ei ben yn ystod y Gynhadledd ynglŷn â pharodrwydd yr Eglwys yng Nghymru i dderbyn llythyr aelodaeth oddi wrth un o'r enwadau eraill yn y Cyfamod? 'Roedd ei ymateb yn 'siom' i'r awdur.

Yn yr ymatebion hyn, o leiaf, 'roedd ymdeimlad fod nod y Cyfamod, sef, undeb rhwng yr enwadau anghydffurfiol a'r Eglwys yng Nghymru, yn rhy uchelgeisiol. Os na lwyddwyd i sicrhau undeb drwy gynllun y pedwar enwad sut y gellid gobeithio llwyddo drwy'r Cyfamod? Yng ngeiriau R.Tudur Jones, 'Os cloffir ar yr Eifl, sut eir dros yr Wyddfa?'[2]

Cafwyd ymateb gwahanol iawn gan H.W.J.Edwards (o'r Eglwys Gatholig Rufeinig). 'Roedd yn cefnogi'r mudiad ecwmenaidd, 'ond yn ei gefnogi'n anfoddog. Yr wyf yn anfoddog am fy mod fel Pabydd yn gwadu bodolaeth yr hyn a elwir "yr eglwysi" ac yn gwrthod yn bendant y syniad fy mod i'n perthyn i un o'r "eglwysi"'.[3] Credai mai cymwynas â'r mudiad ecwmenaidd oedd hyn, 'Nid oes yna ddim byd afresymol na

--------------------

1. ibid., tud. 94.
2. Yr Undeb, tud. 368.
3. Yr Haul, Haf 1973, tud. 11.

chul yn hyn oll dim ond mater o roi'r ystyr cywir i'r gair eglwys'. Gwrthodai, fel y gwnaeth eraill, yr honiad mai pechod yw dewis 'arwahanrwydd yn hytrach nag undeb'. Yr angen pennaf, yn ei dyb ef, oedd i'r Eglwys Gatholig wneud mwy o ymdrech i sicrhau fod pobl geidwadol fel yntau yn deall beth oedd wedi digwydd ac yn digwydd yn yr eglwys, ac i gyflwyno'r ffydd Gatholig i Gristnogion sydd y tu allan i'r eglwys. Ar y llaw arall, credai E.R.Wicksted, Abad Ynys Bur, nad oedd y mudiad ecwmenaidd wedi pallu, ond yn hytrach ei fod 'wedi cyrraedd y pwynt lle mae raid gwneud aberth os ydym i symud ymlaen'.[1] Ni ellir ac ni ddisgwylir i neb 'aberthu'r hyn sy'n hanfodol ac yn sylfaenol. Ond fe ofynnir inni i gymryd golwg bwyllog, hir, ar ein gorwelion...i weld beth ellir ei aberthu...heb ollwng gafael ar egwyddorion'. Nodir yr ewcharist a rhyng-gymundeb fel un o'r mannau lle gallai 'aberth ymarferol' ddigwydd:

> Y mae yn wir, wrth gwrs, fod yr iwcharist yn arwydd o undod wedi ei gyrraedd. Ond y mae hefyd, 'rwy'n argyhoeddedig, yn digwydd bod y moddion mwyaf grymus i hybu undod. Yn bersonol, nid oes gennyf lawer o obaith y gwelir byth undod Cristnogol oni chanfyddir ffyrdd i Gristnogion ddod ynghyd..."i brofi a gweld mor dda yw'r Arglwydd"'[2]

Erbyn 1974 'roedd yr enwadau wedi penderfynu eu hymateb i'r Cyfamod. Cytunodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru a Lloegr (ac nid talaith Cymru yn unig), Yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain (ac nid taleithiau Cymru'n unig) a'r Eglwys yng Nghymru i gyfamodi â'i gilydd. Cytunodd 12 cynulleidfa perthynol i Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon, yn Ne Cymru, i ymuno yn y Cyfamod hefyd. 169 allan o 750 o eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a bleidleisiodd ar y Cyfamod, 67 o blaid, 90 yn erbyn a 12 yn rhanedig. Gan na fynegodd y gweddill unrhyw farn ar y mater, barnwyd nad oeddent o'i blaid, ac na ddylai'r Undeb ymuno yn y Cyfamod. Awgrymodd rhai y dylid gweithredu fel y gwnaeth Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon, drwy ei gwneud yn

--------------------

1. Yr Haul, Haf 1973, tud. 16 ymlaen.
2. ibid..

bosibl i'r eglwysi hynny a gytunodd i gyfamodi wneud hynny gyda chefnogaeth a chymorth yr Undeb, ond barnwyd y byddai hynny'n andwyo undod yr Undeb ei hun. Cytunodd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i gyfamodi ar yr amod na fyddai'n penderfynu dim o ganlyniad i'r ymrwymiad hwn a fyddai'n newid ei hegwyddorion sylfaenol. Yn naturiol, bu rhai'n ddrwgdybus o'r amod hwn o'r cychwyn, gan amau a fyddai tyfu i undeb Cristnogol oddi fewn i'r Cyfamod yn bosibl heb newidiadau sylfaenol i rai egwyddorion enwadol. Ond fe'i derbyniwyd ar y pryd fel ymateb cadarnhaol dilys.

Ar 18 Ionawr 1975 (sef, ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol) cynhaliwyd 'Gwasanaeth o Ddiolchgarwch am wneuthur y Cyfamod' yn Seilo, Aberystwyth. Fel arwydd o ymrwymiad yr eglwysi a'r enwadau a gytunodd i gyfamodi gosodwyd copi awdurdodedig o benderfyniad swyddogol yr eglwys ar Fwrdd y Cymun yn ystod yr oedfa, a gwnaeth eu cynrychiolwyr y datganiad canlynol:

> Yr ydym wedi ein dwyn i berthynas newydd â'n gilydd.
> Cyffeswn ein ffydd yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr.
> Adnewyddwn ein hewyllys i'w wasanaethu Ef mewn cenhadaeth yn ein gwlad ein hunain a thrwy'r byd.
> Yn saith erthygl y Cyfamod gwnaethom yn hysbys sut yr ydym yn deall yr ufudd-dod y'n gelwir ni iddo.
> Yr ydym wedi gwneuthur Cyfamod difrifol gerbron Duw ac â'n gilydd
> I weithio a gweddïo, gan gyd-ufuddhau i'n Harglwydd Iesu Grist
> Fel, drwy'r Ysbryd Glân, y dygir ni i'r un eglwys weledig
> I wasanaethu gyda'n gilydd mewn cenhadaeth er gogoniant Duw.

Pregethwyd yn yr oedfa gan G.O.Williams, Cadeirydd y Cydbwyllgor Cyfamodi o'r cychwyn. Ei destun oedd Rhufeiniad, pennod 15, adnod 7: '...Derbyniwch eich gilydd, fel y derbyniodd Crist chwi, er gogoniant Duw'. Pwysleisiodd fod undeb eglwysig yn golygu

> '...ufudd-dod i'r efengyl, ...bod yn un mewn addoliad, ...gweinidogaeth a dderbynir yn gyflawn gan bawb,...rhannu cyfrifoldeb am genhadaeth,...cymdeithas gyflawn gyda'n cyd-Gristnogion mewn mannau eraill,...arfer stiwardiaeth gyfrifol...'[1]

--------------------

1. Yr Haul, Gwanwyn 1975, tud. 4

Y mae'n pwysleisio hefyd nad yw undod eglwysig yn golygu 'llesteirio amrywiaeth...dwyn cyfrifoldeb oddi ar gynulleidfaoedd ac aelodau...symud pob awdurdod i'r canol...unffurfiaeth mewn addoliad a bywyd eglwysig.'

> 'Amcan ein hundeb fydd corffori'r weledigaeth [o un Eglwys, lân, gatholig ac apostolaidd] hyd eithaf ein gallu...ac ni fydd hynny drachefn ond cam, a gymerir mewn ffydd, at uchel nod gogoniant Duw yn cymodi pawb o'i bobl mewn un cymdeithas gyfan.'

Daeth gwaith y Cydbwyllgor Cyfamodi i ben gyda'r cam hwn ac ym 1976 sefydlwyd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, gyda chynrychiolwyr arno o blith yr Eglwysi Cyfamodol a sylwedyddion o blith Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Byddin yr Iachawdwriaeth, Yr Eglwys Gatholig Rufeinig ac Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon (i gynrychioli buddiannau'r eglwysi hynny nad oeddent ymhlith eglwysi cyfamodol yr Undeb hwnnw). D. Huw Jones oedd ysgrifennydd cyntaf y Comisiwn, ond ymhen blwyddyn cytunwyd i benodi ysgrifennydd cyffredinol llawn-amser ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.

O hyn ymlaen, ni fyddai gan Gyngor Eglwysi Cymru, fel y cyfryw, unrhyw gyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Cyfamod. Fodd bynnag, 'roedd y swydd ar-y-cyd a'r gorgyffwrdd cyffredinol rhwng dau fudiad a oedd yn bod i hybu undeb ac undod Cristnogol yng Nghymru, yn golygu'n anorfod fod y gydberthynas rhwng y Cyfamod a'r ymgais ehangach am undod Cristnogol yng Nghymru yn cael ei hystyried yn gyson. O bryd i'w gilydd bu hyn yn achos poen yn lleol gan fod rhai wedi credu y dylid cyfyngu unrhyw weithgarwch lleol ymhlith yr eglwysi cyfamodol i'r eglwysi hynny'n unig. Canlyniad anochel hyn oedd tyndra a drwgdybiaeth. Ni sylweddolodd arweinwyr yr eglwysi bob amser mai cam yn unig y bwriadwyd i'r Cyfamod fod tuag at yr undod cyflawn sy'n fwriad y mudiad ecwmenaidd, ac mai perthynas gynhwysol oedd gwreiddyn y Cyfamod (fel y pwysleisiodd G. O. Williams yn ei bregeth), partneriaeth arbennig rhwng rhai eglwysi ac enwadau a'u gwnâi yn fwy aeddfed i feithrin perthynas ddyfnach ag enwadau eraill. A'r cyfan er mwyn eu cryfhau mewn cenhadaeth a thystiolaeth Gristnogol.

Erbyn hyn, datblygodd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol a'i ailenwi'n Enfys. Er 1990 penodwyd yr Ysgrifennydd Cyffredinol rhan-amser yn Swyddog Ecwmenaidd yr Eglwys yng Nghymru (ac yntau'n weinidog yn Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr). Gwnaed cryn ymdrech i hyrwyddo'r Cyfamod yn lleol a chenedlaethol. Cyhoeddwyd *Egwyddorion Undeb Gweledig yng Nghymru* ym 1979 a oedd yn ceisio cyflwyno darlun llawnach o oblygiadau saith erthygl y Cyfamod ar gyfer Eglwys Unedig (a hynny'n gam cyntaf tuag at lunio cynllun uno cyfansawdd ar gyfer yr eglwysi cyfamodol). Ym 1981 cyhoeddwyd *Y Cymun Sanctaidd*, trefn oedfa Gymun a gydnabyddir gan yr holl eglwysi cyfamodol i'w ddefnyddio mewn gwasanaethau unedig (ac a ddefnyddir gan nifer o weinidogion mewn oedfaon 'enwadol' yn ogystal). Ym 1986 cyhoeddwyd *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno*, sef, ymgais i gyflwyno dealltwriaeth a phatrwm o'r weinidogaeth ordeiniedig a fyddai'n cymodi gweinidogaethau'r eglwysi cyfamodol mewn Eglwys Unedig. Ym 1990 cyhoeddwyd trefn ar gyfer *Y Bedydd* i'w ddefnyddio'n arbrofol ar achlysuron priodol, ynghyd â chasgliad o draethodau ar ystyr bedydd ac aelodaeth. Ym 1995 cyhoeddwyd gwasanaethau ar gyfer cadarnhau neu ail-gadarnhau ffydd (ceisiwyd osgoi'r termau 'derbyn i aelodaeth gyflawn' a 'chonffirmasiwn'). Gwahoddwyd yr eglwysi a'r enwadau cyfamodol i ystyried yr adroddiadau a'r gwasanaethau hyn a mynegi barn arnynt. Buont i gyd yn gyfraniad tuag at ddealltwriaeth lawnach o ffydd a threfn yr Eglwys Unedig a oedd yn nod y Cyfamod ond ni lwyddwyd hyd yn hyn i gael cytundeb digonol ar y materion hyn i alluogi'r enwadau i symud ymlaen tuag at gynllun uno ar sail Cyfamod 1975. Yn wir, barn Meirion Lloyd Davies yw nad yw hynny'n debygol o ddigwydd bellach am genhedlaeth o leiaf.[1]

Yn ystod yr un cyfnod, ceisiwyd hyrwyddo camau mewn cydweithio lleol rhwng yr eglwysi cyfamodol. Ond odid mai'r elfen fwyaf llwyddiannus o'r gweithgarwch lleol fu gwasanaethau cymundeb ar y cyd, yn defnyddio naill ai'r *Cymun Sanctaidd*

---

1. Gwarchod y Gair, tud. 192

(1981) neu wasanaeth awdurdodedig un o'r eglwysi a rannai yn yr oedfa. Gwerthwyd tua 15,000 o'r llyfryn *Y Cymun Sanctaidd* a'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu defnyddio drosodd a thro. Yn union ar ôl ei sefydlu ym 1976 aeth y Comisiwn ati i sefydlu Pwyllgorau Cynllunio Rhanbarthol mewn tua phymtheg ardal gyda'r bwriad o hybu cydweithio lleol, drwy gydaddoli a rhannu adnoddau ac adeiladau, a thrwy gydgynllunio ar gyfer tystiolaeth a gwasanaeth lleol. Cafwyd llwyddiant yn y cyfnod cynnar mewn mannau fel Gogledd Clwyd, Ceredigion a De Morgannwg, a chymerwyd lle'r Pwyllgorau hyn mewn rhai mannau, megis Gwynedd, gan Gyfarfod Arweinwyr. Bu'r ymateb yn amrywiol. Mewn rhai mannau sefydlwyd nifer o Gynlluniau Ecwmenaidd Lleol (Local Ecumenical Projects), yn cynnwys eglwysi cyfamodol ac eglwysi eraill, a bu'r Cyfamod yn elfen bwysig yn sefydlu'r cynlluniau hyn. Mewn rhai ardaloedd, ar y llaw arall, methwyd â sefydlu pwyllgorau rhanbarthol o unrhyw fath. 'Roedd nifer o resymau dros y methiant hwn. Diffyg brwdfrydedd lleol a diffyg cefnogaeth y cyrff enwadol rhanbarthol - a oedd yn allweddol yn y broses o gydgynllunio - oedd un o'r prif resymau. Rheswm arall oedd anwastadedd dosbarthiad yr enwadau mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, a phrinder arweinyddiaeth leol mewn ardaloedd eraill. Bellach daeth y pwyllgorau rhanbarthol hyn i ben ond y mae Enfys yn parhau'r ymdrech i hyrwyddo cydweithio lleol ymhlith yr eglwysi cyfamodol.

I gloriannu, felly, gellir nodi nifer o resymau dros arwyddocâd y Cyfamod tuag at Undeb mewn perthynas â'r ymgais am undeb eglwysig yng Nghymru. Yn gyntaf, datblygodd y Cyfamod o weithgarwch Prydeinig a byd-eang. Yn ôl Paul Crow, y Cyfamod yng Nghymru oedd yr ymgais gyntaf i ddefnyddio cyfamod fel fframwaith ar gyfer cymodi eglwysi rhanedig[1]. Ar un adeg dyma'r unig ymateb penodol yng ngwledydd Prydain i argymhellion Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Delhi Newydd a Chynhadledd Ffydd a Threfn Nottingham. 'Roedd y Cyfamod yn rhan o'r ymgais

--------------------

1. *Dictionary of the Ecumenical Movement*, CEB, 1991, tud. 244.

fyd-eang am undeb ac adlewyrchai rai o'r blaenoriaethau a oedd yn gynhenid i'r ymgais hon. Daeth hyn yn amlwg yn fwyaf arbennig yn y llyfryn *Yr Undeb a Geisiwn* a oedd yn rhan o'r paratoadau yng Nghymru ar gyfer cynhadledd Nottingham. Seiliwyd y llyfryn yn benodol ar ddatganiad Delhi Newydd. Yn ddiweddarach, pan aed ati i baratoi adroddiadau'r Cydbwyllgor Cyfamodi cafodd rhai o'r dogfennau a luniwyd gan Gyngor Eglwysi Byd ar fedydd, ewcharist a gweinidogaeth ddylanwad pwysig.

Yn ail, gwnaeth y trafodaethau Cyfamodi gyfraniad sylweddol at ddiwinydda yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod o dan sylw ychydig o weithgarwch diwinyddol cydeglwysig a oedd yn digwydd mewn meysydd megis ffydd, natur yr eglwys, y weinidogaeth a'r sacramentau, heblaw am yr hyn a wnaed gan y Cydbwyllgor Cyfamodi. Y mae'r adroddiadau'n gyfraniad nodedig tuag at gyd-ddealltwriaeth ddiwinyddol. Fodd bynnag, y mae lle i amau a gafodd y gyd-ddealltwriaeth a ddaeth i'r amlwg yn y dogfennau eu hunain ddylanwad sylweddol ar safbwyntiau diwinyddol yr enwadau fel y cyfryw. Pan wrthodwyd rhai o argymhellion yr adroddiadau hyn tueddwyd i wneud hynny am nad oeddent yn gyson â safbwyntiau traddodiadol yr eglwysi a'r enwadau. Byddai wedi bod yn llawer mwy creadigol pe bai'r enwadau wedi holi sut yr oedd yr argymhellion ecwmenaidd yn herio'r safbwynt traddodiadol a sut y gallent newid er mwyn cael eu cyfoethogi gan draddodiadau eraill. Dyma'r union broblem a wynebai *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth*, Cyngor Eglwysi'r Byd, sef, yr anhawster o sicrhau derbyniad (*reception*) i'r cydddealltwriaeth ecwmenaidd sy'n datblygu a'i integreiddio ym mywyd a hunan-ddealltwriaeth yr enwadau.

Un o ganlyniadau anorfod cyfyngu'r trafodaethau hyn i'r eglwysi cyfamodol oedd tueddiad ymhlith yr enwadau eraill i esgeuluso'r materion diwinyddol a oedd yn ganolog i'r drafodaeth gyfamodol. Fel y gwelir, fe fyddai *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth* yn gwneud cyfraniad pwysig yn y maes hwn drwy sbarduno ystyriaeth ofalus a thrylwyr o'r pynciau creiddiol hyn yn enwadol a chydenwadol drwy

Gyngor Eglwysi Cymru. Ond y mae lle o hyd i ddatblygu'r agwedd hon o'r dasg gydeglwysig ac y mae hyrwyddo hyn yn un o amcanion Cytûn.

Yn drydydd, gwelwyd y Cyfamod, o bryd i'w gilydd, fel ymrwymiad a oedd yn creu rhaniadau lleol yn ogystal ag yn hyrwyddo undeb llawnach. Un o'r rhesymau dros y cyhuddiad hwn oedd fod rhai wedi tybio fod y Cyfamod yn gwneud cydweithio a chydweddïo'n bosibl rhwng cynulleidfaoedd lleol yr enwadau cyfamodol nad oedd yn bosibl rhwng rhai o'r enwadau hyn (sef, yn bennaf, yr Eglwys yng Nghymru) ac eglwysi nad oeddent wedi cyfamodi. Yn aml, teimlwyd yr anesmwythyd pennaf mewn perthynas ag oedfaon cymundeb yn defnyddio'r *Cymun Sanctaidd (1981)*. I raddau, y mae'r ofn hwn yn aros hyd heddiw ac y mae'r angen yn parhau am ddatblygu patrymau o gydberthyn sy'n galluogi eglwysi cyfamodol i gydweithio a chydaddoli yn gyflawn a chyson ag eglwysi eraill. Y mae Cytûn yn medru hyrwyddo'r datblygiadau hyn, ac y mae'r Bil a dderbyniwyd gan yr Eglwys yng Nghymru ym 1990 i alluogi cyfnewid gweinidogion rhyngddi ac eglwysi eraill sy'n aelodau o Cytûn yn debygol o wneud cyfraniad pwysig er mai ychydig o enghreifftiau sydd hyd yma o weithredu'r canllawiau hyn. Gwelwyd penodi (ym 1977) ysgrifennydd-ar-y-cyd rhwng y Cyngor a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol fel cyfraniad pwysig at sicrhau nad oedd y Cyfamod yn cael ei ynysu oddi wrth batrymau eraill o berthyn. Bu'r bartneriaeth hon mewn bodolaeth tan 1990 a chyfrannodd at gadw cyswllt rhwng y ddau gorff, a rhwng y ddau lwybr tuag at undod Cristnogol. Drwy hyn, ceisiwyd osgoi rhaniad rhwng yr eglwysi cyfamodol a'r eglwysi eraill.

Yn bedwerydd, bu ymrwymiad y Cydbwyllgor Cyfamodi at ddwyieithrwydd yn bwysig iawn. O'r cychwyn 'roedd enwadau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog yn rhannu yn y trafodaethau. Cyhoeddwyd yr holl ddogfennau'n ddwyieithog. Credai'r Cydbwyllgor (a'r Comisiwn yn y blynyddoedd wedi 1976) fod dwyieithrwydd yn un o nodweddion hanfodol yr eglwys unedig yr anelwyd at ei ffurfio ac i'r diben hwn lluniwyd gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cydaddoli lleol. Gwelwyd hyn nid yn unig fel rhywbeth a fyddai'n angenrheidiol yn ymarferol ond hefyd yn dystiolaeth i'r

cymod rhwng ieithoedd a diwylliannau sy'n un o roddion yr Efengyl. Dyma un rhan o'r ymrwymiad a oedd wedi ei thanlinellu oddi fewn i'r Cyfamod ei hun, sef, hybu gwasanaeth i'r ddynolryw gyfan ac yn arbennig 'i'r wlad a'r bobl hyn'. Ar yr un pryd, y mae'n rhaid cydnabod, fel y gwelwyd, fod nifer wedi gweld dwyieithrwydd y mudiad cyfamodol fel bygythiad i Gymreigrwydd cynhenid yr eglwysi. Yn wir, mewn rhai ardaloedd y mae lle i gredu fod gofid am yr iaith yn fwy o rwystr i'r cyfamod na gwahaniaethau diwinyddol ac eglwysig.

Yn bumed, y mae lle i gredu mai pennaf cyfraniad y Cyfamod oedd cadw'r nod o undeb gerbron yr eglwysi a'r enwadau. Barn Gethin Abraham-Williams (ysgrifennydd cyffredinol presennol Enfys: Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol) yw mai pontio rhwng 'capel' ac 'eglwys' yw calon y Cyfamod. O gofio rhaniadau'r gorffennol yng Nghymru, y mae'r gydberthynas sy'n bod ar hyn o bryd - er mor annigonol ydyw ar un olwg - yn gyfraniad pwysig tuag at gyfannu'r gwahaniaethau eglwysig, diwinyddol, hanesyddol a diwylliannol. Bu'r trafodaethau am ddatgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru yn anodd a phoenus ar brydiau, ac y mae eu heffeithiau'n parhau hyd heddiw. Gwna'r Cyfamod gyfraniad gwerthfawr at oresgyn yr effeithiau parhaol hyn drwy feithrin cyfeillgarwch a magu hyder a chyd-ddealltwriaeth. Ni ellir hybu undeb eglwysig heb ystyried gwahaniaethau hanesyddol a diwylliannol yr eglwysi. Yn y diwedd, dyma'r hyn a alwyd yn 'fin y cyfamod': cadw'r her o undeb gerbron eglwysi a wahanwyd nid yn unig ar sail traddodiad a diwinyddiaeth ond hefyd ar sail diwylliant, iaith a hanes.

Gwelwyd drosodd a thro yn y dadansoddiad hwn mai'r rhwystr pennaf ar ffordd y Cyfamod yw'r ddealltwriaeth o weinidogaeth yn y gwahanol draddodiadau. Y mae lle i amau, fodd bynnag, nad y weinidogaeth yw'r cwestiwn canolog ond y ddealltwriaeth o natur yr eglwys. Y mae rhai wedi honni nad yw'n bosibl cymodi'r tri thraddodiad eglwysig sydd oddi mewn i'r Cyfamod, sef, y traddodiadau esgobol, presbyteraidd a chynulleidfaol. Y maent, meddir, yn hollol anghydnaws â'i gilydd ac felly ni ellir dychmygu patrwm eglwysig a fedr wneud cyfiawnder â'r tri thraddo-

diad. Canlyniad hyn yw'r methiant hyd yma i gyflwyno un patrwm o weinidogaeth unedig sy'n codi o'r tri thraddodiad nad yw'n ymddangos fel pe bai'n gwadu rhai o ddaliadau hanfodol un neu ragor o'r traddodiadau.

Y gwir yw, fod y Cyfamod wedi cynnig posibiliadau creadigol i'r eglwysi ar gyfer undeb Cristnogol yn lleol a chenedlaethol. Pan ofynnwyd - ym 1980, y flwyddyn a osodwyd yn nod ar gyfer eglwysi unedig gan Gynhadledd Nottingham (1964) - i Martin Conway, a oedd ar y pryd yn Ysgrifennydd Materion Ecwmenaidd Cyngor Eglwysi Prydain, i asesu effeithiolrwydd y camau tuag at undeb ym Mhrydain, ysgrifennodd fel a ganlyn am y Cyfamod yng Nghymru:

> '...The opportunity for experiment and advance has been provided, but it has been all too seldom seized. At the local level, the inflexibility of inherited outlooks, and at the wider levels an indifference and unreadiness to explore actual partnership, have been seriously crippling. A covenant that is formally accepted but not put to use soon becomes an added cause of hesitation and mistrust between the churches'.[1]

Byddai nifer yn yr eglwysi cyfamodol - ac oddi allan iddynt - yn adleisio'r farn hon. Deil yr eglwysi hyn, fodd bynnag, o leiaf yn eu datganiadau cenedlaethol swyddogol, i fynegi ymrwymiad i'r Cyfamod, ac ymrwymiad hefyd i gymryd camau yn lleol a chenedlaethol a fydd yn eu galluogi i symud ymlaen gyda'i gilydd tuag at yr un eglwys weledig sy'n dal i fod yn nod y Cyfamod yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am oresgyn y rhwystrau diwylliannol a hanesyddol yn ogystal â'r gwahaniaethau diwinyddol ac eglwysig. Ni wneir hynny heb yr ewyllys i geisio undeb a ysgogodd yr arloeswyr cynnar yng Nghymru.

---

1. Martin Conway, *Unity - Why not yet?*, CEP, 1980, tud. 13.

PENNOD 4

# YR YMGAIS AM UNDEB: BEDYDD, EWCHARIST A GWEINIDOGAETH

Un o ganlyniadau anfwriadol dirwyn y Cydbwyllgor Cyfamodi i ben a ffurfio Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol oedd trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r gwaith ffydd a threfn yn ogystal â'r ymgais am undeb Cristnogol i'r Comisiwn. O ganlyniad bu cyfnod o bum mlynedd pan na wnaed nemor ddim gwaith yn y maes hwn gan Gyngor Eglwysi Cymru a chyfyngwyd y gwaith cydeglwysig mewn perthynas â'r ymgais am undeb yn y cyfnod hwn bron yn gyfan gwbl i'r eglwysi a'r enwadau cyfamodol.

Ond ym 1982 cyhoeddodd Comisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi Byd, a gyfarfu'r flwyddyn honno yn Lima, yr adroddiad ar Fedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth[1] Byddai wedi bod yn anodd rhagweld gymaint o ddylanwad a gâi'r ddogfen hon a chymaint o sylw a roddid iddi. 'Roedd y ddogfen yn ffrwyth blynyddoedd o drafodaethau ecwmenaidd ac ni chafodd unrhyw ddogfen ecwmenaidd y fath sylw bydeang yn y cyfnod cyfoes.

Gellir olrhain y testun hwn yn ôl i gyfarfod cyntaf Ffydd a Threfn yn Lausanne ym 1927, pan gyhoeddwyd, ymhlith eraill, adroddiadau ar _Ministry in the Church_ a _The Sacraments_. Ddegawd yn ddiweddarach, yng nghyfarfod Ffydd a Threfn yng Nghaeredin, cyhoeddwyd _The Church of Christ: Ministry and Sacraments_Ymdriniwyd â'r sacramentau a'r weinidogaeth gan gyfarfod Lund ym 1952. Yng nghyfarfod Comisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd ym Montreal ym 1963 cyhoeddwyd adroddiad creiddiol ar _Scripture, Tradition and the traditions_ (sy'n sylfaen i ymdriniaeth adroddiad 1982 ar Fedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth) a'i adroddiad ar _One Lord, One Baptism_. Arweiniodd adroddiadau cyfarfod Bryste ym 1971 ar _Ecumenical Agreement on Baptism_, _The Eucharist in Ecumenical Thought_ a

--------------------

1. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, CEB, 1982.

The Ordained Ministry at ragflaenydd adroddiad 1982, sef, One Baptism, One Eucharist and a Mutually Recognised Ministry a gyhoeddwyd ym 1974.

Yn ôl y Comisiwn Ffydd a Threfn ei hunan yr hyn a wnaeth broses mor bellgyrhaeddol yn bosibl oedd y datblygiadau oddi fewn i'r mudiad ecwmenaidd yn fyd-eang yn ystod y degawdau blaenorol. Gwelwyd cyd-ddealltwriaeth newydd ymhlith yr eglwysi. 'Roedd trafodaethau tuag at undeb eglwysig a'r deialogau cydenwadol rhyngwladol wedi arwain at ddirnadaeth ddiwinyddol ddyfnach o'r gwahanol draddodiadau eglwysig. Bu cryn gydweithio diwinyddol ar draws ffiniau'r traddodiadau Cristnogol. Bu cynnydd mewn cydweddïo a chydaddoli. Bu anghenion mawr y ddynolryw yn her i'r eglwysi roddi ystyriaeth ddiwinyddol i'r angen am i Gristnogion ar draws y byd gyd-dystiolaethu a chydwasanaethu.[1]

'Roedd yr adroddiad yn cynrychioli'r cytundeb byd-eang sylweddol a welwyd gan Gomisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi Byd a rhoddwyd sylw arbennig i'r agweddau hynny o waith ffydd a threfn a oedd yn berthnasol i'r ymgais am undeb Cristnogol.[2] Felly, gofynnwyd i bob eglwys i lunio ymateb swyddogol i'r ddogfen 'at the highest appropriate level of authority'.[3] Gofynnwyd am ymatebion swyddogol i bedwar cwestiwn. Yn gyntaf, a fedrai'r enwad gydnabod fod y testun hwn yn cynrychioli ffydd yr Eglwys Gristnogol ar hyd yr oesau? Yn ail, beth oedd goblygiadau'r testun hwn i berthynas yr enwad ag enwadau ac eglwysi eraill sydd hefyd yn cyffesu'r ffydd apostolaidd? Yn drydydd, pa arweiniad a rydd y testun hwn i addoliad, gwaith addysgol, bywyd moesol ac ysbrydol, a thystiolaeth yr enwad? Yn olaf, pa awgrymiadau y gall yr enwad eu cyflwyno i Gyngor Eglwysi Byd, ar sail y testun hwn, mewn perthynas â'r ymgais i roddi mynegiant cyffredin i'r Ffydd

---

1. *Baptism, Eucharist and Ministry, 1982 - 1990: Report on the Process and Responses, Faith and Order Paper No. 149,*, CEB, 1990, tud. 6.

2. *Baptism, Eucharist and Ministry*, Rhagair, tud. ix.

3. ibid., tud. x.

Apostolaidd heddiw?[1]

Lluniwyd ymatebion swyddogol i'r cwestiynau hyn gan y tri enwad Cymreig sy'n aelodau o Gyngor Eglwysi'r Byd, sef, yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Trafodwyd y ddogfen hefyd gan adrannau Cymreig o enwadau Prydeinig, sef, yr Eglwys Fethodistaidd (na chyhoeddodd adroddiad o'r drafodaeth yng Nghymru), yr eglwysi cyfamodol oddi fewn i Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon, a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Cyflwynwyd un ymateb swyddogol yn unig ar ran yr Eglwys Gatholig Rufeinig fyd-eang. Ym Mawrth 1985 cyhaliwyd cynhadledd gydeglwysig gan Adran Ffydd a Thystiolaeth Cyngor Eglwysi Cymru i ystyried ymatebion enwadau Cymru i'r ddogfen hon ac i awgrymu ffyrdd ymlaen mewn perthynas â'r materion hyn yng Nghymru.

Bu rhai o'r enwadau yn cynnal trafodaethau lleol a rhanbarthol ar y ddogfen hon, yn ogystal â thrafodaethau cenedlaethol - a hynny'n gydeglwysig, yn aml. Profodd hyn yn rhyfeddol o werthfawr a daeth llawer yn yr eglwysi i werthfawrogi safbwynt ei gilydd am y tro cyntaf a sylweddoli gymaint yr oedd yr eglwysi wedi tyfu tuag at ei gilydd mewn ffydd ac arfer.[2]

Wrth gloriannu'r ymatebion daeth yn amlwg i'r Comisiwn Ffydd a Threfn fod angen diffinio'n fwy gofalus y cydbwysedd rhwng y cytundeb sy'n hanfodol ynglŷn â'r sylfeini a'r amrywiaeth sy'n ddymunol ac yn dderbyniol (yr hyn a ddisgrifiwyd yn ddiweddarach fel undod oddi fewn i amrywiaeth cyfreithlon).[3] 'Roedd amheuaeth hefyd yn rhai o'r adroddiadau ynglŷn â'r math o gytundeb a anelid ato. Ai cytundeb amwys mewn geiriau yn unig a ddisgwylid, y gellid ei ddehongli'n wahanol gan enwadau a thraddodiadau gwahanol, ynteu cytundeb ar gynnwys a sylwedd?

--------------------

1. ibid., tud. x.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, CEB, 1986, tud 166.
3. *Baptist, Eucharist and Ministry, 1982 - 1990: Report on the Process and Responses*, tud. 32.

Rhoddodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru groeso arbennig i un o sylfeini'r adroddiad hwn, a oedd yn tarddu o waith Cynhadledd Montreal ar Yr Efengyl, y Traddodiad a'r traddodiadau (1963):

> 'The understanding of tradition as referring back to canonical scripture itself for sanction, while recognising that scripture itself is both the product and authority of tradition, is a position we find both helpful and challenging.'[1]

Ond, fel y gwelir yn y man, tra'n croesawu'r egwyddor hon, ni theimlodd pawb fod yr adroddiad wedi glynu wrthi ymhob achos.

**BEDYDD**

Nid yw'n annisgwyl mai mewn perthynas â'r adran ar fedydd yr oedd y cytundeb llawnaf ymhlith yr enwadau yng Nghymru. Gallai'r Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru gytuno eu bod yn medru cydnabod yn yr adran hon ffydd yr Eglwys drwy'r oesau.[2] A medrai Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sydd, ar y cyfan, yn fwy beirniadol o'r ddogfen na'r enwadau eraill, gydnabod fod llawer yn yr adran hon y gellid cytuno arno.[3] Gellid casglu, felly, fod yr enwadau hyn yn lled gytûn ar y ddealltwriaeth feiblaidd o fedydd a weinyddir â dŵr yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân:

> '...a participation in Christ's death and resurrection, a washing away of sin, a new birth, an enlightenment by Christ, a re-clothing in Christ, a renewal by the Spirit, a liberation into a new humanity, an act of justification, God's gift of the anointing and the promise of the Holy Spirit, a sign and seal of common discipleship and therefore a basic bond of Christian unity.'[4]

Ond tra'n cydnabod y mesur hwn o gytundeb y mae meysydd o anghytundeb

---

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 166.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 166 a
*Churches Respond to BEM*, Cyf. III, CEB, 1987, tud. 82.
3. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 269.
4. *Baptism, Eucharist and Ministry, 1982 - 1990: Report on the Process and Responses*, tud. 41.

sylfaenol yn ymddangos yn yr ymatebion hyn. Yn gyntaf, y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn codi cwestiwn sylfaenol ynglŷn â natur y sacramentau a sacrament bedydd yn fwyaf arbennig. 'We hold that God's word, as it is read and preached, takes precedence over the sacraments...'[1] Ym marn yr Undeb 'roedd y ddogfen yn rhoi'r argraff fod y sacrament o fedydd ynddi ei hun yn sicrhau iachawdwriaeth. Yn yr un modd, y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gofyn am waith pellach i leihau'r tyndra rhwng y ddealltwriaeth sagrafennol o fedydd, sef, fod bedydd yn effeithioli (*effects*) cyfranogiad ym marw ac atgyfodiad Crist, a'r ddealltwriaeth ansagrafennol o fedydd fel arwydd o ras Duw yn Iesu Grist.[2] Y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn awgrymu dau ychwanegiad a allai fod o gymorth yn y broses bellach hon. Yn gyntaf, awgrymir fod bedydd yn 'sêl' yn ogystal ag 'arwydd' ['A "seal" which God has affixed to believers...(through which God) seals us with the Holy Spirit.'][3] Yn ail, credir y byddai'n cryfhau'n dealltwriaeth o fedydd pe ailysgrifennid brawddeg gyntaf <u>para. 1</u> o'r adroddiad ei hun drwy ychwanegu cyfeiriad at 'gyfamod gras', fel hyn: 'The basis of Christian baptism is the covenant of grace, as it is renewed in the ministry of Jesus' yn hytrach na 'Christian Baptism is rooted in the ministry of Jesus'.[4] Wrth gloriannu'r ymatebion y mae'r Comisiwn Ffydd a Threfn yn dwyn sylw arbennig at y ddadl hon a ymddengys yn llawer o'r ymatebion. Y mae'n cynnig esboniad mwy eglur o ddefnydd yr adroddiad o'r gair 'arwydd' (*sign*): 'When used in direct relation to baptism and God's work in it...sign does not simply point towards, but actually participates in, the reality which it effectively conveys.....(it) should be understood in the emphatic

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 269.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 168.
3. *Churches Respond to BEM*, Cyf III, tud. 269.
4. ibid., tud. 269.

sense of "effective sign"'.[1] Y mae'n awgrymu hefyd y gellid osgoi camddealltwriaeth fecanyddol o fedydd (dyma'r *ex opere operato* y gofidiodd Iorwerth Jones amdano ugain mlynedd ynghynt) drwy ddefnyddio geiriad megis, 'God through baptism...' or 'in baptism, God through Christ in the Holy Spirit.'[2] Ond cydnebydd fod angen astudiaeth bellach ar y sacramentau fel arwyddion.[3]

Yn ail, y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cydnabod fod y datganiad yn cynnig sylfaen feiblaidd a Christolegol a fyddai'n galluogi'r eglwysi i gydnabod dilysrwydd bedydd babanod yn ogystal â bedydd credinwyr, heb orfod dewis rhyngddynt.[4] Croesewir hyn, er enghraifft, gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru, gan bod y ddau draddodiad o fedydd yn cydfodoli oddi fewn i'r eglwys. Yn yr un modd, y mae'r Eglwys yng Nghymru yn croesawu'r ymgais hon am ei bod yn pwysleisio mai Duw sy'n cymryd y cam cyntaf yn y naill a'r llall a bod ffydd y gymuned Gristnogol a'i chyfraniad tuag at feithrin y sawl a fedyddir yr un mor hanfodol ynddynt.[5]

Ond cred Eglwys Bresbyteraidd Cymru fod yr adroddiad wedi bod yn aflwyddiannus yn ei ymdrech i geisio 'trawsblannu' pob elfen o ddiwinyddiaeth bedydd credinwyr i'n dealltwriaeth o fedydd babanod. '....Greater progress might be made if both forms of baptism were defended in their own terms....'[6] Yn unol â hyn, galwodd rhai eglwysi (er enghraifft, Eglwys Uniongred Rwsia)[7] am dderbyn y ddau arfer fel 'equivalent alternatives.'

---

1. *Baptism, Eucharist and Ministry, 1982 - 1990: A Report on the Process and Responses*, tud. 110.

2. ibid., tud 111.

3. ibid., tud 145.

4. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 167.

5. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 89.

6. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 167.

7. *Baptism, Eucharist and Ministry: A Report on the Process and Responses, 1982 - 1990*, tud. 46.

Yn drydydd, ceir yn yr adroddiadau gryn drafodaeth ynglŷn â chydberthynas bedydd â ffydd a chonffirmasiwn. Y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn honni fod y ddogfen wedi camddeall rhan ffydd mewn bedydd babanod:

> '(They) are not baptised on the basis of personal faith (but on the basis of the) Christian faith of the parents which secures for them the blessings of the covenant of grace...They inherit the *promises* about justification, forgiveness, salvation....They have been placed in the providence of God...which will be most advantageous (to enable them) to make that personal commitment to Christ which is the exercise of personal faith.'[1]

Yn yr un modd, y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cydnabod nad oeddent fel enwad yn rhoi'r sylw dyladwy i'r angen am ffydd ar ran y rhieni, nac yn cynnig paratoad digon gofalus i rieini na'r gofal bugeiliol a oedd yn ceisio meithrin ffydd yn y gynulleidfa leol, fel bod tyfiant yn digwydd ar sail bedydd.[2]

Y mae'n amlwg fod i hyn arwyddocâd ecwmenaidd pwysig a phellgyrhaeddol. Y mae'n crynhoi o amgylch yr atebion i'r cwestiwn: os yw bedydd yn arwydd fod plentyn yn cael ei dderbyn i fod yn aelod o gorff Crist, yr Eglwys, drwy fedydd, a oes angen defod neu oedfa ychwanegol cyn y gall dderbyn holl freintiau a chyfrifoldebau aelodaeth o'r Eglwys? A rhoi'r cwestiwn yn fwy uniongyrchol: A oes angen conffirmasiwn?[3] Barnai Eglwys Bresbyteraidd Cymru y dylai cydnabyddiaeth yr eglwysi esgobol o flaenoriaeth bedydd olygu peidio â mynnu conffirmasiwn fel amod aelodaeth, yn arbennig gan ei fod yn achos y fath dyndra rhyng-enwadol.[4] Yn sicr, y mae ymateb yr Eglwys yng Nghymru yn cydnabod bod angen ailystyried ei safbwynt ar y mater hwn:

> '...perhaps we have failed to take full advantage of the opportunity for

---

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 270.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 168.
3. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 5, *Commentary* 14(b).
4. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 167.

> progress (towards unity) offered by the understanding of baptism as involving incorporation into membership of the church universal....There is continuing unease....over our present understanding and practice of baptism and the precise significance of confirmation.'[1]

O ganlyniad, cydnebydd bod angen meddwl eto am ei hymlyniad wrth gonffirmasiwn.[2] Un canlyniad i roddi'r flaenoriaeth i fedydd mewn perthynas ag aelodaeth fyddai symud tuag at dderbyn awgrym yr adroddiad y dylid ail-ystyried y priodoldeb o ganiatáu plant i rannu yn y cymun ar sail eu bedydd. Y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn gwrthod y casgliad hwn:

> 'It is precisely on the basis of our understanding of infant baptism that we do not admit (children) to the eucharist. It is on the basis of an attempt to apply the doctrine of adult baptism to infants without a fuller consideration of scripture principles that the question ...is posed.'[3]

Ar y llaw arall, y mae'r holl adroddiadau o Gymru yn gytûn na ellir cyfiawnhau na chaniatáu ailfedyddio i'r sawl sy'n teimlo'r angen am roi tystiolaeth gyhoeddus weledig o'u ffydd pan ddônt i oedran dirnadaeth, er bod yr Eglwys Ddiwygiedig yng Nghymru yn gofyn am ystyriaeth bellach o le 'arwyddion gweledig', megis arddodiad dwylo, fel mynegiant o ffydd bersonol a thröedigaeth,[4] a Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru yn awgrymu fod lle i gyfiawnhau ailfedyddio 'where the original baptism was not associated with conversion.'[5]

Felly, tra bod cytundeb sylweddol wedi datblygu rhwng yr enwadau hyn a'i gilydd mewn perthynas â bedydd, rhaid cymryd rhybudd y Comisiwn Ffydd a Threfn o ddifrif, gan ei fod yn wir hefyd am yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru:

--------------------

1. ibid., tud. 82-83
2. ibid., tud. 89.
3. ibid., tud. 271.
4. Adroddiad yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Talaith Cymru, para. 4.
5. Adroddiad Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru, Mawrth 1984.

> '...The reality of the remaining differences cannot be overlooked. These do not only concern different understandings of baptism as such, but also reflect different conceptions of faith, the action of the Holy Spirit, the Church, membership of the Church and Christian life itself.'[1]

**EWCHARIST**

Pan ddaeth y Comisiwn Ffydd a Threfn i gloriannu'r ymatebion i'r Adran ar yr Ewcharist daethpwyd i gasgliadau tra optimistaidd:

> '..we have discovered a broad agreement or convergence of many responses concerning the trinitarian structure and the meaning of the eucharist, the inseparability of word and sacrament, the 'real, living and active presence' of Christ and the commemoration of his sacrifice, the mutual reference of *anamnesis* and *epiklesis*, as well as the ethical, missionary and eschatological dimensions of the Lord's Supper.....There is cause to hope that the divisions among (the churches) will be overcome and they will be able to gather under the one word and celebrate as one *koinonia* with joy around the one table.'[2]

Fe adlewyrchwyd agweddau o'r cydgyfeiriad hyn yn ymatebion eglwysi ac enwadau Cymru. Er enghraifft, credai Eglwys Bresbyteraidd Cymru fod yr Adran hon yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddileu rhagfarn a drwgdybiaeth ac yn galluogi'r eglwysi i wrando ar ei gilydd a chymryd golwg mwy beirniadol o'u rhagdybiaethau hanesyddol.[3] Rhoddir sylw i dri chyfraniad arbennig tuag at y cyd-ddealltwriaeth hyn. Nodir, yn gyntaf, fod yr enwadau wedi symud yn nes at ei gilydd yn y modd y dethlir Swper yr Arglwydd, tra'n cydnabod gwerth amrywiaeth. Yn ail, tanlinellir arwyddocâd cyd-eglwysig y cydgyfeiriad yn y testun sy'n galluogi eglwysi 'protestannaidd' ac eglwysi 'catholig' i ddwyn 'cofio' ac 'aberth' ynghyd ar sail y dehongliad o *anamnesis*. Yn drydydd, fel eglwys ddiwygiedig y mae'n croesawu'r pwyslais yr adroddiad fod yr ewcharist yn cynnwys y gair a'r sacrament.[4]

--------------------

1. *Baptism, Eucharist and Ministry: A Report on the Process and Responses, 1982 - 1990*, tud. 54.

2. *Baptism, Eucharist and Ministry: A Report on the Process and Responses, 1982 - 1990*, tud. 73 ymlaen

3. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 169.

4. ibid., tud. 170.

Yn yr un modd, datganodd yr Eglwys yng Nghymru fod y testun hwn yn fynegiant o ffydd yr eglwys drwy'r oesau, gan groesawu'n arbennig y pwyslais ar yr ewcharist fel gair a sacrament, dehongliad y ddogfen o *anamnesis*, a goblygiadau cymdeithasol y cymun. Croesewir hefyd y cydberthynas rhwng yr ewcharist a'r Drindod sy'n sylfaenol i'r ddogfen[1] yn ogystal â'r pwyslais ar yr ewcharist fel gweithred sy'n canolbwyntio sylw ar genhadaeth ac yn arwain at dystiolaeth mewn cymdeithas.[2]

Y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg hefyd yn gweld yma 'much that we could applaud.'[3] Yn fwyaf arbennig, y maent yn croesawu'r pwyslais ar yr ewcharist fel gweithred ddiolchgarwch a gwledd i'r gymuned Gristnogol. Y mae'r ymateb hwn hefyd yn cymeradwyo'r dehongliad sylfaenol o *anamnesis* sydd yn y ddogfen:

> 'Christ himself with all that he has accomplished for us and for all creation....is present in this *anamnesis*, granting us communion with himself....The *anamnesis* in which Christ acts through the joyful celebration of his Church is thus both representation and anticipation....It is the Church's effective proclamation of God's mighty acts and promises.'[4]

Y mae'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig hefyd yn croesawu llawer sydd yn yr Adran, yn fwyaf arbennig, y pwyslais ar y cymun fel dathliad a diolchgarwch, *anamnesis*, arwyddocâd cenhadol y cymun, a'r cymun fel gweledigaeth o'r Deyrnas.[5]

Gwelir, felly, fod sylfaen yn y cydgyfeiriad a chytundeb y gellid adeiladu arni. Ond y mae hefyd anghytundeb sylfaenol ar faterion creiddiol.

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 83 a 90.
2. ibid., tud. 91.
3. ibid., tud. 271.
4. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 11.
5. Adroddiad Talaith Cymru, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Un feirniadaeth o'r Adran hon - a wneir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg - yw fod y traddodiad Diwygiedig ynglŷn â'r ewcharist yn llai amlwg yn y ddogfen na'r traddodiad Catholig. Er enghraifft, yn ôl yr Annibynwyr, y mae'r adran yn tueddu gadael i safbwynt y traddodiadau 'catholig' lywio'r dadansoddiad heb ystyried dilysrwydd ei seiliau ysgrythurol.[1] Yn yr un modd, y mae'r Presbyteriaid yn honni na roddir yr un sylw i agweddau diwinyddol y traddodiad diwygiedig ag a roddir i'r traddodiad catholig.[2] Cynigir un enghraifft arbennig o'r methiant hwn:

> 'A Reformed non-universalist theology might encompass (a declaration on the universal scope of Christ's death and intercession) but will scarcely allow the kind of place given to it in the exposition of the eucharist...For the purposes of eucharistic theology it might be precisely the separation of church and world, present or eschatological, and not the universalistic elements in soteriology, that require analysis.'[3]

Gelwir, felly, am weithgarwch pellach gan Ffydd a Threfn ar yr anghyfartaledd hwn rhwng y ddau draddodiad.

Rhoddir sylw arbennig hefyd yn yr ymatebion i ddatganiad yr adroddiad fod yr ewcharist yn parhau fel gweithred ganolog addoliad yr Eglwys.[4] Y mae'r Eglwys yng Nghymru yn awyddus i ofyn i'r eglwysi a'r enwadau eraill a ydynt yn cydweld â hyn ac yn derbyn y canlyniad amlwg, yn eu golwg hwy, y dylai'r cymun gael ei ddathlu'n aml, megis yn wythnosol.[5] Y mae adroddiad Talaith Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn awgrymu ystyried y priodoldeb o weinyddiad wythnosol, yn arbennig gan fod traddodiad Eglwysi Crist (a ymunodd â'r Eglwys Ddwygiedig

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 271.

2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 169.

3. ibid. tud. 269.

4. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 10, para. 1.

5. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 84 a 91.

Unedig yn 1981) yn cynnwys dathliad wythnosol. Y mae'r Presbyteriaid, fodd bynnag, yn amau'r rhagdyb cyntaf ynglŷn â chanolrwydd y cymun i addoliad yr Eglwysi: 'We would claim that Christian worship comprises of a variety of complementary expressions of praise, prayer, proclamation and sacramental action, enriching each other, within all of which Christ is truly present.'[1] Yr oedd Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru yn rhannu'r amheuaeth hon: 'Some would want to lay greater emphasis on the proclamation of the word and many would wish to identify as "the central act of ...worship" the combination of word and sacrament.'[2] Y mae'r sylw hwn yn cyffwrdd â beirniadaeth sylfaenol arall, a fynegir yn fwyaf eglur gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sef, bod pwyslais annigonol yn yr Adran hon - fel yn yr Adran flaenorol ar fedydd - ar y gair fel cyfrwng gras Duw. Heb hynny, y mae tuedd tuag at sagrafenolrwydd ffurfiol a byddai i hynny beryglon enbyd: 'Ought we not to be a little more realistic in acknowledging that one of the historical consequences of an emphasis on a formal sacramentarianism is to deaden the sense of responsibility for removing social and political injustice.'[3] Dyma enghraifft arall o'r tyndra rhwng y traddodiad Diwygiedig a'r traddodiadau 'Catholig' a ganfyddir yn y ddogfen.

Agwedd arall sy'n dangos gwahaniaeth barn rhwng yr enwadau yw'r ddealltwriaeth o bresenoldeb Crist yn yr Ewcharist. Felly, y mae'r Eglwys yng Nghymru yn croesawu pwyslais y ddogfen fod presenoldeb Crist yn gysylltiedig â ('connected with') chyfanrwydd y dathliad ewcharistaidd ac nid wedi ei gyfyngu i'r elfennau.[4] Ond y mae'r Presbyteriaid yn anesmwyth ynglŷn â'r datganiad yn y ddogfen fod presenol-

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 170.
2. Adroddiad Grweithgor Cyngor Eglwysi Cymru, tud. 2.
3. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 275.
4. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 84.

deb Crist yn yr ewcharist yn unigryw.[1] 'Here,' meddent, 'Reformed suspicions about the false understanding of symbolism and material mediation of the divine are pertinent.'[2] Y mae Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru yn rhannu'r anesmwythyd hwn:

> 'Might it not be more satisfactory to speak of the Eucharist as "the focal point", so to speak, of the Church's awareness of the presence of Christ...The realisation of his presence here enables one to become aware of his presence in other "modes"'[3]

Gwelwyd eisoes fod cryn gytundeb ynglŷn ag ystyr sylfaenol *anamnesis*, ond wrth i ymdriniaeth y ddogfen ymhelaethu ymddengys fod anghytundeb rhwng y traddodiadau yn cynyddu. Er enghraifft, tra bod yr Annibynwyr yn derbyn hanfod y dehongliad o *anamnesis* y maent yn ofni fod y syniad o *anamnesis* wedi ei ymestyn yn ormodol:

> 'The eucharist represents (but does not re-present!) that one unique sacrifice on Calvary...It is the intercession that continues, not the sacrifice...The believers exercise their joint priesthood as they unite their own intercession with those of the Great High Priest, who presented his one sufficient sacrifice at his ascension and for ever intercedes on the basis of that sacrifice....(Therefore), we find ourselves unable to speak of the eucharist as a "propitiatory sacrifice". It can only be spoken of as a "sacrifice of praise"'[4]

Y mae cymharu'r dehongliad hwn ag ymateb yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn dangos yn eglur natur y gwahaniaeth sylfaenol sydd rhwng y traddodiad Diwygiedig a'r traddodiad Catholig ar y mater hwn:

> 'The link between the historical event of the cross and the present efficacy of that event is the crucified and risen Lord, established as High Priest and "Intercessor"....But since the High Priest is the cruci-

---

1. *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 12, para. 13.

2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 169.

3. Adroddiad Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru, tud. 3.

4. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 272.

> fied and risen Lord, his offering of self on the cross can be said to be "made eternal"....Consequently it does not seem to do justice to the reality of Christ's sacrifice to describe the continuity of Christ's saving work only in terms of simple "intercession"....the description of the church's activity in the eucharist as thanksgiving and intercession needs to be filled out by some reference to the self-offering of the participants of the eucharist, made in union with the eternal "self-offering" of Christ.....(So) Catholics would ask: Is it sufficient to describe the role of Christ, in the "application of the propitiatory effects of the cross", as "intercessor".'[1]

Yn olaf, y mae'r ymatebion yn dangos gwahaniaeth barn ynglŷn â mater sy'n peri anawsterau ymarferol cyson yng Nghymru mewn dathliadau cydeglwysig o'r cymun, sef, sut mae trin y bara a'r gwin ar ôl yr oedfa? Cydnebydd ymateb y Presbyteriaid fod angen mwy o gyd-ddealltwriaeth a sensitifrwydd ynglŷn â'r mater: 'Reformed Christians would be horrified if pages of a discarded pulpit Bible were used to wrap up fish and chips! And yet we are often totally indifferent to the way the eucharistic elements are disposed of'.[2] Credai'r Eglwys yng Nghymru fod angen ymdriniaeth helaethach o'r mater yma gan fod cryn gamddealltwriaeth a diffyg cydymdeimlad yn aros, ac y byddai'n gyfraniad gwerthfawr i'r gweithgarwch cydeglwysig pe bai'r eglwysi'n mabwysiadu arfer cyffredin wrth ymdrin â bara a gwin sy'n weddill ar ôl y cymun. Y mae'r Annibynwyr am ddehongli paragraff perthnasol yn y ddogfen wreiddiol bron yn 'llythrennol':

> 'It is in virtue of the living word of Christ and by the power of the Holy Spirit that the bread and wine become the sacramental signs of Christ's body and blood. *They remain so for the purpose of the communion*.'[3]

Y mae agwedd Cristnogion at y bara a'r gwin yn ddibynnol felly nid yn unig ar barch tuag at draddodiadau ei gilydd ond ar eu cred sylfaenol am yr hyn sy'n digwydd pan ddethlir y cymun. Ni cheir cytundeb ar arfer heb fod Cristnogion yn deall a pharchu diwinyddiaeth sagrafennol ei gilydd.

---

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. VI,tud. 20.

2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 171.

3. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 13, para. 15. (Pwyslais yr awdur).

Gwelir felly fod yr enwadau Cymreig yn dynesu at ei gilydd yn eu dehongliad o'r ewcharist, gyda chytundeb cynyddol ar drefn y dathliad a'r pwyslais arbennig ar ddathliad o glod a diolchgarwch, y ddealltwriaeth sylfaenol o *anamnesis* fel cysyniad sy'n dwyn at ei gilydd y 'cofio' a'r 'aberth', cydberthynas hanfodol y gair a'r sacrament yn y cymun, goblygiadau cenhadol a chymdeithasol y cymun fel gwledd y Deyrnas, a'r cyfan wedi ei wreiddio yng ngras achubol Duw yn Iesu Grist, drwy'r Ysbryd Glân. Ond y mae'r ymatebion yn galw hefyd am weithgarwch cydeglwysig pellach ar nifer o faterion creiddiol, gan gynnwys yn fwyaf arbennig, yr angen am gyd-ddealltwriaeth ddyfnach ynglŷn â'r ewcharist rhwng y traddodiadau diwygiedig a chatholig, y modd y mae Crist yn bresennol yn yr ewcharist a'r cydberthynas rhwng yr *anamnesis* yn y cymun ac aberth Crist unwaith ac am byth dros bechod.

**Y WEINIDOGAETH**

Nid yw'n annisgwyl mai yn yr ymatebion i'r Adran ar y weinidogaeth y mae'r anghytundeb mwyaf rhwng yr eglwysi. Y maent yn gytûn fod yr Adran hon yn cychwyn yn y man priodol gyda 'Galwad holl bobl Dduw' ond y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gytûn hefyd nad yw'r pwyslais hwn wedi ei gynnal drwy'r Adran gyfan.[1]

Y mae cytundeb llwyr hefyd mai mynegiant yw gweinidogaeth oddi fewn i'r Eglwys o weinidogaeth barhaol Crist drwy'r Ysbryd Glân, ac felly bod ei hawdurdod wedi ei gwreiddio mewn gwasanaeth.[2]

Ond rhaid cyfaddef fod mwy o anghytundeb nag o gytundeb ynglŷn â'r weinidogaeth ymhlith yr enwadau yng Nghymru. Y mae'r ymatebion yn codi nifer o gwestiynau hanfodol bwysig, yn arbennig yn wyneb awydd nifer yn yr eglwysi esgobol ac anesgobol yng Nghymru i rannu gweinidogaeth yn llawnach â'i gilydd a

1. Gweler *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 277; cymh. Cyf. III, tud. 171, ac Adroddiad Talaith Cymru, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

2. ibid., tud. 171; cymh. Vol. III, tud. 277.

medru cydnabod gweinidogaeth ei gilydd.

Yn gyntaf, codir cwestiynau ynglŷn â'r weinidogaeth ordeiniedig ac offeiriadaeth. Y mae'r defnydd o'r term 'offeiriad' am weinidog ordeiniedig yn annerbyniol i'r Presbyteriaid a'r Annibynwyr.

> 'An ecclesiastical tradition is here clouding biblical truth....We acknowledge the unique priesthood of Jesus Christ and we acknowledge the priesthood of all believers. We cannot see that any other meaning can be given to the word "priesthood" in the church.'[1]

Yn ôl Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru:

> 'Whilst recognising that it (would be) very difficult to discard such terminology <u>in practice</u> the Group was unanimous in the conviction that to drop it from the <u>official</u> nomenclature of the clergy would be greatly to the advantage of ecumenical discussion and relationships.'

Yn ail, y mae anghytundeb sylfaenol am y weinidogaeth driphlyg. Y mae'r Eglwys yng Nghymru, tra'n cydnabod nad oes un patrwm eglur o weinidogaeth yn y Testament Newydd, yn datgan:

> '....we would see three-fold ministry as more than just a historical accident but as necessary for the well-being of the church...It stands in constant need of reform..(but) "may serve today as an expression of the unity we seek and also as a means for achieving it"...We strongly support (this view) which should become a guiding principle by which the ministries of different churches can be reconciled.'[2]

Y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a darddodd, wrth gwrs, yn y ddeunawfed ganrif oddi fewn i'r traddodiad esgobol, yn gweld y mater yn wahanol:

> 'Whereas we acknowledge the weight of argument in favour of a three-fold ministry, such a pattern cannot be derived directly from Scripture...Moreover, we would reject the view that "a ministry of *episcope*" expresses and safeguards the unity of the body. History, including the historical origins of our own church, clearly refutes this.'[3]

Ond ymateb Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sydd fwyaf llym:

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 278.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 92 - 94.
3. ibid., tud. 172.

> '..theological argument and biblical evidence are abandoned...Reasoning (in paras. 19-25) is quite unsatisfactory... (the) attitude to non-episcopal churches is ungenerous and hardly befitting an ecumenical document.'[1]

Y mae Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru yr un mor feirniadol:

> 'It is claiming too much to say (IIIA. 19) that "during the second and third centuries a three-fold pattern of bishop, priest and deacon became established throughout the church"...A case could be made out for the view that the presence of a three-fold order has not in practice expressed and safeguarded the unity of the body any more effectively than its absence.'

Y mae Talaith Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, sy'n fodlon cydnabod ar ddiwedd ei hymateb y gallai'r weinidogaeth driphlyg wasanaethu fel mynegiant o'r undeb a geisiwn, yn amheus o ddilysrwydd y ddadl ddiwinyddol gan nad yw'r Testament Newydd, yn eu barn hwy, yn cyflwyno un patrwm o weinidogaeth. A hyd yn oed os cydnabyddir fod y drefn driphlyg wedi bod yn effeithiol ni ellir ei gweld fel un hanfodol.[2]

Rhydd yr ymatebion hyn fin arbennig i gwestiwn yr Eglwys yng Nghymru sy'n holi eglwysi eraill sut y byddent yn cydnabod yn ymarferol werth esgobyddiaeth, os nad oes ganddynt drefn esgobol ar hyn o bryd.[3]

Y mae'r cwestiwn hwn yn ein harwain, yn drydydd, at fater 'olyniaeth yn y traddodiad apostolaidd'. Trafodir dwy agwedd o'r pwnc hwn yn yr ymatebion, sef, natur y traddodiad apostolaidd a lle'r weinidogaeth esgobol yn nhrosglwyddiad y traddodiad hwnnw. Yn ôl yr adroddiad ei hun y mae traddodiad apostolaidd yn golygu parhau nodweddion eglwys yr apostolion.[4] Y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn nodi nad yw'r disgrifiad o'r traddodiad apostoliadd yn sôn am yr Ysgrythurau ac

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 279.

2. Adroddiad Talaith Cymru, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, tud. 5.

3. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 86.

4. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 28, para. 34.

yn pwysleisio mai'r Ysgrythyr yw union gynnwys y traddodiad apostolaidd, yn ei traddodiad hwy[1] ac y dylid sôn felly am 'the words and acts of Jesus transmitted by the apostles *in the New Testament*.'[2] Y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Thalaith Cymru Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig fel ei gilydd yn pwysleisio fod parhad y traddodiad apostolaidd yn bwysicach na pharhad yr 'olyniaeth apostolaidd'.[3] 'Do episcopal churches accept the interpretation of apostolic succession as essentially a succession of apostolic tradition of which episcopal ordination is only a sign?'[4]

Tra'n croesawu'r disgrifiad o'r olyniaeth apostolaidd ym mywyd yr eglwys[5] y mae'r Eglwys yng Nghymru yn derbyn hefyd mai dim ond un o'r ffyrdd o fynegi'r olyniaeth apostolaidd yw'r olyniaeth esgobol. O ganlyniad, tra'n awyddus i roddi ystyriaeth ddwys i her y ddogfen fod parhad mewn ffydd, addoliad a chenhadaeth apostolaidd wedi ei sicrhau gan eglwysi nad oes ganddynt drefn esgobol[6] dymuna ofyn i'r eglwysi eraill i geisio gwerthfawrogi fod yr olyniaeth esgobol yn arwydd, ond nid yn warant o barhad ac undod yr eglwys.[7] Ond her gyfatebol y Presbyteriaid yw: os medrir derbyn y datganiad cyntaf, paham y mae angen yr arwydd. Wedi'r cyfan onid yw hyn eisoes yn rhagdybio cydnabyddiaeth o ddilysrwydd gweinidogaeth ein gilydd?[8]

--------------------

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 280.

2. ibid. tud. 280.

3. Adroddiad Talaith Cymru, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, tud. 6

4. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 173.

5. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud 93.

6. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. 29, para. 37.

7. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 94.

8. ibid., tud. 173.

Ar yr un sail, y mae'r Annibynwyr yn dadlau yn gryf yn erbyn esgobion:

> '(If) "the reality and function of the episcopal ministry have been preserved in many of these (non-episcopal) churches"[para. 37] ...what need is there for bishops? It is contended that bishops are necessary to fulfil certain functions. Then it is admitted that these functions are otherwise discharged in non-episcopal churches. So, it is triumphantly concluded, bishops are indispensable. Obviously, a non-sequitur!'[1]

Ar yr un pryd, y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru, fel un o'r eglwysi cyfamodol, yn cydnabod ei bod yn eglur bellach nad oes unrhyw ddatblygiad oddi fewn i'r cyfamod tuag at undeb yng Nghymru yn bosibl heb barodrwydd i fabwysiadu esgobyddiaeth.[2] Ond pwysleisir y byddai parodrwydd o'r fath yn ddibynnol ar barodrwydd yr eglwysi esgobol 'to make radical changes in the present pattern of episcopal ministry...For example, the abolition of all forms of prelacy, the real application of collegiality, smaller dioceses and many more bishops'.[3]

Yn bedwerydd, y mae'r enwadau'n amrywio yn eu dehongliad o ystyr ordeinio. Y mae'r Eglwys yng Nghymru yn croesawu dehongliad yr adroddiad[4] fod ordeinio'n golygu gweddi ar i Dduw roddi i'r gweinidog newydd rym yr Ysbryd Glân yn y berthynas newydd rhwng y gweinidog, y gynylleidfa leol a'r Eglwys fyd-eang, yn arwydd fod Duw wedi ateb y weddi hon, yn gydnabyddiaeth gan yr Eglwys o ddoniau'r ordeiniedig ac yn ymrwymiad i'r berthynas newydd ar ran y gweinidog a'r Eglwys. Ei gobaith yw y bydd yr holl eglwysi'n derbyn y ddealltwriaeth hon o ordeinio. Y mae'n cymeradwyo'r sylw a wneir yn yr adroddiad:

> "...if churches are willing to recognise each other in the sign of apostolic succession...it would follow that the old tradition, according to which it is the bishop who ordains, with the participation of the community, will be recognised and respected."[5]

---

1. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 281.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 172.
3. ibid., tud. 173.
4. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No.111*, tud. 30 a 31 (gweler para. 41 yn arbennig).
5. ibid., tud. 31.

Y mae'n briodol nodi, yn y cyswllt hwn, mai sylw yw hwn ar egwyddor sylfaenol yr adroddiad, sef, 'The act of ordination by those who are appointed for this ministry attests the bond of the Church with Jesus Christ and the apostolic witness, recalling that it is the Lord who is the true ordainer and bestows the gift.'[1]

Ar y llaw arall, y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gwahodd yr eglwysi esgobol i dderbyn dehongliad o ordeinio yn nhermau gweithrediad yn hytrach na ffurf.[2] 'The form without the function is not truly an ordination. We recognise here a point at which divergent views of ordination can meet. A consensus at this point would remove many difficulties with regard to an understanding of ordination.' Ar yr un pryd y maent yn cydnabod fod yr adroddiad yn eu herio i ailystyried a ddylai eu gwasanaeth ordeinio gynnwys arddodiad dwylo gyda gweddi am yr Ysbryd Glân yn unol ag awgrym yr adroddiad.

Gall Undeb yr Annibynwyr Cymraeg dderbyn para. 39 a 40 (sy'n disgrifio ordeinio) ond gofidiir fod y sylwadau ar bara. 39 '...continues the mission to make us all episcopalians. It is a great injustice ....to suggest that the condition upon which Christians can unite together is that they agree...that bishops ...and bishops alone should ordain.'[3] Awgrymant hefyd y byddai wedi bod yn gynorthwyol pe bai'r adroddiad wedi cyfeirio at 'neilltuo' (*setting apart*) drwy gynnwys brawddeg megis: 'Some are set apart by the others to discharge particular offices rather than elevated into a different order of Christians.'[4] Yn olaf, ofnir fod para. 44 yn camddehongli'r berthynas rhwng y gweinidog a'r gynulleidfa. Nid derbyn y gweinidog yn unig a wnânt a chydnabod y doniau a gafodd gan Dduw; yn hytrach drwy ordeinio 'a covenant (is established) between congregation and minister, that includes much

---

1. ibid., tud 30.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 173.
3. *Churches Respond to BEM*, Cyf. III, tud. 281.
4. ibid., tud. 282.

more than receiving the minister and being open to his gifts.'[1]

Dylid nodi, yn bumed, fod yr enwadau am weld trafodaeth bellach ar y ddiaconiaeth. Yn ôl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 'We believe that the spiritual and pastoral value of the eldership is part of the Reformed contribution to the three-fold ministry. Does the diaconate provide an opportunity for the adoption of an order of eldership?'[2] Y mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod fod angen mwy o ystyriaeth o 'the need, the rationale, the status and functions of deacons.'[3] Gwelant fod eu deialog gyda'r eglwysi eraill oddi fewn i'r cyfamod yng Nghymru wedi peri iddynt ystyried sut y gellir cymodi eu dealltwriaeth hwy o'r ddiaconiaeth â'r traddodiad blaenoriaid mewn eglwysi Diwygiedig.[4]

Yng ngoleuni'r gwahaniaethau sylfaenol hyn y mae Gweithgor Cyngor Eglwysi Cymru yn lled besimistaidd ynglŷn â chael yr holl enwadau i gydnabod gweinidogaethau ei gilydd. Ofnant na ddigwydd hynny ond ar sail y weinidogaeth driphlyg, a byddai hynny'n golygu i'r eglwysi anesgobol hepgor daliadau a drysorwyd ganddynt dros y canrifoedd. Eir ymlaen i gydnabod: 'They could not be reasonably expected to make such a concession without its being met by the recognition, on the part of the episcopal churches, both of the apostolic content of their ministries and of the existence in them of a genuine ministry of *episkope*.'[5] Yn ei hymateb hi y mae'r Eglwys yng Nghymru yn fodlon rhoi sylw difrifol i'r angen deublyg hwn wrth iddi ystyried cymodi gweinidogaethau, yn fwyaf arbennig oddi fewn i'r Cyfamod tuag at undeb.[6]

--------------------

1. ibid., tud. 282.
2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 174.
3. ibid., tud. 93.
4. ibid., tud. 94.
5. ibid., tud. 8.
6. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 94.

Os cymherir yr ymatebion hyn â'r casgliadau a nodir gan y Comisiwn Ffydd a Threfn ei hun[1] gwelir fod y gwahaniaethau mewn perthynas â'r weinidogaeth rhwng eglwysi ac enwadau Cymru yn cyfateb yn frâs â'r gwahaniaethau rhwng eglwysi a'i gilydd ar draws y byd. Y mae'r gwahaniaethau mwyaf sylfaenol, fel y gellid disgwyl, rhwng yr Eglwysi Catholig ac Uniongred a'r Enwadau Diwygiedig. Nid oes argoelion y bydd cydnabod gweinidogaeth ei gilydd yn bosibl i'r eglwysi hyn yn y dyfodol agos iawn, yng Nghymru nac yn fyd-eang. Yn wir, nid mater o gydnabod gweinidogaeth ydyw yn y diwedd ond mater o gydnabod eglwysi'n gilydd 'in which this ministry is exercised, as...true church(es), confessing the faith of the apostles.'[2] Y cwestiwn allweddol i eglwysi ac enwadau Cymru felly yw nid, Pa fath o weinidogaeth sydd gennym? ond, Pa fath o eglwys ydym? Yn ôl Colin Davey byddai cydnabod eglwysi'n gilydd (a fyddai'n arwain at gymodi'r eglwysi â'i gilydd, ac at gymodi aelodau a gweinidogion â'i gilydd o ganlyniad) yn rhagdybio:

> '...a sufficient basis of common faith and mutual understanding, together with a reconciliation of memories of past hurts given or received from one another and a willingness to share people, gifts and resources for the churches' common mission, witness and ministry.'[3]

Y gobaith oedd y byddai ystyriaeth yr eglwysi a'r enwadau o *Baptism, Eucharist and Ministry* yn cyfrannu tuag at y gyd-ddealltwriaeth gynyddol hon. Dyna oedd arwyddocâd yr ail a'r trydydd cwestiwn y gofynnwyd iddynt ystyried ('...the consequences your church can draw from this text...' a '...the guidance your church can take from this text...'[4]) Y gair allweddol oedd 'reception' a ddiffiniwyd gan D.P.Davies, yn ei anerchaid yng nghynhadledd Cyngor Eglwysi Cymru ar yr adroddiad, fel hyn:

--------------------

1. *Baptism, Eucharist and Ministry, A Report of a Process and Responses*, 1982 - 1990, tud. 75 ymlaen

2. *Churches Respond to BEM*, Cyf. II, tud. 9.

3. *Why can't we all recognise each other's ministries?* Colin Davey, 1993, tud. 4. (Papur na chyhoeddwyd)

4. *Baptism, Eucharist and Ministry, Faith and Order Paper No. 111*, tud. x.

> 'I would hope that we would interpret 'reception' of the Lima text in an active sense. The convergence reflected in it must become part and parcel of the life of the churches. We must appropriate (a better word perhaps than 'receive') it, even if we do so critically and even if eventually in the light of reflection we modify it. Indeed, critical reflection is a proper part of the process of reception...'[1]

Nod y broses hon yw: 'to bring us nearer to the goal of "visible unity in one faith and one eucharistic fellowship"...'[2]

'Roedd cynhadledd y Cyngor yn ymgais i gynorthwyo'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru i gyfranogi gyda'i gilydd yn y broses hon. D.P.Davies (a oedd ar y pryd yn ysgrifennydd Adran Ffydd a Thystiolaeth y Cyngor) a osododd sylfeini diwinyddol y gynhadledd mewn anerchiad ar 'Setting the Scene - Response and Reception.' Yn yr anerchiad cynhwysfawr hwn rhoddodd amlinelliad o hanes a datblygiad y broses a dadansoddodd ystyr ysgrythurol a diwinyddol 'reception' (yng ngoleuni'r cyd-ddealltwriaeth a fu ar *Yr Ysgrythur, y Traddodiad a'r traddodiadau*). Yn yr ail hanner canolbwyntiodd ar bedair agwedd fyddai'n brif bynciau trafod gweddill y gynhadledd.

Yr agwedd gyntaf oedd *Aelodaeth Eglwysig a Bedydd.* Awgrymodd y dylai'r grwpiau a fyddai'n trafod hyn ganolbwyntio ar un agwedd o ddiwinyddiaeth ac arfer bedydd, sef, y dylid ystyried bedydd babanod a bedydd credinwyr fel dewis cyfartal ('equivalent alternatives'). Y cwestiwn wedyn oedd beth yw ystyr cyfartaledd o'r fath mewn perthynas ag aelodaeth eglwysig?[3] Canlyniad y drafodaeth yn y grwpiau oedd argymell fod eglwysi'n cymell paratoad ar y cyd ar gyfer gwasanaethau conffirmasiwn/derbyn, yn mabwysiadu tystysgrif bedydd gyffredin ac yn cynnwys datganiad ymhob gwasanaeth bedydd fod yr eglwysi'n cydnabod bedydd

--------------------

1. *Baptism, Eucharist and Ministry: Report of a Consultation*, Cyngor Eglwysi Cymru, 1985, tud. 5.

2. ibid., tud. 7.

3. ibid., tud. 8.

ei gilydd.[1]

Yr ail agwedd oedd ystyr y termau 'sagrafen' a 'gwledd sagrafennol' yn ein dealltwriaeth o'r ewcharist. Gwêl angen am ddiffiniad mwy gofalus o'r termau hyn ac awgryma y gallai'r ddealltwriaeth newydd o *anamnesis* ac *epiklesis* ac o'r term 'corff Crist' fod o gymorth. Ar sail y drafodaeth, credai'r gynhadledd y dylai'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru gydnabod yr ewcharist fel cyfrwng cenhadaeth, gweld yr ewcharist fel sagrafen o lawenydd a cheisio adeiladu ar y cydgyfeiriad ewcharistaidd a ddaeth i'r amlwg drwy'r adroddiad ac ymatebion yr enwadau.

Y drydedd agwedd oedd 'Gweinidogaeth Ordeiniedig ac Awdurdod'. Awgrymodd fod y weinidogaeth ordeiniedig yn ymarfer awdurdod moesol enfawr 'even in churches where they have no particular constitutional position of authority and where authority, in theory, lies elsewhere'[2] ac y byddai trafod patrymau awdurdod yr enwadau yn dra dadlennol. Gwahoddodd y gynhadledd yr eglwysi i drafod ymhellach a ellir cyfuno'r gwahanol batrymau o lywodraeth eglwysig a ddisgrifir ym mhara. 26 o'r adroddiad a'r gwahaniaeth rhwng egwyddor ac arfer mewn perthynas ag awdurdod yn y gwahanol draddodiadau.

Yr agwedd olaf oedd 'undeb rhwng yr eglwysi mewn byd o raniadau'. Roedd rhai wedi awgrymu fod *Baptism, Eucharist and Ministry* wedi cychwyn o'r pen anghywir a bod gweithredu gyda'i gilydd i ddwyn undod i fyd rhanedig yn fwy o flaenoriaeth na cheisio cytundeb ar faterion ffydd a threfn. Felly, gwahoddwyd un grŵp i drafod 'the relation between what have hitherto been regarded as Faith and Order questions, and the so-called non-theological factors that divide the Church as much as the human community of the world and that compromise the Church in its

---

1. Am grynodeb o drafodaethau'r grwpiau ac ymatebion y grwpiau i'r cwestiwn *I ble'r awn o'r fan hon?* gweler yr adroddiad o'r Gynhadledd, tud. 24 - 31.

2. ibid., tud. 12.

witness and its mission to that world.'[1] Cadarnhaodd y gynhadledd yr angen am wreiddio'r adroddiad ym mhrofiad cynulleidfaoedd lleol fel y gallant ddirnad yn well raniadau yn y byd ac yn yr Eglwys, am ddwyn sylw at enghreifftiau o lwyddiant mewn perthynas â iachad a chymod cydrwng eglwysi a'i gilydd, a cheisio adlewyrchu dyheadau'r sawl sy'n ymdrechu yn erbyn anghyfiawnder a gorthrwm.

Un o brofion pennaf effeithiolrwydd *Baptism, Eucharist and Ministry* fydd y graddau y caiff ei argymhellion a'r cydgyfeiriad sydd i'w ddirnad ynddo eu mabwysiadu yn athrawiaeth ac addoliad yr eglwysi. Y mae tair enghraifft o'r broses hon ar waith mewn trafodaethau ymhlith rhai o'r enwadau yng Nghymru. Ym 1990 cyhoeddodd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru wasanaeth bedydd a thraethawd o dan y teitl, *Bedydd Cristnogol ac Aelodaeth Eglwysig*. Sylfaen y gwaith hwn, yn ôl y Rhagair, oedd:

> '...mai drwy fedydd y down yn aelodau o gorff Crist, y dechreuwn ymgymryd â'n cyfrifoldebau a'n breintiau fel disgyblion Crist ac y derbyniwn nerth Ysbryd Glân Duw. Ei sylfaen yw fod Bedydd Cristnogol yn un a bod bedydd credinwyr a bedydd babanod yn tarddu o'r undod hwn.'[2]

Y mae'r Drefn Fedydd a gynigir yn codi nifer o gwestiynau ac anogir yr eglwysi cyfamodol i gofio, wrth eu hystyried, 'nad ein traddodiad enwadol ein hunain yw'r unig fynegiant cyfreithiol o'r etifeddiaeth Gristnogol a bod llawer i'w ennill o gymryd perspectif ehangach.'[3] Y mae'r cyhoeddiadau hyn felly yn seiliedig ar rai o athrawiaethau sylfaenol *Baptism, Eucharist and Ministry* ac, yn wir, yn adlewyrchu llawer elfen o'r cydgyfeiriad a nodwyd eisoes. Y mae'r traethawd ei hun yn dyfynnu'n gyson o'r adroddiad[4] ac felly'n gweld yr adroddiad fel sylfaen gynorthwyol y gellir adeiladu arni gytundeb pellach ar addoliad ac arfer rhwng yr eglwysi cyfamo-

--------------------

1. ibid., tud. 14.

2. Bedydd Cristnogol ac Aelodaeth Eglwysig, Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, 1990, tud. 4.

3. ibid., tud. 7.

4. ibid., para. 47, 62, 84, 86, 98 a 143.

dol a'i gilydd. Enghreifftiau o hyn yw'r modd y mae'n rhoddi pwyslais arbennig ar bynciau oedd yn greiddiol i *Baptism, Eucharist and Ministry*, megis, sylfaen ysgrythurol bedydd[1], bedydd ac aelodaeth,[2] bedydd fel sacrament[3] a bedydd a ffydd[4].

Yn yr un modd, y mae *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno*, a gyhoeddwyd gan Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru ym 1986, hefyd yn adlewyrchu adroddiad Cyngor Eglwysi'r Byd.[5]. Y mae'n pwyso'n drwm ar yr adroddiad mewn perthynas â gweinidogaeth holl bobl Dduw, y ddiaconiaeth a chydnabod a chymodi gweinidogaethau. Y mae'r ddogfen hon yn derbyn un o gasgliadau *Baptism, Eucharist and Ministry* sef, bod 'angen am i'r eglwysi sydd heb yr esgobawd (hanesyddol) adfer arwydd yr olyniaeth apostolaidd.'[6] Ond y mae'n tanlinellu hefyd nad yw'n ddigonol i weld 'yr olyniaeth esgobol hon fel olyniaeth apostolaidd.'[7] Yn hytrach, y mae'n well gan yr adroddiad dderbyn y ddealltwriaeth o'r olyniaeth apostolaidd ym mhara. 34 o *Baptism, Eucharist and Ministry*, a groesawyd gan enwadau Cymru. Fodd bynnag, yn eu hymatebion i *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno*, tra'r 'roedd yr eglwysi cyfamodol yn fodlon derbyn y patrwm o weinidogaeth driphlyg wedi ei hadnewyddu - a argymhellwyd gan yr adroddiad - 'roeddent yn dal i rannu'r un amheuon ag a fynegwyd ganddynt yn eu hymatebion i adroddiad Cyngor Eglwysi'r Byd. A gorfu i'r Comisiwn gydnabod - yn bennaf ar sail amharodrwydd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i dderbyn y patrwm o weinidogaeth driphlyg a gyflwynwyd yn *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno* - nad oedd cytundeb

---

1. ibid., para. 33, 98, 100 - 113.
2. ibid., para. 57 - 97.
3. ibid., para. 117 - 129.
4. ibid., para. 130 - 144.
5. Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno, Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, 1986, para. 15, 18, 19, 30, 54, 56, 65 - 66, 69.
6. ibid., para. 68.
7. ibid., para. 69.

digonol ar y weinidogaeth ymhlith yr eglwysi cyfamodol i'w galluogi i symud ymlaen i gydnabod a chymodi gweinidogaethau ei gilydd.

Un o lwyddiannau'r Cyfamod tuag at Undeb fu mabwysiadu trefn ar gyfer Y Cymun Sanctaidd[1] a oedd yn ffrwyth cytundeb rhwng yr eglwysi cyfamodol a'i gilydd ac a ddefnyddiwyd yn helaeth iawn mewn gwasanaethau enwadol a chydenwadol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, y mae digon o dystiolaeth y bu'n fodd i hybu tyfiant mewn undeb rhwng eglwysi a'i gilydd, heb iddo fod yn rhwystr iddynt werthfawrogi amrywiaeth traddodiad ac arfer ei gilydd. Er fod y gwasanaeth hwn yn rhagflaenu *Baptism, Eucharist and Ministry*, bu'r sawl fu'n ei baratoi yn dra dibynnol ar yr adroddiadau a fu'n sylfaen dogfen Lima, yn fwyaf arbennig, *One Baptism, One Eucharist and a Mutually Recognised Ministry* (Accra, 1974). Gwelir y drefn hon, yng Nghymru a chan eraill o'r tu allan i Gymru, fel arwydd nodedig o gytundeb sy'n cael ei fynegi nid mewn datganiadau diwinyddol ond mewn addoliad. Fel y dywedodd Günther Gassman yng nghynhadledd Cyngor Eglwysi Cymru ym 1985, (wrth sôn am Litwrgi Lima a luniwyd ar sail y ddogfen ac a ddefnyddiwyd yn ystod cyfarfod y Comisiwn Ffydd a Threfn ym 1982): '...it is significant to see how through worship an ecumenical convergence becomes a celebrated reality, and that is an important element in converting ecumenical convergence into life together as Christians.'[2]

---

1. Y Cymun Sanctaidd, Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, 1981.
2. *Baptism, Eucharist and Ministry, Report of a Consultation*, CEC, tud. 18.

## PENNOD 5

## A FU'R YMGAIS AM UNDEB YN LLWYDDIANNUS?

Y mae'n rhaid mesur llwyddiant yr ymgais am undeb Cristnogol yng Nghymru yng ngoleuni ei nod. 'Roedd y 60au cynnar yn flynyddoedd hyderus ac uchelgeisiol yn y mudiad ecwmenaidd Cymreig. Y nod oedd eglwys unedig ac yr oedd arweinwyr y mudiad yn ffyddiog y gellid ei gyrraedd. 'Roedd adroddiadau cynhadledd Nottingham yn adlewyrchu'r sicrwydd hwn ac yr oedd yr un hyder yn nodweddu'r Cydbwyllgor Cyfamodi a oedd yn un o ffrwythau'r gynhadledd honno. Er bod y Cydbwyllgor wedi datgan yn nhestun y Cyfamod a dderbyniwyd gan yr Eglwysi Cyfamodol 'ni wyddus eto pa ffurf a gymer undeb', nid oedd amheuaeth mai undeb oedd y nod. Dyma ydyw o hyd. Ar un olwg, felly, bu canlyniadau'r ymgais am undeb Cristnogol yng Nghymru yn siom i genhedlaeth o arweinwyr ecwmenaidd brwd a roddodd eu bryd ar weld un eglwys weledig. Nid yw'r siomedigaeth hon wedi ei chyfyngu i Gymru. Y mae'n wir hefyd am Loegr a'r Alban, lle bu gweithgarwch tebyg tuag at undeb gweledig ond lle bu'r ymdrech yr un mor aflwyddiannus. Yr eithriad nodedig i hyn fu ffurfio'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig ym 1972 drwy uniad rhwng Eglwys Gynulleidfaol Lloegr a Chymru ac Eglwys Bresbyteraidd Lloegr, gyda Chymdeithas Ddiwygiedig Eglwysi Crist yn ymuno â'r Eglwys ym 1981.

Barn Meirion Lloyd Davies yw ei bod yn dra annhebygol y ffurfir Eglwys Unedig ymhlith yr enwadau cyfamodol yng Nghymru am genhedlaeth arall o leiaf.[1] Fel y gwelwyd 'roedd yr ymatebion i *Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno (1986)* yn amwys ac ni thybiwyd fod unfrydedd digonol i ganiatáu i'r eglwysi cyfamodol symud ymlaen gyda'i gilydd tuag at un eglwys. Heb amheuaeth, bu hyn yn ergyd i'r Cyfamod. Fe â rhai blynyddoedd heibio cyn y bydd yr eglwysi hyn yn barod i

--------------------

1. Gwarchod y Gair, Gol. Owen E. Evans, Gwasg Gee, 1993, tud. 199.

ystyried argymhellion newydd ar gyfer eglwys unedig.

Yn yr un modd, fe ddaeth trafodaethau'r pedwar enwad i ben yn y 70au cynnar heb iddynt arwain at un eglwys rydd yng Nghymru. Yma hefyd 'roedd cyfuniad o ffactorau amrywiol ar waith. Un o'r rhesymau amlycaf oedd fod gan yr enwadau hyn ddealltwriaeth wahanol i'w gilydd o natur eglwys. 'Roedd y cynllun uno'n awgrymu patrwm eglwysig nad oedd yn adlewyrchu'n gyflawn y traddodiad presbyteraidd na'r traddodiad cynulleidfaol, ac nad oedd o ganlyniad yn hollol dderbyniol i'r un ohonynt. Un o gyfraniadau nodedig yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yw ei bod wedi llwyddo, i fesur healeth, i gyfuno'r ddau draddodiad eglwysig mewn patrwm enwadol a oedd yn dderbyniol i Bresbyteriaid ac i fwyafrif llethol Eglwys Gynulleidfaol Lloegr a Chymru. Y mae'n batrwm a weithiodd yn effeithiol am bron chwarter canrif ac sy'n dal yn dderbyniol i aelodau'r eglwys, er bod rhai a fu'n gynulleidfaolwyr neu'n bresbyteriaid yn feirniadol o'r drefn hon am ei bod, yn eu golwg hwy, wedi gwadu'r naill draddodiad neu'r llall. Efallai bod hyn yn wers bwysig i'r mudiad tuag at undeb yng Nghymru, sef, nad dod o hyd i batrwm eglwysig sy'n medru cadw'r traddodiadau gwreiddiol yn ddigyfnewid yw'r gamp. Yn hytrach, y nod yw ceisio cadw patrwm sy'n dwyn gorau'r gwahanol draddodiadau i wasanaethu dibenion ac anghenion Cristnogol cyfnod a chymdeithas newydd.

Bu ffactorau eraill ar waith hefyd, megis, amlder trafodaethau tuag at undeb yn y 60au a'r 70au cynnar. Dyma gyfnod dechreuadau'r Cyfamod a'r trafodaethau rhwng yr Anglicaniaid yng Nghymru a Lloegr a'r Eglwys Fethodistaidd. Yn y diwedd, gwanychwyd yr ymgais am undeb am fod yr holl drafodaethau hyn yn sugno cymaint o egni'r enwadau a hynny mewn cyfnod pan oedd yr her genhadol yn fawr. Canlyniad hyn oll ymhlith llawer yn y cyfnod hwn oedd dadrithiad. Barnai Norman Hughes:[1]

---

1. Erthygl olygyddol, Yr Haul, Haf 1972.

Nid i gyfeiriad ecwmeniaeth y mae'r llif yn rhedeg ym mywyd crefyddol Cymru heddiw...Y mae mwy o gyfeillgarwch rhwng crefyddwyr nag a fu erioed ond, ar y cyfan, llai o argoelion y byddant yn uno mewn un eglwys. Y mae'n edrych fel petai'n amser i feddwl am ffordd ymlaen a fydd yn osgoi tramgwyddiadau'r Cynlluniau Uno a gynhyrchwyd yn y 60au.[1] Ac yr oedd y farn hon yn nodweddiadol o lawer.

Erbyn hyn y mae argymhellion newydd gerbron yr enwadau anghydffurfiol yng Nghymru sy'n cynnig posibilrwydd o sefydlu un eglwys (neu enwad) anghydffurfiol Cymreig. Y mae cyflwr yr enwadau hyn wedi dwysáu'n enbyd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf a'r her genhadol yng Nghymru wedi cynyddu. Erbyn hyn, y mae llawer mwy o frys i ddod o hyd i batrwm cydeglwysig neu gydenwadol a fydd yn galluogi'r enwadau hyn i gyfuno'u hadnoddau, eu gweinidogion a'u haelodau naill ai mewn un enwad neu mewn patrwm o gydfyw a chydweithio a fydd yn rhyddhau egni a neilltuir ar hyn o bryd i warchod y drefn sy'n bodoli'n lleol a chenedlaethol a'i defnyddio mewn tystiolaeth a gwasanaeth.

Ond os methwyd â ffurfio un eglwys weledig yng Nghymru hyd yn hyn, nid yw hyn yn golygu, o angenrheidrwydd, fod yr ymgais am undeb Cristnogol wedi bod yn fethiant. Galwodd cynhadledd Nottingham am ffurfio ardaloedd arbrofi ecwmenaidd yn ogystal ag eglwys unedig. Gwelwyd eisoes fod yr alwad hon wedi bod yn dra dylanwadol yn Lloegr gyda dros fil o gynlluniau a phartneriaethau ecwmenaidd lleol wedi eu sefydlu mewn trefi, maesdrefi newydd a phentrefi traddodiadol. Gellid dadlau mai'r rhain fu prif gynnyrch yr ymgais am undeb Cristnogol yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Y maent wedi galluogi cyffro cenhadol ac ecwmenaidd sydd wedi paratoi'r ffordd ar gyfer camau pellach mewn undeb cenedlaethol yn Lloegr. Y rhwystredigaethau pennaf a deimlir gan y sawl sy'n gweithio yn y cynlluniau hyn yw fod yr enwadau'n genedlaethol wedi methu â datblygu patrymau cydenwadol a fyddai'n adlewyrchu'r creadigrwydd a'r cyffro lleol. Ar raddfa lai, y mae'r stori'r un yn Nghymru. Pan aed ati ym 1990 i wneud arolwg o gynlluniau

ecwmenaidd lleol yng Nghymru gwelwyd bod dros hanner cant ohonynt wedi eu sefydlu. Ymddengys hwn yn nifer bychan iawn o'i gymharu â Lloegr, ond o'i gymharu â phoblogaeth a rhif aelodaeth yr enwadau yn y ddwy wlad, y mae'n gyfartaledd llawer iawn uwch nag yn Lloegr! Y mae'r cynlluniau ecwmenaidd hyn yn amrywio'n fawr. Y mae Eglwys Unedig Llanfair, Penrhys, yn y Rhondda, wedi ei ffurfio gan wyth enwad gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru a'r enwadau anghydffurfiol. Y mae enghreifftiau eraill, megis Pentwyn, ar gyrion Caerdydd, lle y mae'r eglwysi cyfamodol wedi sefydlu cynllun ecwmenaidd ar ystad dai newydd. Mewn ardaloedd eraill, megis Botwnnog a Llanrhaeadr ym Mochnant, y mae offeriaid yr Eglwys yng Nghymru yn gweinidogaethu i eglwysi sy'n perthyn i eglwysi cyfamodol eraill. Y mae Bil yr Eglwys yng Nghymru (1991) yn caniatáu i weinidogion enwadau sy'n aelodau o Cytûn weinidogaethu dros blwyfi'r Eglwys yng Nghymru sy'n rhan o gynllun ecwmenaidd a awdurdodwyd gan yr Esgob lleol, a disgwylir y byd hyn yn hyrwyddo rhannu gweinidogaeth yng Nghymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sefydlwyd nifer o weinidogaethau bro rhwng yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg, lle y mae gweinidog yn un o'r enwadau yn gofalu am eglwysi perthynol i ddau neu fwy o enwadau. Sefydlwyd Pwyllgor Ymgynghorol Cydenwadol ar y Weinidogaeth gan yr enwadau hyn i arolygu a hyrwyddo'r arbrawf hwn. Y mae nifer o enghreifftiau hefyd o ddau enwad yn sefydlu naill ai un eglwys leol unedig neu ofalaeth ar y cyd. Y mae'r Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygieidig Unedig yn enghreifftiau nodedig o hyn. Yn naturiol, y mae gan Enfys, Cytûn a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ddiddordeb mewn hybu'r holl arbrofion hyn a gofalu am eu buddiannau.

Rhaid cyfaddef mai'n araf y tyfodd y cynlluniau hyn - fel y dengys y bennod nesaf - a bod cymhellion cymysg ar waith. Yn rhy aml, dewisir y llwybr cydenwadol pan fydd posibiliadau enwadol wedi methu, neu pan fydd eglwysi mewn ardal wedi gwanhau i'r fath raddau fel na allant obeithio cynnal gweinidogaeth wrthynt eu hunain mwyach. Ond y mae digon o dystiolaeth hefyd fod uniadau lleol o'r fath yn

cyfoethogi a chryfhau bywyd cynulleidfaol ac yn ychwanegu at yr egni cenhadol. Os oedd y cymhellion yn amwys, y mae lle i gredu fod y canlyniadau'n gadarnhaol. Yn wir, byddai rhai am ddadlau mai drwy'r cynlluniau hyn y dylid adeiladu undeb Cristnogol llawnach yng Nghymru ac nid drwy gynlluniau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid dewis rhwng lleol a chenedlaethol sydd gan enwadau Cymru. Rhaid wrth gamau tuag at undeb Cristnogol yn lleol a chenedlaethol sy'n cydredeg â'i gilydd os yw'r ymgais hon am fod yn effeithiol. 'Roedd y cyfuniad hwn yn ganolog i'r cyfamod a deil i fod yn ganolog i unrhwy ymchwil am undeb Cristnogol yng Nghymru.

Fwy nag unwaith yn y 60au defnyddiwyd datganiad enwog Delhi Newydd fel sylfaen dealltwriaeth o undeb yng Nghrist.[1] Y mae'n briodol felly inni ei ddefnyddio fel ffon fesur i'r ymgais am undeb yng Nghymru yn y cyfnod o dan sylw. Un o gyfraniadau pwysicaf datganiad Delhi Newydd oedd amlinellu'r elfennau sy'n nodweddu'r undeb Cristnogol 'sy'n ewyllys ac yn rhodd Duw i'w Eglwys'. Gellir defnyddio nifer o 'r rhain i fesur effeithiolrwydd yr ymgais am undeb yng Nghymru. Yn gyntaf, y mae'r un eglwys 'yn dal yr un ffydd apostolaidd ac yn pregethu'r un Efengyl'. Gwelwyd eisoes i'r trafodaethau ar adroddiadau'r Cydbwyllgor Cyfamodi ddangos cryn gytundeb ar hanfodion y ffydd Cristnogol, sef, y gred sylfaenol yn Nuw, yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân, a'r ddealltwriaeth ddiwinyddol o ystyr y credu hwn yn yr ugeinfed ganrif. Cytunwyd hefyd fod yr holl eglwysi yn cyhoeddi'r Efengyl yn eu pregethu er bod amrywiaeth dulliau cyhoeddi a gwahaniaethau barn ar le pregethu ym mywyd yr eglwys. Y mae anghytundeb yn parhau mewn perthynas ag elfennau eraill o'r ffydd megis trefn yr achub a lle'r eglwys a'r sacramentau yn y drefn honno, a lle'r Forwyn Fair yn ein perthynas ni â Duw. Cytunwyd hefyd mai'r Ysgrythur oedd prif awdurdod ffydd ond bu llawer o drafod ar hyd y blynyddoedd am berthynas yr Ysgrythur a thraddodiad yr Eglwys, gyda rhaniad amlwg

--------------------

1. gweler pennod 2.

rhwng yr Eglwysi esgobol a'r eglwysi anghydffurfiol. Daeth hyn yn alwg iawn yn ymatebion yr enwadau i *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth*. Yn yr un modd, 'roedd cytundeb cyffredinol fod y credoau hanesyddol yn crynhoi'n effeithiol hanfodion y ffydd Gristnogol a bod iddynt le gwerthfawr ym mywyd yr eglwysi. Ond byddai llawer yn yr eglwysi anghydffurfiol yn anfoddog i'w cydnabod fel 'datganiadau ffydd ffeithiol a digonol'. Y mae'r dystiolaeth mewn perthynas â'r ddwy nodwedd hon o undeb Cristnogol yng Nghymru, felly, yn amwys. Y mae yna arwyddion o undeb mewn ffydd ond nid oes hyd yma undeb cyflawn mewn ffydd, ac ni chafwyd yn ystod y cyfnod o dan sylw ymgais benodol i roi mynegiant cytûn i'r un ffydd apostolaidd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhoddwyd cryn sylw i hyn gan Gyngor Eglwysi'r Byd fel rhan o'r broses fyd-eang *Towards a Common Expression of the Apostolic Faith Today* a dechreuodd Cytûn ar y dasg o geisio dehongli'r dogfennau hyn gyda golwg ar roi mynegiant i'r ffydd sydd gennym yn gyffredin fel Cristnogion yng Nghymru heddiw, mewn astudiaeth ar 'Rhannu Un Ffydd'.

Y mae amwysedd cyffelyb mewn perthynas â'r ddwy nodwedd nesaf, sef, ymuno mewn gweddi gyffredin a thorri'r un bara. Bu cydweddïo yn rhan sylfaenol o'r mudiad ecwmenaidd o'r cychwyn. Yn wir, sefydlwyd yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol ym 1935 gan Abbe Couturier i fod yn gyfle byd-eang i weddïo am yr undeb sy'n ewyllys Crist. Ers 1957 paratowyd deunydd byd-eang ar gyfer yr Wythnos mewn cydweithrediad rhwng Comisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd a'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Yng Nghymru, cymerodd Cyngor Eglwysi Cymru gyfrifoldeb o'r cychwyn dros baratoi deunydd Cymreig dwyieithog a dathlwyd yr wythnos hon gan y mwyafrif llethol o gynghorau eglwysi lleol. Mewn llawer ardal bu'r holl enwadau a oedd yn aelodau o'r Cyngor, yn ogystal â'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yn rhannu mewn cyfarfodydd gweddi ac oedfaon unedig yn ystod yr Wythnos. Mewn rhai ardaloedd arweiniodd hyn at gyfarfodydd gweddi cydenwadol rheolaidd, rhai mewn eglwysi a chapeli a rhai mewn cartrefi. Byddai cytundeb

cyffredinol iawn fod y cydweddïo hyn wedi bod yn sylfaenol i'r ymgais am undeb yng Nghymru (ac, wrth gwrs, yn fyd-eang). Ysgogodd hefyd gydaddoli cyson ymhlith yr enwadau. Yn wir, fel y gwelwyd, yn sgil cynhadledd Nottingham cytunodd Mainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru i wahodd y Cyngor i sefydlu grŵp i astudio addoliad a litwrgi gan fod unfrydedd rhyfeddol ar egwyddorion cyntaf addoliad Cristnogol ymhlith yr enwadau yng Nghymru. Bu ffrwyth trafodaethau'r grŵp hwnnw yn ddylanwad creiddiol ar lawer o'r newidiadau a'r datblygiadau a ddigwyddodd mewn addoliad yng Nghymru yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Cynhelir gwasanaethau unedig ar Suliau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rhai o'r gwyliau Cristnogol, naill ai'n defnyddio patrwm o addoliad a baratoir yn arbennig ar gyfer yr achlysur neu yn dilyn patrwm addoliad arferol yr eglwys neu'r capel lle y cynhelir y gwasanaeth unedig. Yn ystod y cyfnod o dan sylw daeth yr eglwysi a'r enwadau i werthfawrogi fwyfwy draddodiadau addoli ei gilydd a defnyddio adnoddau addoli amrywiol ei gilydd, adnoddau Cymreig yn ogystal ag adnoddau byd-eang.

Ond y mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth mewn perthynas â 'thorri'r un bara', gan fod cwestiwn cydgymuno wedi creu cryn anhawster yng Nghymru fel mewn rhannau eraill o'r byd. Yn gyffredinol, ni fu unrhyw anhawster i gyflawn aelodau'r enwadau anghydffurfiol gydgymuno yn oedfaon cymundeb ei gilydd a daeth yn arferol bellach i ganiatáu i weinidogion enwadau eraill weinyddu mewn oedfaon cymundeb. Y mae'r sefyllfa mewn perthynas â'r Eglwys yng Nghymru yn fwy anodd. Y Cyfamod a wnaeth y gwahaniaeth sylfaenol. Cyn cytuno ar y Cyfamod yr oedd yn anarferol iawn i aelodau eglwysi ac enwadau eraill gael gwahoddiad i dderbyn cymundeb yn yr Eglwys yng Nghymru, ac nid oedd yn bosibl i weinidog enwad arall rannu yn yr oedfa, er ei bod yn bosibl i gyflawn aelod mewn eglwysi ac enwadau eraill dderbyn cymundeb yn yr Eglwys yng Nghymru'n achlysurol, yn fwyaf arbennig pan mai cymundeb yr Eglwys yng Nghymru oedd yr unig gymundeb a oedd ar gael yn yr ardal. Ym 1975 cyhoeddodd Mainc yr Esgobion ddatganiad a oedd yn caniatáu i

aelodau'r Eglwys yng Nghymru ymuno mewn cymun mewn eglwysi eraill, yn galluogi i aelodau mewn enwadau eraill dderbyn cymundeb yn yr Eglwys yng Nghymru, yn caniatáu i offeiriaid yr Eglwys yng Nghymru rannu mewn oedfaon cymundeb mewn enwadau eraill ac yn caniatáu i weinidog o enwad arall rannu mewn oedfa gymundeb yn yr Eglwys yng Nghymru (ond nid i weinyddu). Cyfyngwyd y caniatâd hwn i'r eglwysi a'r enwadau cyfamodol, a hynny ar achlysuron a fwriadwyd yn benodol i hyrwyddo undeb Cristnogol, a gyda chaniatâd yr Esgob. Ar y cyntaf, pan weithredwyd hyn defnyddiwyd trefn gwasanaeth yr Eglwys yng Nghymru. Ym 1977 cyhoeddodd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol fersiwn dwyieithog o wasanaeth Swper yr Arglwydd Eglwys Unedig De'r India ac ym 1981 cyhoeddwyd Y Cymun Sanctaidd gan y Comisiwn, ac o hynny ymlaen daeth hon yn drefn arferol ar gyfer oedfaon cymundeb ar y cyd rhwng yr eglwysi cyfamodol.

Y mae'r alwad am gydgymuno wedi dwysáu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd, Emilio Castro, fel enghraifft, yn galw am gymryd camau pendant tuag at gydgymuno yn ei adroddiad i Seithfed Cymanfa'r Cyngor yng Nghanberra ym 1991. Bu cryn feirniadu arno o rai cyfeiriadau am geisio 'prysuro', ac anwybyddu realiti sefyllfa'r traddodiadau Cristnogol byd-eang. Pan drafodwyd yr un mater yng Nghynhadledd Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd yn Santiago de Compostela ym 1993 cydnabyddwyd fod mesur helaeth o gytundeb rhwng yr eglwysi ar ystyr yr ewcharist, ond nad ydoedd eto wedi cyrraedd y fan a fyddai'n caniatáu cydgymuno ymhlith yr holl eglwysi.[1] Y mae'r un adroddiad yn cydnabod, fodd bynnag, fod cydgymuno answyddogol yn digwydd ar draws ffiniau traddodiadau nad ydynt mewn cymundeb llawn â'i gilydd, a bod angen i'r eglwysi sylweddoli fod hyn yn digwydd ac ystyried beth yw'r canlyniadau. Calon y drafodaeth o hyd - yn fyd-eang ac yma yng Nghymru - yw lle'r ewcharist yn yr ymchwil am undeb Cristnogol. Ai ffrwyth cymundeb cyflawn

---

1. *On the way to fuller koinonia*, Adroddiad Swyddogol y Bumed Gynhadledd Fyd-eang ar Ffydd a Threfn, CEB, 1994, tud. 248.

rhwng eglwysi a'i gilydd ydyw neu cyfraniad creadigol at yr ymchwil ei hun? Os ffrwyth cymundeb cyflawn ydyw ni ellir cydgymuno nes ceir undeb Cristnogol cyflawn; onid e, gellir cydgymuno ar y ffordd tuag at undeb.

Y mae amwysedd sylfaenol yma, felly, ac er y gellir gweld cydgymuno fel arwydd o gymundeb rhwng rhai enwadau a'i gilydd yng Nghymru, nid yw felly i'r holl eglwysi a'r enwadau.

Elfen ganolog arall yn natganiad Delhi Newydd oedd 'gweinidogaeth ac aelodaeth yn dderbyniol gan bawb'. Fel y gwelwyd eisoes, dyma lle y mae'r anghytundeb dyfnaf, yn fwyaf arbennig, mewn perthynas â'r weinidogaeth. Cytunodd pum enwad i gyfamodi â'i gilydd tuag at undeb gweledig ar sail y gydnabyddiaeth fod 'gweinidogaethau ordeiniedig ein holl eglwysi yn weinidogaethau gwirioneddol y gair a'r sacramentau'[1] ond pwysleisiwyd na fyddai hynny, o angenrheidrwydd, yn golygu cyfnewid gweinidogion rhyngddynt. Tra bod hynny'n bosibl rhwng pedwar o'r enwadau Cyfamodol nid yw'n bosibl rhyngddynt hwy â'r Eglwys yng Nghymru. Cytunodd yr enwadau hyn hefyd 'i geisio patrwm o weinidogaeth ordeiniedig' a fyddai'n dderbyniol iddynt oll ac a fyddai o ganlyniad yn caniatáu cyfnewid gweinidogion. 'Roedd *Gweinidogaeth mewn Eglwys sy'n Uno* yn ymgais i gynnig patrwm o'r fath, yn seiliedig ar weinidogaeth driphlyg wedi ei hadnewyddu. Ond nid oedd yn dderbyniol i'r holl eglwysi a'r enwadau cyfamodol. Ni fyddai patrwm o'r fath yn dderbyniol ychwaith i'r eglwysi a'r enwadau eraill.

Datgelwyd gwahaniaethau sylfaenol mewn perthynas â'r weinidogaeth ordeiniedig yn ymatebion yr enwadau i *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth*. 'Roedd y rhain yn cynnwys gweinidogaeth ac offeiriadaeth (pwnc a gafodd ymdriniaeth fanwl yn nogfennau'r cyfamod hefyd), y weinidogaeth driphlyg, olyniaeth yn y traddodiad apostolaidd, ystyr ordeinio, a'r ddiaconiaeth. Yn wir, 'roedd y gwahaniaethau hyn

1. Testun y Cyfamod, para. 5(a)

yn gyfryw, fel y gwelwyd, ag i arwain grŵp cydenwadol Cyngor Eglwysi Cymru i fynegi cryn amheuaeth y gellid disgwyl cydnabod a chyfnewid gweinidogaethau yng Nghymru heb fod rhai eglwysi neu enwadau yn newid eu safbwynt yn sylfaenol.

Nododd Cynhadledd Ffydd a Threfn Santiago de Compostela nifer o faterion mewn perthynas â'r weinidogaeth a oedd yn gofyn am sylw pellach, megis ystyr y gair 'gweinidog' ei hun a'i berthynas â gweinidogaeth holl bobl Dduw, ystyr ordeinio, canllawiau ar gyfer derbyn pobl i'r weinidogaeth ordeiniedig, natur y ddiaconiaeth ac, wrth gwrs, ordeinio gwragedd. Y mae'n arwyddocaol fod adleisiau yma o'r problemau a fu'n allweddol yn y trafodaethau yng Nghymru.

Canlyniad yr anghytundeb hwn ar y weinidogaeth yw'r methiant cyffelyb i gydnabod aelodaeth ein gilydd. Y mae'r rhaniadau rhwng yr enwadau ar aelodaeth yn dilyn yr un patrwm yn union â'r rhaniadau rhyngddynt ar y weinidogaeth a hynny, wrth gwrs, am fod cydnabod gweinidogaeth yn anhepgorol i gydnabod aelodaeth.

Os ydym i dderbyn datganiad Delhi Newydd fel maen prawf ein hundeb, methodd enwadau Cymru â chyrraedd y nod, er bod rhai sydd yn arddangos arwyddion o undeb Cristnogol er nad ydynt wedi ymffurfio'n eglwys neu'n enwad unedig. Y mae Meirion Lloyd Davies yn cynnig nifer o resymau am y methiant hwn, gan gynnwys y gwahaniaethau diwinyddol ac eglwysig sydd oddi fewn i'r enwadau eu hunain, sydd wedi galluogi lleiafrif sylweddol i rwystro camau penodol tuag at undeb llawnach.[1] Hyd yn oed pe bai mwyafrif digonol o blaid byddai'r lleiaf-rif yn dueddol o greu rhaniad pellach. Y mae tystiolaeth fod hyn wedi digwydd mewn llawer uniad ar draws y byd. Ond nid yw hyn yn brawf fod y nod o undeb Cristnogol yn amhriodol. Arwydd ydyw, yn hytrach, o'r angen am amynedd i ddatblygu patrwm o undeb Cristnogol a fedr gynnwys pawb. Rheswm arall a roddir ganddo

1. Gwarchod y Gair, tud. 194 ymlaen.

yw'r duedd tuag at geidwadaeth enwadol a diwinyddol mewn cyfnod o argyfwng crefyddol yng Nghymru, ceidwadaeth sydd wedi gafael yn bennaf mewn cenhedlaeth iau na chafodd ei thanio â'r weledigaeth o undeb a ddilynodd yr ail Ryfel Byd. Y mae'n gweld agweddau tuag at yr iaith Gymraeg fel rhwystr i undeb hefyd. Fel y gwelwyd, bu hyn yn elfen amlwg drwy gydol y cyfnod o dan sylw, yn fwyaf arbennig yn y sefyllfa leol. Y mae lle i gredu, fodd bynnag, nad yw'n ffactor mor gryf erbyn hyn gan fod ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith enwadau Saesneg yng Nghymru o bwysigrwydd yr iaith a pharodrwydd i feithrin dwyieithrwydd mewn cyfarfodydd busnes ac addoliad, gyda chymorth offer cyfieithu effeithiol, dogfennau a chyhoeddiadau dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd, a thaflenni dwyieithog ar gyfer cydaddoli a chydweddïo. Yn wir, y mae cymod rhwng y ddwy iaith yn rhan anhepgor o'r weledigaeth o undeb Cristnogol yng Nghymru. Ni all fod yn fater eglwysig yn unig; y mae'n rhaid i undeb Cristnogol gynnig cymod rhwng ieithoedd a diwylliannau a thraddodiadau yn ogystal. Gallai Cymru wneud cyfraniad hollbwysig yn y cyfeiriad hwn.

Yn wyneb yr amwysedd a'r anhawster (yn y sefyllfa Gymreig) mewn perthynas â ddiffiniad datganiad Delhi Newydd o undeb Cristnogol, y mae angen chwilio am weledigaeth arall. Gwnaed ymdrechion niferus yn ystod y blynyddoedd diwethaf i roi mynegiant i ddealltwriaeth newydd o undeb ac y mae Gunther Gassman, a oedd ar y pryd yn Gyfarwyddwr Comisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd, yn nodi[1] nifer o'r hyn a eilw'n ogwyddiadau sylfaenol cyffredin. Yn gyntaf, rhaid i'r undeb a gyffesir yn y credo fod yn weledig a rhaid bod cymundeb sacramentaidd yn elfen ganolog o hyn. Pledio y mae nid am undeb organaidd o angenrheidrwydd ond am undeb gweledig a fynegir mewn cydaddoli, cydweithio a chydbenderfynu, yn hytrach nag undeb 'ysbrydol' nad yw'n golygu unrhyw newidiadau ym patrymau cyd-berthyn rhwng eglwysi ac enwadau. Yn ail, y mae'n pwysleisio na ddylid deall

---

1. *Dictionary of the Ecumenical Movement*, tud. 1041.

undeb yn nhermau unffurfiaeth ond yn hytrach yn nhermau amrywiaeth mewn mynegiant diwinyddol a ffurfiau bywyd eglwysig. Yn drydydd, drwy adnewyddu bywyd yr eglwysi y mae cyflawni undeb. Yn bedwerydd, iachawdwriaeth ac adnewyddiad y ddynolryw gyfan yw gwir nod undeb. Yn olaf, dros dro y mae pob ffurf ar undeb.

O bryd i'w gilydd, ymddangosodd modelau neu ddisgrifiadau o undeb Cristnogol, yn ogystal â'r model o undeb organaidd a drafodwyd eisoes. Un ohonynt yw 'amrywiaeth mewn cymod' (*reconciled diversity*) a ddisgrifir gan Tom Best[1] fel dealltwriaeth o undeb sy'n cychwyn gyda chyfreithlonedd y gwahaniaethau enwadol presennol a'r angen am eu parhau fel 'points of reference' oddi fewn i hunaniaeth Gristnogol ehangach. Grym y model hwn yw ei fod yn mawrhau cyfraniad pwysig y traddodiadau gwahanol at yr Eglwys gyfan. Ei wendid yw ei fod yn medru cyfiawnhau methiant i wneud unrhyw newidiadau mewn patrymau ac agweddau enwadol ac yn methu â gorfodi enwadau i wynebu'r cwestiynau anodd am eu perthynas â'i gilydd. Yn ddiweddar, awgrymodd James D.G. Dunn[2] y term 'amrywiaeth cyd-gysylltiedig' fel disgrifiad mwy addas o'r hyn a oedd gan Paul mewn golwg yn Rhufeiniaid 12 ac I Corinthiaid 12. Gallai hyn fod yn gymorth i'r ymchwil am undeb yng Nghymru, gan ei fod yn awgrymu patrwm o gydberthynas rhwng yr enwadau a'r eglwysi a'i gilydd nad yw'n ymfoddloni ar ddioddef amrywiaethau rhyngom ond sydd yn hytrach yn gweld amrywiaeth fel rhinwedd dim ond pan y mae eglwysi'n defnyddio'r amrywiaeth nid fel esgus dros fod ar wahan ond fel rheswm dros gysylltu a phartneru a chydgyfoethogi, yn y gred fod Cristnogion oddi fewn i gynulleidfaoedd yn ogystal ag ar draws enwadau yn 'aelodau bob un i'w gilydd' [3] Mewn geiriau eraill, y mae'n weledigaeth ddeinamig ac egnïol o undeb yn

1. ibid., tud. 1042.

2. Mewn astudiaeth feiblaidd na chyhoeddwyd a gyflwynwyd yng Nghymanfa Cyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon, Mawrth 1996.

3. Rhufeiniaid 12:5

hytrach nag yn batrymog a disymud.

Yn ddiweddar hefyd heriwyd y modelau traddodiadol o undeb mewn dwy ffordd arall. Galwodd y diwinydd o America Ladin, Jon Sobrino, am 'undeb mewn cydlyniad' gyda'r tlawd a'r anghenus a'r dioddefus, undeb sydd wedi ei wreiddio nid mewn trefniadaeth eglwysig yn bennaf ac yn gyntaf ond mewn cyd-ddioddefaint. Y cwestiwn wedyn yw: pa batrwm o berthyn sy'n angenrheidiol yn lleol, yn genedlaethol a rhyng-genedlaethol i wneud y cyd-ddioddef hwn yn bosibl ac yn greadigol? Yr ail her yw sicrhau fod unrhyw batrwm o undeb yn arwain at adnewyddiad ym mywyd a chymdeithas yr eglwysi, onid e, parheir y pechod o raniadau rhwng Cristnogion o hiliau, rhywiau a chyflwr economaidd gwahanol, hyd yn oed oddi fewn i'r un eglwys[1]. Yn y Gymru gyfoes, sy'n gynyddol amlieithog, amlddiwylliannol ac amlhiliol, ac sy'n parhau [mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol] i ddioddef anghyfiawnder economaidd a chymdeithasol, gallai'r weledigaeth ehangach hon ryddhau'r ymchwil am undeb Cristnogol o unrhwy gaethiwed i hen batrymau. Aeth yr ymchwil hwn braidd yn hesb yng ngolwg rhai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gallai'r weledigaeth ehangach hon orfodi'r eglwysi a'r enwadau i edrych nid yn unig nac yn bennaf i mewn arnynt eu hunain ond allan tuag at y gymdeithas o'u cwmpas a thrwy hynny ddarganfod ystyr llawnach 'undeb yng Nghrist'.

Yn ôl G.R.Evans[2]os ydyw'r eglwysi i ddod ynghyd mewn ffydd a bywyd, bydd angen nifer o gamau ar y ffordd. Yn gyntaf, y mae'n rhaid i'r eglwysi ddatgan eu bod wedi dod i gytundeb athrawiaethol â'i gilydd. Yn ail, byddai angen iddynt gydnabod yn ei gilydd gatholigrwydd ac apostoligrwydd; byddai gofyn am gydnabod a chyfnewid gweinidogaethau ei gilydd; a byddai'n ofynnol iddynt ddathlu'r

1. Gweler adroddiad Pumed Ymgynghoriad Byd-eang i Eglwys Unedig ac Eglwysi yn Uno, Potsdam 1987.

2. *The Church and the churches*, G.R. Evans, CUP, 1994.

ewcharist gyda'i gilydd. Yn ôl G.R.Evans, y mae'r elfennau hyn yn anwahanadwy. Yn drydydd, rhaid mynegi bywyd cyffredin yr eglwysi sy'n uno mewn bugeilio a chenhadu at y cyd. Yn olaf, byddai'n rhaid sefydlu patrwm o gydbenderfynu. Ac yn hyn oll, bydd yn hanfodol fod yr eglwysi'n fodlon derbyn mai dros dro y mae eu patrymau, a bod yr Ysbryd Glân yn diogelu'r Eglwys yn yr eglwysi ym mhob oes a chyfnod:

> '...every church which sees for itself (even if after a period of painful realisation) that it may need to change, will be able in time to make any alteration freely and gladly, under what it comes to understand is the guidance of the Holy Spirit'.[1]

Yn y datblygiadau diweddaraf hyn y mae gwersi i Gymru. Yn gyntaf, y mae'r nod o undeb Cristnogol yn gwbl gyson â'r Testament Newydd. Yn wir, y mae'n rhan o hanfod y ddealltwriaeth Feiblaidd o'r Eglwys. Yn ail, y mae amrywiaeth cyfoethog yn hanfodol i'r undeb hwn, a rhaid dod o hyd i ffyrdd i'w alluogi i gyfrannu at undeb yn hytrach na bod yn sail dros ymraniadau. Yn drydydd, rhaid sicrhau fod unrhyw batrwm o undeb yn adnewyddu bywyd yr eglwys, ac yn creu ynddi gymdeithas gynhwysol, gyfartal a chyfiawn. Yn bedwerydd, nid mater o drefniadaeth eglwysig yw undeb yn bennaf, ond modd i ddyfnhau ein cymdeithas yn dioddefiadau Crist (Philipiaid 3: 10) a thrwy hynny, i feithrin ein cyd-ddioddefaint â'r tlawd a'r anghenus a'r dioddefus. Yn olaf, os yw'r nod yn unol ag ewyllys Duw yng Nghrist, rhaid wrth amynedd i gyrchu at y nod, deued a ddelo.

> Communion cannot mean absorption or domination of one church by another; it cannot impose uniformity as a condition of unity but it will not insist upon rights which are divisive. It is not about models but about belonging to Christ. The primary communion is with him. All else follows from that. 'As Christ has received you, receive one another' (Romans 15: 7). Paul's agenda is still with us. To believe it is impossible for the Church to be one is to offend against faith, hope and charity. It is to let anger and resentments stand in the way and to resist love.[2]

Y sicrwydd hwn a daniodd arweinwyr Cyngor Eglwysi Cymru i barhau'r ymgais am

---

1. ibid., tud. 318.
2. ibid., tud. 314.

undeb Cristnogol gydag ymroddiad, amynedd a ffyddlondeb drwy gydol y cyfnod o dan sylw.

## PENNOD 6

## HYRWYDDO ECWMENIAETH LEOL YNG NGHYMRU

'Roedd cydweithio lleol yng Nghymru yn rhagflaenu Cyngor Eglwysi Cymru. Galwodd Ail Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd (Evanston, 1954) ar yr eglwysi fynd rhagddynt i ddyfnhau'r undeb rhyngddynt:

> 'Nid digon yw parhau ynghyd. Rhaid i ni fyned rhagom...A ydyw eich cynulleidfa chwi, mewn cymdeithas â chynulleidfaoedd eglwysi cylchynol, yn gwneuthur popeth a eill hi i sicrhau bod eich cymdogion yn clywed llais yr un bugail yn galw pob dyn i'r un ddiadell'[1]

Mewn erthygl olygyddol yn Yr Efrydydd galwodd Huw Wynne Griffith ar eglwysi Cymru 'i roddi cyfle i'r cynulleidfaoedd i ystyried y genadwri hon'. Yn yr un erthygl nodir fod Cynghrair Presbyteriaid y Byd a Chyngres yr Anglicanwyr wedi galw ar eu heglwysi i hyrwyddo undeb ymhlith Cristnogion o wahanol enwadau yn eu cylchoedd eu hunain. I'r diben hwn cynhaliwyd cynhadledd arbennig ar 28 - 31 Rhagyr 1954 ar gyfer 'caredigion y mudiad ecwmenaidd' er mwyn ystyried cenadwri Evanston i Gymru.

Canlyniad y gynhadledd hon oedd dirwyn i ben Urdd y Deyrnas (a fu'n hyrwyddo'r drafodaeth ecwmenaidd yng Nghymru ers dyddiau cynnar y mudiad cyfoes yn nechrau'r ganrif) a ffurfio Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru. Nôd y Gymdeithas fyddai 'hyrwyddo dealltwriaeth o'r Mudiad Ecwmenaidd a lledaenu gwybodaeth amdano', cynnig cymdeithas i'w gefnogwyr a hyrwyddo cysylltiadau ecwmenaidd â grwpiau eraill y tu mewn a'r tu allan i Gymru.[2] Credai'r rhai a fu'n sefydlu'r Gymdeithas newydd 'fod Duw yn gweithio drwy'r Mudiad Ecwmenaidd yn ein dyddiau ni i arwain ac i ddiwygio ei Eglwys', ac oherwydd hynny, credent fod gweith-

---

1. Neges i'r Eglwysi, Chweched Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd, Evanston 1954, dyfynwyd yn erthygl olygyddol, Yr Efrydydd, Cyf. 4, Rhif. 3, Tachwedd 1954

2. Yr Efrydydd, Cyf. 5, Rhif. 1, Mawrth 1955.

garwch Cyngor Eglwysi'r Byd o'r pwys mwyaf i eglwysi Cymru a'u tynged hwythau ynghlwm wrth ei lwyddiant'.[1] Rhestr o aelodau unigol oedd sylfaen y Gymdeithas, er bod rhai eglwysi lleol wedi ymuno â hi hefyd. Erbyn 1965 'roedd ganddi 218 o aelodau.

Bu ei haelodau'n dra egnïol yn hyrwyddo cydweithio lleol yn y cyfnod hwn. Gwnaeth unigolion brwdfrydig, megis Abel Ffowc Williams, gyfraniad anhygoel drwy deithio'n ddiflino i sicrhau cefnogaeth leol i waith Cymorth Rhyng-eglwysig (sef, rhagflaenydd Cymorth Cristnogol) yn ogystal â hybu cydweithio a chydweddïo drwy gynghorau eglwysi lleol. Y mae Memorandwm a gyflwynwyd i Gyngor Eglwysi Cymru ym 1965 yn nodi'n fwyaf arbennig gyfraniad y Gymdeithas yn trefnu cynhadleddau, teithiau i ymwelwyr amlwg a grwpiau astudio lleol. Sicrhaodd hefyd fod Cristnogion o Gymru yn cael cyfle i rannu mewn cyfarfodydd ecwmenaidd mewn gwledydd eraill a chynhyrchodd lenyddiaeth am y mudiad. O ganlyniad i hyn sefydlwyd nifer o bwyllgorau lleol ar gyfer Cymorth Rhyng-eglwysig (a oeddent yn aml yn gnewyllyn cydweithio mewn meysydd eraill) a rhai cynghorau eglwysi lleol parhaol. Cydweithiai'r Gymdeithas â'r Cydbwyllgor er Hyrwyddo Cydweithio a Chyd-ddealltwriaeth rhwng y Cymundebau Cristnogol yng Nghymru, a oedd yn canolbwyntio ar hybu perthynas rhwng yr enwadau a'i gilydd, nes i'r Cydbwyllgor beidio â bod ym 1956 pan ffurfiwyd Cyngor Eglwysi Cymru.

Yn y chwedegau cynnar sefydlwyd Gweithgor Ffydd a Threfn gan Gyngor Eglwysi Cymru[2] i hyrwyddo trafodaethau ar ddatganiad Trydedd Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Delhi Newydd ym 1961 ar 'Yr Undeb a Geisiwn', yn bennaf drwy'r cynhad-

--------------------

1. ibid., tud. 3.
2. gweler Pennod 2 uchod.

leddau ar ffydd a threfn yng Nghaerfyrddin ym 1963 a Nottingham ym 1964[1]. O ganlyniad i'r gweithgarwch hyn hefyd ffurfiwyd nifer o grwpiau lleol dros dro a rhai cynghorau eglwysi lleol parhaol.

Wrth gwrs, yn ystod degawdau cynnar y ganrif hon tyfodd y cydweithio rhwng yr eglwysi a'r enwadau anghydffurfiol yng Nghymru drwy Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru (a sefydlwyd yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf) a sefydlwyd nifer o gynghorau eglwysi rhyddion lleol (neu gynghorau efengylaidd). Ar y cyfan, 'roedd blaenoriaethau'r cynghorau hyn yn dra gwahanol i eiddo'r cynghorau eglwysi newydd ac ni ddaethant yn drwm iawn o dan ddylanwad y mudiad ecwmenaidd byd-eang. Mewn nifer o ardaloedd - a deil hyn yn wir hyd heddiw - y mae'r cynghorau rhyddion a chynghorau eglwysi lleol (gyda'u haelodaeth ehangach) yn cydfodoli ac o bryd i'w gilydd yn cydweithio.

**SEFYDLU ADRAN GWEITHGARWCH ECWMENAIDD**

Cydweithiodd Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru yn agos iawn â Chyngor Eglwysi Cymru am bron ddeg mlynedd, nes i'r datblygiadau ecwmenaidd uchod ei harwain i benderfynu dirwyn ei gwaith i ben ym 1965 o throsglwyddo ei brwdfrydedd, ei hadnoddau a'i phrofiad i wasanaethu'r Cyngor fel y cyfryw, 'wrth weld Cyngor Eglwysi Cymru yn tyfu ac yn cymryd ei gyfrifoldeb o ddifrif'[2]. Yn y flwyddyn honno cytunwyd i ffurfio Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd Cyngor Eglwysi Cymru. Ei nod fyddai

> 'lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Mudiad Ecwmenaidd ac yn fwyaf arbennig o waith Cyngor Eglwysi Cymru;...dechrau gweithgarwch ecwmenaidd lleol...; ...cynnig cyfle i unigolion a grwpiau i gefnogi a rhannu yng ngwaith y Cyngor...; a chychwyn a hybu cyfleoedd ar gyfer ymchwilio ac arbrofi mewn perthynas ag adnewyd-

---

1. gweler Pennod 2 uchod eto.

2. Cylchlythyr Cyfeillion Cyngor Eglwysi Cymru (Gol. M. Islwyn Lake), Rhifyn 1, Tachwedd 1965.

diad eglwysig'.[1]

Un o ganlyniadau diddymu'r Gymdeithas oedd sefydlu Cyfeillion Cyngor Eglwysi Cymru i fod yn fodd i barhau'r gefnogaeth bersonol a fu'n bosibl drwy'r Gymdeithas. Araf a fu'r ymaelodi ar y cychwyn, ond erbyn 1967 'roedd tua 200 yn Gyfeillion y Cyngor. Am gyfnod bu'r rhwydwaith hwn yn un effeithiol iawn ond gyda threigl amser fe'i gwanhawyd yn fawr. Cafodd adnewyddiad yn niwedd y saithdegau a dechrau'r wythdegau o dan ysbrydoliaeth Mrs. J.T.Morgan, un o wragedd elusengar Abertawe, ac yn ddiweddarach yr Anrhydeddus Antony Lewis. Codwyd tua £4,000 tuag at waith y Cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw, a magwyd cylch bychan o gefnogwyr brwd. Daeth y Cyfeillion i ben gyda difodiant y Cyngor ym 1990 a throsglwyddwyd y gronfa i'r Cyngor a thrwyddo i Cytûn.[2]

Ymgymerodd yr Adran â'i gwaith gyda brwdfrydedd, gan gynhyrchu taflenni cyhoeddusrwydd, meithrin perthynas â Chyngor Eglwysi Prydain a Chyngor Eglwysi'r Byd, sefydlu a chryfhau gweithgarwch Y Cyfeillion a 'chyflwyno'r Cyngor i Gymru'. Ond credai o'r cychwyn mai ei phrif waith oedd 'hybu pob twf ecwmenaidd, boed grŵp neu gyngor'[3]

Yn y cyfnod cynnar hwn cofrestrwyd cynghorau eglwysi lleol Cymru gan Gyngor Eglwysi Prydain ac nid gan Gyngor Eglwysi Cymru. Ond o 1966 ymlaen byddai cynghorau Cymru yn cofrestru drwy Gyngor Eglwysi Cymru. 'Roedd y cyfraniad blynyddol yn cael ei rannu rhwng y ddau gyngor a'r ddau gyngor hefyd yn bugeilio'r cynghorau lleol. O bryd i'w gilydd, bu hyn yn achos tyndra. Er enghraifft, ym

---

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith, Cyngor Eglwysi Cymru, 25-26 Ionawr 1965.

2. gweler yr Atodiad i Bennod 1

3. Cofnodion yr Adran, 25 Medi 1965.

1967 'roedd Cyngor Eglwysi Prydain wedi cytuno cynyddu'r cyfraniad blynyddol o £3. 3. 0 i £5. 5. 0 heb ymgynghori â Chyngor Eglwysi Cymru. Ym 1973 cytunodd Cyngor Eglwysi Prydain i ddileu o'i rhestr gynghorau nad oeddent wedi cyfrannu. Teimlai'r Adran mai hollol amhriodol fyddai hynny gan mai ei hawydd pennaf oedd bugeilio'r cynghorau lleol. Mater eilradd oedd y gost. Parhaodd y cynghorau hyn felly i dderbyn cymorth gan Gyngor Eglwysi Cymru a gwybodaeth am Gyngor Eglwysi Prydain. Y mae'r tyndra hwn yn arwydd o'r aneglurder a fu o'r cychwyn ynglŷn â pherthynas Cyngor Eglwysi Prydain â'r cynghorau yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon. Ni allai Cyngor Eglwysi Cymru fod wedi llwyddo i wneud yr hyn a wnaeth mewn llawer maes heb gefnogaeth Cyngor Eglwysi Prydain. Ar y llaw arall, nid oedd pawb a oedd ynglŷn â gwaith y Cyngor hwnnw bob amser yn sensitif i hunaniaeth ac anghenion arbennig Cymru.

Ar yr adeg hon, gweithiai'r Adran yn bennaf drwy gyfuniad o gylchoedd rhanbarthol a chanolfannau ecwmenaidd. Aed ati'n fuan i sefydlu rhanbarthau gydag unigolion yn gyfrifol am hybu eu gweithgarwch. Ymhen blwyddyn ar ôl ei ffurfio 'roedd gan yr Adran 16 rhanbarth gyda threfnydd ymhob un, a oedd a chyfrifoldeb drosdrefnu cyfarfodydd i siaradwyr arbennig, bugeilio cynghorau lleol a thargedu ardaloedd addawol.

'Roedd Canolfan Blaendulais (canlyniad gweledigaeth ac egni Erastus Jones, a oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yno ar y pryd) eisoes yn bod a ffurfiwyd Canolfan Ecwmenaidd ym Mangor, sef, Fforwm Gwynedd, ym 1967, ar batrwm Canolfan Blaendulais. Ym 1968 sefydlwyd Tŷ Toronto yn Aberfan (gyda chymorthdal sylweddol o Toronto) i fod yn ganolfan ar gyfer ailadeiladu ac adnewyddu'r gymuned yn dilyn trasiedi erchyll 1966. Aeth Erastus a Lyn Jones yno ym 1968 a daeth yn ganolfan i hyrwyddo cydweithio lleol nid yn unig yn Aberfan a Chwm Merthyr ond yng nghymoedd Sir Forgannwg a Mynwy yn gyffredinol. Yn ystod yr un cyfnod agorwyd Coleg Trefeca yn ganolfan hyfforddiant lleyg Eglwys Bresbyteraidd Cymru,

a gweithredodd o'r cychwyn fel canolfan ecwmenaidd a oedd yn agored i'r holl enwadau. Defnyddiodd yr Adran y rhwydwaith hwn o ganolfannau, ynghyd â'r Ganolfan Golegol Ddiwinyddol yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, fel rhwydwaith ecwmenaidd i hyrwyddo a chefnogi ecwmeniaeth leol, drwy astudiaeth a gweithgarwch.

**POBL DRWS NESAF**

Un o raglenni mwyaf mentrus a chyffrous y cyfnod hwn oedd 'Pobl Drws Nesaf'. Rhaglen astudiaeth ydoedd a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Cynhadledd Cymdeithasau Cenhadol Prydain (CBMS) ac Adran Addysg Cyngor Eglwysi Prydain mewn ymateb i argymhellion Cynhadledd Cenhadaeth ac Efengylu (Cyngor Eglwysi'r Byd) ym Mecsico ym 1966, ar y thema, Trefn Genhadol y Gynulleidfa. Cytunodd yr Adran i hyrwyddo'r rhaglen hon yng Nghymru ar y cyd â Chyngor Cenhadol Unedig Cymru, gyda chefnogaeth Wythnos y Gair (i'w chynnal ar 22 - 29 Gorffennaf 1967 a'i threfnu gan Gymdeithas y Beibl yng Nghymru) a fyddai'n uchafbwynt y rhaglen. Addaswyd y rhaglen Brydeinig at anghenion arbennig Cymru.

Mewn llythyr at y Western Mail esboniodd swyddogion y Cyngor natur y rhaglen hon:

> '...It will be not so much an attempt to draw outsiders into the church as an earnest attempt by the church itself to understand the world and God's activity within it...In *People Next Door* we shall be more concerned with converting the church so that it can be more effective as part of God's answer to men's needs. Consequently we shall be led to ask what new structures will the church have to adopt in order to participate faithfully in God's mission to his world...'[1]

Yn naturiol, felly, 'roedd 'sefydlu deialog rhwng yr eglwys a'r byd' yn elfen allweddol o'r rhaglen. Yng ngeiriau'r cyflwyniad i'r llyfryn Cymraeg: 'Gwahoddwyd ni 'i

---

1. Llythyr i'r *Western Mail*, 28 Hydref 1966, yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor, 20-21 Hydref 1966.

roi "Pobl Drws Nesaf" yn y canol a'u cadw yno'.[1] Cytunwyd i gynnal y rhaglen am gyfnod o chwech wythnos yn ystod y misoedd rhwng Ionawr a Mai 1967. Cafodd y rhaglen gefnogaeth yr holl enwadau a oedd yn aelodau o'r Cyngor a dosbarthwyd taflen wybodaeth i bob gweinidog ac offeiriad yng Nghymru, a'u hannog i ddechrau'r trefniadau naill ai drwy ddefnyddio cyngor eglwysi a oedd eisoes yn bod neu drwy ffurfio pwyllgor arbennig. 'Roedd adnoddau priodol wedi eu cynyrchu, yn cynnwys llawlyfr arbennig yn y Gymraeg, *'Church for all men'* gan Robert Latham (a darnau ohonno'n ymddangos yn yr wythnosolion) a llyfryn darlleniadau Beiblaidd 'O Ddydd i Ddydd', Gwanwyn 1967.

Y mae'r rhagymadrodd i'r llyfryn Cymraeg yn cydnabod ei fod yn gyfnod o ddigalondid i lawer yn yr eglwysi yng Nghymru, ond 'y mae chwyldro meddwl nad yw'n ail i'r Diwygiad Protestannaidd yn cerdded drwy'r Eglwys ar hyn o bryd, ac yn dwyn gobaith ac adnewyddiad yn ei sgil...y chwyldro ecwmenaidd...Gall (yr ymgyrch) fod yn gyfrwng yn llaw Duw i lunio Eglwys newydd ddiwedd yr ugeinfed ganrif'.[2] Y mae adran gyntaf y llyfryn yn amlinellu cefndir meddwl yr ymgyrch gan roi sylw arbennig i natur cenhadaeth Duw, adnabod byd Duw ac undod Eglwys Dduw.

Gwneir ymdrech hefyd i gymhwyso'r ymgyrch at y cefndir Cymraeg drwy ystyried problemau cenedl ddwyieithog, agweddau at y dieithr-ddyn a'r alltudion, a pherthynas Cymru â'r mudiad ecwmenaidd. Argymhellir ffurfio grwpiau a chynnal addoliad dwyieithog mewn rhai amgylchiadau er mwyn pontio rhwng Cymry Cymraeg a Chymry di-Gymraeg, a holir, 'Beth yn hollol yw ystyr deialog rhwng y ddwy elfen mewn cenedl ddwyieithog lle mae'r naill iaith yn ormesgar a'r llall yn brwydro am ei

--------------------

1. Pobl Drws Nesaf, Cyngor Eglwysi Cymru, 1967.
2. ibid., Rhagymadrodd.

heinioes?'[1] Nodwyd fod pobl wedi bod yn symud i fyw yng Nghymru o wledydd eraill ers canrifoedd, yn fwyaf arbennig o ganlyniad i ddatblygiadau diwydiannol a'r diwydiant gwyliau. 'Y mae'n amlwg fod pobl drws nesa' yn ein goresgyn ac y bydd llawer yn dod atom i fyw ac i ymddeol. A oes maes cenhadaeth yma?' Y mae'r bennod hon yn codi cwestiwn ymfudo o Gymru hefyd oherwydd prinder swyddi priodol yng Nghymru, 'Beth am y cyfrifoldeb gwleidyddol o sicrhau fod gwaith i'n pobl yng Nghymru ac o rwystro'r nychdod sy'n ein bygwth?' Y mae'r bennod hefyd yn pwyso ar i'r rhai a fydd yn rhannu yn y rhaglen fod yn ymwybodol o ddatblygiadau ecwmenaidd yng Nghymru, gan gynnwys trafodaethau'r pedwar enwad, y trafodaethau rhwng yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Fethodistaidd a dechreuadau 'Cyfamodi tuag at Undeb yng Nghymru'. Byddai'r cyfan hyn yn rhan o'r cyd-destun Cymreig a ddylai ddylanwadu ar gyfeiriad a chasgliadau'r grwpiau a fyddai'n rhannu yn y rhaglen.

Bu grwpiau mewn llawer ardal yn dilyn y rhaglen hon, er nad oes cofnod manwl o'u nifer, a gwahoddwyd pob grŵp i ddanfon cynrychiolchwyr i gynhadledd naill ai yng Nglynllifon neu'r Rhws, yn ystod haf 1967, i gloriannu'r gweithgarwch. 'Roedd 33 yn bresennol yn y naill a 39 yn y llall. Cyflwynodd cynhadledd Glynllifon bedwar argymhelliad i Gyngor Eglwysi Cymru yn gofyn am sylw brys i broblemau dwyieithrwydd mewn perthynas ag undeb, rhoddi blaenoriaeth i hybysrwydd lleol i ddatblygiadau mewn cydberthynas eglwysig, rhoddi ystyriaeth fuan i gwestiynau rhyng-gymuno a chlustnodi ardaloedd lle gellid cychwyn cynlluniau hyfforddiant lleyg mewn cenhadaeth. Gofynnodd cynhadledd Y Rhws am drefnu enciliau i'r rhai a gyfranogodd yn y rhaglen Pobl Drws Nesaf 'where, in prayer, they could grow out of their lesser loyalties into a greater loyalty' ac am i waith cydeglwysig ar ystadau tai newydd naill ai ddefnyddio adeiladau a oedd yn bod eisoes neu adeiladau rhad, dros dro. Ystyriwyd yr argymhellion hyn gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor

---

1. ibid., tud. 7.

yn Ebrill 1968. Prif ffrwyth y drafodaeth yno oedd argymell nifer o gamau mewn perthynas â dwyieithrwydd, sef, bod y Cydbwyllgor Cyfamodi yn ystyried y mater hwn cyn cyhoeddi ei adroddiad, fod y Grŵp Astudiaethau Litwrgaidd yn astudio'r pwnc, a bod y Cyngor yn ystyried sicrhau fod cyfieithu ar y pryd oddi fewn i'w brif gyfarfodydd. (Ysywaeth, fe gymerodd ddeuddeg mlynedd cyn i hynny ddigwydd!) Y mae'n amlwg fod y rhaglen hon wedi bod yn ddylanwadol mewn nifer o ardaloedd ar draws Cymru, ond o ystyried cyffro'r rhaglen a'i hamcanion llawn dychymyg a brwdfrydedd, argymhellion digyffro a diddychymyg yw'r rhain ar y cyfan.

Un o ffrwythau'r rhaglen yng Nghymru, fodd bynnag, oedd i'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed yn ystod yr ymgyrch hon fod yn sylfaen i lyfryn ar 'Uppsala a Chymru' a fwriadwyd i helpu Cristnogion Cymru baratoi ar gyfer Pedwaredd Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Uppsala - ar y thema, 'Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd' - ym 1968. Cyhoeddwyd 2,000 o'r llyfryn hwn a threfnwyd chwe chynhadledd ranbarthol gan y canolfannau ecwmenaidd i'w ystyried. Trefnwyd hefyd fod dwy gynhadledd yn cael eu cynnal (eto yng Nglynllifon a'r Rhws) ar ôl y Gymanfa, a chyhoeddwyd taflen yn crynhoi goblygiadau Uppsala i Gymru i'w dosbarthu'n lleol. Y mae Bwletin Cyfeillion Cyngor Eglwysi Cymru yn Nhachwedd 1968 yn dwyn sylw arbennig at orymdaith ieuenctid i ganol dinas Uppsala yn ystod y Gymanfa: 'Oes, y mae angen ein hatgoffa ni am ein honiadau ac y mae angen dinoethi ein geiriau chwyddedig a'n cyfeirio at yr ymgysegriad syml sy'n golygu gwneud - dim ond gwneud - yr hyn a broffeswn'[1]

**ARDALOEDD ARBROFI ECWMENAIDD**

Pwnc arall a gafodd gryn sylw yn ystod y cyfnod hwn oedd 'Ardaloedd Arbrofi Ecwmenaidd'. Gwelwyd eisoes fod Cynhadledd Ffydd a Threfn Nottingham ym

---

1. Bwletin Cyfeillion Cyngor Eglwysi Cymru (Gol. M. Islwyn Lake), Rhifyn 10, Tachwedd 1968.

1964 wedi derbyn y penderfyniad canlynol:

> '(The conference requests the member churches of the British Council of Churches) to designate areas of ecumenical experiment, at the request of local congregations, or in new towns and housing areas. In such areas there should be experiments in ecumenical group ministries, in the sharing of buildings or equipment, and in the development of mission'[1]

Bu'r penderfyniad hwn llawn mor ddylanwadol â'r un enwocach a oedd yn cymell galw am undeb gweledig rhwng enwadau Prydain erbyn 1980, mewn unedau megis cenhedloedd. Bu'r penderfyniad hwn yn sbardun i lawer ardal yn Lloegr i ystyried sefydlu arbrofion o'r fath a buont yn elfen bwysig yn y genhadaeth Gristnogol mewn ystadau tai newydd yn Lloegr (lle nad oedd llywodraeth leol, yn aml, yn foddlon neilltuo mwy nag un safle ar gyfer adeilad eglwysig).

Datblygiad arall a gafodd gryn ddylanwad yn lleol oedd Deddf Rhannu Adeiladau Eglwysig 1969 a oedd yn caniatáu i enwadau a oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Prydain ac eraill, megis yr Eglwys Gatholig Rufeinig, ddod i gytundeb cyfreithiol i rannu adeiladau. Am y tro cyntaf, rhoddodd y ddeddf newydd hon ryddid cyfreithiol i gynulleidfaoedd ac enwadau gytuno â'i gilydd i wneud defnydd cydeglwysig effeithiol o adeiladau eglwysig lleol ar gyfer cenhadaeth, tystiolaeth ac addoliad.

Bu'r tyfiant yn Lloegr yn gyfryw ag i beri i Gyngor Eglwysi Prydain gyhoeddi *Areas of Ecumenical Experiment* (gan R.M.C. Jeffreys) ym 1968 a oedd yn cynnwys arolwg o'r datblygiadau mewn ymateb i benderfyniad Nottingham ac yn cynnig canllawiau i ardaloedd ac enwadau a oedd yn ystyried cychwyn arbrofion o'r fath.

Ni chafodd y posibiliadau hyn lawer o sylw gan Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd y Cyngor tan Fedi 1969 pan drafodwyd effaith cyfamodi tuag at undeb yng Nghymru ar gydweithio lleol. Cyfeirir yn y cofnod o'r cyfarfod at dair ardal yn unig

---

1. *Unity Begins at Home*, Adroddiad Cynhadledd Nottingham 1964, SCM, 1964, tud. 79.

lle 'roedd arbrofi naill ai'n digwydd neu'n cael ei ystyried, sef, Penrhys (Y Rhondda), Ystad Glenboy yn Aberpennar, a chynlluniau Eglwys Annibynnol y Wern, Aberafan i sefydlu eglwys unedig ar ystad newydd Sandfields, Port Talbot. Pwysleisiwyd pedwar mater allweddol wrth ymlwybro tuag at arbrofi ecwmenaidd, sef, cael y llysoedd enwadol i awdurdodi parhad arbrofion, sicrhau rhagwybodaeth am drefi newydd a'u cydnabod o'r cychwyn fel ardaloedd arbrofi ecwmenaidd, cynnal ymgynghoriad ar adeiladau pwrpasol ar gyfer cenhadaeth heddiw a cheisio cael gan golegau diwinyddol archwilio i'r posibiliadau hyn a chynnwys materion ecwmenaidd mewn cyrsiau hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth.

Yn dilyn y drafodaeth gychwynnol hon aeth yr Adran ati ym 1970 i ymchwilio i'r arbrofion Cymreig. Lluniwyd holiadur yn cynnwys cwestiynau am yr ardal, noddwyr y cynllun, gweithgareddau lleol, yr adeiladau a ddefnyddiwyd, y gefnogaeth leol, cyllid, cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r angen am gymorth pellach. Danfonwyd yr holiadur i ddeuddeg ardal, sef, Y Drenewydd, Penrhys, Aberpennar, Pwllheli, Llanedeyrn (Caerdydd), Aberfan, y Bontfaen, Croeserw (Cymer), Cwmbran, Baglan (Port Talbot), Llansannan a Llangollen. Pan ddadansoddwyd yr ymatebion mewn ymgynghoriad yn Hydref 1970 'roedd yn amlwg fod cryn anniddigrwydd yn rhai o'r ardaloedd:

> '...church leaders, who have long insisted that ecumenicity should occur locally, at the grass roots, are horrified when it actually happens. Their opposition, in the form of slowing down progress, usually has the effect of keeping rebellious churches safely within the establishment.'

Y mae'n anodd dweud a oedd hwn yn gasgliad teg ai peidio ond ar sail y casgliad hwn penderfynwyd nad oedd cynnydd ecwmenaidd yn debygol o ddigwydd onibai fod enwadau yn cydnabod dilysrwydd arbrawf ac yn ei hyrwyddo a'i gynnal, a hynny heb aros i'r enwadau gyfamodi â'i gilydd tuag at undeb. Cwestiwn arall a oedd yn poeni'r ardaloedd hyn oedd parhad yr arbrawf. Yn aml, nid oedd olynydd gweinidog neu offeiriad cefnogol a brwdfrydig yn dangos yr un gefnogaeth â'r rhagflaenydd. 'Roedd enghreifftiau o hyn yn arwain at fethiant arbrawf. Credai'r

Adran fod angen datblygu patrwm arolygiaeth allanol, lleol a fyddai'n medru pwyso ar arweinwyr yr enwadau naill ai i beidio â symud gweinidog neu i sicrhau olynydd cymwys. Yn olaf, teimlwyd fod angen brys am i'r enwadau ddatblygu modd cydnabod a dynodi ('designate' oedd y gair mawr yn y cyfnod hwn) arbrofion o'r fath, gan fod llawer o'r arbrofion hyn yn fregus iawn ac yn debygol o fethu heb gefnogaeth yr enwadau. Cytunwyd i ddefnyddio'r adroddiad hwn fel sail memorandwm i'w gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym Merthyr, Hydref 1971.

Yn y cyfamser, yn ei gyfarfod yn Ninbych y Pysgod, 'roedd y Cyngor[1] wedi gwahodd y Grŵp Diwinyddol Ymgynghorol i ystyried 'Diwinyddiaeth Arbrofi'. 'Roedd adroddiad y Grŵp, a gyhoeddwyd yn Hydref 1971, yn seiliedig ar ddau gyhoeddiad ar arbrofi ecwmenaidd gan Gyngor Eglwysi Prydain, sef, *Areas of Ecumenical Experiment* (1968) ac *Ecumenical Experiments: A Handbook* (1971). Ar y cyfan, 'roedd y Grŵp yn dra beirniadol o seiliau diwinyddol y cyhoeddiadau hyn. Sonir am 'dubious logical links', 'hasty composition' a 'terms...being bandied about quite irresponsibly'. Gwelai'r Grŵp mai ei gyfrifoldeb oedd:

> '...(to) question the dubious argumentation...(and) attempt to relate the current concept of ecumenical experiment to responsible theological thinking as this is exemplified in the tradition common to the churches'.[2]

Er bod yr adroddiad yn feirniadol o fan cychwyn y ddau gyhoeddiad hyn, sy'n holi 'Is not the whole story of redemption in some sense an experiment by God?' y mae'n hapus i dderbyn y syniad o 'arbrawf ecwmenaidd' gan ei fod yn gorfodi'r eglwysi i holi a ydyw patrwm arbennig o gydweithio lleol yn ffordd ymlaen tuag at undeb eglwysig. Un elfen bwysig yn y sefyllfa ecwmenaidd yw fod pobl yn sylweddoli fod y gwirionedd yn fwy na'r ddiwinyddiaeth statig a etifeddwyd gand-

1. Cofnodion y Cyngor, Hydref 1970.

2. *The Theology of Experiment*, Adroddiad Grŵp Ymgynghorol Diwinyddol Cyngor Eglwysi Cymru, Hydref 1971, tud. 1

dynt.[1]

Y mae'r adroddiad yn feirniadol iawn hefyd o honiad *Ecumenical Experiments: A Handbook*, bod arbrofi yn anhepgor i unrhyw newid. 'The Group found this paragraph confused and unsatisfactory, an elaborate piece of special pleading in favour of experiment at any price'.[2] Credai'r grŵp fod yn rhaid i unrhyw arbrofi ecwmenaidd fod yn seiliedig ar egwyddorion diwinyddol. Dylai hefyd adlewyrchu'r hinsawdd ecwmenaidd a oedd yn ymwrthod â'r hen ymorchestu enwadol, a lle 'roedd enwadau'n foddlon dysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu popeth a roddodd Crist iddynt yn eu harwahanrwydd. Felly, y mae'n diffinio arbrofi ecwmenaidd fel ymgais gan Gristnogion o draddodiadau gwahanol

> '...to come together at a local level in order to share as fully as possible in the life, worship and mission of the one Church which is manifested in all the traditions'.[3]

Ond hyd yn oed os caniateir y diffiniad hwn y mae tuedd geidwadol iawn yn yr adroddiad. Y mae'n ymboeni fod perygl i'r galon reoli'r pen, 'apparent charity (outstripping) theological insight'. Tra'n cydnabod mai teyrngarwch i Grist yw'r ffon fesur y mae'n honni

> 'In an ecumenical situation where the churches are manifestly seeking to restore the visible unity of the Church, loyalty to Christ is likely to be expressed by loyalty to the church to which we belong...Commitment to members of other churches sharing in the experiment, however deep it may become under conditions of shared experience, should never be allowed to undermine their commitment to the church to which they belong. Otherwise the ecumenical experiment is on the way to becoming a new denomination'.[4]

Pan drafodwyd Memorandwm yr Adran ac Adroddiad y Grŵp Diwinyddol Ymgynghorol gan y Cyngor (Hydref 1971) a'i Bwyllgor Gwaith (Chwefror 1972),

---

1. ibid., tud. 2
2. ibid., tud. 2
3. ibid., tud. 3
4. ibid., tud 3.

canolbwyntiodd y drafodaeth ar y tyndra rhwng pwyslais radicalaidd a lleol y cyntaf a phwyslais ceidwadol a chanolog yr olaf. Pendraw'r trafodaethau hyn oedd cytuno fod yn rhaid i unrhyw arbrawf fynd y tu hwnt i gydweithio rheolaidd mewn cyngor eglwysi lleol, bod angen ymgynghori llawn rhwng y lleol a'r cenedlaethol, y dylai'r enwadau geisio sicrhau parhad mewn arweinyddiaeth leol yn yr ardaloedd hyn, a bod angen diffinio beth yw ffiniau cydweithio. Cytunwyd ymhellach i wahodd grŵp *ad hoc* a oedd yn gynrychioladol o'r elfennau yn y drafodaeth hyd yn hyn i drafod y materion hyn ac i gynnull cyfarfod i'r enwadau ystyried ardaloedd arborfi ecwmenaidd 'ac i awgrymu egwyddorion a dulliau gweithredu ar gyfer arbrofion a chydweithio yn y dyfodol'.[1]

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn Aberystwyth ar 24 Gorffennaf 1973 gyda phrif swyddogion y rhan fwyaf o'r enwadau yn bresennol. 'Roedd y memorandwm a fyddai'n sail y cyfarfod yn nodi nifer o faterion i'w hystyried, yn cynnwys parhad gweinidogaeth mewn arbrofion, gweinidogaethau tîm, cwestiynau aelodaeth, problemau anghysondeb ffiniau enwadol, cwestiwn ffurfiau a rhyddid mewn perthynas â phatrymau addoliad, y defnydd o adeiladau (yn wyneb Deddf Rhannu Adeiladau 1969) a pherthynas cynulleidfaoedd cydenwadol â'r enwadau. Ar ddiwedd y cyfarfod hwn croesawyd y camau a gymerwyd gan yr Adran i hyrwyddo'r arbrofion ecwmenaidd hyn a gofynnwyd iddi gymryd cyfrifoldeb dros gynghori eglwysi lleol a oedd am gydweithio ymhellach. Felly, dyma osod ardaloedd arbrofi ecwmenaidd ar sail swyddogol ymhlith enwadau Cymru a chyflwyno i'r Cyngor gyfrifoldeb dros eu hyrwyddo a'u cynghori. Ymhen dwy flynedd, wedi i bum enwad yng Nghymru gyfamodi â'i gilydd, byddai Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol hefyd yn hyrwyddo a chynghori arbrofion lleol o'r fath ymhlith yr Eglwysi Cyfamodol a byddai cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a'r Comisiwn yn y mater hwn yn agwedd naturiol o feithrin ecwmeniaeth leol yng Nghymru, yn arbennig felly wedi i'r ddau gorff

1. Cofnodion y Cyngor, Pwllheli, 12-13 Hydref 1972

gytuno penodi ysgrifennydd cyffredinol ar y cyd ym 1977.

Fodd bynnag, araf a fu'r cynnydd yn nifer yr ardaloedd hyn yng Nghymru yn y cyfnod cynnar hwn. Cwynodd rhai enwadau am hyn a bu cryn drafodaeth ynglŷn â lleoliad y cyfrifoldeb a'r awdurdod i gychwyn arbrofion o'r fath. Er enghraifft, gofidiai Cadeirydd Talaith Caerdydd ac Abertawe yr Eglwys Fethodistaidd 'that as yet no areas of ecumenical experiment have been *proclaimed* (italeiddio'r awdur presennol) in Wales' a chredai fod angen diffinio ardaloedd arbrofi ecwmenaidd 'with all speed' er mwyn i'r enwadau fedru dechrau cyhoeddi ardaloedd felly mewn mannau lle 'roedd mawr angen amdanynt. Yn ei ymateb y mae Meirion Lloyd Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, yn pwysleisio nad diffinio oedd ei angen ond yn hytrach sicrhau fod eglwysi mewn ardaloedd arbennig yn gwneud cais am gael eu dynodi yn ardal arbrofi ecwmenaidd. Nid mater o ddatganiadau enwadol oedd ecwmeniaeth leol ond o feithrin a datblygu cydweithio a oedd eisoes yn digwydd, gan gofio mai gan yr enwadau eu hunain, mewn cyd-ddealltwriaeth â'i gilydd, yr oedd yr awdurdod i gychwyn a dynodi arbrofion o'r fath ac nid gan unrhyw gorff cydeglwysig.

Erbyn 1974, 'roedd yr enwadau a'r cyrff cydeglwysig yn amheus o'r gair 'arbrofi' yn y cysylltiadau hyn a chytunwyd i ddefnyddio'r term 'cynllun' *(project)* yn ei le. Yn wir, tuedd yr enwadau yn Lloegr (lle rhestrwyd 46 cynllun ym 1974[1]) - drwy'r Consultative Committee for Local Ecumenical Projects in England - oedd peidio â phoeni'n ormodol am ddiffinio a gadael i ardaloedd ddisgrifio'r hyn yr oeddynt yn bwriadu ei wneud cyn pryderu'n ormodol am y teitl priodol ar gyfer y cynllun:

> '...my policy...has been to advise people to agree what they are going to do and how they are going to do it before they decide what they

---

1. gweler *Adventures in Unity* gan David Blatherwick, Cyngor Eglwysi Prydain, 1974, tud. 6-12

are going to call it...'[1]

Un rheswm dros hepgor y gair 'arbrofi' o'r disgrifiad o gynlluniau lleol oedd y byddai parhau i ddefnyddio'r term yn debygol o olygu 'that the people involved in them will continue to be regarded as ecclesiastical oddities...'[2] Ar yr un pryd, y mae *Adventures in Unity* yn awyddus i wahaniaethu rhwng cynlluniau sy'n gweithredu oddi fewn i reolau arferol yr enwadau a chynlluniau lle y mae'r rheolau hynny wedi eu gosod o'r neilltu am y tro er mwyn hyrwyddo arbrofi mewn undeb llawnach:

> 'Experiment is more than an expedient justified in the present ecumenical impasse, it is an essential part of the Church's quest for a true understanding of what God is offering to and demanding of Christians at the present time'.[3]

O hyn ymlaen, fodd bynnag, mabwysiadwyd y teitl Cynllun Ecwmenaidd Lleol *(Local Ecumenical Project [LEP])* ar gyfer y mentrau ecwmenaidd hyn, gan ei ddiffinio yn y termau canlynol:

> 'An LEP may be said to exist where there is at the level of the local church a formal, written agreement affecting the ministry, congregational life and/or buildings of more than one denomination, and a recognition of that agreement by the appropriate denominational authorities'.[4]

Y mae *Adventures in Unity* yn adrodd nad oedd Cymru yn hawlio unrhyw arbrofion ecwmenaidd, fel y cyfryw, ym 1974 ond rhestrir Penrhys, Llanedeyrn, Baglan a'r Bontfaen fel cynlluniau ecwmenaidd, a nodir fod rhannu adeiladau oddi fewn i Ddeddf 1969 yn digwydd yn Fairwater (Caerdydd), Fairwater (Cwmbran), Risca, Ynys y Bari, a Phenlan (Abertawe), a gweinidogaeth ar y cyd yng Ngharmel, Arfon

--------------------

1. David Blatherwick, Swyddog Ecwmenaidd Lloegr, mewn llythyr dyddiedig 1 Ebrill 1974

2. ibid., tud. 6

3. ibid., tud. 6

4. *Guidelines for Local Ecumenical Projects, Consultative Committee for Local Ecumenical Projects in England*, 1975, tud.6-7

rhwng Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r eglwys Annibynnol.

Ym 1978 gwnaeth yr Adran ymdrech bellach i gymell ffurfio cynlluniau ecwmenaidd drwy alw cynhadledd arbennig i gynghorau eglwysi lleol a chynulleidfaoedd lleol a oedd â diddordeb mewn sefydlu cynllun yn eu hardal. Daeth cynrychiolwyr o gynllun ecwmenaidd yn Redditch, swydd Gaerwrangon, ynghyd â John Nicholson, Swyddog Ecwmenaidd Lloegr, i'r gynhadledd i rannu gwybodaeth a phrofiad am ddatblygiadau yn Lloegr.

Yn ystod y blynyddoedd dilynol sefydlwyd nifer o gynlluniau ecwmenaidd lleol yng Nghymru, rhai ohonynt wedi eu cyfyngu i'r eglwysi cyfamodol ac eraill yn cynnwys enwadau eraill perthynol i Gyngor Eglwysi Cymru. 'Roeddent yn amrywio o ran natur a lleoliad. Sefydlwyd rhai mewn ystadau tai newydd (megis ym Mhentwyn, ar gyrion Caerdydd, lle 'roedd y pum enwad cyfamodol wedi ymuno i ffurfio un eglwys a oedd yn addoli yn yr ysgol leol). Mewn ardaloedd eraill, megis Llanuwchllyn a Bancyfelin (Caerfyrddin), ffurfiwyd gofalaeth gydenwadol (yn yr achosion hyn rhwng yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid) gydag un gweinidog. Cafodd y rhain eu disgrifio ymhen rhai blynyddoedd fel 'gweinidogaethau bro'. Yn Rhiwabon 'roedd Eglwys y Plwyf yn rhannu ei hadeilad gyda'r Eglwys Gatholig Rufeinig (oddi fewn i Ddeddf 1969), gyda chydweithio achlysurol mewn addoliad, addysg a chenhadaeth yn dilyn o hynny. Ffurfiwyd eglwys unedig mewn ardaloedd eraill (er enghraifft, rhwng eglwysi anghydffurfiol Cymraeg Llangollen). Ym Motwnnog 'roedd offeiriad yr Eglwys yng Nghymru yn weinidog hefyd ar eglwysi Presbyteraidd yn yr ardal, o ganlyniad uniongyrchol i reolau a ddatblygwyd ar sail y cyfamod tuag at undeb. Yn ddiweddarach, yng nghanol yr 80au adeiladwyd ar rai o'r enghreifftiau hyn drwy hyrwyddo gweinidogaethau bro rhwng yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg, gyda chefnogaeth ac o dan oruchwyliaeth Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, a sefydlodd Gydbwyllgor Ymgynghorol ar y Weinidogaeth i'r diben hwn.

Er mai'n araf y datblygodd y cynlluniau amrywiol hyn tarddodd y cyfan o'r dechreuadau bregus drwy'r Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd yn nechrau'r 70au. Ac os oeddent yn dra amrywiol eu natur 'roedd iddynt rai nodweddion yn gyffredin. 'Roeddynt, bron yn ddieithriaid, yn cynnwys elfen o rannu gweinidogaeth. Yn wir, gellid dadlau fod llawer o'r tyfiant graddol mewn cynlluniau ecwmenaidd yng Nghymru yn ganlyniad nid yn gymaint i weledigaeth genhadol (a fu'n sbardun i'r rhan fwyaf o arbrofion o'r fath yn Lloegr) ond i argyfwng gweinidogaethol, yn arbennig ymhlith yr eglwysi anghydffurfiol Cymraeg. Nodwedd arall gyffredin oedd fod llawer o'r cynlluniau hyn yn gynnyrch ymdrechion arweinwyr enwadol rhanbarthol neu genedlaethol yn hytrach nag yn weledigaeth a datblygiad naturiol oddi fewn i'r sefyllfa leol. Yn hyn o beth hefyd, 'roedd y cynlluniau yng Nghymru yn wahanol ar y cyfan i gynlluniau yn Lloegr. Tuedd arall yn y cynlluniau hyn oedd iddynt fethu â wynebu cwestiwn baich yr adeiladau, sy'n dal i fod yn un o'r rhwystrau pennaf i genhadaeth a thystiolaeth greadigol yng Nghymru. Canlyniad hyn yw fod nifer o weinidogion yn dal i orfod arwain gwasanaethau mewn nifer o ganolfannau o Sul i Sul a chynnal cyfundrefn eglwysig sy'n mynnu glynu at arwahanrwydd a hunaniaeth cynulleidfaoedd yn hytrach na'u galluogi i ddarganfod ffyrdd effeithiol i rannu adnoddau mewn profiad, adeiladau ac arian er mwyn hyrwyddo'r genhadaeth Gristnogol.

Fodd bynnag, nid oes amheuaeth i'r cynlluniau hyn fod yn gyfraniad pwysig i'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru yn yr ugain mlynedd diwethaf. Parhaodd yr enwadau i gymell ffurfio cynlluniau o'r fath drwy Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, Cyngor Eglwysi Cymru (a Chytûn ar ôl 1990) a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Pan wnaeth Cyngor Eglwysi Cymru arolwg o gynlluniau ecwmenaidd lleol yng Nghymru ym 1989 cafwyd fod tua 60 o gynlluniau o fathau amrywiol mewn bodolaeth. 'Roedd hyn yn nifer llawer uwch nag a ddisgwyliwyd ac yn gyfartaledd uwch nag yn Lloegr, lle 'roedd rhyw 500 o gynlluniau ar y pryd ond lle 'roedd poblogaeth ac aelodaeth eglwysig a oedd o leiaf bymtheg gwaith yn fwy na pho-

blogaeth ac aelodaeth eglwysig Cymru.

**CYNGHORAU EGLWYSI LLEOL**

Yn ystod yr un cyfnod bu cynnydd yn nifer cynghorau eglwysi lleol yng Nghymru. Ym 1969 rhestrwyd 60 cyngor a oedd yn gysylltiedig â Chyngor Eglwysi Cymru. Erbyn 1978 'roedd y nifer wedi cynyddu i 79. Y mae'n ddiddorol sylwi fod 65 o'r rhain mewn ardaloedd trefol neu ôl-ddiwydiannol a 14 ohonynt mewn pentrefi, 57 ohonynt mewn ardaloedd Seisnigedig a 22 ohonynt mewn ardaloedd Cymraeg, 44 ohonynt yn y De, 8 yn y Canolbarth a 27 yn y Gogledd. Ym 1985 'roedd tua 90 ohonynt gyda rhwng traean a hanner ohonynt yn gwneud cyfraniad ariannol cyson i'r Cyngor ('and can be assumed to have a more active awareness of the wider ecumenical movement in Wales and more widely').[1] Pan ddaeth Cyngor Eglwysi Cymru i ben ym 1990 'roedd tua 110 ohonynt yn gysylltiedig. Ym 1996 'roedd tua 130 yn gysylltiedig â Chytûn.

Yn naturiol, ar hyd y blynyddoedd hyn bu cryn amrywiaeth yn effeithiol-rwydd y cynghorau a'u gweithgareddau. 'Roedd rhai ohonynt yn canolbwyntio'n unig ar weithgareddau achlysurol megis Yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol ac Wythnos Cymorth Cristnogol. 'Roedd eraill yn cynnal gweithgareddau cyson - rhai yn fisol - i feithrin cyfeillgarwch, cyd-ddealltwriaeth a chydweithio lleol. 'Roedd eraill yn chwilio am fodd i ddyfnhau'r berthynas rhwng eglwysi lleol ac o ganlyniad datblygodd rhai cynlluniau ecwmenaidd lleol oddi fewn i gyngor eglwysi lleol. Mewn rhai ardaloedd ysywaeth nid oedd y cyngor yn bod ond mewn enw ac ni chafwyd unrhyw wybodaeth am y rhain o un flwyddyn i'r llall. Fel yn achos cynulleidfaoedd unigol 'roedd cynghorau lleol yn amrywio o ardal i ardal a'u heffeithiolrwydd yn dibynnu'n bennaf ar arweinyddiaeth leol, leyg ac ordeiniedig.

--------------------

1. *Views from the Pews*, Cyngor Eglwysi Prydain a Catholic Truth Society, 1985, tud. 79

Ond ceisiodd y Cyngor fugeilio'r gweithgarwch hyn drwy gydol y cyfnod. Gwnaeth hynny drwy'r Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd ac yn ddiweddarach drwy'r Ysgrifennydd Cyffredinol. 'Roedd pecynau gwybodaeth yn cael eu danfon atynt ddwy neu dair gwaith y flwyddyn, a oedd yn cynnwys Cylchlythyr yr Adran a'r Bwletin a'i dilynodd, yn ogystal â chyhoeddiadau Cyngor Eglwysi Prydain ar gyfer cynghorau lleol. Trefnwyd ymweliadau cyson gan swyddogion yr Adran a'r Cyngor, ac o bryd i'w gilydd byddai ymwelwyr o Gyngor Eglwysi Prydain neu Gyngor Eglwysi'r Byd yn dod ar ymweliad i Gymru ac yn mynd ar daith o gwmpas rhai o'r cynghorau hyn. Cynhaliwyd nifer o gynhadleddau rhanbarthol yn ystod y blynyddoedd i roi cyfle i gynghorau lleol yn y rhanbarth i gyfarfod â'i gilydd a rhannu gwybodaeth a syniadau. Anelwyd nifer o raglenni cydeglwysig y blynyddoedd hyn at cynghorau lleol; er enghraifft, rhaglen Pobl Drws Nesaf, llyfryn Uppsala a Chymru, Pam Cyfamodi?, rhaglen Cyngor Eglwysi'r Byd ar 'Rhoddi cyfrif am y gobaith sydd ynoch' ym 1973.

Un agwedd bwysig ar fywyd a gwaith nifer o'r cynghorau hyn oedd presenoldeb yr Eglwys Gatholig Rufeinig. O'r 60au diweddar ymlaen, yn fwyaf arbennig o dan ddylanwad Ail Gyngor y Fatican, anogwyd eglwysi Catholig lleol i ymuno mewn gweithgareddau ecwmenaidd. Mewn rhai ardaloedd, megis Abertawe, 'roedd yr Eglwys Gatholig yn aelod llawn o'r cyngor lleol o'r cychwyn[1]. Mewn ardaloedd eraill, 'roedd yr Eglwys Gatholig, er nad oedd yn aelod o'r cyngor lleol, yn ymuno mewn oedfaon, grwpiau gweddi a myfyrdod (yn fwyaf arbennig yn ystod yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol) ac yn cyfrannu at weithgarwch cymdeithasol, gan gynnwys cydweithio gydag Wythnos Cymorth Cristnogol (er bod ganddynt eu hasiantaeth cymorth a datblygiad eu hunain, sef, CAFOD). Yn aml iawn, 'roedd yr offeiriad pabyddol yn aelod o'r cylch gweinidogion lleol. Pan ddaeth y Pab Ioan

---

1. am grynodeb gynhyrfus o rai o'r datlbygiadau hyn, gweler *A Tale of Two Grandmothers*, Ron Howells, Gwasg John Penri, 1994, tud. 48 ymlaen

Pawl II i Gymru ym 1982 trefnwyd oedfaon arbennig gan rai cynghorau lleol i ddynodi'r achlysur. Erbyn 1990 amcangyfrifwyd bod tua 75% o gynghorau eglwysi lleol Cymru yn cynnwys yr eglwys Gatholig leol ymhlith yr aelodau.

Yn naturiol, nid oedd pawb yn medru derbyn hyn ac mewn rhai ardaloedd 'roedd cydweithio â'r Eglwys Gatholig leol yn golygu fod y berthynas ag eglwysi efengylaidd a phentecostaidd yn fwy anodd. 'Roedd hanes yr Eglwys, awdurdod Gair Duw mewn perthynas â thraddodiad yr Eglwys, cwestiwn awdurdod yn yr Eglwys (ac awdurdod y Pab, yn fwyaf arbennig) a lle Mair yn addoliad yr Eglwys ac yn nhrefn y cadw yn feini tramgwydd i lawer. Ond mewn llawer ardal 'roedd parodrwydd ymhlith Pabyddion a Christnogion efengylaidd i gydweithio â'i gilydd ac o bryd i'w gilydd i gydweddïo, yn dystiolaeth bwysig i'r camau breision mewn cyfeillgarwch a phartneriaeth a gymerwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn Lloegr, bu cyfamodi lleol yn un o'r ffyrdd pwysicaf i ddyfnhau partneriaeth â'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Drwy'r cyfamodau lleol hyn 'roedd eglwysi, offeiriaid, gweinidogion ac aelodau, mewn ardal arbennig yn cyfamodi â'i gilydd i gydaddoli (oddi fewn i ddisgyblaeth bresennol y gwahanol enwadau) a chydweithio mewn addysg, cenhadaeth a thystiolaeth gymdeithasol. Arwyddwyd cyfamodau o'r fath mewn oedfa arbennig pan fyddai arweinwyr neu brif gynrychiolwyr yr enwadau a oedd yn rhan o'r cyfamod yn gosod eu sêl ar y berthynas newydd drwy arwyddo'r un ddogfen. Yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyfamodau lleol hyn yn Lloegr. Ysywaeth ni ddigwyddodd hynny yng Nghymru. Yn wir, hyd yma dim ond un cyfamod lleol a ddaeth i fodolaeth a hynny yn Ninas Powys, rhwng yr Eglwys Gatholig Rufeinig, Yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Fethodistaidd. Bu'r cyfamod lleol hwn (nad yw'n seiliedig ar y cyfamod tuag at undeb yng Nghymru) yn greadigol ac adeiladol ar lawer cyfrif. Y mae anawsterau'n codi o bryd i'w gilydd, yn aml am fod gweinidogion ac offeiriaid nad ydynt bob amser wedi deall arwyddocâd y cyfamod i fywyd eu heglwysi yn cael eu

galw neu eu penodi i ofalaeth. Fodd bynnag, dichon petai ardaloedd eraill wedi ystyried y posibiliadau hyn byddai eglwysi a fu'n cydweithio'n glos â'i gilydd dros y blynyddoedd (yn cynnwys yr Eglwys Gatholig) wedi medru gwneud ymrwymiad i bartneriaeth newydd.

Ym 1985 cyhoeddwyd *Views from the Pews*[1] gan y Broses Ryng-eglwysig. Roeddyr adroddiad hwn yn cynnig dadansoddiad o ymateb grwpiau lleol i'r rhaglen astudiaeth ecwmenaidd a gynhaliwyd yn ystod Grawys 1986. Amcangyfrifwyd fod tua miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o tua 70,000 o grwpiau ar draws Prydain (gyda rhai yn Iwerddon hefyd). Anfonodd nifer helaeth o'r grwpiau hyn adroddiadau yn ôl a dychwelwyd 100,000 o holiaduron. 'Roedd 4,200 o'r rhain o Gymru. Dangosodd dadansoddiad cyfrifiadurol o sampl o 10% o'r rhain fod 50% o aelodau'r grwpiau o'r Eglwys yng Nghymru, 50% ohonynt dros 55 mlwydd oed, 7% o dan 25 mlwydd oed, 64% yn wragedd a 92% yn addoli'n wythnosol. Pan aed ati i gloriannu cyfraniad y cynghorau lleol ar gyfer *Views from the Pews*, nodwyd:

> 'All too often the local council is little more than a meeting place for interested people rather than a proper forum which is representative of, and represents the commitment of, the local congregations'.[2]

Yn ôl un cyngor,

> 'The potential for greater things does exist...if only we could harness it properly...The strength of the council in terms of will and resources is not such as would enable us to strike out and map new territory...'[3]

Ond nid dyma'r stori gyfan. Drwy'r blynyddoedd fe fu cynghorau bywiog, brwdfrydig a oedd yn hawlio ymrwymiad yr eglwysi lleol a lle 'roedd rhaglen gyson o gydweithio a chydaddoli yn cynnig cyd-destun cydeglwysig effeithiol iddynt. Bu

---

1. Views from the Pews, BCC/CTS, 1986

2. Noel A. Davies yn ibid., tud. 80

3. ibid., tud. 80

nifer o unigolion oddi fewn i'r cynghorau hyn, ac yng Nghyngor Eglwysi Cymru ei hun, o'r blynyddoedd cyntaf ymlaen, yn dra egnïol a gweithgar o'u plaid. Ar eu gorau, bu'r cynghorau lleol hyn yn cynnig ffordd ymlaen. Wrth gwrs, bu angen adfywiad ac adnewyddiad - a bu disgwyl y byddai ffurfio Cytûn yn un ffordd o sicrhau hynny. Ond ni ellir gwadu fod y cynghorau lleol hyn wedi cyfrannu'n helaeth at y berthynas newydd sydd rhwng cynulleidfaoedd a'i gilydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar draws Cymru.

**GWYL TEULU DUW**

Yng nghanol yr 80au gwahoddwyd cynghorau eglwysi lleol (a chynulleidfaoedd lleol unigol lle nad oedd cyngor) i ddechrau paratoi ar gyfer dathliad arbennig. Ym 1983 cytunodd Cyngor Eglwysi Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol (ar awgrym cylch addysg y Comisiwn o dan arweiniad Gwyneth Roberts) i gynnal gŵyl arbennig, Gŵyl Teulu Duw. Ei hamcan oedd rhoi hwb i'r gwaith ecwmenaidd yng Nghymru oddi fewn i'r cyfamod ac yn fwy cyffredinol a dathlu penblwydd y Cyngor (1956 - 1986). Cytunwyd i gynnal yr ŵyl yn Llanelwedd ar 24 Mai 1986 a gwahoddwyd yr Esgob Desmond Tutu i fod yn brif westai.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr ŵyl paratowyd pecyn astudio ar thema 'Teulu Duw' yn adlewyrchu gweithgarwch y Cyngor a'r Comisiwn mewn gwahanol feysydd. Fe'i cynyrchwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn Tachwedd 1985 'roedd yr argraffiad cyntaf o'r pecyn Saesneg wedi gwerthu allan, ond 'roedd nifer o'r pecynau Cymraeg ar ôl wedi i'r ŵl fynd heibio - patrwm gwerthiant cyffredin iawn ymhlith yr eglwysi yng Nghymru. Ar y cyfan, nid yw'r eglwysi Cymraeg yn manteisio'n llawn ar y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar eu cyfer, naill ai'n enwadol neu'n gydenwadol.

Penodwyd O.P. Jones, Porthcawl, yn drefnydd rhan-amser i'r ŵyl a gwnaed cryn ymdrech i sicrhau cyhoeddusrwydd drwy'r eglwysi a'r cyfryngau. Mewn gwirionedd 'roedd yn ymgymeriad enfawr i weinyddiaeth mor fychan ag eiddo'r Cyngor

a'r Comisiwn. Fodd bynnag, yn ôl trefnwyr y sioe genedlaethol yn Llanelwedd, lle cynhaliwyd yr ŵyl, 'roedd rhwng 15,000 ac 20,000 yno a bu'n llwyddiant mawr, er bod rhai o'r trefniadau wedi torri i lawr yn llwyr oherwydd maint annisgwyl y dorf.

Trefnwyd rhaglen lawn iawn i'r teulu cyfan gyda phasiant wedi ei threfnu gan John Gwilym Jones, gweithgareddau i blant a seminarau i oedolion ar rai o themâu'r pecyn astudio, cystadleuaeth beldroed a gweithdai addoli a gweddi. Cafwyd cyfarfod arbennig i wrando anerchiad gan Desmond Tutu ar Dde'r Affrig ac arddangosfa fawr o weithgareddau enwadau a mudiadau Cristnogol Cymru. 'Roedd yr oedfa i gloi'r ŵyl yn un fythgofiadwy, gyda'r Esgob yn pregethu a chynulleidfa luosog iawn ym mhrif gylch maes y sioe genedlaethol. Dechreuodd wlawio wrth i'r oedfa ddod i'w therfyn a bydd pawb a fu yno'n cofio'r Esgob yn prancio ar draws y maes ar ôl iddo orffen pregethu gyda'i gasog yn ei law rhag iddo faglu! Desmond Tutu oedd yr atyniad, wrth gwrs, a gwnaeth argraff fawr, gan ysbrydoli pawb a'i gwrandawodd â'i neges rymus, a dwyn i sylw pobl Cymru o'r newydd erchylltra apartheid yn Ne'r Affrig.[1]

Costiodd yr ŵyl tua £25,000 a gwnaed elw o £2,174, er syndod i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau. Cafwyd cymorth gan nifer o enwadau, talwyd costau teithio'r Esgob drwy rodd dienw a chafwyd ffïoedd a nawdd gan nifer o gwmnïau radio a theledu. Derbyniwyd bron £10,000 mewn tâl mynediad - a oedd yn cynnwys rhaglen y dydd - ar ddiwrnod yr ŵyl.

'Roedd Gŵyl Teulu Duw yn un o uchelbwyntiau'r ymdrech ecwmenaidd yng Nghymru. Ei hamcan oedd rhoddi hwb i'r ymdrech ecwmenaidd drwy'r Cyngor a'r Comisiwn. Er mai oddi fewn i'r Comisiwn y cychwynnwyd y syniad o ŵyl fel hon, ac er i weithgarwch mewn perthynas â'r cyfamod tuag at undeb gael cryn sylw yn

--------------------

1. gweler Pennod 14 o'r traethawd hwn am grynodeb o anerchiad a phregeth yr Esgob.

ystod y dydd, gŵyl y Cyngor a fu hon yn bennaf. Bu'n galondid mawr i gynghorau a chynulleidfaoedd lleol gan ennyn brwdfrydedd a hyder a llawenydd newydd. Cymaint felly nes i'r Cyngor gytuno i gynnal gŵyl arall ym 1990. Ond er i'r ŵyl hon fod yn llwyddiant yn nhermau rhaglen a gweithgarwch - 'roedd llawer wedi cael llawer mwy o fudd ohoni nag o Wyl Teulu Duw ym 1986 - ni ddaeth mwy na 3,000 yno, yn bennaf am i'r trefnwyr benderfynu peidio â chael person gwâdd arbennig y tro hwn - a gwnaeth golled ariannol.

**CASGLIADAU**

I grynhoi, bu hyrwyddo cyd-ddeall, cydweithio a chydaddoli lleol yn ganolog i gymhellion y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill, o'r cychwyn. 'Roedd yn sylfaenol i weithgarwch Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru a sefydlwyd Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd y Cyngor yn unswydd i'r diben hwn, yn ogystal â'r canolfannau ecwmenaidd ym Mlaendulais, Bangor a mannau eraill. Bu'r gweithgarwch hwn ar ei orau pan oedd rhwydwaith o bobl brwdfrydig yn gweithio'n egnïol i hyrwyddo cydweithio, pobl megis Abel Ffowc Williams ac Islwyn Lake a roddodd cryn dipyn o'u hamser yn wirfoddol a didâl i hyn, am eu bod yn sicr bod llwyddiant y weledigaeth ecwmenaidd yn gofyn am roddi blaenoriaeth i'r lleol. Rhoddwyd hwb arbennig i'r gweithgarwch hwn gan raglenni megis Pobl Drws Nesaf ym 1966 a oedd yn rhoi ffocws newydd i'r ymdrechion hyn.

Dylid cyfaddef hefyd i'r Cyngor gael mwy o lwyddiant yn y gwaith hwn nag a gydnabyddir yn aml (gan gynnwys, ym mlynyddoedd olaf y Cyngor, gynnydd sylweddol yn aelodaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig mewn cynghorau lleol). Tra'i bod yn wir dweud mai'n araf y cydiodd y weledigaeth leol yn nychymyg Cristnogion mewn cynulleidfaoedd ledled Cymru a bod angen hwb newydd i ddihuno eglwysi i bosibiliadau creadigol cydweithio a chydaddoli, rhaid cydnabod hefyd fod y sefyllfa gydeglwysig leol wedi ei thrawsnewid yn ystod y deugain mlynedd diwethaf mewn llawer ardal. Y mae llawer mwy o gydaddoli a chydweithio'n

digwydd na chynt mewn pentrefi ac ardaloedd trefol; ac yn bwysicach na dim tyfodd cyfeillgarwch ac ymddiriedaeth rhwng Cristnogion a'i gilydd.

Araf a fu'r ymateb Cymreig i argymhelliad cynhadledd Nottingham i greu Ardaloedd Arbrofion Ecwmenaidd o'i gymharu â Lloegr, a bu llawer ohonynt ar ysgogiad arweinwyr a phrif swyddogion yr enwadau yn hytrach na'n ffrwyth trafod a brwdfrydedd lleol. 'Roedd hyn yn fwyaf gwir mewn ardaloedd gwledig ac yng nghymoedd Morgannwg, lle ymgymerwyd â'r arbrofion hyn yn aml am fod prinder gweinidogion yn golygu iddynt fethu sicrhau gweinidog drwy'r gyfundrefn enwadol arferol. Ond wedi iddynt gymryd y cam cyntaf, fe'i derbyniwyd yn llawen a pharhaodd yr arbrofion, er iddynt orfod wynebu argyfyngau o bryd i'w gilydd, fel ym mhob gofalaeth arall. Ymateb ardal ar ôl ardal yw fod y closio ecwmenaidd hwn wedi cyfoethogi bywyd yr eglwysi'n fawr.

Mewn rhai ardaloedd bu cryn dyndra rhwng cynulleidfaoedd Cymraeg a chynulleidfaoedd Saesneg mewn perthynas â iaith oedfaon ar y cyd a chyfarfodydd y Cyngor Eglwysi lleol, a hynny'n creu drwgdybiaeth. A thra bod cyfieithu ar y pryd yn medru hwyluso pethau mewn cyfarfodydd cenedlaethol nid yw hyn wedi bod yn bosibl yn lleol gan amlaf. Ond y mae'n sicr y dylid dal ati gyda dwyieithrwydd ecwmenaidd oherwydd fod cyd-ddeall rhwng Cristnogion o wahanol ieithoedd a diwylliant a'i gilydd yn medru agor y ffordd i gymod rhwng pobl o ieithoedd a diwylliannau gwahanol oddi fewn i'r gymdeithas ehangach. Dyma gyfrinach pob closio ecwmenaidd: magu ymddiriedaeth a chyfeillgarwch rhwng eglwysi a Christnogion a'i gilydd a'u helpu i ddeall a gwerthfawrogi'r amrywiaethau cyfoethog rhyngddynt.

Yn y blynyddoedd diwethaf gwnaed cryn ymdrech gan y Cyngor (a Chytûn wedi hynny), Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol a Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru i gydweithio i hyrwyddo ecwmeniaeth leol. Y farn enwadol gyffredinol yng Nghymru yw mai dyma'r flaenoriaeth ar hyn o bryd a bod yn rhaid rhoi llawer mwy o egni ac

adnoddau y tu ôl i'r ymdrechion hyn, gan na fydd partneriaeth enwadol ddyfnach yn golygu llawer oni bydd wedi ei hadeiladu ar bartneriaeth mewn addoliad a thystiolaeth Gristnogol rhwng cynulleidfaoedd lleol.

# PENNOD 7

# PERTHYNAS Â'R EGLWYS GATHOLIG RUFEINIG

Bu tri chyfnod yn allweddol bwysig yn natblygiad perthynas yr Eglwys Gatholig Rufeinig â Chyngor Eglwysi Cymru. O ganlyniad, yn bennaf, i Ail Gyngor y Fatican daeth yr Eglwys Gatholig yn Sylwedydd Ymgynghorol ym 1968. Yn nechrau'r wythdegau dechreuwyd trafodaethau i ystyried dyfnhau'r berthynas, efallai drwy i'r Eglwys ddod yn aelod llawn o'r Cyngor (er na chymerwyd y cam hwnnw.) Erbyn diwedd yr wythdegau 'roedd yr Eglwys Gatholig yn aelod cyflawn o'r Broses Ryngeglwysig fyddai'n arwain at sefydlu Cytûn ym Medi 1990, gyda'r Eglwys yn aelod llawn ohono. (Yn wir, un o leygwyr yr Eglwys Gatholig gadeiriodd un o'r Comisiynau baratôdd y ffordd at ffurfio Cytûn.)

## Y DECHREUADAU

Cymerwyd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau'r berthynas â'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru mewn hinsawdd anaddawol. Ym Mai 1946 ac eto ym Mai 1949 gwnaeth Archesgob yr Eglwys yng Nghymru ddatganiadau ar hawliau'r Eglwys yng Nghymru fel 'Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru...':

> 'The Roman Clergy and the Non-conformist ministers are intruders...There may be historical excuse for their being here, but we cannot recognise their right to be here...'[1]

Mewn erthygl ar *Un Eglwys* ym 1961 y mae hyd yn oed Erastus Jones yn cydnabod mai

> 'ar raddfa byd a chenedl yr Eglwys Babyddol sydd anhawsaf i'w thrin. Hyd yma pallodd ymwneud yn swyddogol â'r mudiad ecwmenaidd, er i bersonau unigol a chylchoedd bach o'u plith ddangos diddordeb mawr...Gwyddom mai ystyr amlwg Undeb yr Eglwys i Babyddion yw'r dychwelyd o'r Cristnogion crwydrol yn ôl at yr un Eglwys, sef, Eglwys Rufain.'[2]

--------------------

1. Dyfynir gan R. Tudur Jones mewn erthygl ar 'Honiadau Anglicanaidd yng Nghymru', Y Dysgedydd, Gorffennaf/Awst 1960, tud. 138.

2. Y Dysgedydd, Mawrth/Ebrill 1961, tud. 57.

Fodd bynnag, yn yr un flwyddyn cymerwyd cam y byddai iddo arwyddocâd pell-gyrhaeddol yn nhermau cydberthynas eglwysig a chydweithio mewn tystiolaethu - a hynny cyn cynnull Ail Gyngor y Fatican. Yng nghyfarfod Cyngor Eglwysi Cymru ym Medi 1961 cytunwyd i estyn gwahoddiad i'r Eglwys Gatholig benodi dau i'w chynrychioli ar Gydbwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd, a ffurfiwyd y flwyddyn honno. Yn ei ateb dywed Esgob Mynyw fod ganddynt ddiddordeb yn y cynlluniau ac y byddent yn barod i ddewis cynrychiolwyr. Wrth dderbyn y gwahoddiad y mae'n gwneud y sylw:

> '...your Council at this stage will not expect us to commit the Roman Catholic Church in Wales to all the conclusions to which the Committee may come, though we hope that disagreement on fundamental points will not arise.'[1]

Cyfrannodd cynrychiolwyr yr Eglwys at y gwaith o gyfarwyddo'r prosiect a bu nifer o'i hysgolheigion beiblaidd yng Nghymru ynglŷn â'r cyfieithu. Pan gyhoeddwyd y Misal yn y Gymraeg am y tro cyntaf ym 1988 testun y Beibl Cymraeg Newydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y llithiau: fe'i derbyniwyd yn llawen i ganol addoliad a bywyd Catholigion Cymraeg Cymru.

Rhaid cyfaddef fodd bynnag fod y bartneriaeth hon wedi bod yn achos gofid i rai. Pan gytunodd yr enwadau yng Nghymru (yn cynnwys yr Eglwys Gatholig Rufeinig) i ymuno â'i gilydd mewn cenhadaeth Gristnogol (drwy ymgyrch gydenwadol Cymru i Grist ym 1975, blwyddyn cyhoeddi Testament Newydd y Beibl Cymraeg Newydd), cytunwyd i ddefnyddio Efengyl Marc yn y cyfieithiad newydd fel sylfaen yr ymgyrch. 'Roedd aelodaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig o Gydbwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd a'i chyfraniad at y cyfieithu yn un rheswm dros benderfyniad Mudiad Efengylaidd Cymru (a'r eglwysi a'r unigolion a'i cefnogai) i wrthod ymuno. Yn wir, buont yn gyndyn, ar y cyfan, i ddefnyddio'r Beibl Cymraeg Newydd byth oddi ar hynny.

---

1. Llythyr oddi wrth Esgob Mynyw at Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, 25 Hydref 1961.

Cymerwyd y camau cyntaf hyn tuag at gydweithio agosach â'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru ar adeg pan oedd ei hymgais i ddyfnhau ei pherthynas â Christnogion o eglwysi ac enwadau eraill ar draws y byd yn datblygu'n gyffrous. Ym 1952 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cyntaf y Gynhadledd Gatholig ar Faterion Ecwmenaidd. Ym 1960 sefydlwyd yr Ysgrifenyddiaeth dros Hybu Undeb Cristnogol gan y Pab Ioan XXIII. Ym 1961 cytunodd y Pab i ddanfon pum sylwedydd Catholig i Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd (yn Delhi Newydd) am y tro cyntaf. Yn y flwyddyn ddilynol, cynullwyd Ail Gyngor y Fatican, a fu'n eistedd tan 1965, a gafodd ddylanwad hollol chwyldroadol ar ymrwymiad ecwmenaidd yr Eglwys Gatholig.

Canlyniad uniongyrchol Ail Gyngor y Fatican oedd i Gynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr gyhoeddi ym 1967 (ar ran Ysgrifenyddiaeth y Fatican er Hyrwyddo Undeb Cristnogol) *Directory for the Application of the Decisions of the Second Ecumenical Council of the Vatican concerning Ecumenical Matters.*[1] Cyhoeddwyd y *Directory* er mwyn hyrwyddo a chyfarwyddo'r awydd am undeb a fynegwyd yn *Decree on Ecumenism, Unitatis Redintegratio*. Pwysleisir mai cyfrifoldeb yr Esgobion yw penderfynu polisi ecwmenaidd wedi cymryd yr holl amgylchiadau lleol i ystyriaeth: 'Proper care must be taken in these matters so that the ecumenical movement itself is not impeded and the faithful do not suffer harm due to the danger of false irenicism or indifferentism.'[2] Geilw'r ddogfen am sefydlu Comisiynau Ecwmenaidd naill ai ar gyfer esgobaeth unigol neu ar gyfer nifer o esgobaethau os byddai hynny'n fwy priodol, ac argymhellwyd fod y comisiynau hyn yn cynnwys dynion a merched lleyg, lleianod a mynachod, yn ogystal ag offeiriaid. Byddai holl rychwant y cyfrifoldeb ecwmenaidd a danlinellwyd gan Gyngor y Fatican yn syrthio ar y comisiynau hyn ac argymhellwyd eu bod yn cydweithio, mewn ffyrdd priodol, ag unrhyw gynghorau neu gyrff ecwmenaidd a oedd eisoes mewn bodolaeth ymh-

1. *Catholic Truth Society*, 1967.
2. *Directory*, tud. 5 ymlaen.

lith yr eglwysi a'r enwadau eraill.

Rhoddir sylw arbennig yn y ddogfen i arwyddocâd bedydd mewn trafodaethau a chydberthynas ecwmenaidd. Y man cychwyn yw fod bedydd yn angenrheidiol i iachawdwriaeth ac na ellir ei weinyddu ond unwaith. Gwelwyd fod arwyddocâd ecwmenaidd hyn yn bellgyrhaeddol:

> 'Men who believe in Christ and who have duly received baptism, are established in fellowship with the Catholic Church, even if the fellowship is incomplete...men whose faith has brought them acceptance with God in baptism, are incorporated in Christ. It is right that they should be distinguished with the name Christian and they deserve to be recognised by the children of the Catholic Church as their brothers in the Lord.'[1]

Felly, y mae bedydd yn cael ei ddisgrifio fel 'the sacramental bond of unity, indeed the foundation of communion among all Christians.'[2] Gan fod y fath bwyslais ar fedydd y mae'r ddogfen yn neilltuo cryn ofod i olrhain canllawiau ar gyfer pobl o enwadau eraill a fyddai'n dymuno cael eu derbyn i gymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig. Yn eu plith 'roedd argymhelliad fod diwinyddiaeth ac arfer bedydd yn faterion i'w trafod mewn ymddiddanion rhwng yr Eglwys a'r enwadau 'gwahanedig', gyda golwg ar ddod i gytundeb ecwmenaidd arnynt.

Ar y sylfeini hyn eir ymlaen i ystyried sut y mae meithrin ecwmeniaeth ysbrydol oddi fewn i'r Eglwys Gatholig yn ogystal â rhannu mewn gweithgareddau ysbrydol 'â'n brodyr gwahanedig', a fyddai'n cynnwys gweddïo cyffredin, cyd-ddefnyddio lleoedd a gwrthrychau cysegredig, yn ogystal ag addoliad litwrgaidd. ('There is *communicatio in sacris* when anyone takes part in the liturgical worship or in the sacraments of another Church or ecclesial community.')[3]

Y ddogfen fyd-eang hon a'i gwnaeth yn bosibl gweithredu penderfyniadau Ail

---

1. *Directory*, para. 10, yn dyfynnu o *Decree on Ecumenism, n. 3*)
2. ibid., para. 11.
3. ibid., para. 30.

Gyngor y Fatican mewn perthynas â hyrwyddo undeb Cristnogol, mewn gwledydd ar draws y byd. Bu'r un mor allweddol yng Nghymru. Hon a ddatglodd y drws i berthynas ecwmenaidd ddyfnach. Ym mis Hydref 1967 cyhoeddodd Esgobion Catholig Cymru ddatganiad o'u 'bwriad ecwmenaidd' a oedd i'w ddarllen ymhob offeren drwy'r dalaith ar y Sul, 8 Hydref 1967. 'Roedd yn arwyddocaol yn nhermau hunaniaeth yr Eglwys Gatholig yng Nghymru ei bod wedi cyhoeddi'r datganiad hwn yn ddwyieithog. Eisoes gwelai ei bod yn etifedd (gydag eraill) o'r traddodiad Cristnogol Cymraeg. Ymgais fwriadol yw'r datganiad i ddehongli bwriadau Ail Gyngor y Fatican ar gyfer Cymru.

Y mae'n dechrau drwy wreiddio'r dyhead am undod ym mywyd y Drindod:

> 'Un o roddion Duw inni heddiw yw'r hiraeth y mae Ef yn ei roi yng nghalonnau cynifer o'i blant am uno'r holl Gristnogion. Y mae'r Ysbryd Glân yn ein cymell i roi heibio amheuon a chwerwder, ac i ddyfod at ein gilydd yng ngariad Crist. Y mae'n ein harwain i weddïo ac i weithio fel y byddom oll yn un...'[1]

Eir ymlaen i atgoffa'r eglwysi fod Ail Gyngor y Fatican wedi rhoddi blaenoriaeth uchel i'r ymgais am undeb Cristnogol a bod esgobion Cymru hwythau am roddi'r un flaenoriaeth iddo:

> 'Fe deimlwn ninnau fod undeb Cristnogion yng Nghymru yn un o'n prif ofalon ni...Balch iawn fyddem pe bai gwaith a gweddi dros undeb yn rhan anhepgor o fywyd ysbrydol pob plwyf.'[2]

Un o adrannau mwyaf dadlennol y datganiad yw ei gydnabyddiaeth o waith yr Ysbryd Glân yn y traddodiadau eraill yng Nghymru:

> '...fe welwn fod gras Duw wedi bod yn nerthol ar waith ym mhob corff Cristnogol, a gwerthfawrogwn yr arferion a'r defosiynau y mae eu haelodau wedi ymateb drwyddynt i'w ras Ef...'[3]

Cydnabyddir hefyd fod undeb Cristnogol yn anhepgor i'r dystiolaeth Gristnogol yn

--------------------

1. Datgan Bwriad Ecwmenaidd ar ran Esgobion Pabyddol Cymru, 8 Hydref 1967.

2. ibid.

3. ibid.

argyfwng ysbrydol y genedl:

> 'Ni ellir peidio â gweld fod ein hymraniadau'n rhwystr i waith yr Efengyl, a'u bod yn gyfrifol, mewn rhan o leiaf, am y dirywiad enbyd a geir yn ein dyddiau ni yng nghred ac ym muchedd Cristnogion, dirywiad sy'n bygwth pob corff Cristnogol...Gwlad Gristnogol fu Cymru o'i dechrau cyntaf a thrwy gydol ei hanes a dyma hi heddiw ar fedr colli gwreiddyn y cyfan.'[1]

Y mae'n cyflwyno galwad gref, felly, i'r plwyfi Pabyddol yng Nghymru ymdaflu i'r ymdrech dros undeb Cristnogol llawnach:

> '...gadewch inni ymdrechu o ddifrif calon, bawb ohonom, am gael gwared o'r ymraniadau a achosir gan bechod a gwendidau dynol; gadewch inni ymagor i fwriadau Crist, er mwyn iddo Ef gasglu ynghyd o'i gwmpas Ef yn un teulu bawb oll sy'n ei dderbyn Ef yn wir Arglwydd a Gwaredwr.'[2]

**PERTHYNAS A'R CYNGOR**

Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r Datganiad hwn cychwynnwyd trafodaethau (yn Ionawr 1968) a fyddai'n arwain at dderbyn yr Eglwys Gatholig Rufeinig fel Sylwedydd Ymgynghorol yng Nghyngor Eglwysi Cymru. Y man cychwyn oedd llythyr at Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor (Erastus Jones) oddi wrth Jo Brown, sy'n atgoffa Erastus Jones o'r trafodaethau a fu rhwng Pabyddion ac Anglicanwyr y byd, a chyda'r Wesleaid yng Nghymru a Lloegr, ac o ganlyniad fod 'yr awdurdodau Pabyddol yng Nghymru yn ystyried cael ymddiddanion â'r cyrff yng Nghymru sydd heb fod nac Anglicaniaid na Wesleaid.' Yn benodol y mae'n holi a fyddai gwahoddiad gan yr Eglwys Babyddol i'r enwadau eraill ymuno mewn ymddiddanion 'o fudd i achos Crist yng Nghymru heddiw'.[3]

Yn ei ymateb mynegodd Erastus Jones ei farn bersonol y dylai'r Eglwys Babyddol bwyllo cyn cynnal ymddiddanion â'r enwadau eraill yn eu tro: ''Dydyn' nhw ddim

---

1. ibid.

2. ibid.

3. Llythyr gan y Dr. Jo Brown, Lleygwr Pabyddol o Langollen, at Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru, 2 Ionawr 1968.

wedi siarad â'i gilydd bob yn ddau a dau, ac nid gyda'r gelyn mawr, ar ei wahoddiad yntau, y mae dechrau proses felly, yn naturiol...'[1] Yn hytrach, cytunodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor ar bum person, un o bob un o'r prif enwadau, i'w gynrychioli mewn cyfarfod gydag aelodau Cymreig Comisiwn Ecwmenaidd yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr. Ymddengys mai allan o sgwrs anffurfiol â Langton Fox, Esgob Mynyw (a oedd yn gyd-aelod ag Erastus Jones o Gomisiwn rhwng yr Eglwys Gatholig a Chyngor Eglwysi Prydain) y tarddodd yr awgrym hwn. Wrth fynegi ei groeso i benderfyniad y Pwyllgor Gwaith gwnaeth Jo Brown y sylw diddorol ei fod yn credu

> '...fod Rhufain yn rhwystr hyd yn oed i undeb Protestannaidd. Rhaid (*tanlinellu Jo Brown*) cael rhyw gyd-drafod. Pe bai pawb yn barod i sôn am eu hofnau yn hollol agored, ac i beidio â digio wrth glywed ofnau'r lleill, gellid symud. Mewn un ffordd y mae pawb yn rhy gwrtais ar hyn o bryd.'[2]

Cyflwynwyd y penderfyniad yn swyddogol i'r Esgob Fox mewn llythyr dyddiedig 8 Ionawr 1968 ac yn ei ymateb dywed yr Esgob:

> 'The meeting could hardly have asked for more than your Executive is to propose to the Council. In my own mind I do agree with you that in Wales the main ecumenical dialogue must take place at the level of the local councils of churches...Our desire for dialogue at every level should be known to all our fellow-Christians here in Wales. There are those who might presume us unwilling...'[3]

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 1968 penododd y Cyngor Alun Francis, Huw Wynne Griffith, Erastus Jones, W. Ungoed Jacob ac M.J.Williams (ond yn ddiweddarach penodwyd D. Islwyn Davies yn ei le) i fod yn aelodau o'r ddirprwyaeth. Cynrychiolwyd yr Eglwys Babyddol gan y Chwaer Mary Anthony o Gaerdydd, y Tad Leo Caesar o Gaerdydd, yr Esgob Langton Fox, Harri Pritchard Jones a'r Tad Anselm Putlanevitch o Gaerfyrddin. 'Roedd y rhain ac eithrio Harri Pritchard Jones wedi eu

---

1. Llythyr dyddiedig 8 Ionawr 1968.
2. Llythyr dyddiedig 14 Ionawr 1968.
3. Llythyr dyddiedig 14 Ionawr 1968.

ffurfio'n Isgomisiwn Ecwmenaidd dros Gymru gan Gomisiwn Ecwmenaidd Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr ym mis Hydref 1967 - y tro cyntaf i beirianwaith o'r fath gael ei sefydlu yng Nghymru gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Nhŷ John Penri, Abertawe ar 24 Mai 1968. Prif gynnyrch y cyfarfod hwn oedd cytuno ar ddatganiad ar ddeialog a ddrafftiwyd yn wreiddiol gan Esgob Langton Fox. Gesyd allan sylfeini unrhyw berthynas ecwmenaidd: 'We are all Christians. We are...bound together by baptism...We are members of one body.'[1] Wrth edrych yn ôl dros hanes y berthynas rhwng yr enwadau a oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Cymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig cyfaddefir:

> 'There are profound differences in what we believe about revelation, and we must respect them. Each church has a history of animosity and even persecution. Each needs, therefore, to repent for sins against unity and to replace them with humility and a fraternal attitude...The prerequisite for dialogue is the acceptance of the absolute demands of truth...and of the individual conscience. (In dialogue) each is looking for positive Christian values in the other...We must co-operate wherever conscience does not forbid us to do so.'[2]

Pan gafwyd trafodaeth yn ystod y cyfarfod cyntaf hwn ynglŷn â chydberthynas i'r dyfodol nododd cynrychiolwyr yr Eglwys Gatholig Rufeinig y byddai'r Eglwys yn barod i ymaelodi â'r Cyngor pe bai hynny'n bosibl neu'n ddymunol, neu i ddod i ba berthynas bynnag â'r Cyngor a ymddangosai'n iawn ar y pryd. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Cyngor i fynychu cyfarfodydd Comisiwn Ecwmenaidd Mynyw a chytunwyd i gymeradwyo fod sylwedyddion yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd pwyllgorau ac adrannau'r Cyngor. Eisoes 'roedd cynrychiolwyr yr Eglwys ar Gyd-bwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd, y Grŵp Astudio Litwrgi a'r Pwyllgor Ffydd a Threfn, a gellid cynnwys yr Eglwys yn nhrafodaethau'r Cyngor ynglŷn â sefydlu Adran neu Bwyllgor Eglwys a Chymdeithas. Cyflwynwyd yr argymhellion hyn i gyfarfod blynyddol y Cyngor ar 24 a 25 Hydref 1968, a chytunwyd i wahodd yr Eglwys Gatholig Rufeinig i benodi pedwar sylwedydd dirprwyol

---

1. Cofnodion cyfarfod cyntaf y Gweithgor, 24 Mai 1968.
2. ibid.

(yn ddiweddarach fe'u galwyd yn sylwedyddion ymgynghorol) i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1969. Yr Esgob Langton Fox, Y Tad J.C.Thomas (o Aberpennar), y Chwaer Brendan Joseph o Gwfaint Joseph Sant yn Llantarnam a'r Dr. J. P. Brown a benodwyd yn sylwedyddion ymgynghorol cyntaf yr Eglwys Gatholig Rufeinig ar y Cyngor.

'Roedd y cam hwn yn un hanesyddol yn natblygiad cydberthynas ecwmenaidd yng Nghymru. Fe'i gwelwyd ar y pryd fel 'adlewyrchiad o'r hinsawdd ecwmenaidd newydd...'[1] ac fe'i croesawyd fel 'modd o ddatblygu cydberthynas ecwmenaidd bellach yn lleol a chenedlaethol.'[2]

Yn ystod yr un cyfnod yr oedd Gweithgor-ar-y-cyd rhwng Cyngor Eglwysi Prydain a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban yn eistedd (gyda G.O.Williams ac Erastus Jones yn aelodau ohono o blith yr enwadau a berthynai i Gyngor Eglwysi Cymru a'r Esgob Langton Fox yn un o gynrychiolwyr yr Eglwys Gatholig Rufeinig)[3] Cyfrannodd ei drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol yn sylweddol iawn at lwyddiant y gweithgor Cymreig, nid lleiaf am eu bod wedi adeiladu ymddiriedaeth ac adnabyddiaeth ddyfnach rhwng rhai o'r arweinwyr ecwmenaidd allweddol yng Nghymru. Dyma enghraifft nodedig o bartneriaeth rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a Chyngor Eglwysi Prydain yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiadau ecwmenaidd yng Nghymru. Yn ei adroddiad cyntaf ym Medi 1968 rhoddwyd sylw arbennig i ystyr deialog ecwmenaidd gan bwyso'n drwm iawn ar ddatganiad y cytunwyd arno eisoes gan y gweithgor Cymreig a'i ddrafftio gan Esgob Fox. Nodwyd hefyd fod nifer o bynciau allweddol a oedd yn gofyn am ymdriniaeth

1. Datganiad ar y cyd gan Esgob Langton Fox ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, 28 Tachwedd 1968.

2. ibid.

3. Cyhoeddwyd casgliadau'r Gweithgor mewn dau gyhoeddiad, sef, *Towards Christian Unity: A Symposium* (Medi 1968) ac *Implications of Possible Roman Catholic Membership of the British Council of Churches* (Tachwedd 1971).

estynedig gan ysgolheigion: Ysgrythur, Traddodiad ac Awdurdod; Gweithgarwch Duw yn cymodi drwy Grist; Eglwys, Gweinidogaeth a Sagrafennau; Bywyd Cristnogol yn y Gymdeithas. Cydnebydd yr adroddiad yn ogystal fod ffactorau diwylliannol a seicolegol sy'n cadw Catholigion a Christnogion eraill ar wahân, a bod angen ystyried y rhain hefyd, yn fwyaf arbennig mewn perthynas â chydweithio lleol.

Cyhoeddwyd ail adroddiad gweithgor Cyngor Eglwysi Prydain yn Nhachwedd 1971.[1] Erbyn hyn W. Ungoed Jacob a'r Esgob Langton Fox oedd y cynrychiolwyr o Gymru. Cyfuniad yw'r adroddiad hwn o ystyriaethau strwythurol a diwinyddol mewn perthynas ag aelodaeth yr Eglwys yng Nghyngor Eglwysi Prydain.[2] Prif gymhelliad y trafodaethau oedd ceisio rhoi mynegiant i realiti'r un mudiad ecwmenaidd a'i hyrwyddo'n effeithiol. Gwelwyd y byddai llawer o fanteision yn deillio o aelodaeth yr Eglwys yn y Cyngor. Byddai ei hymrwymiad ecwmenaidd yn fwy amlwg a diriaethol. Yn unol ag argymhelliad y *Decree on Ecumenism* (n. 11) byddai tystiolaeth i ffydd yr Eglwys a'i hoblygiadau ymarferol yn sylfaenol ym mhob cydweithio ecwmenaidd ac yn galluogi pawb i werthfawrogi'n ddyfnach olud anhraethol Crist. Gan y byddai arweinwyr yr Eglwys yn ymwneud â'r Cyngor byddai modd iddynt ddylanwadu ar ei feddwl. Yn olaf, byddai'n dwyn yr Eglwys i ganol prif ffrwd y bywyd eglwysig cenedlaethol ac yn hyrwyddo cyfranogiad aelodau'r Eglwys Gatholig Rufeinig mewn cynghorau eglwysi lleol.[3]

Ar yr un pryd 'roedd petrusder ynglŷn â cham mor fawr. Gellid cyfaddawdu eglwysyddiaeth Gatholig ('Can a Church which claims to be the true Church of Christ combine in a council with other Churches without thereby implicitly denying or

---

1. *Implications of Possible Roman Catholic Membership of the British Council*, 1971.

2. ibid., tud. 7.

3. ibid., tud. 8.

seeming to deny its claims by an implicit recognition of the other churches as fully Churches?')[1] Credai'r adroddiad, fodd bynnag, fod ateb i hyn. Yn gyntaf, nid oedd Ail Gyngor y Fatican wedi uniaethu'r Eglwys Gatholig Rufeinig ag un Eglwys Crist ('...for the Spirit of Christ has not refrained from using [other Christian Churches] as means of salvation'.)[2] Yn ail, nid oedd y cwestiwn hwn wedi bod yn broblem i'r deg cynhadledd esgobion mewn gwledydd eraill a oedd eisoes yn aelodau o'u Cyngor Eglwysi Cenedlaethol.

'Roedd pryder hefyd - sydd wedi parhau drwy gydol y blynyddoedd hyd heddiw, mewn gwirionedd - y byddai datganiadau'r Cyngor ar faterion cyhoeddus naill ai'n annerbyniol i'r Eglwys Gatholig Rufeinig neu'n cael eu camddehongli yn y cyfryngau. Ond credwyd fod ateb i hyn hefyd gan y byddai gan yr Eglwys lais yn y broses o lunio datganiadau o'r fath a chyfrifoldeb i ddehongli'r datganiadau hyn i'w ffyddloniaid.

Ofnai rhai y byddai'r ffyddloniaid yn cael eu camarwain ar faterion moesol (megis erthyliad, atal cenhedlu, ysgariad) drwy aelodaeth yr Eglwys yn y Cyngor. Ond byddai'n gyfle hefyd i'r Eglwys dystio i'w hathrawiaeth oddi fewn i'r Cyngor. Ofnai eraill fod gan Gyngor Eglwysi Prydain ofal gormodol dros faterion secwlar. 'Roedd hyn yn her fawr i gynrychiolwyr y Cyngor ar y Gweithgor i annog pwyslais cynyddol ar faterion ffydd a threfn. Deil hyn i fod yr un mor berthnasol: y mae unrhyw berthynas ecwmenaidd agosach â'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn arwain yn anorfod at bwyslais newydd ar faterion ffydd, trefn ac undeb.

Wrth grynhoi'r drafodaeth deuir i'r casgliad mai arweinwyr yr Eglwys Gatholig Rufeinig oedd yn fwyaf awyddus i ymaelodi ac y byddai angen rhaglen addysgol ofalus i hyfforddi'r aelodau'n gyffredinol am arwyddocâd aelodaeth. Rhagwelwyd y

--------------------

1. ibid., tud. 8.

2. *Decree on Ecumenism*, erthygl 3.

byddai mwyafrif yr enwadau a oedd yn aelodau o'r Cyngor yn croesawu aelodaeth yr Eglwys Gatholig, ond y gellid bod mwy o anghydweld ymhlith Bedyddwyr Prydain a'r Alban (nid oedd Bedyddwyr Cymru yn aelodau o Gyngor Eglwysi Prydain) a'r Presbyteriaid yn Iwerddon. Er y byddai aelodaeth yn debyg o'i gwneud yn anodd i'r holl enwadau fod yn gytûn ac i siarad ag un llais, byddai yn gwneud y Cyngor yn fwy cynrychioladol, yn cyfoethogi'r dystiolaeth Gristnogol, yn cryfhau'r cydweithio ac yn hyrwyddo perthynas leol.

Ond er mor gadarnhaol yr adroddiad hwn ni ddaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn aelod o Gyngor Eglwysi Prydain a pharhaodd i fod yn sylwedydd ymgynghorol (fel yn achos Cyngor Eglwysi Cymru) tan ddifodiant y Cyngor ym 1990. Yn ystod y cyfnod maith hwn o 19 mlynedd - yng Nghymru ac ym Mrydain - dyfnhaodd y cydweithio a'r cydweddïo yn lleol a chenedlaethol, er nad oedd yr Eglwys yn aelod llawn yn y naill Gyngor na'r llall. Y cydweithio hwn fu'r prif bwyslais tan ddiwedd y 70au pan ddechreuwyd paratoi ar gyfer digwyddiad hanesyddol ym mywyd yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a Lloegr.

## Y GYNGRES FUGEILIOL YN LERPWL

Penderfynodd yr esgobion gynnull Cyngres Fugeiliol Genedlaethol yn Lerpwl ar 2 - 5 Mai 1980 gan wahodd iddi'r holl esgobion a chynrychiolwyr yr offeiriaid, yr urddau a'r bobl leyg. 'Roedd iddi nod aruchel. Yn y cylchlythyr cyntaf ar gyfer y Gyngres (Chwefror 1980) dywed Y Cardinal Hume (Archesgob Westminster a Llywydd Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr):

> 'For the first time the whole church - bishops, priests, religious and lay people - has been asked to take stock of its life and work, to deepen and renew its prayer and spirituality and then to suggest a way forward for the future.
>
> 'If the Congress achieves its objectives then the Church in England and Wales will have taken a step forward. It will mean that we have tried to absorb the lessons of the Second Vatican Council and put

them into practice.'[1]

Thema'r Gyngres fyddai 'Iesu Grist, Y Fordd, Y Gwirionedd a'r Bywyd' ac fe'i rhannwyd yn adrannau ar Bobl Dduw, Y Teulu a'r Gymdeithas, Efengyleiddio, Addysg Gristnogol, Tystiolaeth Gristnogol, a Chyfiawnder. Rhoddwyd ystyriaeth i faterion ecwmenaidd yn yr adrannau cyntaf ar Bobl Dduw ac yn y nodiadau ar y pwnc yn rhifyn cyntaf *Congress Contact* nodir fod amwysedd yn nisgwyliadau pobl yn y maes hwn:

> 'People are asking for leadership and instruction about Christian Unity. There is a widespread desire for unity, but some confusion as to what kind of unity we are seeking. Some think that work for unity is our 'inescapable duty'; others fear a 'watering down of the faith' because of false ecumenism...'[2]

Gwahoddwyd Cyngor Eglwysi Cymru i benodi dau gynrychiolydd o blith yr enwadau eraill yng Nghymru i fynychu'r Gyngres (ar gost yr Eglwys Gatholig Rufeinig) a dewiswyd Glyn Conway[3] a R.O.Roberts.[4] Tystiodd y ddau i'r croeso mawr a gawsant hwy a'r cynrychiolwyr ecwmenaidd eraill. Yn ei adroddiad i Gyngor Eglwysi Cymru nododd Glyn Conway y pwyslais arbennig a roddwyd ar weddi ac addoliad yn ystod y Gyngres a'r ymdeimlad o adnewyddiad a oedd yn amlwg yno, yn arbennig ymhlith y bobl leyg 'for whom the Congress had been a very exciting and stimulating experience.' Y pwnc a gafodd yr argraff fwyaf arno oedd lle pobl leyg ym mywyd yr Eglwys Gatholig Rufeinig: 'For the greater part it appeared that the clergy, particularly at the parish level, were restricting growth in the understanding of the ministry of the laity.'[5] Ar ddiwedd ei adroddiad daeth i'r casgliad fod yr amser bellach yn addas i ailgychwyn y deialog rhwng yr Eglwys yng Nghym-

---

1. *Congress Contact*, Chwefror 1980, tud. 1.
2. ibid., tud. 3.
3. Ficer Treffynnon ar y pryd.
4. Lleygwr o'r Eglwys Fethodistaidd yn y Mwmbwls, Abertawe.
5. Adroddiad i Gyngor Eglwysi Cymru, 12 Mai 1980.

ru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig, a'i ehangu i gynnwys yr enwadau eraill yng Nghymru yn ogystal: '...One of the insights of Liverpool was that ecumenism should never be thought of as a specialised subject but rather as an ingredient of all Christian issues.'[1]

Cafodd R.O.Roberts ei ysbrydoli gan y Gyngres hefyd; yr oedd yn 'un o brofiadau mawr fy mywyd...Cefais fod yr holl Gyngres yn gyforiog o gariad a pharodrwydd i ymateb yn dosturiol ac ymarferol i anghenion pobl, ymhell ac agos.'[2] Y mae'n adrodd stori am wraig Gatholig a ofidiai'n fawr na allai cynrychiolwyr yr enwadau eraill dderbyn y Cymun yn yr offeren ar ddiwedd y Gyngres. Pan ddychwelodd o gymuno 'rhoddodd ei llaw ar fy mraich ... fel arwydd o gyfrannu.' Cyfrifodd R.O. Roberts 13 o ddatganiadau yn y gwahanol adroddiadau yn galw'n glir am fwy o gydweithio rhwng enwadau. 'Roedd y Neuadd Philharmonic yn diasbedain gyda'r gymeradwyaeth i'r alwad daer am i'r esgobion 'ailystyried cwestiwn ymuniad yr Eglwys Gatholig yn Lloegr a Chymru â Chyngor Eglwysi Prydain.' Daw i'r casgliad ar ddiwedd ei adroddiad: 'Y mae'n gwbl amlwg na fydd yr Eglwys Gatholig, na'r holl gyfundod Cristionogol yng Nghymru nac yn Lloegr, fyth yr un fath ar ôl y Gyngres hon.'

Y mae'r adroddiad swyddogol[3] o'r Adran ar Undeb Cristnogol yn mynegi diolch i Dduw am y camau mawr a gymerwyd tuag at undeb Cristnogol ers 1965 (pan gyflwynodd Ail Gyngor y Fatican ei adroddiad). Wrth edrych tuag at y dyfodol dywedir fod yr offeiriad plwyf yn allweddol i ymwneud Catholigion ag ecwmeniaeth: 'We urge our bishops to...help their priests to realise that concern for unity

---

1. ibid.

2. Yn y golofn gydenwadol (o dan olygyddiaeth Meirion Lloyd Davies) yn Y Goleuad, 18 Mehefin 1980, ac a ymddangosodd hefyd yn y papurau enwadol Cymraeg eraill.

3. *Congress Report*, Catholic Truth Society, 1980.

is an essential characteristic of the Catholic Christian...'[1] Credai'r Adran hon hefyd fod gofynion bugeiliol lleol yn galw am estyn croeso i'r ewcharist i aelodau o enwadau eraill o bryd i'w gilydd ac am gydymdeimlad ymarferol mewn perthynas â phriodasau cyd-eglwysig lle mae un partner yn aelod o'r Eglwys Gatholig Rufeinig.

Ond prif argymelliad yr Adran hon oedd galw ar yr Esgobion i ailystyried cwestiwn aelodaeth yng Nghyngor Eglwysi Prydain:

> 'Since our remaining outside the British Council of Churches puts a permanent question mark against the serious commitment of our Church in this country to the cause of Christian unity, we strongly urge the Bishops to reconsider the question of the entry of the Roman Catholic Church in England and Wales into the British Council of Churches.'[2]

Ond pan ddaeth ymateb swyddogol yr Esgobion i holl argymhellion y Gyngres, *The Easter People*[3] siomwyd nifer fawr a fu'n bresennol ynddi, nid yn lleiaf mewn perthynas â'r argymhelliad hwn ynglŷn ag aelodaeth o Gyngor Eglwysi Prydain. 'Roedd yr Esgobion yn medru llawenhau yn yr hyn a gyflawnwyd hyd yma: '...we are becoming almost imperceptibly one community of reconciliation...We have achieved...a reconciliation in charity.'[4] Y mae'n anodd iawn gwybod yn union beth a olygai hyn. Yng Nghymru'n ddiamau tra bod eglwysi Catholig lleol yn aelodau llawn yn hanner cynghorau eglwysi lleol o leiaf, ac yn chwarae rhan flaenllaw yn nifer ohonynt, nid oedd y berthynas na'r cydweithio cenedlaethol yn cyfiawnhau'r disgrifiad hwn. Nid oedd ei pherthynas fel sylwedydd ymgynghorol o Gyngor Eglwysi Cymru wedi datblygu'n sylweddol ers 1968, er bod rhai camau wedi eu cymryd a thrafodaethau eisoes wedi cychwyn, fel y gwelir, gyda golwg ar ddyfnhau'r berthynas hon . Hyd at y cyfnod hwn, fodd bynnag, byddai'n anodd honni

--------------------

1. ibid., para. 10, tud. 13.
2. ibid., para. 24, tud. 15.
3. *The Easter People*, St. Paul's Publications, 1980.
4. ibid., para. 70, tud. 27.

fod yr enwadau yng Nghymru wedi cyrraedd cymod mewn cariad â'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Y mae'n deg tybied mai'r sefyllfa yn Lloegr oedd yn bennaf ar feddwl yr esgobion. Yno 'roedd y berthynas wedi datblygu ac erbyn 1982 'roedd nifer o gyfamodau rhwng eglwysi lleol wedi eu sefydlu a oedd yn cynnwys yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Yn y rhain byddai'r cynulleidfaoedd yn cydweithio'n glos â'i gilydd mewn meysydd megis addysg, gweithgarwch cymunedol, a gofal bugeiliol ac yn addoli a gweddïo gyda'i gilydd yn rheolaidd. Nid oedd un enghraifft o hyn yng Nghymru ar y pryd - yn wir dim ond un sydd mewn bodolaeth ym 1997!

Yn eu hymateb yn *Easter People* y mae'r esgobion yn betrusgar ynglŷn ag unrhyw gamau tuag at undeb a fyddai'n golygu cyfaddawd ar faterion o athrawiaeth sy'n hanfodol i ddealltwriaeth yr Eglwys Gatholig o lawnder y ffydd Gristnogol, yn ôl dealltwriaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig ohoni, ac yn rhoi pwyslais arbennig ar rannu mewn cenhadaeth, yn unol ag ymrwymiad a wnaed gan y Pab Ioan Pawl II ac Archesgob Caergaint. Ond pan ddaw at fater aelodaeth yng Nghyngor Eglwysi Prydain negyddol mewn gwirionedd oedd eu hymateb. Wedi nodi fod angen mwy o waith eto (er bod cryn waith wedi ei wneud eisoes!) ar statws datganiadau moesol ac ar strwythurau ac ariannu, ni allant fynd ymhellach na dweud:

> 'The recommendation of the need here and now to make a convincing gesture is itself a welcome and precious witness of concern for advancing the cause of unity. It is sure of a place in our consideration of an issue...which ...calls for the joint gift of light and warmth in its adequate solution...At this stage we commit ourselves to a re-examination of all these questions.'[1]

I'r sawl a oedd yn awyddus i weld yr Eglwys yn cymryd y cam hwn tuag at yr enwadau eraill yn fuan, clywsant yr ateb hwn, er gwaethaf y geiriau gofalus, fel 'Na!'. Mewn gwirionedd bu'n rhaid aros tan 1990 a sefydlu'r cyrff ecwmenaidd newydd cyn y deuai'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a Lloegr (ac yn yr Alban) yn aelod o gyrff ecwmenaidd y gwledydd hyn.

---

1. ibid., para. 74, tud. 29.

Fe godwyd nifer o faterion penodol gan y Gyngres a allai, yn nhyb y cynrychiolwyr, wneud cyfraniad sylweddol at ddyfnhau undeb rhwng yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r enwadau eraill. Un o'r materion hyn oedd priodasau lle 'roedd un o'r ddau berson yn aelod o'r Eglwys Gatholig a'r llall yn aelod mewn enwad arall. Mewn rhai gwledydd, mewn amgylchiadau tra arbennig (e.e. lle nad oedd ond Eglwys Gatholig oddi fewn cyrraedd i'r teulu, a lle 'roedd eu cred ym mhresenoldeb Crist yn yr ewcharist yn gyson â'r athrawiaeth Gatholig) rhoddwyd caniatâd i Gristnogion o enwad arall ymuno'n rheolaidd mewn cymun yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Galwodd y Gyngres am i'r caniatâd hwn gael ei ymestyn i deuluoedd mewn amgylchiadau arbennig yng Nghymru a Lloegr. Ond ymateb yr esgobion oedd:

> 'These conditions would seem rarely to be fulfilled in our countries. In our present circumstances it is necessary to realise that it could be counter-productive to use what is a perfect symbol of unity achieved as a means of achieving it. This could defer indefinitely the full corporate union for which we pray...While fully sensitive to the pain such exclusion can cause, we are unable to compromise these principles.'[1]

Daeth yr adran ar Undeb Cristnogol i ben gyda geiriau'r Gyngres a ategwyd gan yr esgobion: 'We profess our growing conviction of the need for more profound unity with our fellow Christians and we will continue to search for more effective ways of achieving that unity.'[2] Ar waethaf yr elfennau negyddol yn eu hymateb i argymhellion ecwmenaidd y Gyngres 'roedd symudiad bellach ar droed na fyddai'n bosibl ei rwystro.

## GWEITHGOR AR Y CYD YNG NGHYMRU

Eisoes yn Ebrill 1980 (hynny yw, fis cyn y Gyngres) dechreuwyd trafodaethau rhwng Cyngor Eglwysi Cymru ac arweinwyr a swyddogion ecwmenaidd yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru ynglŷn â sefydlu gweithgor ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Eglwys. Ar sail memorandwm a baratowyd gan Ysgrifennydd Cyffredinol y

---

1. *Easter People*, para. 77, tud. 29.
2. ibid., para. 79, tud. 29.

Cyngor, a rannwyd ag arweinwyr yr Eglwys Gatholig, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i argymell sefydlu gweithgor gyda phedwar amcan. Yn gyntaf, byddai'n fodd 'i alluogi deialog diwinyddol i barhau ar bob lefel o fywyd yr eglwysi ac yn fwyaf arbennig i ystyried rhai cyhoeddiadau diweddar ar awdurdod, gweinidogaeth, sacramentau, datganiadau moesol a'u perthnasedd i gydberthynas ecwmenaidd'. Yn ail, byddai'n gwneud 'arolwg o ecwmeniaeth leol ac (yn gwneud) argymhellion ynglŷn â dyfnhau'r bartneriaeth â'r Eglwys Gatholig Rufeinig'. Yn drydydd, byddai'n ceisio 'cynorthwyo'r Eglwysi sydd eisoes yn aelodau o'r Cyngor i ystyried y manteision a ddilynai pe byddai'r Eglwys Gatholig yn aelod llawn o'r Cyngor'. Yn olaf, byddai'n rhannu 'yn y deialog a'r berthynas ddyfnach rhwng yr Eglwys Gatholig a'r Eglwysi eraill yn fyd-eang'.[1]

Derbyniwyd yr argymhellion hyn gan Gyngor Eglwysi Cymru a chan esgobion yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gweithgor ar y cyd ar 4 Chwefror 1981 yn Neuadd y Sir, Amwythig.[2] Cynrychiolwyd y Cyngor gan Yr Esgob B.N.Y. Vaughan (Llywydd y Cyngor a fyddai'n gyd-gadeirydd y Gweithgor), Meirion Lloyd Davies, Owen E. Evans, R.O. Roberts a'r Ysgrifennydd Cyffredinol (a fyddai'n gyd-ysgrifennydd). Cynrychiolwyd yr Eglwys Gatholig Rufeinig gan yr Esgob Daniel Mullins (cyd-gadeirydd), y Tad Michael Tomkins, y Tad Clyde Hughes Johnson, Ron Howells, yr Asgell-Gomander E. Ryan, a Miss Joy Abbati (cyd-ysgrifennydd). Treuliwyd cryn amser yn y cyfarfod agoriadol yn ystyried yr amcanion uchod ac yn trefnu'r patrwm gwaith, ond bu cyfle hefyd i feddwl am arwyddocâd y gwaith a ymddiriedwyd i'r Gweithgor mewn perthynas â chydberthynas a chenhadaeth yr enwadau yng Nghymru. Yn ei adroddiad i gydgyfarfod Comisiynau Ecwmenaidd yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru y mae Ron

---

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 12 Mehefin 1980; fe'u cadarnhawyd gan y Cyngor, 16 Hydref 1980.

2. gweler *A Tale of Two Grandmothers*, Ron Howells, tud. 117.

Howells yn dyfynnu geiriau agoriadol Esgob Vaughan yn y cyfarfod cyntaf, sef, bod angen i'r eglwysi, ar yr adeg argyfyngus hon yn hanes Eglwys Crist yng Nghymru, 'edifarhau a chael eu hadnewyddu ynghyd wrth inni wneud cyffes gyffredin o'n ffydd, os yw'r byd i gredu...':

> 'It was considered that there was a real need for the Roman Catholic Church in Wales to have a much closer association with the other Welsh Churches since the situation is often quite unique in matters ecumenical - tradition, language, culture &c.'[1]

Mewn papur diwinyddol cynhwysfawr a threiddgar i ail gyfarfod y Gweithgor (ar 10 Medi 1981) y mae Ron Howells yn dyfynnu'r Esgob Alan Clark[2]: 'The Catholic Church is pledged to achieve, by every means in its power, doctrinal unity with other Christian communities as the growing expression of the unity of faith which is the mark of Christ's Church...(and) at the same time, to express in practice the degree of unity we have already achieved.'[3] Y mae'n cloi'r papur gyda chyfeiriad at *Unitatis Redintegratio*, sef adroddiad Ail Gyngor y Fatican ar Adfer Undeb, ac yn rhoi sylw arbennig i gwlwm bedydd sy'n uno'r holl Gristnogion â'i gilydd, i farn yr adroddiad fod rhaniadau rhyngddynt yn ganlyniad pechod ar y naill ochr a'r llall a'i bwyslais ar yr Eglwysi, megis pererinion, yn symud tuag at Grist yn hytrach na'n dychwelyd at yr Eglwys Gatholig Rufeinig.[4] Awgryma y gallai aelodaeth lawn yng Nghyngor Eglwysi Cymru fod yn fynegiant ar ran yr Eglwys Gatholig Rufeinig o'r undeb sydd eisoes wedi ei gyflawni a'i hawydd i gael ei gweld ochr yn ochr ag enwadau eraill yng Nghymru mewn tystiolaeth gytûn i'r Efengyl yn y wlad hon.

'Roedd sylfaen ddiwinyddol, felly, i drafodaethau'r gweithgor ac fe'u gwelwyd fel

--------------------

1. Ron Howells yn ei adroddiad i'r ddau Gomisiwn Ecwmenaidd, 16 Mai 1981, Atodiad A.

2. Esgob Catholig East Anglia a Chadeirydd Comisiwn Ecwmenaidd Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr.

3. *Implications of Roman Catholic Membership of the B.C.C.*, Tachwedd 1971

4. Papur Trafod i'r Gweithgor, 10 Tachwedd 1981, tud. 3.

rhan allweddol o'r bererindod ecwmenaidd y galwyd yr Eglwys Gatholig Rufeinig iddi. Ond 'roedd cwestiynau mwy ymarferol i'w hwynebu hefyd. Mewn papur i gyfarfod 15 Mai 1982 ystyriodd Clyde Hughes Johnson yr anawsterau Catholig mewn perthynas ag aelodaeth yng Nghyngor Eglwysi Cymru, gan nodi eto yr anhawster diwinyddol o statws y datganiadau moesol a ddeuai o bryd i'w gilydd o Adran yr Eglwys a Chymdeithas. Nododd hefyd y byddai'n rhaid i'r Eglwys wneud trefniadau ariannol a threfniadol digonol os oedd ei haelodaeth i fod yn effeithiol.

Erbyn y cyfarfod nesaf ar 8 Tachwedd 1982 teimlwyd fod y prif drafodaethau diwinyddol a threfniadol wedi eu cwblhau a'i bod yn bryd bellach i ddechrau argymell ffyrdd ymlaen tuag at berthynas lawnach rhwng yr Eglwys a'r Cyngor. Byddai hyn yn gofyn am gyflwyno argymhellion i'r cyrff awdurdodol ynglŷn ag aelodaeth yn y Cyngor, paratoi cynllun addysg, yn fwyaf arbennig ar gyfer cynulleidfaoedd lleol yr Eglwys Gatholig, i'w helpu i dyfu yn y berthynas newydd a llunio canllawiau ar gyfer cydweithio lleol i gynghorau eglwysi lleol.

Yn y cyfarfod nesaf cytunwyd yn unfrydol ar argymhellion (a ddrafftiwyd gan yr Esgob Mullins) i'w cyflwyno i'r Eglwys Gatholig Rufeinig a Chyngor Eglwys Cymru. 'Roedd y rhain yn argymell fod yr Eglwys yn symud tuag at wneud cais am fod yn aelod o'r Cyngor, yn olrhain cefndir yr argymhelliad, yn diffinio 'the limits of what the Council can achieve', ac yn gosod Pentecost 1985 fel dyddiad ar gyfer 'a firm and binding decision'.[1]

Yn nes ymlaen yn y flwyddyn cafwyd anerchiad gan yr Esgob Mullins yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor[2]. Yn ei farn ef 'roedd ymwybyddiaeth newydd o Gymru yn yr Eglwys, 'yma oedd ei chenhadaeth' ac er mwyn cymhwyso'r Eglwys ar gyfer y genhadaeth hon yng Nghymru 'roedd esgobaeth newydd yn y broses o gael ei

--------------------

1. Cofnodion y Gweithgor, 19 Ebrill 1983.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 20 Hydref 1983.

sefydlu. Byddai ystyried argymhellion y Gweithgor yn elfen bwysig yn y datblygiadau hyn. Yn y drafodaeth a ddilynodd mynegwyd y farn eglur y byddai aelodaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn y Cyngor 'yn sicr o fod o'r arwyddocâd mwyaf i fywyd y Cyngor a byddai'n her i'r Cyngor a'i aelodau.' Barnai'r Esgob y byddai'r Eglwys Gatholig Rufeinig 'yn ffrind ond ar brydiau ...yn ffrind anghysurus' pe deuai yn aelod o'r Cyngor. Ond nid oedd amheuaeth fod y Cyngor ei hun yn dra awyddus i weld yr Eglwys yn dod yn aelod llawn.

Erbyn Tachwedd 1983 'roedd y Gweithgor wedi cwblhau ei waith ac ni chynhaliwyd cyfarfodydd pellach. Mater o ddisgwyl am benderfyniad oedd hi bellach, yn y lle cyntaf gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru. Dylanwadodd nifer o ddatblygiadau eraill ar y broses hon o benderfynu. Cyhoeddodd yr Archesgob John Murphy ei ymddeoliad ym 1982, a theimlwyd na ddylid dod i benderfyniad terfynol ar fater mor ganolog nes penodi ei olynydd ac iddo yntau gael cyfle i ystyried y mater yn ofalus. Ym 1983 penodwyd Esgob Mynyw, John Aloysius Ward, yn Archesgob Caerdydd mewn olyniaeth i John Murphy. Teimlai'r esgobion, ac eraill a oedd yn awyddus i weld camau ecwmenaidd pellach yn cael eu cymryd, fod angen cryn addysg a hyfforddiant ymhlith aelodau ac offeiriaid yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru cyn y gellid bod yn hyderus fod yr Eglwys gyfan yng Nghymru y tu ôl i'r cam hanesyddol o fod yn aelod o Gyngor Eglwysi Cymru. Tra bod yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yng Nghymru 'roedd trafodaethau cyffelyb yn digwydd ynglŷn ag aelodaeth yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr yng Nghyngor Eglwysi Prydain. 'Roedd gan esgobion Cymru hawl i wneud eu penderfyniad ei hunain ynglŷn â Chyngor Eglwysi Cymru, ond cafodd y drafodaeth ehangach ddylanwad ar esgobion Cymru, gan eu bod yn aelodau o'r un gynhadledd esgobion. Er bod cryn awydd o hyd i weld yr Eglwys yn ymaelodi â Chyngor Eglwysi Prydain, yn raddol daethpwyd i'r casgliad na allai'r Eglwys gymryd y cam hwnnw heb fod y Cyngor yn newid yn sylweddol.

Canlyniad hyn i gyd oedd oedi ynglŷn â phenderfynu ar berthynas yr Eglwys Gatho-

lig Rufeinig â Chyngor Eglwysi Cymru. Ac yn y cyfamser, cytunodd Cyngor Eglwysi Prydain ac Esgobion yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr mai'r cam nesaf fyddai cynnig cyfle i arweinwyr yr holl enwadau gyfarfod mewn dau encil, un ar wahoddiad yr esgobion Catholig ac un ar wahoddiad Archesgob Caergaint fel Llywydd Cyngor Eglwysi Prydain. Cynhaliwyd y naill yn New Hall, ger Chelmsford ar 10 ac 11 Ionawr 1984 a'r llall yng Ngholeg Awstin Sant, Caergaint ar 6 i 9 Ebrill 1984. Ffrwyth y ddau encil oedd dod i sylweddoli'n raddol nad trwy ymaelodi yn y cyrff ecwmenaidd a oedd mewn bodolaeth ar y pryd y dylai'r Eglwys Gatholig Rufeinig roi mynegiant i'w hymrwymiad ecwmenaidd. Yn hytrach, gwelwyd y byddai angen camau llawer mwy pellgyrhaeddol na hynny a fyddai'n golygu newidiadau radical ym mywyd y Cynghorau Eglwysi. Felly y dechreuodd yr ymsyniad ymffurfio am Broses Ryngeglwysig i'r cenhedloedd hyn, yn bennaf ym meddwl a bwriad Philip Morgan, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Prydain ar y pryd. Wedi ymgynghori helaeth cyfarfu cynrychiolwyr 32 o enwadau ac eglwysi Prydain ac Iwerddon ym Mhalsdy Lambeth ar 7 Mai 1985, pan benderfynwyd lansio Proses Ryngeglwysig 'ar natur a phwrpas yr eglwys yng ngoleuni ei chenhadaeth yn y byd ac er ei fwyn.'

'Roedd yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban yn aelodau llawn o'r Broses hon o'r cychwyn a daeth yn amlwg yn fuan i esgobion Catholig Cymru a Chyngor Eglwysi Cymru y byddai'n amhriodol, yn wyneb y Broses hon, gweithredu'r argymhelliad ynglŷn ag aelodaeth o Gyngor Eglwysi Cymru. Ymroi i'r Broses Ryngeglwysig oedd y ffordd ymlaen bellach. Ac wrth gwrs, arweiniodd hyn, fel y gwelwyd eisoes, at ddifodiant Cyngor Eglwysi Cymru a Chyngor Eglwysi Prydain (a Chyngor Eglwysi'r Alban yn ogystal) a ffurfio Cytûn a'r cyrff ecwmenaidd eraill, gyda'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn aelod llawn. Ar lawer ystyr, ffrwyth trafod, cydweithio a chydaddoli'r ugain mlynedd blaenorol oedd y cam hanesyddol hwn, a newidiodd hinsawdd ecwmenaidd y gwledydd hyn.

## YMWELAID Y PAB

Yn y cyfamser, bu'r Pab Ioan Pawl II ar ymweliad â Chymru. Yn Haf 1980 cyhoeddwyd y byddai'n ymweld â Lloegr, yr Alban a Chymru yn ystod Haf 1982. Mewn llythyr at Archesgob John Murphy croesawodd Ysgrifennydd Cyffredinol yr ymweliad ar ran Cyngor Eglwysi Cymru:

> '...I am particularly encouraged that Pope John Paul has himself stressed the ecumenical dimensions of this visit. The first steps which we have taken recently to deepen relationships between the Roman Catholic Church and the Council of Churches for Wales, and the proposed joint dialogue on theological and moral issues will mean that we too will be strengthened by his visit...'[1]

Byddai tair elfen yn ei ymweliad undydd â Chymru: byddai'n dathlu offeren ym Meysydd Pontcanna, yng Nghaerdydd, yn y bore; yn ystod y prynhawn byddai'n cyfarfod â chynrychiolwyr holl enwadau Cymru; gyda'r nos byddai'n annerch rali ieuenctid ym Mharc Ninian.

Byddai hwn yn ymweliad hanesyddol a theimlid y dylid paratoi pobl ar ei gyfer. Gofynnwyd i Gyngor Eglwysi Cymru ystyried sut orau i baratoi'r enwadau eraill ar gyfer yr ymweliad. 'Roedd nifer o bosibiliadau wedi cynnig eu hunain, megis taflen i'w chynnwys yn y papurau enwadol a gwasanaethau cymod i'w cynnal rhwng y Dyrchafael a'r Sulgwyn 1982. Credwyd y byddai taflen yn annerbyniol. Yn ei ymateb ef i'r awgrym dywedodd Meirion Lloyd Davies ei fod yn ofni y byddai *inset* o'r fath 'yn codi gwrychyn rhai o'r darllenwyr...Rhaid cofio nad yw'r Pab na'r Eglwys Babyddol yn gymeradwy gan bawb yn ein henwadau ymneilltuol ac yn araf deg mae mynd ymhell...'[2] Credai ysgrifennydd Adran Ffydd a Thystiolaeth y Cyngor,[3] y dylid sicrhau fod unrhyw gyhoeddiad yn gymorth i'r ymweliad: '..mae'n amser inni bwysleisio fod yr ymweliad yn rhywbeth a fydd yn effeithio ar fywyd

---

1. Llythyr dyddiedig 4 Medi 1980.
2. Llythyr at Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, 4 Ionawr 1982.
3. Y Parchg. D.P.Davies, Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbebr pont Steffan.

pob eglwys (a phob Cristion o ran hynny) yng Nghymru, ac y mae'n bwysig sicrhau mai er da y mae hynny.'[1] Felly, penderfynwyd gwahodd tri o'r gwahanol draddodiadau i baratoi ysgrifau byr ar arwyddocâd yr ymweliad o'u safbwynt hwy, i'w cyhoeddi yn y golofn gydenwadol a oedd yn ymddangos o bryd i'w gilydd yn y papurau enwadol yng Nghymru. Cytunodd Meirion Lloyd Davies, Alwyn Rice Jones a'r Tad Patrick Crowley i fod yn gyfrifol am yr erthyglau hyn ac fe'u cyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau cyn yr ymweliad.

Ym mis Mawrth 1982 cyhoeddodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ddatganiad ynghylch ymweliad y Pab, a ddrafftiwyd yn wreiddiol gan Iorwerth Jones. Tra'n gwerthfawrogi y medrai ymweliad o'r fath 'ennyn diddordeb mawr mewn pynciau crefyddol ac arwain amryw i ystyried o ddifrif her a hawl Pen Mawr yr Eglwys, yr Arglwydd Iesu Grist' mynegodd y datganiad amheuon sylfaenol:

> '...cam â'r ffeithiau fyddai inni adael yr argraff fod Cristnogion Cymru fel cyfangorff yn croesawu ymweliad y Pab â'u holl galon a'u holl feddwl...Crybwyllwyd fod gweddau ecwmenaidd i'r ymweliad...Ond ni fydd amserlen lawn y Pab yn caniatau iddo gael unrhyw drafodaeth â chynrychiolwyr eglwysi eraill ynghylch ffydd a bywyd a chenhadaeth Cristnogion heddiw...'

'Roedd y datganiad yn feirniadol hefyd o'r 'sawr ymerodrol' a oedd i lawer o'i ymweliadau a'i gydymdeimlad dyfnach â gwerinoedd mewn gwledydd comiwnyddol nag â gwerinoedd 'o dan raib cyfalafiaeth yng Nghanol a De America.' Fodd bynnag, galwyd ar Brotestaniaid Cymru

> 'i ymagweddu'n gwrtais a grasol at ymweliad y Pab, rhag inni darfu ar y berthynas iachach a ddaeth i fod rhwng Protestaniaid a Phabyddion mewn llawer man...(ac) i beidio â gwrthdystio...mewn modd blagarllyd a fydd yn amharchu ei ddeiliaid, yn tristau'r Ysbryd Glân ac yn peri llawenydd i elynion Cristnogaeth.'

Gan mai ychydig iawn o amser a fyddai ar gyfer unrhyw ddeialog rhwng y Pab a chynrychiolwyr yr enwadau eraill yng Nghymru cytunodd y Gweithgor ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig i ofyn i Meirion Lloyd

--------------------

1. Llythyr dyddiedig 21 Ionawr 1982.

Davies baratoi papur ar realiti bywyd yr Eglwysi yng Nghymru i'w ddanfon at y Pab fel paratoad ar gyfer ei ymweliad. Ymhlith pethau eraill dywedir ynddo fod eglwysi Cymru mewn cyflwr gwaeth nag mewn rhannau eraill o Brydain a'i bod yn hwyrfrydig i wynebu newid am iddynt fod mor ddylanwadol ym mywyd Cymru yn y gorffennol. Rhoddir cryn sylw i ddwyieithrwydd a'r tensiynau a ddeuai yn ei sgil. Gan fod cynifer o'r eglwysi wedi uniaethu eu hunain â'r iaith 'a great deal of tolerance and understanding is called for between both sections of the community...' 'Roedd y sefyllfa economaidd hefyd yn peri gofid gan ei bod yn achos 'a sense of alienation...(amongst) young people, an alarming increase in family and health problems, the weakening of social life and a prevailing atmosphere of gloom.' Cymeradwywyd y papur gan Esgob Mullins fel 'sail gadarn a diogel er mwyn goleuo unrhyw un ar y sefyllfa bresennol yma.'[1]

Digwyddodd yr ymweliad â Chymru ar 2 Mehefin 1982. Dechreuodd homili'r Pab yn ystod yr offeren ym Mhontcana â'r cyfarchiad: 'Today the Bishop of Rome greets the people of Wales for the first time in their own beautiful land...'[2] Y mae'n dwyn ar gof fod traddodiad hen o deyrngarwch i Grist yng Nghymru a'i fod ef am gyhoeddi'r un efengyl. Thema ganolog ei homili oedd lle'r ewcharist ym mywyd yr Eglwys, yn seiliedig ar y darlleniad o Efengyl Ioan, pennod 6. Cyfarchodd yn fwyaf arbennig y plant a fyddai'n derbyn eu cymun cyntaf yn yr offeren honno, eu rhieni, eu hathrawon a'u hofferiaid, gan weddïo y byddai'r 'dirgelwch mawr hwn' iddynt hwy ac i'r holl Eglwys yng Nghymru 'yn ganol-bwynt eich bywyd ac yn ffordd i iachawdwriaeth dragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.'[3]

Y cyfarfod â chynrychiolwyr enwadau Cymru yng Nghastell Caerdydd yn ystod y

---

1. Llythyr dyddiedig 22 Ionawr 1982.

2. *The Pope Teaches: The Pope in Britain - the complete texts*, Catholic Truth Society, 1982, tud. 219.

3. ibid., tud. 223.

prynhawn a fwriadwyd fel y prif gyfle i ystyried materion ecwmenaidd mewn perthynas â Chymru. Yn anffodus, cyfyngwyd y cyfarfod i 25 munud, yn bennaf am fod y Pab, ar ddiwrnod olaf ei ymweliad â Phrydain, wedi gorflino a straen yr holl gyfarfodydd yn dechrau dweud arno. Daeth dau gynrychiolydd o bob enwad a oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Cymru i'w gyfarfod. Fe'i cyfarchwyd gan Esgob B.N.Y.Vaughan, Llywydd y Cyngor ac arweinwyd mewn addoliad dwyieithog byr gan Frank Lee, Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Yn ei ymateb i'r cyfarchion croesawodd y Pab y pwyslais ar weddi yn ystod y cyfarfod hwn: 'all our efforts to do his will are vain if they are not rooted in change of heart, in holiness of life and in prayer for unity: these are the very soul of the ecumenical movement.'[1] Aeth ymlaen mewn ychydig eiriau i groesawu'r cydweithio a oedd yn digwydd rhwng Catholigion ac aelodau'r Eglwysi a'r Cymunedau eraill yng Nghymru, a rhan yr Eglwys yng Nghyngor Eglwysi Cymru. Nid cyfle i ddeialog oedd hwn ond i weddïo a hyn, yn bennaf, oedd ei arwyddocâd ecwmenaidd. Cafodd ei gyfeillgarwch a'i ddynoliaeth argraff ddofn hefyd. Ar ddiwedd y cyfarfod byr cyflwynwyd iddo gopi o Destament Newydd y Beibl Cymraeg Newydd.

## CASGLIADAU

Yn nechrau'r ganrif hon 'cofnodwyd 65,000 o addolwyr Pabyddol yng Nghymru...cymaint ddeg gwaith â'r nifer yn 1851...a disgynyddion mewnfudwyr o Iwerddon oedd y mwyafrif llethol ohonynt.'[2] Erbyn 1982 cofnodwyd 129,600 o aelodau[3], sef, tua 25% o holl aelodaeth eglwysig Cymru. Erbyn hyn y mae tua 150,000 o Babyddion wedi'u cofnodi, sef, tua 30% o'r holl aelodaeth eglwysig. Yn ystod y cyfnod hwn o dyfiant y mae cyfran yr aelodau sy'n ddisgynyddion mewnfudwyr o Iwerddon wedi gostwng - er ei fod yn dal yn uchel - a chyfran y Cymry

--------------------

1. ibid., tud. 223.
2. Hanes Cymru, John Davies, Penguin Books, 1990, tud. 618.
3. *Prospects for Wales*, Cymdeithas y Beibl, 1983, tud. 42.

brodorol wedi cynyddu, er bod y nifer o Gymry Cymraeg eu hiaith sy'n aelodau o'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn dal yn isel iawn. Y mae'n ddigon naturiol, felly, fod yr Eglwys, yn fwyaf arbennig ymhlith ei harweinwyr, wedi magu ymwybyddiaeth ddyfnach o'i chymreigrwydd. Canlyniad hyn oedd i'r Eglwys ddod yn fwy ymwybodol hefyd o'i phartneriaeth ag eglwysi ac enwadau eraill yn y genhadaeth Gristnogol yng Nghymru. Er enghraifft, pan sefydlwyd esgobaeth newydd Mynyw (yn Ne Orllewin Cymru, drwy rannu'r hen esgobaeth o'r un enw yn ddwy a ffurfio Esgobaeth Wrecsam yn y Gogledd) ym 1987, rhoddwyd fel un o'r rhesymau dros greu'r drydedd esgobaeth yr angen am hyrwyddo'r bartneriaeth hon ag enwadau eraill yn y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru.

Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o gynghorau eglwysi lleol (yn fwyaf arbennig y rhai a oedd mewn perthynas â Chyngor Eglwysi Cymru) lle 'roedd yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn aelod llawn. Gellid amcangyfrif bod y canradd o gwmpas 75% ym 1990, y flwyddyn y daeth yr Eglwys yn aelod llawn o Cytûn. Canlyniad anorfod hyn oedd i fwy a mwy o aelodau'r eglwysi eraill gael profiad o addoli mewn eglwysi pabyddol - yn arbennig yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol - ac o bryd i'w gilydd i fod yn bresenol mewn dathliad o'r Offeren. 'Roedd ychydig enghreifftiau o rannu adeilad rhwng yr Eglwys ac eglwys o enwad arall e.e. yn Rhiwabon a Phontardawe, ac un enghraifft (yn Ninas Powis) o'r Eglwys yn ymuno mewn Cyfamod Lleol â'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Fethodistaidd (yn yr achos hwn.) Felly, tra bu cynnydd mewn cyfeillgarwch a chydweithio drwy gynghorau eglwysi lleol, ni welwyd cynnydd mewn cynlluniau ecwmenaidd lleol a fyddai wedi golygu ymrwymiad penodol a swyddogol ar ran yr Eglwys. Gobeithiai arweinwyr yr Eglwys Gatholig yng Nghymru y byddai sefydlu Cytûn yn newid hyn.

Fodd bynnag, gwelwyd newid dramatig yn agweddau'r enwadau eraill, yn genedlaethol a lleol, at yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn y cyfnod o dan sylw. Teithiwyd cryn bellter rhwng disgrifiad Archesgob Cymru ym 1949 ('The Roman Clergy are

intruders...We cannot recognise their right to be here') a'r cymal yng nghyfansoddiad Cytûn sy'n sôn am ddwyn yr eglwysi at ei gilydd 'yn holl gyfoeth eu hamrywiaeth presennol...fel y gallant ddysgu oddi wrth draddodiadau ei gilydd a'u gwerthfawrogi...heb fod neb yn cael ei anwybyddu na'i fychanu.'[1]

Eisoes gwelwyd enghreifftiau o'r cydgyfoethogi hyn yn digwydd. Daeth Catholigion i werthfawrogi fwyfwy bwysigrwydd yr Ysgrythur mewn unrhyw adnewyddiad Cristnogol, a ffurfiwyd cylchoedd myfyrdod beiblaidd a chylchoedd gweddi mewn llawer plwyf, a hynny pan oedd yr arfer hwn yn gwanychu mewn eglwysi anghydffurfiol. Ar yr un pryd, bu llawer iawn o'r Eglwysi'n fyd-eang drwy broses o adnewyddiad litwrgaidd, a dylanwadodd yn sylweddol ar lawer enwad yng Nghymru hefyd, arweiniodd at batrymau addoli a oedd yn ymdebygu'n gynyddol i'w gilydd. 'Roedd yr Eglwys Gatholig Rufeinig ynghanol yr adfywiad litwrgaidd hwn. Fe'i gwelwyd yn fwyaf arbennig mewn perthynas â gwasanaethau Cymun. A chafodd Trefn Gymun Lima *(gweler pennod 4)* ddylanwad sylweddol yn y maes hwn.

Yn fyd-eang cafodd yr ymddiddanion rhyngwladol, megis yr *Anglican Roman Catholic International Commission*, ddylanwad mawr ar agweddau'r Eglwysi at ei gilydd e.e. mewn perthynas â'r Ewcharist, y Weinidogaeth, awdurdod, a chyfiawnhad. Un o wendidau'r berthynas â'r Eglwys Gatholig yng Nghymru oedd na roddwyd y sylw dyladwy i'r ymddiddanion hyn ac na lwyddwyd i gynnal trafodaethau diwinyddol sylweddol rhwng yr enwadau a'r eglwysi ar faterion sylfaenol a'u gwahanai. Un o fwriadau sefydlu Cytûn oedd creu fforwm i alluogi'r eglwysi i ddiwinydda gyda'i gilydd.

Y mae perygl ym mhob cydberthynas ecwmenaidd fod eglwysi ac enwadau'n osgoi'r cwestiynau anodd sy'n rhannu eu haelodau. Bu hyn yn berygl yn y berthynas â'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Tra bod cytundeb sylweddol ar eiriad gwasanae-

---

1. Cyfansoddiad Cytûn, yn Eglwysi Ynghyd ar Bererindod, Pennod 12, para. 3.2

thau ewcharistaidd, er enghraifft, nid eir i'r afael â'r anghytundeb diwinyddol ar ystyr yr ewcharist sy'n gudd islaw'r geiriau, ac ni chydnabyddir ychwaith y newidiadau cyson sy'n digwydd yn nealltwriaeth yr holl enwadau o ddirgelwch y Cymun.

Y mae ymatebion yr eglwysi a'r enwadau i'r ddogfen Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth yn datgelu'r anghytundeb hwn a'r 'datblygu' sy'n digwydd yn nealltwriaeth yr holl draddodiadau Cristnogol yng Nghymru. Yn fwyaf arbennig, cafodd athrawiaeth traws-sylweddiad gryn sylw oddi fewn i'r Eglwys Gatholig yn ystod y ganrif hon a bu ychydig o newid yn y mynegiant o'r athrawiaeth mewn dogfennau swyddogol a chydenwadol, ond heb newid sylfaenol yn hanfod yr athrawiaeth.[1] Adlewyrchwyd elfennau o'r drafodaeth hon yn nogfennau Grŵp Astudiaethau Litwrgaidd y Cyngor a chafodd ddylanwad ar y ddiwinyddiaeth a'r patrymau a awgrymwyd o bryd i'w gilydd gan y grŵp hwnnw. Ond deil yr athrawiaeth hon yn un o'r meini tramgwydd pennaf ym mherthynas enwadau eraill â'r Eglwys Gatholig Rufeinig.

Yn yr un modd, tra'n derbyn ein gilydd fel partneriaid yn y dystiolaeth Gristnogol ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r gwahaniaethau dwfn sydd rhyngom ynglŷn â natur yr Eglwys. Ni fydd cydgymuno yn bosibl â'r Eglwysi Gatholig Rufeinig hyd nes y deuir i gytundeb ar y pwnc anodd hwn, a byddai rhai, o leiaf, yn ein henwadau yn honni nad yw'r fath gytundeb yn bosibl heb newidiadau yn ein sylfeini diwinyddol a fyddai'n golygu chwyldro yn ein hunanddealltwriaeth enwadol.

Un elfen ganolog yn y drafodaeth hon am natur yr Eglwys yw'r athrawiaeth am anffaeledigrwydd y Pab, Esgob Rhufain - athrawiaeth gymharol ddiweddar a gyhoeddwyd gan y Pab yng Nghyngor Cyntaf y Fatican ym 1869-70 ('The Roman Pontiff... enjoys infallibility in virtue of his office when, as supreme pastor and

---

1. gweler, er enghraifft, *The Catechism of the Catholic Church*, Chapman, 1994, tud. 305 ymlaen, a phara. 1376 yn arbennig.

teacher of the faithful who confirms his brethren in the faith, he proclaims by a definitive act a doctrine pertaining to faith or morals').[1] Ond ni chynhaliwyd unrhyw drafodaeth drwyadl o'r athrawiaeth hon mewn ymddiddanion ecwmenaidd yng Nghymru, ac y mae'n anodd meddwl am ddod i gytundeb ar natur yr Eglwys heb gytundeb ar y mater llosg hwn!

Athrawiaeth arall na chafodd sylw manwl yn y trafodaethau ecwmenaidd swyddogol yng Nghymru yw honno am 'le Mair yn nirgelwch yr Eglwys', chwedl y Catechism diweddaraf[2]. Fel 'Mam Duw a'r Gwaredwr' y mae'n cael ei chydnabod fel 'mam aelodau Crist' ('Mair, Mam Crist, Mam yr Eglwys')[3] Bu athrawiaethau megis yr Ymddwyn Difrycheulyd a Dyrchafiad Mair yn achos dadleuon diwinyddol oddi fewn i'r Eglwys Gatholig yn ogystal ag ymhlith enwadau eraill. Y mae'r ddealltwriaeth Gatholig o eiriolaeth gyson Mair dros y ffyddloniaid, a'i chyfryngu rhyngddynt a Duw[4] wedi bod yn dramgwydd i Gristnogion yn yr holl enwadau. Fodd bynnag, ni chawsant unrhyw sylw mewn trafodaethau ecwmenaidd swyddogol drwy Gyngor Eglwysi Cymru.

Nid yw'n syndod, felly, fod lleiafrif oddi fewn i nifer o'r enwadau a deimlai y byddai bod yn gyd-aelodau o Cytûn gyda'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn wadiad o sylfeini ysgrythurol a diwinyddol eu traddodiad ac na ddylid ar unrhyw gyfrif gymryd y fath gam. Byddai'n gwadu eu hunaniaeth Cristnogol ac yn llesteirio'r dystiolaeth i'r Efengyl yng Nghymru. Nid barn leiafrifol oedd hon ymhlith eglwysi Undeb Bedyddwyr Prydain yng Nghymru a phenderfynodd beidio ag ymaelodi â Chytûn. Bu'r drafodaeth yn un anodd oddi fewn i Undeb Bedyddwyr Cymru yn ogystal a phenderfynwyd ymaelodi â Chytûn am gyfnod arbrofol o dair mlynedd yn unig. Bellach,

---

1. gw. *Lumen Gentium*, 25, yn dyfynnu Adroddiad Cyngor Cyntaf y Fatican.
2. gw. *Catechism*, 1994, tud. 220, para. 963 ymlaen
3. Y Pab Pawl VI, 21 Tachwedd 1964.
4. gw. *Catechism*, tud. 221, para. 967 ymlaen.

yn dilyn refferendwm o'r holl eglwysi (ym 1993) penderfynodd yr Undeb barhau'n aelod yng Nghytûn. Yn yr un modd, 'roedd lleiafrif (llai o faint yn yr achos hwn) oddi fewn i Eglwys Bresbyteraidd Cymru a oedd yn rhannu'r un farn, ond ni chawsant ddylanwad ar benderfyniad y Gymanfa Gyffredinol ym 1990 na chwaith ym 1991 (pan godwyd y mater eto) i ymaelodi'n ddidelerau.

Fel y gwelwyd uchod, y mae safiadau cydeglwysig ar faterion moesol a chymdeithasol yn dal i beri cryn loes, a hynny am ddau reswm o leiaf. Yn gyntaf, erys cryn amheuaeth ymhlith arweinwyr yr Eglwys Gatholig Rufeinig ynglŷn ag awdurdod datganiadau cydeglwysig ar y materion hyn. Y maent yn amau a oes gan gorff cydeglwysig, naill ai yn ei enw ei hun neu (ac y mae hyn yn peri dryswch mwy fyth) yn enw'r enwadau sy'n aelodau ohono, hawl i lefaru ar bynciau cyhoeddus. Yn eu tyb hwy, gan yr eglwysi a'r enwadau yn unig y mae'r fath hawl. A hyd yn oed os oes cytundeb rhwng yr enwadau ar fater arbennig, y maent yn amau awdurdod datganiad a wneir yn enw'r holl eglwysi. Yn ail, y mae cryn wahaniaeth barn rhwng yr enwadau ar nifer o faterion moesol a chymdeithasol, megis erthylu ac atal cenhedlu, ar y naill law, a rhyfel ac amddiffyn ar y llaw arall. Ofnir y gallai anghytundeb 'cyhoeddus' ar faterion o'r fath wneud cam â'r dystiolaeth Gristnogol ac y gallai arwain at ddatganiadau arwynebol nad ydynt yn gwneud cyfiawnder â chyflawnder y foeseg Gristnogol. Bydd yn rhaid i'r bererindod gydeglwysig yng Nghymru barhau i wynebu'r tyndra hwn.

Yn yr ymateb a gyflwynwyd gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a Lloegr yn ystod y Broses Ryngeglwysig dywedir:

> '...We come to the work of ecumenism not with the intention of trying to achieve an amalgam of Churches but of working with others to build up into its proper fulness the one Church of Christ. We accept that within the Church of Christ there will be legitimate diversity, and different expressions of the same faith which illuminate the one truth...This is an urgent task because the present situation openly contradicts the will of Christ and provides a serious stumbling block in

the mission given by Christ to his Church.'[1]

Bydd yn rhaid i'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru roddi ystyriaeth ddifrifol i'r cwestiynau sylfaenol hyn wrth geisio adeiladu ar y bartneriaeth ddyfnach â'r Eglwys Gathoilig Rufeinig a ddatblygodd yn ystod y deugain mlynedd diwethaf.

1. *Reflections*, Gol., Vincent Nicholls, CEP/CTS, 1986, tud. 66.

## PENNOD 8

## GWAITH IEUENCTID

Yn ei gyfarfyddiad cyntaf ar 24 Mai 1956 pasiodd y Cyngor benderfyniad ar waith ieuenctid:

> 'We commend to the notice of all who are interested in the Ecumenical Movement, the British Christian Youth conference to be held at Bristol. This will bring together a thousand young people from the Churches of Britain to experience ecumenical fellowship. We trust that steps will be taken to ensure that there will be an adequate representation of the Youth of Wales. We request the prayers of the Churches for the success of this Conference and of all the smaller inter-church groups that are coming into being up and down the country.'[1]

Yn y cyfarfod dilynol ar 19 Hydref 1956 adroddwyd fod dwy ddirprwyaeth o 30 yr un wedi bod yn bresennol yn y gynhadledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Eglwys yng Nghymru, ynghyd ag ugain person ifanc o'r enwadau eraill. Y mae cofnod cyfarfod hwn o'r Cyngor yn disgrifio'r Gynhadledd fel 'a deep if not a converting experience. The large crowds had a sacramental significance and brought the realisation to them that the Church is "something big."'[2]

'Roedd gwaith ymhlith ieuenctid yn flaenoriaeth i'r Cyngor o'r cychwyn, felly. Adlewyrchiad oedd hyn o le ieuenctid yn y mudiad ecwmenaidd yn gyffredinol, drwy fudiadau megis YMCA, YWCA a Chynghrair Bydeang Myfyrwyr Cristnogol (WSCF). Ym 1939 cynhaliwyd cynhadledd fyd-eang i ieuenctid yn Amsterdam dan y thema 'Christus Victor'. 'A global partnership of the generations was committed to a visible Christian community witnessing around the world.'[3] 'Roedd bod yn bresennol yn y gynhadledd hon yn un o'r dylanwadau cynnar ar Erastus Jones.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd cynhaliwyd cynhadledd fyd-eang arall (yn Oslo ym 1947) dan y thema 'Iesu Grist yw'r Arglwydd'. 'A world Christian youth community was

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 24 Mai 1956, tud. 3.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 19 Hydref 1956, tud. 5.
3. William Perkins yn *Dictionary of the Ecumenical Movement*, tud. 1114.

now a reality.'[1] Ymhlith blaenoriaethau'r gymuned fyd-eang hon 'roedd adnewyddu gwaith ieuenctid yn yr eglwysi a hyrwyddo gwaith ieuenctid ecwmenaidd o gwmpas y byd.

Un canlyniad yr ymdrech fyd-eang hon fu cynnal gwersyll gwaith o dan nawdd Cyngor Eglwysi'r Byd ym Mlaenau Ffestiniog ym 1957. 'Roedd ieuenctid o Ffindir, Sweden, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pŵyl, Portiwgal, Y Swistir, Yr Eidal, Yr Almaen, Awstria, Hwngari a Syria yn ogystal ag Iwerddon, Lloegr a Chymru yn cydweithio a chyd-fyw yn y gwersyll hwn. Yn ôl Cyngor Ieuenctid Cristnogol Cymru (y corff cydeglwysig i hybu gwaith ieuenctid a ragflaenai Gyngor Eglwysi Cymru) amcan y gwersyll oedd defnyddio'r cydweithio (mewn cynllun i glirio tir diffaith i wneud lle chwarae i blant ac atgyweirio hen gapel i wneud canolfan i'r Urdd) fel modd i alluogi'r gwersyllwyr '...to discover amongst themselves and then exhibit to the churches around them..(the) footholds to unity...'[2] Cafodd y gwersyll ddylanwad amlwg ar yr ieuenctid:

> 'I began to see the many footholds to unity which are only hidden by ignorance or prejudice........Why are there so many churches of the same denomination having no contact with one another, and why have some closed down?...It was inevitable that we should discuss nationalism. We talked about language, culture and independence with reference to an age in which unity is desired above all things...I know that unity is not an ideal but it can be a reality. This is apparent in a group of young people ...united in the love of Christ and in a task which has to be done for him.'[3]

Erbyn 1959 'roedd Cyngor Ieuenctid Cristnogol Cymru wedi ymffurfio'n Adran Ieuenctid Cyngor Eglwysi Cymru, ac yn Awst y flwyddyn honno trefnodd wersyll gwaith arall i ieuenctid o dros 30 o wledydd yng Ngholeg y Fro, Y Rhws, Bro Morgannwg. Ar yr un adeg cynhaliwyd Cynhadledd i Ieuenctid Cristnogol yn Aberystwyth. 'Roedd 150 yn bresennol ynddi a llongyfarchwyd yr Ysgrifennydd,

--------------------

1. ibid., tud. 1114.
2. Edward Patey, *Footholds to Unity*, adroddiad o'r Gwersyll, Hydref 1957.
3. ibid. tud 2.

James Keane, ar ganlyniad llwyddiannus ei lafur. [1]

Cynhaliwyd Cynhadledd Ieuenctid arall yn Awst 1964 ar alwedigaeth y Cristion gyda'r thema, 'This is your life'. 'Roedd yno bedwar prif siaradwr: Rupert Davies yn siarad ar 'You and God', Nina Borelli ar 'You and the World', Mansel John ar 'You and the Community' a John Campbell ar 'You and your Family', gyda phedwar comisiwn ar dalentau, pobl, pethau ac amser.

Ym 1965 dechreuodd yr Adran lunio cyfansoddiad newydd. Yn y drafft cyntaf y mae amcanion yr Adran yn cynnwys gweithredu fel 'clearing house' i weithgarwch ieuenctid yng Nghymru, bod yn ddolen gyswllt â'r adrannau cyfatebol yng Nghyngor Eglwysi Prydain a Chyngor Eglwysi'r Byd, a rhannu gwybodaeth â'r Cyngor a'r llysoedd enwadol yng Nghymru.

Yn y drafft hwn awgrymir y dylai aelodaeth fod yn agored i bob enwad neu fudiad ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru sydd ganddo 'amcan Cristnogol bwriadol' lle y ddiffinir 'Cristnogol' yn unol â diffiniad Cyngor Eglwysi'r Byd, sef, 'derbyn Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd'.[2] (A bod yn fanwl 'Duw ac Arglwydd' yw'r cymal cyfatebol yn sylfaen Cyngor Eglwysi'r Byd.)

Cymeradwywyd hefyd y dylai'r Adran gael cynrychiolaeth ar y cyrff canlynol: Cyngor Eglwysi Cymru, Adran Ieuenctid Cyngor Eglwysi Prydain, Cynhadledd Sefydlog Cymru o Fudiadau Ieuenctid Gwirfoddol a'r Mudiad Addysg Cristnogol. Yn yr ail ddrafft (a dderbyniwyd fel cyfansoddiad swyddogol ar 18 Mawrth 1966) ychwanegwyd at amcanion yr Adran baragraff rhagarweiniol:

> '(The Department) seeks to support fully the work of the Council of Churches for Wales, namely, to provide the Churches of Wales with the opportunity to manifest the unity of the Church, to co-operate effectively in mission, to receive and to act upon the insights of the

---

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 26 Hydref1959, tud. 2.
2. ibid.

> world church, to present to the whole church the contribution of Wales.'

Yn yr un drafft ychwanegwyd categori arall o gynrychiolaeth, sef, 'Area Committees representative of Local Councils of Churches Youth Committees as defined by the Department of Ecumenical Action.' Ar y cychwyn 'roedd grwpiau ieuenctid cydeglwysig ym Mlaendulais, Bae Colwyn a'r cylch, Casnewydd, Penfro a Phenarth, yn ogystal ag Ecwmene, (cymdeithas ieuenctid a oedd yn gysylltiedig â Chymdeithas Ecwmenaidd Cymru.)

Yn Chwefror 1964 rhestrir aelodaeth yr Adran fel a ganlyn: Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon, Yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Yr Eglwys Gynulleidfaol yng Nghymru a Lloegr, Yr Eglwys Fethodistaidd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Ecwmene, Mudiad Addysg y Myfyrwyr, *St. John's Cadets, Girl Guides' Association, Boy Scouts' Association*, Cymdeithas Gyfeillgar y Merched, YMCA, YWCA, Yr Urdd, Cyngor Eglwysi Cymru, Adran Ieuenctid Cyngor Eglwysi Prydain, Cymorth Cristnogol, Cyngor Cenhadol Unedig Cymru ac un o Arolygwyr ei Mawrhydi trwy wahoddiad.

Ar yr adeg hon, newidiodd blaenoriaeth yr Adran o gynadleddau cenedlaethol (a oedd yn cael eu trefnu o hyd) i hyfforddiant i arweinwyr ieuenctid. Mewn papur i'r Adran dywed yr Ysgrifennydd, James Keane,

> '...our prime responsibility at this juncture is to the youth leader... National conferences are not a priority task. Indeed, local and area conferences which challenge young Christians ecumenically would, for many reasons, be far more effective... The priority task should be the provision of supplementary training for leaders...concerned specifically with religion and morals...(in) short and intensive courses'[1]

Y mae lle i amau, fodd bynnag, pa mor llwyddiannus fu'r cylluniau hyn o safbwynt niferoedd. Cynhaliwyd cwrs hyfforddi i arweinwyr ieuenctid yn Sain Tathan yn ystod 1966, gyda dau brif bwyslais, sef, strwythur cenhadol y gynulleidfa (thema

---

1. James Keane, mewn papur i'r Adran, Chwefror 1965.

cynhadledd fyd-eang Comisiwn Cenhadaeth ac Efengylu, Cyngor Eglwysi'r Byd a gynhaliwyd ym Mecsico Newydd ym 1966) ac Ewrop (gyda phwyslais arbennig ar gymorth, undeb eglwysig a'r efengyl mewn cymdeithas seciwlar.) Rhagwelai'r Adran mai ychydig oedd yn debygol o fod yn bresennol,

> '...the impact of the training programme on Wales was likely to be small...to be effective it would be better organised locally where local needs and opportunities would be known.'[1]

Yn yr un flwyddyn cynhaliwyd gwersyll gwaith ecwmenaidd rhyngwladol i ieuenctid yn Nhrefeca. Yn ôl yr adroddiad yn y cofnodion, '...it set Trefeca going'. 'Roedd ieuenctid o Denmarc, Yr Almaen, Ffrainc, Sweden, Gwlad Groeg, Yr Eidal, Unol Daleithau America a chenhedloedd Prydain yn bresennol. Gwelwyd fod gwersylloedd o'r fath yn ganolog i strategaeth yr Adran, gan iddi sicrhau cytundeb â Chyngor Eglwysi'r Byd yng Ngenefa mai hi fyddai'n asesu ceisiadau am wersylloedd o hyn allan ac yn dwyn argymhellion i Genefa; penodwyd David Williams i swydd wirfoddol trefnydd gwersylloedd. Mewn papur ar y Gwasanaeth Ieuenctid Ecwmenaidd disgrifir cynllun o'r fath fel:

> '..a carefully selected international, inter-racial community of some ten to twenty five Christian youth from a variety of denominational backgrounds who volunteer their time and labour to live and give service together...It is a working vacation where youth have the chance to test their faith in a common life of service to others...Whether the project fulfils its purpose is not determined solely by the work or service rendered. Important as this is, of equal importance are the new attitudes and broadened views that each participant takes back to his home community and church.'

Yn ystod yr un cyfnod, rhoddwyd blaenoriaeth hefyd i ddau weithgarwch arall. Yn gyntaf, ceisiwyd gweithredu ar yr ymwybyddiaeth a fynegwyd yng nghofnod yr Adran ym Medi 1966, sef, y dylid canolbwyntio ar hyrwyddo cydweithredu lleol yn hytrach nag ar weithgarwch cenedlaethol yn unig. O ganlyniad i hyn, (a hefyd o ganlyniad i gynhadledd Caeredin ym 1968 - gweler isod) yng nghyfarfod yr Adran ar 29 Ebrill 1969 cyflwynwyd adroddiadau cyfarfodydd rhanbarthol yng Nghaer-

---

1. Cofnodion yr Adran Ieuenctid, 15 ac 16 Medi 1966.

fyrddin, Abertawe, Bangor a Môn, Casnewydd, Y Cymoedd Gorllewinol a Chaerdydd, Gogledd Ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru.[1]

Yn ail, gwnaed ymdrech fawr i baratoi ieuenctid o eglwysi ac enwadau Cymru i rannu mewn Cynhadledd i Ieuenctid Cristnogol Prydain ac Iwerddon i'w chynnal yng Nghaeredin o 26 Gorffennaf i 2 Awst 1968. Ei thema fyddai "Living - '68 style". Cynhaliwyd dwy gynhadledd baratoawl ar gyfer Cymru yn yr hydref 1967 a'r gwanwyn 1968. 'Roedd 74 o ieuenctid o Gymru yng Nghaeredin - nifer annisgwyl o uchel, mewn gwirionedd - ac er mwyn eu cynorthwyo, fel cynrychiolwyr o Gymru, penodwyd David Williams fel arweinydd yn eu plith.

Mewn adroddiad i'r Adran mynegwyd cryn bryder am ddechreuadau'r gynhadledd a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad at bererindod unigol y cynrychiolwyr:

> '...(the conference) was greatly appreciated despite its precarious beginnings. In fact, it seems that the opening days' confusion and heart searching positively contributed to making this a conference of the delegates rather than of the speakers and leaders.'[2]

Fe'i gwelwyd fel cychwyn proses yn hytrach na digwyddiad ynddo'i hun: 'We must look to what it will achieve in the lives of the visitors from now on.'[3] O dan arweiniad y cynrychiolwyr o Gymru rhannwyd Cymru'n bum rhanbarth i ddiben gwaith ieuenctid, sef, Casnewydd, y Cymoedd a Chaerdydd (gyda Graham Davies yn gynullydd), Abertawe, Caerfyrddin a'r Gorllewin (gyda Gareth Thomas yn gynullydd), Y Canolbarth (gyda Dafydd H. Owen yn gynullydd), Bangor a Môn (gyda John Owen yn gynullydd) a Gogledd Ddwyrain Cymru (gyda Bryan Williams yn gynullydd.)

Ond yn ystod y cyfnod hwn, er bod gan yr Adran syniadau a chynlluniau creadigol,

---

1. Cofnodion yr Adran, 29 Ebrill 1969.
2. Cofnodion yr Adran, 2 a 3 Hydref 1968.
3. O anerchiad i'r gynhadledd gan Albert van den Heuvel, a ddyfynir yng nghofnodion yr Adran, 2 a 3 Hydref 1968.

'roedd arwyddion nad oedd popeth fel y gallent fod. Trefnwyd cwrs ar Arweinyddiaeth Gristnogol i Weithwyr Ieuenctid (yng Nghanolfan Ddiwinyddol Golegol, Caerdydd) yn Ebrill a Mai 1970 - ond penderfynwyd peidio â chynnal cyfres arall. Bu'n rhaid gohirio cwrs hyfforddi i swyddogion ieuenctid rhanbarthol, gan i'r Adran fethu sicrhau darlithwyr priodol. Ni chynhaliwyd Wythnos Astudio Ecwmenaidd i Oedolion Ifanc yn Awst 1970 gan mai oddi wrth un enwad yn unig y derbyniwyd enwau. Yn adroddiad yr Adran i'r Cyngor yn Hydref 1970 cafwyd adroddiadau am weithgarwch tri rhanbarth yn unig, sef, Abertawe-Caerfyrddin, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Dâf a Bangor-Môn. Nid rhyfedd, felly, i Ysgrifennydd yr Adran, Dafydd H. Owen, ysgrifennu yn ei adroddiad: 'I am very conscious of the ineffectiveness and lack of efficiency that will be apparent to you in the report...' Y mae'n nodi mai'r prif resymau dros hyn, yn ei farn ef, yw'r angen am ysgrifennydd llawn-amser (yn wyneb y pwysau gwaith ar ysgrifenyddion ieuenctid yr enwadau) a diffyg cefnogaeth gyson yr enwadau (dim ond yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Fethodistaidd ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru oedd yn anfon cynrychiolwyr yn gyson.) 'The full and enthusiastic participation of all the denominations will be necessary to achieve even a pattern of very limited activities.'[1]

Un o gyfraniadau effeithiol yr Adran ym 1970 oedd llunio ymateb i bapur y Llywodraeth, *Youth and Community Work in the '70s'*. Galwyd cyfarfod arbennig i drafod hyn (ond unwaith eto dim ond cynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru, Yr Eglwys Fethodistaidd ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru a ddaeth ynghyd). Yn gyffredinol, croesawyd pwyslais yr adroddiad:

> 'The Department welcomes the emphasis of the report and believes that it will stimulate thinking and initiate action. Community development, community service, participation, partnership, counselling and training are of the utmost importance...The churches will continue to play their part in helping young people to become responsible mem-

---

1. Adroddiad yr Adran i'r Cyngor, Hydref 1970.

bers of the community...'[1]

Ond 'roedd yr Adran yn feirniadol iawn o fethiant y Pwyllgor a luniodd yr adroddiad i sicrhau tystiolaeth ddigonol o Gymru:

> '..apart from two instances in Glamorgan and three in Monmouthshire no other places were visited in the Principality...(These) could not possibly have given the Committee an adequate picture neither of the Youth Service as it exists nor of the needs of that service in Wales. No predominantly Welsh speaking area was visited and, therefore, (there is) no reference to the problem of bilingualism...'[2]

Yn ei hymateb i'r adran ar yr eglwysi gwna'r Adran Ieuenctid ymrwymiad '...to encourage the use of premises in a way that will serve the community and contribute to its development...wherever possible on an ecumenical basis.'[3] Nodir hefyd fod yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Eglwys Fethodistaidd yn datblygu rhaglenni hyfforddiant a fyddai'n agored i bawb a ddymunai ymuno ynddynt.[4] Mynegodd yr Adran gonsyrn hefyd fod yr adroddiad yn cymell gwerthu diodydd alcoholaidd mewn rhai mudiadau: 'The Department was unanimous in its opinion that the rights of over-18s to have alcoholic drinks in sponsored organisations (was) a very poor indication of adult status and sophistication.'[5]

Ym 1972 cymerwyd cam newydd a fyddai'n dylanwadu ar weithgarwch ieuenctid am rai blynyddoedd, sef, trefnu ymweliad â Taizé, y gymuned ecwmenaidd yn Ne Ddwyrain Ffrainc a ddatblygodd i fod yn un o ganolfannau ieuenctid mwyaf dylanwadol y byd. Ar adeg y Pasg 1972 y trefnwyd yr ymweliad cydeglwysig cyntaf o Gymru. Bu'n dra llwyddiannus a bu'n gymorth i greu diddordeb yn y Cyngor Ieuenctid a oedd i'w gynnal yn Taizé ym 1974. Nid oes llawer o sôn am fanylion yr

--------------------

1. *Comments on 'Youth and Community Work in the 70s' by the Council of Churches for Wales.*

2. ibid.

3. ibid..

4. ibid..

5. ibid..

ymweliadau hyn, ond y mae'n amlwg iddynt gael dylanwad parhaol ar lawer a ymunodd ynddynt.

Ym 1972 hefyd 'roedd yr eglwysi'n ystyried yr argymhellion ynglŷn â Chyfamodi am Undeb. Bu'r Adran yn trafod perthnasedd yr argymhellion hyn i waith ieuenctid. Fe'u hystyriwyd yn fwyaf arbennig yng nghyd-destun paratoadau ymhlith ieuenctid eglwysi Cymru ar gyfer y Gynhadledd i Ieuenctid Cristnogol Prydain i'w chynnal yn Lerpwl ym 1973 ar y thema, Cenhadaeth Heddiw,

> '...The Department is aware that the intended Covenant towards Union being studied by the churches in Wales has grown out of a common concern for the mission of Christ. Our focussing attention on the theme of mission will help prepare young Christians to share in the life of a renewed church that may result from such a covenant...'[1]

Gwahoddwyd ysgrifennydd y Cydbwyllgor Cyfamodi, Huw Wynne Griffith, i gyfarfod yr Adran ac yn ei agoriad i'r drafodaeth awgrymodd y gellid neilltuo rhan o gynhadledd ieuenctid Trefeca (a fwriadwyd i baratoi ieuenctid ar gyfer cynhadledd Lerpwl) i'r Cyfamod 'gan fod y cyfamod wedi deillio o ddyhead Cenhadol yr Eglwysi.'[2] Ond teimlai'r Adran 'nad astudio'r Cyfamod yn fanwl oedd y ffordd orau...i ennyn diddordeb yn y thema, *Cenhadaeth*. Teimlid na fyddai iaith y cyfan yn ennyn llawer o ddiddordeb ymhlith pobl ifanc.'[3] Ac ni fu mwy o sôn am y mater, i bob golwg.

Ymddengys fod cynhadledd Lerpwl wedi bod yn llwyddiant. 'Roedd 40 yno o Gymru a chafodd ddylanwad dwfn arnynt:

> '...Liverpool '73 had enabled delegates to discover, often in ways individual to themselves, deeper truths about others and their response to God. It had helped them to become more sensitive to their

---

1. Adroddiad i'r Cyngor, Hydref 1972.
2. Cofnodion yr Adran, 1 Medi 1972.
3. ibid..

way of life and how they encountered others as persons...'[1]

Yn ôl un adroddiad '...(it) led to some deep experiences of searching and finding.'[2] Cymerwyd camau gan gynrychiolwyr ifanc o Gymru i drefnu penwythnos i'r holl gynrychiolwyr yn ystod hydref 1973.

Ond yn ystod yr un cyfnod, teimlwyd unwaith eto nad oedd pethau fel y dylent fod mewn perthynas â chydweithio mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mewn gwironedd 'roedd yr ymwybyddiaeth hon wedi bod yng nghefn meddyliau swyddogion yr Adran ers 1968, pan ddechreuwyd trafod ei dyfodol. Yn ystod y cyfnod hwn - ac yn wir drwy gydol y blynyddoedd nesaf - bu effeithiolrwydd, llwyddiant a strwythur yr Adran yn bryder parhaol ac ymddengys drosodd a thro yn ei thrafodaethau. Yn gyson, holwyd cwestiynau sylfaenol am wir amcan cydweithio ecwmenaidd mewn gwaith ieuenctid, am effeithiolrwydd y strwythurau presennol i gyflawni'r amcanion hyn ac am ymrwymiad yr enwadau a'r cyrff Cristnogol a oedd yn aelodau'r Adran i weithio'n ecwmenaidd. Yn ei hadroddiad blynyddol i Gyngor Eglwysi Cymru yng ngwanwyn 1973 'roedd yn rhaid cyfaddef na ellid honni fod yr Adran yn gynrychioli gweithgarwch ieuenctid eglwysi Cymru oni cheid croestoriad llawer gwell ymhlith y cynrychiolwyr ffyddlon. Teimlwyd bod yr Adran mewn cyflwr afiach yn fwyaf arbennig yn wyneb disgwyliadau mudiadau ieuenctid eraill yng Nghymru am i'r eglwysi siarad a gweithredu gyda'i gilydd. Credai'r Adran fod y mwyafrif yr ieuenctid oddi fewn i'r eglwysi yn ddiamynedd â rhaniadau'r eglwysi ac yn fodlon addoli a gweithio gyda'i gilydd. A thra'u bod yn cydnabod pwysigrwydd y trafodaethau ynglŷn â Chyfamodi tuag at Undeb a oedd yn digwydd yng Nghymru teimlent fodd bynnag fod iaith y Cyfamod yn anniddorol: 'We believe that the Department can, in its programme of work, provide opportunities for young adults to express their wish to belong to a united church and also to draw into closer

--------------------

1. Cofnodion yr Adran, 22 Medi 1973.
2. Adroddiad yr Adran, 1972/73.

fellowship those of their age who question the place of the church but are in search of a fulfilled life.'[1]

Yn yr un adroddiad daeth agwedd arall i'r amlwg na chafodd lawer o sylw o'r blaen. Dyma gyfnod yr adfywiad mawr mewn perthynas â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymhlith ieuenctid Cymru. Roedd ymgyrchu dros y Gymraeg wedi mynd yn fwyfwy milwriaethus. Yn ôl John Davies "cyffyrddodd yr ymgyrchoedd â nerf cignoeth ym mywyd Cymru".[2] Bu achos llys enwog Dafydd Iwan ym 1970. Un o ffrwythau'r mudiad protest hwn oedd cychwyn y byd pop Cymraeg. Yn naturiol, 'roedd hyn i gyd yn dylanwadu'n drwm ar ieuenctid yr eglwysi Cymraeg. Ond ychydig o ôl y cynyrfiadau hyn oedd ar y gwaith ieuenctid cydeglwysig a gyflawnid drwy'r Adran a gwelid hyn hefyd fel rheswm arall dros ei methiant. Yng ngeiriau'r ysgrifennydd, "In some areas of Wales the whole question of what it means to be Welsh is of more concern to young pople than what it means to be a church member...As yet the Department has not been able to contribute in this area."[3].

Ffrwyth yr ymholi hyn oedd cynnal Ymgynghoriad yng Ngholeg y Bala yn Ebrill 1975 i edrych ar strwythurau newydd ac ar flaenoriaethau'r Adran i'r dyfodol. Ymhlith awgrymiadau eraill cytunwyd i gynnal un cyfarfod dros nos yn flynyddol a fyddai'n anelu at ystyried pwnc arbennig yn hytrach na chanolbwyntio ar fusnes yn unig. Cytunwyd hefyd i gychwyn cylchgrawn ecwmenaidd dwy-ieithog ar gyfer ieuenctid. Yn yr un cyfarfod nodwyd nifer o faterion a ymddangosent yn arwyddocaol mewn perthynas â gwaith ieuenctid yn y 70au: Sut y gall ieuenctid gael cyswllt digonol ag eglwys neu genedl? Er mwyn pwy y mae angen ceisio meithrin y fath gyswllt? A ydyw gwahaniaethau seicolegol ac athronyddol yn fwy arwyddocaol na gwahaniaethau enwadol? Daethpwyd yn ymwybodol hefyd fod meithrin

---

1. Adroddiad yr Adran, Gwanwyn 1973.
2. John Davies, Hanes Cymru, tud. 626.
3. Adroddiad yr Adran, Gwanwyn 1973.

grwpiau bychain fel canolbwynt i'r bywyd Cristnogol yn holl bwysig.[1]

'Roedd yr Ymgynghoriad a gynhaliwyd ym 1976 yn canolbwyntio ar faterion a oedd yn codi o Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Nairobi, Kenya. Daeth 17 ynghyd, gyda Meirion Lloyd Davies ac Ann Bonner Evans[2] yn bresennol o blith y cynrychiolwyr Cymreig yn Nairobi. Thema'r bumed Gymanfa hon oedd "Iesu Grist yn Rhyddhau ac Uno". Gwelai'r ddau gynrychiolydd mai'r ddau bwyslais mawr oedd yr angen am i'r Eglwys fod ynghanol ymdrech y gorthrymedig am hawliau, a chyfanrwydd yr Efengyl ("The Good News is not merely about social justice, not merely about spiritual renewal, but directed to the wholeness of life")[3] 'Roedd hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth pobl eraill o'r Gymanfa hon:

> "(Nairobi) declared that faith in the triune God and socio-political engagement, conversion to Jesus Christ and active participation in changing economic and social structures belong together and condition one another."[4]

Ond yr hyn a oedd yn fwyaf diddorol yn ymgynghoriad y Bala oedd i'r aelodau sylweddoli nad cyflwyno'r neges am y Gymanfa, fel y cyfryw, oedd yr angen pennaf ond yn hytrach gadael i weledigaeth y Gymanfa hydreiddio'r modd y byddai'r eglwysi'n ymdrechu dros gyfiawnder a chyfanrwydd ym mywyd pobl Cymru, O ganlyniad gwelwyd fod hyn hefyd yn cynorthwyo'r Adran i ddeall sut y dylai weithredu: "In order to be effective we must bring ourselves to the task of enabling the kingdom to come and be prepared to run the risks of new initiatives..."[5]

Erbyn diwedd 1976 'roedd yr Adran yn dechrau paratoi ar gyfer Gŵyl Ieuenctid

--------------------

1. Cofnodion Ymgynghoriad y Bala, 18 -19 Ebrill 1975.
2. Un o weithwyr y Mudiad Addysg Cristnogol yng Nghymru.
3. Meirion Lloyd Davies, Adroddiad yr Ymgynghoriad, 19-20 Mawrth 1976.
4. *Dictionary of the Ecumenical Movement*, tud. 1094
5. Adroddiad Ymgynghoriad y Bala.

Cyngor Eglwysi Prydain, 'Gwawrddydd', a oedd i'w chynnal yn Nhŷddewi, 13 - 20 Awst 1977. Y mae'n amlwg fod pwyslais Cymanfa Nairobi wedi dylanwadu'n gryf ar y rhai a fu'n gyfrifol am defnu'r Wyl gan iddynt fabwysiadu *Cyfanrwydd* fel thema, sef, "a search for a meangingful spirituality, true to the insights of prayer and the struggle for involvement in the world."[1] Yr un oedd pwyslais y cyhoeddusrwydd ar gyfer 'Gwawrddydd'. Y mae'n sôn am gyfanrwydd yr Efengyl Gristnogol: 'prayer and lifestyle, spirituality and community, contemplation and struggle - searching for a new awareness of God and new ways of living together in his world.'[2]

Codwyd maes pebyll gerllaw'r gadeirlan yn Nhŷddewi, lle'r ymgasglodd tua 1300 o bobl at ei gilydd am wythnos - y mwyafrif ohonynt yn ieuenctid. Roedd yn gyfle i weddïo a myfyrio, i astudio'r beibl a thrafod mewn 'grwpiau teuluol' ar y maes pebyll neu i addoli yn y Gadeirlan. Cyflwynwyd darlithiau gan y ddau brif westai, Esgob Colin Winter (o Swaziland) ac Esgob Michael Hare-Duke o Saint Andrews yn yr Alban. Cynhaliwyd 'Cinio Iesu' pan rannwyd bara a gwin ymhlith holl aelodau'r ŵyl - methwyd â chael cytundeb yr awdurdodau eglwysig i gynnal oedfa gymun gyd- (neu, efallai, an-) enwadol. Ar y bore olaf cynhaliwyd oedfa ar y traeth gerllaw gyda'r 'wawrddydd', pan gydiodd pawb a oedd yno law yn llaw â'i gilydd mewn un cylch enfawr o gwmpas y traeth.

> 'Widely distanced from each other, fragiley linked by very thin bonds, yet this circle is a symbol of the reality of being part of God's people today - a dawn people, in a wide open space with everything at stake, and everything to gain...Such was, and is, DAYSPRING.'[3]

Yn ystod yr Wyl daeth ieuenctid o Gymru at ei gilydd i ystyried ei harwyddocâd

---

1. Cofnodion yr Adran, 5 Hydref 1976.

2. O daflen gyhoeddusrwydd a gyhoeddwyd ym 1976.

3. David Isaac, Ysgrifennydd yr Adran tan Mawrth 1977, mewn adroddiad i Gyngor Eglwysi Cymru, 13 Hydref 1977.

iddynt hwy a phenderfynu argymell i'r Adran sefydlu Cynulliad Ieuenctid Cristnogol Cymru. Byddai Cynulliad o'r fath yn galluogi ieuenctid i fod yn gyfrifol am weithgareddau cydenwadol a llunio polisi gwaith ieuenctid drostynt eu hunain, yn hytrach na gadael hyn bron yn llwyr i swyddogion ieuenctid yr enwadau. Yng nghyfarfod Tachwedd 1977 yr Adran cytunwyd i alw ymgynghoriad ieuenctid yng Ngholeg y Bala fel cam cyntaf tuag at hyn. 'Roedd barn yr ieuenctid a ddaethant ynghyd yn eglur ar nifer o faterion allweddol: 'roeddent am gyfranogi ym mhenderfyniadau'r eglwysi a'r enwadau yn lleol a chenedlaethol ("We want our voice to be heard"); 'roeddent yn awyddus i weld adeiladau eglwysig yn agored bob amser, ar gyfer gweddi a myfyrdod ond hefyd i fod yn fan cyfarfod i ieuenctid ac eraill, oddi fewn ac oddi allan i gymdeithas yr eglwysi. Rhoesant flaenoriaeth uchel i gyfranogiad ieuenctid mewn gweithgareddau cydeglwysig yn lleol: mwy o gynghorau eglwysi lleol, mwy o grwpiau ieuenctid yn y cynghorau hynny, mwy o gyfranogiad gan ieuenctid mewn penderfyniadau ecwmenaidd yn lleol a chenedlaethol. Yn wir, cytunodd y cyfarfod o'r Adran yn Llandinam ar 10 ac 11 Mawrth 1978 (a alwyd i gloriannu'r ymgynghoriad) i argymell i gynghorau eglwysi lleol roi blaenoriaeth uwch yn eu rhaglenni i waith ieuenctid, gan awgrymu'n fwyaf arbennig dystiolaeth bar-coffi. Eisoes roedd enghreifftiau o hyn yn Aberystwyth a'r Drenewydd, a gwahoddwyd ardaloedd eraill i'w hefelychu.

Ar ddiwedd y cyfarfod cyhoeddwyd datganiad i eglwysi Cymru ('Datganiad Llandinam') gan yr ieuenctid a'r gweithwyr ieuenctid a oedd yn pwysleisio pedair agwedd sylfaenol: hybu gwaith ieuenctid ar y cyd yn lleol; sefydlu Cynulliad Ieuenctid Cristnogol Cymru; ystyried Gŵyl Ieuenctid Ecwmenaidd i Gymru ym 1980; penodi swyddog ieuenctid ecwmenaidd i Gymru fel aelod o staff Cyngor Eglwysi Cymru. Pan drafodwyd y materion hyn gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor teimlwyd eu bod yn bellgyrhaeddol ac y dylai goblygiadau'r Cyfamod tuag at Undeb gael eu hystyried

yn y cyd-destun hwn.[1]

Mewn gwirionedd, 'roedd y cyfarfod hwn yn un gwerthfawr ar lawer cyfrif arall hefyd. Croesawyd cynrychiolydd o Undeb Bedyddwyr Cymru, a oedd wedi ail-ymaelodi ar ôl cyfnod hir. Adroddwyd fod taith arall i Taizé wedi digwydd yn Awst 1978, gyda 45 yn y grŵp. Trefnodd yr Adran (ar y cyd â Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr) gynhadledd Gymreig ar gyfer caplaniaid Colegau Uwch (y gynhadledd ranbarthol gyntaf o'i bath ym Mhrydain), gydag Esgob Daniel Mullins, D.P. Davies ac Elfed ap Nefydd Roberts yn siaradwyr. Penderfynwyd cynnal y gynhadledd yn flynyddol o hynny ymlaen gyda'r caplaniaid eu hunain yn gyfrifol amdani. Yn ogystal, cymerwyd yr hyn a ddisgrifir fel 'a new initiative in youth work', pan gytunwyd i ffurfio grŵp bychan i ddod ag argymhellion i'r Adran ar benodi swyddog llawn-amser ar gyfer gwaith ieuenctid cydeglwysig yng Nghymru. Mewn gwirionedd, er bod cryn drafod a chynllunio wedi digwydd mewn perthynas â hyn, ni lwyddwyd hyd yma i fynd â'r maen arbennig hwn i'r wal ac amheuir bellach ai dyma'r modd gorau o hyrwyddo gwaith ieuenctid cydeglwysig.

Aeth dwy flynedd heibio cyn i'r Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteriadd Cymru drefnu penwythnos ar y cyd yn y Bala (ar 14 - 16 Tachwedd 1980) i ystyried sefydlu Cyngor Ieuenctid Cristnogol Cymru. Nodwyd 'y byddai unrhyw Gyngor yn drylwyr ecwmenaidd ond credwyd y byddai'n well cychwyn y drafodaeth drwy'r ddau wasanaeth ieuenctid sydd eisoes mewn bodolaeth'[2] a rhoddwyd sêl bendith yr Adran ar yr ymgynghoriad. Erbyn 1982 'roedd dau gyfarfod o'r Cynulliad Ieuenctid wedi digwydd, un ym 1981 ar ddiarfogi niwclear a'r llall ym 1982 ar gyflwr gwaith ieuenctid ecwmenaidd. Yn wir 'roedd y Cynulliad wedi magu digon o hyder i

---

1. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 15 Medi 1978.

2. Cofnodion yr Adran, 1 Mawrth 1980. (Y mae'r cofnodion Cymraeg yn amrywio rhwng 'Cyngor' a 'Cynulliad' i drosi'r Saesneg 'Assembly', ond cyfeiria'r ddau drosiad at yr un bwriad.)

basio penderfyniad ar ryfel y Malfinas. Tra'n gresynu fod llywodraeth Ariannin wedi cymryd meddiant o'r ynysoedd geilw'r Cynulliad ar lywodraeth a phobl Prydain 'i ymarfer hunan-ddisgyblaeth yn eu hymateb i'r weithred ormesol hon ac erfyniwn ar y ddwy lywodraeth i ymdrechu i ddarganfod ateb teg a heddychlon trwy drafodaeth.'[1]

Yn ystod y cyfnod hwn lansiwyd dau gynllun arall a allai fod wedi cyfrannu'n helaeth at ddatblygiad gwaith ieuenctid yng Nghymru. Y cyntaf oedd Apêl ariannol tuag at sefydlu canolfan ieuenctid ar Ynys Enlli. Pan gyfarfu'r Adran ym Mawrth 1979 cytunodd ar benderfyniad i'w gyflwyno i Gyfarfod Gwanwyn y Cyngor yn mynegi cefnogaeth i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli a'i ymrwymiad i warchod prydferthwch yr Ynys, ei hetifeddiaeth ddynol ac ysbrydol a'i bywyd gwyllt. Mabwysiadodd yr Adran yr apêl tuag at yr Ymddiriedolaeth fel prosiect blwyddyn o Fedi 1979, a chytunwyd i drafod â'r ymddiriedolaeth y posibilrwydd o sicrhau Tŷ Cymunedol Cristnogol ar yr Ynys neu ganolfan breswyl ar gyfer grwpiau ieuenctid Cristnogol. Aethpwyd ati hefyd i drefnu gwersyll gwaith yno yn ystod haf 1980. Yn anffodus, ni fu llawer o lwyddiant naill ai mewn perthynas â'r apêl na chwaith gyda'r gwersyll gwaith. Adroddwyd fod ychydig wrthwynebiad gan warchodwyr natur ac adarwyr i gael ieuenctid yn crwydro o gwmpas yr Ynys!

Yr ail fenter oedd lansio 'Fflach', cylchgrawn dwyieithog i ieuenctid Cristnogol Cymru, ar y cyd rhwng yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru ym mis Awst 1980. Mewn cyfarchiad yn y rhifyn cyntaf dywed Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru: 'Gobeithiaf yn fawr y bydd "Fflach" yn helpu ieuenctid i ddarganfod gwefr a mwynhad bod yn Gristion ar ddiwedd y ganrif hon...a'n helpu i adael i'r Ysbryd ein fflachio ni i gyd i weld posibiliadau Duw.' Roedd yn fenter gyffrous a byddai wedi bod yn dda pe bai wedi llwyddo a phe bai enwadau eraill Cymru wedi medru ymuno ynddi, er mwyn gwneud 'Fflach' yn gylchgrawn ieuenc-

1. Cofnodion y Cyngor, 29 Ebrill 1982.

tid i holl enwadau Cymru. Ond yn anffodus, ni pharhaodd y fenter hon yn hir iawn ychwaith.

Unwaith eto 'roedd y sawl a oedd yn arwain yr Adran, yn eu plith swyddogion ieuenctid rhai (yn unig) o'r enwadau a mudiadau Cristnogol ar gyfer ieuenctid, yn frwdfrydig a chreadigol. Bu'n gyfnod mentrus, llawn syniadau cyffrous. Ond ni welwyd llawer o ffrwyth i hyn mewn cynnydd mewn gweithgarwch ieuenctid yn lleol na rhwng yr enwadau yn genedlaethol. Mae'n wir dweud fod ymdeimlad o hyder ymhlith rhai. Er enghraifft, dywed ysgrifennydd yr Adran, Irene Burden: '...gyda bodolaeth Cynulliad Cristnogion Ifanc Cymru a'r gobaith am sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Cristnogol Unedig y mae'r ymchwil (am hunaniaeth a phwrpas gwaith ieuenctid) wedi ei adfywio...Gwelwn ein hunain fel fforwm i alluogi cyfathrebu mwy effeithiol rhwng adrannau ieuenctid...'[1] Sail ei gobaith am wasanaeth ieuenctid unedig oedd penderfyniad Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Eglwys yng Nghymru i ddiddymu eu gwasanaeth ieuenctid enwadol a sefydlu gwasanaeth unedig erbyn 1985. Roedd comisiwn yn cael ei sefydlu i edrych i mewn i hyn. Ond gobaith gwag oedd hwn hefyd, gan na chyflawnwyd hyn. Er bod cryn gydweithio rhwng yr eglwysi hyn a'r eglwysi eraill yng Nghymru deil y gwasanaethau ieuenctid ar wahan ac nid oes sôn bellach am wasanaeth ieunctid unedig yng Nghymru.

Ond ochr yn ochr ag ymrwymiad hyderus arweinwyr yr Adran yn ystod y cyfnod hwn rhaid gosod amharodrwydd mwyafrif y cynrychiolwyr naill i ddod i gyfarfodydd yr Adran na chwaith i ymgymryd â'r gweithgarwch ieuenctid ar y cyd a gytunwyd ac a argymhellwyd ganddi. Heb hyn ni all unrhyw weithgarwch ecwmenaidd fod yn effeithiol. Onid yw'n hybu partneriaeth wirioneddol rhwng yr enwadau a'r eglwysi - ac, yn yr achos hwn, rhwng swyddogion ieuenctid a ieuenctid eu hunain - y mae'n methu yn ei amcan sylfaenol.

---

1. Adroddiad i gyfarfod blynyddol Cyngor Eglwysi Cymru, 21 Hydref 1982.

Dros y pum mlynedd dilynol gwnaed nifer o ymdrechion i roi hwb newydd i waith ieuenctid ecwmenaidd. Ad-drefnwyd yr Adran (a oedd bellach yn Bwyllgor Ieuenctid o dan strwythur newydd y Cyngor) fel ei bod yn cynnwys cynrychiolwyr o blith holl eglwysi ac enwadau Cymru, gan gynnwys yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Crynwyr. Ar ôl cyfarfod cyntaf Pwyllgor dan y drefn newydd adroddwyd fod 'nifer dda o gynrychiolwyr yn bresennol a dangoswyd cefnogaeth frwd i waith y Pwyllgor.'[1]

Erbyn 1986 'roedd ymdrechion yn cael eu gwneud eto i benodi ysgrifennydd ieuenctid ecwmenaidd oddi fewn i Gyngor Eglwysi Cymru, gyda chymorth cymorthdal o'r Swyddfa Gymreig. Ond nid oedd cymorthdal yn bosibl a chladdwyd y cynllun. Yn yr un flwyddyn roedd cadeirydd yr Adran, Michael Jones, yn amau a oedd lle bellach i'r Pwyllgor fel y cyfryw, gan fod y swyddogion ieuenctid yn cyfarfod â'i gilydd ar achlysuron eraill ac nad oedd ganddynt lawer o ymrwymiad i'r Pwyllgor na diddordeb ynddo. Pan alwyd cyfarfod o'r Pwyllgor i drafod yr argyfwng hwn dim ond y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd oedd yn bresennol! Holai Michael Jones[2] a ddylid cydnabod y grŵp swyddogion ieuenctid enwadol fel Pwyllgor Ieuenctid y Cyngor a cheisio ffyrdd eraill o alluogi ieuenctid i ddod at ei gilydd, efallai mewn dathliad ieuenctid blynyddol.

Mewn gwirionedd, dyma a ddigwyddodd a daeth y Pwyllgor Ieuenctid fel y cyfryw i ben ac adroddwyd hyn i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 1 Mehefin 1987. Parhawyd y cyswllt rhwng gwaith ieuenctid a'r Cyngor drwy fod un o'r swyddogion ieuenctid enwadol yn aelod *ex officio* o'i Bwyllgor Gwaith ac un arall yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor ei hun. Dyma fu'r drefn weddill bodolaeth y Cyngor.

Wrth geisio cloriannu'r gweithgarwch hwn o'i gychwyniadau ym 1956 a chyn

--------------------

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 6 Rhagfyr 1984.
2. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 8 Rhagfyr 1986.

hynny (drwy Gyngor Ieuenctid Cristnogol Cymru) gwelir iddo gyfrannu'n helaeth at weithgarwch ecwmenaidd yng Nghymru yn ystod y ganrif hon. Cafodd llawer o'r unigolion a chwaraesant ran allweddol yn natblygiad ecwmeniaeth yng Nghymru eu meithrin i'r weledigaeth ecwmenaidd drwy gynadleddau byd-eang a Phrydeinig ar gyfer ieuenctid. Dylanwadodd y cynadleddau hyn yn fawr ar weinidogaeth a gwasanaeth Cristnogol llawer o bobl yng Nghymru.

Yn yr un modd, bu'r gwersylloedd gwaith a gynhaliwyd yng Nghymru, megis ym Mlaendulais, Blaenau Ffestiniog a Threfeca, yn fodd i alluogi ieuenctid o Gymru a gwledydd eraill i ddeall ei gilydd yn well a gwerthfawrogi amrywiaeth y traddodiadau Cristnogol a diwylliannol a brofwyd drwyddynt.

Bu gwasanaethu'r Adran ei hun yn fodd i ehangu gorwelion llawer un sydd bellach yn cynnig gwasanaeth allweddol oddi fewn i enwadau a mudiadau Cristnogol Cymru. Bu'n fodd hefyd i sicrhau fod y Cyngor ei hun yn cofio nad ar gyfer oedolion yn unig y mae her a galwad y mudiad ecwmenaidd. Y mae ar gyfer holl bobl Dduw, o bob oedran, ac y mae angen cyson i ystyried sut y mae blaenoriaethau'r mudiad i gyffwrdd â bywyd Cristnogol ieuenctid ein heglwysi. O bryd i'w gilydd heriwyd y Cyngor, a'r enwadau oedd yn aelodau ohono, i ddarganfod ffyrdd i alluogi ieuenctid i rannu'n llawnach yn y broses o benderfynnu polisi ecwmenaidd ac enwadol. Ond rhaid cyfaddef mai cyndyn fu'r Cyngor a'r enwadau i weithredu'r her hon, ac i newid patrymau eu cyfarfodydd a'u ffyrdd o benderfynnu i fod yn fwy cydnaws â bywyd a meddylfryd ieuenctid. Y mae'r alwad i'r eglwys fod yn gymdeithas gyfan, i hen ac ifanc fel ei gilydd, yn dal i fod yn bwnc trafod canolog.

Efallai mai prif gyfraniad yr Adran a'r Pwyllgor fu meithrin partneriaeth rhwng swyddogion ieuenctid yr enwadau (a'r mudiadau Cristnogol) a'i gilydd. Drwy gydol y cyfnod dan sylw bu'n anodd i gael ieuenctid eu hunain i ddod i gyfarfodydd yr Adran, ac o bryd i'w gilydd bu ymrwymiad swyddogion ieuenctid yn annigonol ac anghyson. Ond nid oes gwadu fod gweithwyr ieuenctid yn fwy ymwybodol heddiw

nag erioed fod angen iddynt weithio gyda'i gilydd a chynorthwyo'i gilydd gyda rhaglenni gweithgarwch a hyfforddiant. Bu cyfarfodydd cyson y Rhwydwaith i Weithwyr Ieuenctid, sy'n gysylltiedig â Cytûn, yn dystiolaeth i hyn. Yn wir, y mae lle i gredu fod yr Adran Ieuenctid wedi bod ar ei gorau pan oedd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer gweithwyr ieuenctid.

Ond ysywaeth, drosodd a thro yn ei hanes, bu'n rhaid i'r Adran wynebu argyfwng, argyfwng a oedd ar brydiau yn bygwth ei difodiant. Droeon gorfu i'r Adran edrych o newydd ar ei seiliau a'i hamcanion ac adolygu ei chyfansoddiad. Y mae nifer o resymau dros yr elfen argyfyngus hon yn ei hanes. Y pennaf yn eu plith yw'r anhawster a gafodd yr enwadau, ac a gânt o hyd, i roi'r flaenoriaeth briodol i waith ymhlith ieuenctid. Fel mewn unrhyw agwedd arall o'r mudiad ecwmenaidd y mae'n anodd i'r corff cydeglwysig lwyddo heb fod yr enwadau yn rhoi'r un flaenoriaeth a'r un egni i'r elfen yma o'r gwaith yn eu bywyd enwadol a lleol. Yn gyffredinol, cafodd yr Adran y gefnogaeth fwyaf cyson gan yr enwadau hynny a oedd wedi datblygu patrwm o weithgarwch ieuenctid yng Nghymru ac wedi neilltuo adnoddau a phersonau ar gyfer y gwaith. Ar hyd y blynyddoedd bu'r Adran yn dra dibynnol ar yr adnoddau hyn. Ond, wrth gwrs, ochr arall o'r un geiniog yw fod y pwysau ar yr adnoddau prin hynny'n gyfryw fel na allont roi'r amser a'r egni dyladwy i waith ecwmenaidd a dioddefodd yr Adran o bryd i'w gilydd o ganlyniad.

Rheswm allweddol arall dros fethiannau'r Adran oedd diffyg adnoddau ariannol y Cyngor ei hun. Fel yn achos adrannau eraill ni fedrodd y Cyngor neilltuo cyllid digonol i alluogi ei bwyllgorau a'i adrannau i wneud cyfiawnder â disgwyliadau mawr a oedd gan gynifer. Daeth prif gyllid yr Adran o gyfraniadau blynyddol y cyrff a oedd yn aelodau a gwnaed cyfraniad at y gwaith o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ei hun. Er enghraifft, dim ond £68.25 a gyfrannwyd drwy ffïoedd ym 1973 a 1974, ac yn ystod y ddwy flynedd bu'r prif wariant ar gyrsiau hyfforddi i arweinwyr (£133.35), ymweliad i Taizè (£361, a dalwyd drwy grantiau) a dim ond

£22.60 ar gostau cyfarfodydd yr Adran. 'Roedd aelodau'r Cyngor yn unfryd eu barn yn y cyfnod hwn na ellid datblygu gwaith ecwmenaidd yng Nghymru heb fwy o adnoddau ac heb ysgrifennydd llawn-amser. Yr un oedd barn yr Adran am ddyfodol gwaith ieuenctid. Ond er gwaethaf nifer o ymdrechion ni lwyddwyd i sicrhau adnoddau - naill ai o'r enwadau na thrwy gymorthdal gan y llywodraeth - i benodi swyddog ieuenctid ecwmenaidd na datblygu'r gwaith drwy gynlluniau mwy uchelgeisiol. O bryd i'w gilydd, fel y gwelwyd, cafwyd trafodaethau ynglŷn â chael gwasanaeth ieuenctid unedig (e.e. ym 1982) ond yn y diwedd yr ymrwymiad enwadol a orfu pan fu'n rhaid gwneud dewisiadau anodd am flaenoriaethau a chyllid. Canlyniad y methiant hwn oedd gorfod dibynnu - yn arbennig yn y blynyddoedd diweddar - ar wasanaeth gwirfoddol unigolion oedd â'u calonnau yn y gwaith ond a oeddent yn brin o amser a chymorth gweinyddol. Nid oes amheuaeth fod gwaith ymhlith ieuenctid, sy'n gofyn am gryn amser ac adnoddau, wedi dioddef o ganlyniad.

Yn ystod y cyfnod 1956 i 1990 bu newidiadau anhygoel yn eglwysi Cymru, yn y gymdeithas Gymreig ac, yn fwyaf arbennig, ym mywyd ieuenctid. Ymbellhaoedd ieuenctid fwy-fwy oddi wrth yr eglwys a'r capel; aethant yn lleiafrif llai a llai mewn cynulleidfaoedd mewn gwlad a thref. O ddiwedd y 60au ymlaen, fel y gwelwyd eisoes, rhoddodd mwyafrif ieuenctid yr eglwysi Cymraeg flaenoriaeth i'r frwydr dros yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Peidiodd festri'r capel â bod yn ganolfan i'r frwydr hon a'r adloniant oedd yn gysylltiedig â hi. Ymddieithriodd llawer o'r Cristnogion ifanc oddi wrth yr eglwysi am nad oeddent yn rhannu eu dyheadau. (Yng ngeiriau John Davies, '...ceid bellach ffenomen newydd, sef Cymry ymwybodol o'u Cymreictod a oedd yn anghredinwyr proffesedig.')[1] Nid oedd y gwewyr a'r cyffro hwn yn cyffwrdd â bywyd Cristnogion ifanc yr eglwysi Saesneg yng Nghymru ac ni lwyddodd yr Adran, at ei gilydd, i roi'r flaenoriaeth ddyladwy i'r cyffro hwn. Canly-

--------------------

1. John Davies, Hanes Cymru, tud. 619.

niad hyn oedd tyndra ac ymwahanu rhwng ieuenctid Cymraeg a Saesneg eu hiaith mewn gweithgareddau ecwmenaidd ac y mae'n sicr i hyn gyfrannu at argyfyngau'r Adran.

Heblaw am y ffactorau penodol Gymreig hyn, dyma gyfnod y cynnydd mewn seciwlariaeth ac mewn amheuaeth ynglŷn â sylfeini'r ffydd Gristnogol. Yn gyffredinol, y mae'r ffactorau hyn yn cyffwrdd â bywyd a meddylfryd ieuenctid yn gyntaf a gwnaethant waith ymhlith ieuenctid (boed enwadol neu ecwmenaidd) yn dra anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu'r dylanwadau hyn ar waith yng Nghymru hefyd. Hanerodd aelodaeth yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg a bu gostyngiad o ryw 25 y cant yng nghymunwyr y Pasg yn yr Eglwys yng Nghymru rhwng y pumdegau a'r saithdegau, a gellid tybio i'r dirywiad fod gyfuwch os nad gwaeth ymhlith ieuenctid. Ond odid mai dyma'r dylanwad mwyaf ar waith ieuenctid enwadol ac ecwmenaidd yn ystod y cyfnod o dan sylw.

Canlyniad y ffactorau hyn i gyd oedd yr anawsterau a wynebai'r Adran, a gellid honni iddynt effeithio'r Adran hon yn ddwysach na'r un gan fod ieuenctid yn aml yn dod o dan ddylanwad newidiadau cymdeithasol dwfn o flaen haenau eraill o'r gymdeithas.

Ond yn ystod yr un cyfnod 'roedd arwyddion o obaith pan welwyd Cristnogion ifanc yn cwrdd â'i gilydd ar draws ffiniau enwad ac iaith a diwylliant, ac yn dechrau dychmygu llwybr newydd i'r dyfodol. Yn aml, tarddai o gyfarfod â Christnogion o wledydd eraill, mewn gwersyll gwaith, neu gynhadledd, neu ymweliad i Taizé. 'Roedd yr Adran ar ei gorau pan fu'n fodd i'r profiadau hyn droi'n neges amserol i'r Cyngor a'r eglwysi. Ni fuont bob amser yn barod i ymateb gyda dychymyg ac ymrwymiad i her yr ifanc, ond 'roedd yn hollbwysig drwy'r cyfnod hwn fod peirianwaith mewn bodolaeth (yn yr Adran Ieuenctid) i gadw'r her hon yn gyson gerbron y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru.